



Cynulliad Cenedlaethol Cymru The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 28 Mawrth 2012
Wednesday, 28 March 2012

Cynnwys Contents

Error! Bookmark not defined. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu
Cynaliadwy
Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

- | | |
|-----|---|
| 25 | Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage |
| 44 | Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau
Motions to Elect Members to Committees |
| 45 | Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Adfywio Canol Trefi
The Enterprise and Business Committee's Report on the Regeneration of Town Centres |
| 72 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Grymuso
Welsh Conservatives Debate: Empowerment |
| 103 | Dadl Plaid Cymru: Tâl Rhanbarthol
Plaid Cymru Debate: Regional Pay |
| 132 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 139 | Dadl Fer: Cyrsiau Adsefydlu Yfed a Gyrru
Short Debate: Drink-drive Rehabilitation Courses |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Presiding Officer: Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Y Llywydd: Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

Trefniadau Llywodraethu Parciau Cenedlaethol Cymru

1. Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau llywodraethu Parciau Cenedlaethol Cymru. OAQ(4)0110(ESD)

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): Governance arrangements for national parks in Wales are subject to continual review.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): I am pleased to hear that, Minister, because as the public demands more openness and accountability from governmental bodies, the structure of the national parks is becoming increasingly unsustainable. It is not clear who appointed members of the parks are accountable to, and local authorities often appoint people to national parks who do not represent wards in national park areas. There are little consequences for those people in terms of the decisions they make. As you are currently reviewing the arrangements for parks, is now not the time to introduce at least an element of direct elections to address the democratic deficit that many in the Brecon Beacons National Park Authority believe exists?

John Griffiths: As we go forward with our new policy statement for the Welsh protected landscape, we are looking at all of these issues. There are other important developments like the single environment body in terms of the overall picture on governance arrangements in Wales. On the directly elected element, the Welsh Government had a consultation a few years

Governance Arrangements for National Parks in Wales

1. Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on the governance arrangements for National Parks in Wales. OAQ(4)0110(ESD)

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Rwyf yn falch o glywed hynny, Weinidog, oherwydd wrth i'r cyhoedd fynnu bod cyrff llywodraethol yn fwy agored ac yn fwy atebol, mae strwythur y parciau cenedlaethol yn dod yn fwyfwy anghynaliadwy. Nid yw'n glir i bwy mae aelodau penodedig y parciau'n atebol, ac mae awdurdodau lleol yn aml yn penodi pobl i'r parciau cenedlaethol nad ydynt yn cynrychioli wardiau yn ardaloedd y parciau cenedlaethol. Ni fydd y penderfyniadau y bydd y bobl hynny'n eu gwneud yn cael fawr o effaith arnynt hwy. Gan eich bod ar hyn yn bryd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer parciau, onid dyma'r adeg i gyflwyno elfen o leiaf o etholiadau uniongyrchol i fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd y mae llawer yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn credu sy'n bodoli?

John Griffiths: Wrth i ni fwrw ymlaen â'n datganiad polisi newydd ar gyfer tirwedd warchodedig Cymru, rydym yn edrych ar yr holl faterion hyn. Mae datblygiadau pwysig eraill yn yr arfaeth fel yr un corff amgylcheddol o ran y darlun cyffredinol o'r trefniadau llywodraethu yng Nghymru. O ran yr elfen etholiadau uniongyrchol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ychydig

ago, which did not support direct election. Around two thirds of the members are directly elected councillors, although obviously not directly elected to the various national park authorities. There is also a view that the appointed members can bring a wide range of expertise to the national park authorities. So, in summary, we are continually looking at all of these issues and we will consider them carefully as we move forward.

Paul Davies: I am pleased that the Welsh Government has now decided to keep this issue under review. In our correspondence last summer, Minister, you made it clear that the direct election of members was something that the Government felt that the people of Wales had no appetite for. Given the change in direction that we have heard today, which I welcome, can you tell us what has changed for you to keep the issue of park authorities under review? Has any new evidence been made available to the Welsh Government to persuade it to consider directly electing members to the national park authorities?

John Griffiths: No, nothing has changed. These arrangements are kept under continual review. I have outlined some of the more recent developments in terms of the new policy statement for the Welsh protected landscape and the single environment body, but there is nothing new. That consultation that I mentioned in response to Kirsty Williams's supplementary question, did provide responses on whether or not direct election was a valuable improvement to what we currently have. As I say, in moving forward, we have an open mind on these issues.

Alun Ffred Jones: A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am ei arweiniad wrth gynnig prynu Yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd, sef hen gartref y bardd Hedd Wyn, a laddwyd ym mrwydr Mametz Wood? A wnewch chi bwysu ar y parc i ddatblygu Yr Ysgwrn yn ganolfan cenedlaethol i ddysgu cenedlaeth newydd

flynyddoedd yn ôl, nad oedd yn cefnogi etholiadau uniongyrchol. Mae tua dwy ran o dair o'r aelodau yn gynghorwyr wedi'u hethol yn uniongyrchol, er nad ydynt wrth gwrs wedi'u hethol yn uniongyrchol i awdurdodau'r parciau cenedlaethol amrywiol. Cred rhai hefyd fod yr aelodau sy'n cael eu penodi'n gallu dod ag ystod eang o arbenigedd i awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Felly, i grynhoi, rydym yn parhau i edrych ar yr holl faterion hyn a byddwn yn eu hystyried yn ofalus wrth i ni symud ymlaen.

Paul Davies: Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru yn awr wedi penderfynu parhau i adolygu'r mater hwn. Yn ein gohebiaeth yr haf diwethaf, Weinidog, dywedasoch yn glir bod ethol aelodau yn uniongyrchol yn rhywbeth nad oedd pobl Cymru, ym marn y Llywodraeth, yn awyddus i'w weld. Ac ystyried y newid cyfeiriad rydym wedi'i glywed heddiw, a chroesawaf hynny, a allwch ddweud wrthym beth sydd wedi newid fel eich bod am barhau i adolygu mater awdurdodau'r parciau? A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw dystiolaeth newydd i'w darbwyllo i ystyried ethol aelodau yn uniongyrchol i awdurdodau'r parciau cenedlaethol?

John Griffiths: Na, nid oes dim wedi newid. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus. Rwyf wedi amlinellu rhai o'r datblygiadau mwy diweddar o ran y datganiad polisi newydd ar gyfer tirwedd warchodedig Cymru a'r un corff amgylcheddol, ond nid oes dim byd newydd. Mi wnaeth yr ymgynghoriad hwnnw y soniais amdano mewn ymateb i gwestiwn atodol Kirsty Williams, ddarparu ymatebion ynghylch a oedd ethol yn uniongyrchol yn welliant gwerthfawr i'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Fel rwyf yn ei ddweud wrth symud ymlaen, mae gennym feddwl agored ar y materion hyn.

Alun Ffred Jones: Will you join me in congratulating Snowdonia National Park Authority on the lead it took in purchasing Yr Ysgwrn in Trawsfynydd, which is the former home of the poet Hedd Wyn, who was killed at the battle of Mametz Wood? Will you urge the park to develop Yr Ysgwrn as a national centre to teach a new generation about what

am yr hyn a alwodd Wilfred Owen yn, 'the pity of war'?

Wilfred Owen called 'the pity of war'?

John Griffiths: Diolch yn fawr, Alun Ffred. I was privileged to visit Hedd Wyn's former home and to speak with the Snowdonia National Park Authority about its plans. I am pleased that the Welsh Government was able to provide funding to enable this important and welcome development to take place. I will explore with the national park authority and others how we can best develop the activities and the cultural and educational aspects of this welcome development as we move forward.

John Griffiths: Diolch yn fawr, Alun Ffred. Cefais y ffrind o ymweld â hen gartref Hedd Wyn a chael siarad ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am ei gynlluniau. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu cyllid ar gyfer y datblygiad pwysig hwn, datblygiad sy'n cael ei groesawu. Ynghyd ag awdurdod y parc cenedlaethol ac eraill byddaf yn ystyried y ffyrdd gorau o ddatblygu'r gweithgareddau ac agweddau diwylliannol ac addysgol y datblygiad hwn sydd wedi'i groesawu wrth i ni symud ymlaen.

Bridio Cŵn

Dog Breeding

2. Keith Davies: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei ymgynghoriad ynghylch bridio cŵn. OAQ(4)0113(ESD)*

2. Keith Davies: *Will the Minister provide an update on his consultation on dog breeding. OAQ(4)0113(ESD)*

John Griffiths: Rydym wedi ymestyn yr ymgynghoriad ar fridio cŵn hyd at 23 Mai er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl randdeiliaid, yn enwedig y bridwyr sy'n drwyddedig ar hyn o bryd, yn gallu cyfrannu'n llawn. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi gorffen a'r ymatebion wedi'u gwerthuso, byddwn yn symud ymlaen i wneud y ddeddfwriaeth cyn gynted â phosibl.

John Griffiths: We have extended the consultation on dog breeding to the 23 May to ensure that all stakeholders, and in particular existing licenced breeders, are able to contribute fully. Once the consultation is completed and the responses evaluated, we will move to make the legislation as soon as possible.

Keith Davies: Rwy'n falch y cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynyddu safonau lles wrth fridio cŵn yng Nghymru, gan fod hwn yn fater sy'n haeddu sylw. Croesawaf y ffaith y bydd cymhareb staff-cŵn yn cael ei chyflwyno, ond rwy'n ymwybodol y bydd unrhyw gymhareb yn bwnc llosg. Derbynaf yn llwyr fod y gymhareb a gynigiwyd wedi cynnwys argymhellion proffesiynol a'i fod yn ofyniad sylfaenol bod modd ei haddasu lle bydd awdurdodau lleol yn ystyried hynny i fod yn addas. A wnaiff y Gweinidog roi gwarant y bydd pob ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried?

Keith Davies: I am pleased that a consultation has been held on improving welfare standards in dog breeding in Wales, as this is a matter that deserves attention. I welcome the fact that a staff-dog ratio will be introduced, but I am aware that any ratio will be contentious. I fully accept that the ratio proposed is based on professional recommendations and that a fundamental requirement will be the ability to adapt the ratio where a local authority considers that to be appropriate. Will the Minister give us an assurance that all responses to the consultation will be considered?

John Griffiths: I am happy to give Keith Davies that assurance; of course, all of the consultation responses on these important matters will be carefully considered. Any ratio of staff to number of dogs is a figure that can be varied by local authorities in

John Griffiths: Rwyf yn hapus i roi'r sicrwydd hwnnw i Keith Davies; wrth gwrs, bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar y materion pwysig hyn yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae unrhyw gymhareb staff i nifer y cŵn yn ffigur y gall awdurdodau lleol ei

looking at various other aspects of a particular dog breeder's activities, including the breed of dogs involved, the facilities and the enhancements regarding behaviour and socialisation.

Nick Ramsay: I, too, welcome the progress made in this area. I know that my former colleague, the late Brynle Williams, would be delighted to know that this progress has been made. He was one of the Assembly Members who originally got the ball rolling on this issue. My question follows on from Keith's point on the ratio of dog-handlers to the number of dogs. I am sure that, in response to the consultation, you will have had submissions from groups such as hunts, which have hounds or packs of animals that may not necessarily fit in with the original way that the dog breeding regulations were going to be drafted. Can you give us an assurance that when they are finally drafted, there will be flexibility so that certain animals, such as hounds in packs, will not be discriminated against?

John Griffiths: Again, I am happy to give the Member an assurance that all of the consultation responses we receive will be carefully considered; that will be the case with the particular issues that he mentioned.

Jocelyn Davies: Minister, I, too, am concerned about the suggestion that the number of dogs per staff member at breeding kennels should be increased from one person looking after 20 dogs to one person looking after 30 dogs. As you know, many dogs, once they leave breeders, are often not socialised and need rehabilitation before they can be found new homes. Is it wise, from an animal welfare point of view, to alter this ratio when dogs clearly need social contact with humans, which is impossible when someone is caring for the current limit of 20 dogs, let alone caring for 30 dogs?

John Griffiths: The consultation will bring forward a variety of views, and all of them will be carefully considered. The 1:30 figure comes from a recommendation to local

amrywio wrth ystyried agweddau amrywiol eraill ar weithgareddau bridwr cŵn penodol, gan gynnwys y brîd o gi dan sylw, y cyfleusterau a'r gwelliannau o ran ymddygiad a chymdeithasu.

Nick Ramsay: Rwyf finnau, hefyd, yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Rwyf yn gwybod y byddai fy nghyn gyd-Aelod, y diweddar Brynle Williams, yn falch o wybod bod y cynnydd hwn wedi cael ei wneud. Yr oedd yn un o Aelodau'r Cynulliad a ddechreuodd wthio'r cwch i'r dŵr ar y mater hwn. Mae fy nghwestiwn yn dilyn pwynt Keith am y gymhareb trafodwyr cŵn i nifer y cŵn. Rwyf yn siŵr eich bod, mewn ymateb i'r ymgynghoriad, wedi cael sylwadau gan grwpiau megis helfeydd, sydd â chŵn hela neu baciau o anifeiliaid nad ydynt o bosibl yn cyd-fynd â'r ffordd wreiddiol yr oedd y rheoliadau bridio cŵn yn mynd i gael eu drafftio. A allwch roi sicrwydd inni, pan fyddant wedi'u drafftio'n derfynol, y bydd hyblygrwydd fel na fydd gwahaniaethu'n digwydd yn erbyn rhai anifeiliaid megis cŵn hela mewn helfeydd?

John Griffiths: Unwaith eto, rwyf yn fodlon rhoi sicrwydd i'r Aelod y bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad y byddwn yn eu derbyn yn cael eu hystyried yn ofalus; a bydd hynny'n wir am y materion penodol a grybwyllodd.

Jocelyn Davies: Weinidog, rwyf finnau hefyd yn poeni am yr awgrym y dylai nifer y cŵn i bob aelod staff mewn cynelau bridio gael ei gynyddu o un unigolyn yn gofalu am 20 ci i un unigolyn yn gofalu am 30 ci. Fel y gwyddoch, yn aml wrth adael bridwyr, mae llawer o gŵn heb gael eu cymdeithasoli ac mae angen eu hailhyfforddi cyn y gellir dod o hyd i gartrefi newydd ar eu cyfer. A yw'n ddoeth, o safbwynt lles anifeiliaid, newid y gymhareb hon pan mae cŵn yn amlwg angen cyswllt cymdeithasol â phobl, sy'n amhosibl pan fydd rhywun yn gofalu am y terfyn presennol o 20 o gŵn, heb sôn am ofalu am 30 o gŵn?

John Griffiths: Bydd yr ymgynghoriad yn cyflwyno amrywiaeth o safbwyntiau, a bydd pob un ohonynt yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae'r ffigur 1:30 yn dod o

authorities given as a guide by the British Veterinary Association and the Chartered Institute of Environmental Health. However, we are open to ideas, and matters have moved forward from the stage where particular suggestions were made.

Y Rhaglen Lywodraethu

3. Andrew R.T. Davies: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae ei adran yn mynd ati i weithredu ei hamcanion, fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. OAQ(4)0105(ESD)*

John Griffiths: My department is working across government and with the public, private and third sectors to deliver our objectives as set out in the programme for government.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): Thank you for that answer, Minister. One of the priorities noted in the programme for government is improving animal health. On a number of occasions, I have raised with you the issue of fly-grazing, particularly the action that the Government is taking to lead organisations so that the situation we saw across the whole of south Wales this past winter is not repeated. Are you in a position to update the Chamber on what actions you are now leading, Minister, to ensure that we do not have a repetition of the events of this winter?

John Griffiths: With regard to Welsh Government Ministers' responsibilities, these are cross-cutting matters, and I have met colleagues Carl Sargeant and Alun Davies to discuss them. I know that my colleague Carl Sargeant has written to local authorities and the police to make appropriate points. I am also aware that local authorities are co-operating, which is very important. I have also spoken with your colleague Angela Burns regarding the cross-party group on the horse, and I am awaiting what I hope will be some interesting information on the sort of consensus that might be building in Wales with regard to the best way to deal with these matters.

argymhelliad i awdurdodau lleol a roddwyd fel arweiniad gan Gymdeithas Milfeddygon Prydain a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd. Fodd bynnag, rydym yn agored i syniadau, ac mae materion wedi symud yn eu blaen o'r cam lle gwnaethpwyd awgrymiadau penodol.

Programme for Government

3. Andrew R.T. Davies: *Will the Minister outline how his department is working to implement its objectives, as set out in the Programme for Government. OAQ(4)0105(ESD)*

John Griffiths: Mae fy adran yn gweithio ar draws y llywodraeth a chyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i gyflawni ein hamcanion fel y'u nodir yn y rhaglen lywodraethu.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un o'r blaenoriaethau a nodir yn y rhaglen lywodraethu yw gwella iechyd anifeiliaid. Ar sawl achlysur, rwyf wedi codi mater pori anghyfreithlon gyda chi, yn enwedig y camau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i arwain sefydliadau fel na fydd y sefyllfa a welsom ledled de Cymru yn ystod y gaeaf diwethaf yn cael ei hailadrodd. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am y camau rydych yn awr yn eu harwain, Weinidog, i sicrhau nad yw digwyddiadau'r gaeaf hwn yn cael eu hailadrodd?

John Griffiths: O ran cyfrifoldebau Gweinidogion Llywodraeth Cymru, mae'r rhain yn faterion trawsbynciol, ac rwyf wedi cyfarfod â'm cyd-Aelodau Carl Sargeant ac Alun Davies i'w trafod. Gwn fod fy nghyd-Aelod Carl Sargeant wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol a'r heddlu i wneud pwyntiau priodol. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod awdurdodau lleol yn cydweithredu, sy'n bwysig iawn. Rwyf hefyd wedi siarad â'ch cydweithiwr Angela Burns am y grŵp trawsbleidiol ar y ceffyl, ac rwyf yn disgwyl am yr hyn a fydd, gobeithio, yn wybodaeth ddiddorol am y math o gonsensws a allai fod yn datblygu yng Nghymru ar y ffordd orau o ddelio â'r materion hyn.

Kenneth Skates: Recent statistics from RSPB Cymru show that the number of black grouse, one of the UK's most endangered birds, is actually on the rise in Wales. Numbers had fallen by 25,000 breeding birds in the 1970s, to just 5,000 in the UK. However, the population in Wales seems to have trebled in just 15 years, thanks in part to areas in my constituency, such as Wynnstay Hall estate, the Clwydian range and the Dee valley area of outstanding natural beauty. With its strategic partners, will the Welsh Government examine what can be done to encourage the numbers of black grouse still further?

John Griffiths: I am happy to agree with Ken Skates that it is very encouraging to note that black grouse have increased in number, given the fact that there were real anxieties about whether they would be around in Wales not many years ago. I went to the Clwydian range and the Dee valley AONB, and I was very impressed with the partnerships that have been built there. Biodiversity is very important to us, and this project, which has produced this increase in numbers, has surpassed the biodiversity action plan target for black grouse. I am very pleased to pay tribute to all involved, and I hope that we can replicate that sort of progress elsewhere in Wales.

Llyr Huws Gruffydd: Weinidog, yn eich manifesto ar gyfer yr etholiad, yr oeddech yn addo

'Cyflwyno safonau adeiladu uwch mewn tai newydd wrth i ni symud tuag at adeiladu dim carbon'.

Yn y ddogfen honno, rydych yn gosod targed o welliant o 55% mewn safonau adeiladu erbyn 2013. Nid yw'r addewid hwnnw'n cael ei adlewyrchu yn eich rhaglen lywodraethu, ond, yn ôl yr atodiad, rydych yn dweud bod y gwaith datblygu technegol wedi cychwyn a bod digwyddiadau i ennyn diddordeb ac yn y blaen. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni o safbwynt lle rydych wedi cyrraedd ac a ydych yn nes at gyflawni'r targed?

Kenneth Skates: Mae ystadegau diweddar gan RSPB Cymru yn dangos bod niferoedd y rugiar ddu, un o adar y DU sydd fwyaf mewn perygl, ar gynnydd yng Nghymru. Roedd niferoedd yr adar bridio wedi gostwng 25,000 yn y 1970au, i 5,000 yn unig yn y DU. Fodd bynnag, mae'r boblogaeth yng Nghymru fel petai wedi treblu mewn dim ond 15 mlynedd, diolch yn rhannol i ardaloedd yn fy etholaeth, fel ystâd Wynnstay Hall, brynau Clwyd ac ardal o harddwch naturiol eithriadol dyffryn Dyfrdwy. Gyda'i phartneriaid strategol, a wnaiff Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r hyn y gellir ei wneud i annog rhagor eto o'r rugiar ddu?

John Griffiths: Rwyf yn fodlon cytuno â Ken Skates ei bod yn galonogol iawn nodi bod niferoedd y rugiar ddu wedi cynyddu, o gofio am y pryderon gwirioneddol dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl ynghylch a fyddent i'w cael yng Nghymru. Bûm ar ymweliad â brynau Clwyd ac AHNE dyffryn Dyfrdwy, a chefais fy siomi o'r ochr orau gyda'r partneriaethau sydd wedi cael eu meithrin yno. Mae bioamrywiaeth yn bwysig iawn inni, ac mae'r prosiect hwn, sydd wedi creu'r cynnydd hwn yn y niferoedd, wedi rhagori ar darged y cynllun gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer y rugiar ddu. Rwyf yn falch iawn o gael talu teyrnged i bawb a fu'n gysylltiedig, a gobeithiaf y gallwn ailadrodd y math hwnnw o gynnydd mewn mannau eraill yng Nghymru.

Llyr Huws Gruffydd: Minister, in your manifesto for the election, you pledged to

'Introduce higher construction standards in new housing as we move towards zero carbon building'.

In that document, you set a target of an improvement of 55% in construction standards by 2013. That pledge is not reflected in your programme for government, but, according to the appendix, you say that the technical development work has commenced and that engagement events are being held and so on. Can you give us an update on this process and say whether you are any nearer achieving the target?

John Griffiths: I recently announced a consultation on part 1 for housing and non-domestic properties. That will take place at the end of May. We remain committed to making progress on the energy efficiency of new buildings. We are also working very closely with key stakeholders and the industry to look at the latest position with regard to the viability of development in Wales. Of course, that is very necessary at such a difficult economic time. However, we remain committed to making progress on this front and I very much look forward to reporting back to Members on progress in due course.

John Griffiths: Yn ddiweddar, cyhoeddais ymgynghoriad ar ran 1 ar gyfer tai ac eiddo annomestig. Bydd hwnnw'n cael ei gynnal ddiwedd Mai. Rydym wedi ymrwymo o hyd i wneud cynnydd ar effeithlonrwydd ynni adeiladau newydd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda rhanddeiliaid allweddol a'r diwydiant i edrych ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran hyfywedd datblygu yng Nghymru. Wrth gwrs, mae hynny'n gwbl angenrheidiol ar adeg mor anodd yn economaidd. Fodd bynnag, rydym yn dal yn ymrwymedig i wneud cynnydd yn hyn o beth, ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at adrodd yn ôl i'r Aelodau ar y cynnydd maes o law.

Llyr Huws Gruffydd: Diolch am yr ateb hwnnw. Yn eich rhaglen lywodraethu, rydych chi hefyd yn addo delifro rhaglen Nyth a chynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref yng nghymal 2 rhaglen Arbed. Yr amcan yw sicrhau bod o leiaf 4,800 o gartrefi yng Nghymru yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon erbyn 2015 a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan o leiaf 11.6 ciloton o garbon deuocsid erbyn diwedd 2015. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am faint yn agosach rydych chi at gyrraedd y targedau hynny?

Llyr Huws Gruffydd: Thank you for that response. In your programme for government, you also pledged to deliver the Nest programme and energy efficiency schemes in phase 2 of Arbed. The aim is to ensure that at least 4,800 homes in Wales use energy more efficiently by 2015 and that you reduce greenhouse gas emissions by at least 11.6 kilotonnes of carbon dioxide by the end of 2015. Therefore, can you give us an update on how much closer you are to achieving those targets?

John Griffiths: Yes, I am very pleased to confirm what I was able to state in recent debates in the Assembly on our climate change targets and assessments made by the UK Committee on Climate Change, namely that we are on target in reducing emissions. Energy efficiency measures through projects such as Arbed and Nest are very important parts of that progress.

John Griffiths: Gallaf. Rwyf yn falch iawn o gadarnhau'r hyn yr oeddwn wedi gallu'i ddatgan mewn dadleuon diweddar yn y Cynulliad ar ein targedau newid yn yr hinsawdd ac asesiadau a wnaed gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, sef ein bod ar y targed i leihau allyriadau. Mae mesurau effeithlonrwydd ynni drwy brosiectau fel Arbed a Nyth yn elfennau pwysig iawn o'r cynnydd hwnnw.

Aled Roberts: Minister, the Green Paper 'Sustaining a Living Wales' states that there will be a strategic approach to promoting restoration and recovery of species and habitats. It is somewhat lacking on details, so are you able to elaborate on what is meant by this statement, and whether you believe that the paper will be sufficient to meet the 2020 international biodiversity target.

Aled Roberts: Weinidog, mae'r Papur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw' yn nodi y bydd dull strategol yn cael ei ddefnyddio i adfer cynefinoedd ac i helpu gydag adfywiad rhywogaethau. Mae'r manylion ychydig yn brin. Felly a allwch chi ymhelaethu ar yr hyn y mae'r datganiad hwn yn ei olygu, ac a ydych yn credu y bydd y papur yn ddigon i fodloni'r targed bioamrywiaeth rhyngwladol ar gyfer 2020.

1.45 p.m.

John Griffiths: Those biodiversity targets have proved very challenging right across the globe and there are many difficulties in meeting them. However, we have just heard good news from Kenneth Skates as far as the black grouse is concerned, and there is much other good work going on around the biodiversity action plan right across Wales. 'Sustaining a Living Wales', which is out to consultation at the moment, is framed in a way that will allow consultation responses to properly inform future policy, and we will be very interested to see what those responses are in taking forward biodiversity in Wales.

John Griffiths: Mae'r targedau bioamrywiaeth hynny wedi bod yn heriol iawn ar draws y byd ac mae llawer o anawsterau'n codi ar gyfer eu bodloni. Fodd bynnag, rydym newydd gael newyddion da gan Kenneth Skates o ran y rugiar ddu, ac mae llawer o waith da arall yn digwydd mewn cysylltiad â'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth ar draws Cymru. Mae 'Cynnal Cymru Fyw', sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, wedi cael ei fframio mewn ffordd a fydd yn caniatáu i'r ymatebion i'r ymgynghoriad lywio polisi'r dyfodol yn briodol, a bydd yn ddiddorol iawn gweld beth yw'r ymatebion hynny o ran datblygu bioamrywiaeth yng Nghymru.

Ffermydd Gwynt

4. Mark Isherwood: *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith ffermydd gwynt ar Gymru. OAQ(4)0111(ESD)*

John Griffiths: The Welsh Government supports wind energy projects in appropriate locations that provide benefits for communities. It is estimated that the wind sector in Wales generated sales of £532 million in 2009-10 and employs around 3,750 people. We also have key assets such as the UK's only towers manufacturer.

Mark Isherwood: Given that only two out of 1,200 responses to the Welsh Government's consultation on TAN 8 supported the location of the Welsh Government's strategic research areas, how do you respond to the information from Forestry Commission Wales that total tree felling for turbines and related infrastructure across Clocaenog, Dyfnant and Nant y Moch forests in north Wales, and Brechfa, Rheola and Pen y Cymoedd forests in south Wales, will now reach 400 ha, with up to a 100m radius around each turbine, 25m corridors for new access roads and the removal of 10m from either side of existing roads in each of the areas affected?

John Griffiths: We have very important policies in place for wind energy in Wales that will deliver many benefits in

Windfarms

4. Mark Isherwood: *What assessment has the Minister made of the effect of windfarms on Wales. OAQ(4)0111(ESD)*

John Griffiths: Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau ynni gwynt mewn lleoliadau priodol sy'n darparu buddion i gymunedau. Amcangyfrifir bod y sector gwynt yng Nghymru wedi cynhyrchu gwerthiant o £532 miliwn yn 2009-10 ac mae'n cyflogi tua 3,750 o bobl. Mae gennym hefyd asedau allweddol megis yr unig wneuthurwr tyrau yn y DU.

Mark Isherwood: O ystyried mai dim ond dau allan o 1,200 ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Nodyn Cyngor Technegol 8 oedd yn cefnogi lleoliad ardaloedd ymchwil strategol Llywodraeth Cymru, sut rydych yn ymateb i'r wybodaeth gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru y bydd coed yn cael eu torri ar 400 ha erbyn hyn ac gyfer y tyrbinau a'r seilwaith cysylltiedig yng nghoedwigoedd Clocaenog, Dyfnant a Nant y Moch yng ngogledd Cymru, a choedwigoedd Brechfa, Rheola a Phen y Cymoedd yn ne Cymru, gyda hyd at 100 metr o radiws o amgylch pob tyrbîn, coridorau 25m ar gyfer ffyrdd mynediad newydd a chael gwared â 10m ar y naill ochr i ffyrdd presennol ym mhob un o'r ardaloedd yr effeithir arnynt?

John Griffiths: Mae gennym bolisiau pwysig iawn ar waith ar gyfer ynni gwynt yng Nghymru a fydd yn darparu nifer o

environmental and economic terms. TAN 8 is absolutely central to that; it is the strategic approach that sets out where larger scale windfarms are best placed. We remain very committed to TAN 8, because the strategic approach is far better than the alternative, which is termed 'pepper potting' and which would not provide stability, certainty or a strategic approach for windfarm development in Wales. We have ambitious policies to create a great deal more woodland in Wales under our well-established strategies and we will be able to do both effectively.

Rhodri Glyn Thomas: Rwy'n gwbl gefnogol i ynni adnewyddadwy ac i ynni gwynt. Mae'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol bod trigolion Alltwalis wedi bod yn cwyno ers peth amser ynglŷn â'r effaith y mae'r fferm wynt yn y fan honno yn cael ar eu bywydau. Bu'r Pwyllgor Deisebau, o dan gadeiryddiaeth William Powell, yn cymryd tystiolaeth ar hyn yn ddiweddar. Beth a ydych yn ei wneud am sefyllfaoedd felly a allai droi barn y cyhoedd yn erbyn ynni adnewyddadwy ac ynni gwynt?

John Griffiths: As I said earlier, it is very important that we get the key messages across in terms of the importance of wind energy to Wales in environmental and economic terms and also in terms of community benefit. The First Minister's 'Energy Wales' strategy will very clearly lead the way in Wales in terms of all those aspects of windfarm development. Where communities have particular concerns, we want to work with those communities, the developers, local authorities and regulators to understand those issues. I know that noise, for example, has been an issue, and we want to ensure that we are up to date with burgeoning science. We will work with the UK Government to ensure that that is the case.

Russell George: I have made you aware in the past that your predecessor had publicly committed the Welsh Government to a full and public review of TAN 8. You have stated

fanteision o safbwynt amgylcheddol ac economaidd. Mae TAN 8 yn gwbl ganolog i hynny; dyma'r dull strategol sy'n nodi lle yw'r lleoliad gorau ar gyfer ffermydd gwynt mawr. Rydym yn parhau'n ymrwymedig iawn i TAN 8, gan fod y dull strategol yn llawer gwell na'r dewis arall, sy'n cael ei alw'n '*pepper potting*' yn Saesneg, ac na fyddai'n darparu sefydlogrwydd, sicrwydd na dull strategol o weithredu ar gyfer datblygu ffermydd gwynt yng Nghymru. Mae gennym bolisiau uchelgeisiol i greu llawer mwy o goetiroedd yng Nghymru o dan ein strategaethau cadarn a byddwn yn gallu gwneud y ddau yn effeithiol.

Rhodri Glyn Thomas: I am totally supportive of renewable energy and wind energy. It is necessary in order to address climate change. However, you will be aware that residents of Alltwalis have been complaining for some time about the impact that the windfarm there is having on their lives. The Petitions Committee, under the chairmanship of William Powell, took evidence on this recently. What are you doing about such situations, which could turn public opinion against renewable energy and wind energy?

John Griffiths: Fel y dywedais yn gynharach, mae'n bwysig iawn ein bod yn cyfleu'r negeseuon allweddol o ran pa mor bwysig yw ynni gwynt i Gymru o safbwynt amgylcheddol ac economaidd a hefyd o ran y manteision i gymunedau. Bydd strategaeth 'Ynni Cymru' Prif Weinidog Cymru yn amlwg iawn yn arwain y ffordd yng Nghymru o ran yr holl agweddau hynny ar ddatblygiad ffermydd gwynt. Pan fydd gan gymunedau bryderon penodol, rydym am weithio gyda'r cymunedau hynny, y datblygwyr, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr i ddeall y materion hynny. Gwn fod sŵn, er enghraifft, wedi bod yn broblem, ac rydym am sicrhau ein bod ar y blaen gyda gwyddoniaeth sy'n datblygu'n sydyn. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Russell George: Rwyf wedi tynnu'ch sylw yn y gorffennol at y ffaith bod eich rhagflaenydd wedi ymrwymo Llywodraeth Cymru yn gyhoeddus i adolygiad llawn a

that this has been carried out. However, in reality, Minister, while there was a review of the renewable energy section of 'Planning Policy Wales' and it was updated, TAN 8 was not amended or updated. Why was that the case?

John Griffiths: 'Planning Policy Wales' was revised in February 2011, following a public consultation, and TAN 8 was factually updated. So, the pledge given by the former Minister has been honoured.

Russell George: Thank you for your answer, Minister. However, despite what you said, in the consultation of July 2010, it clearly states:

'We are not consulting on our renewable energy policy and the energy aspirations contained within it.'

In fact, what you consulted on was very different from what was promised. In your answer to my colleague, Mark Isherwood, you talked about large-scale windfarm developments, which are very different from what was talked about when TAN 8 was conceived. With the advances in technology—

The Presiding Officer: Order. Is this leading on to a question?

Russell George: Yes, Presiding Officer. With advances in technology in the last seven years, combined with the change in the scale of onshore wind turbines, would you concede that the rationale has changed, that a review is necessary and that the wider public wants a review to take place as promised?

John Griffiths: I fully understand that there are Members who would like to unpick the strategic policy that we have clearly set out in TAN 8. However, as I said earlier, we are very much committed to TAN 8 as that very necessary strategic approach, and we will remain committed to it.

chyhoeddus o TAN 8. Rydych wedi dweud bod hyn wedi cael ei gynnal. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, Weinidog, er bod adolygiad wedi'i gynnal o adran ynni adnewyddadwy 'Polisi Cynllunio Cymru' ac iddi gael ei diweddarau, ni chafodd TAN 8 ei ddiwygio na'i ddiweddarau. Pam hynny?

John Griffiths: Cafodd 'Polisi Cynllunio Cymru' ei ddiwygio ym mis Chwefror 2011, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, a chafodd ffeithiau TAN 8 eu diweddarau. Felly, mae'r addewid a roddwyd gan y cyn Weinidog wedi cael ei anrhydeddu.

Russell George: Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hyn a ddywedasoch, yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2010, mae'n nodi'n glir:

'Dydyn ni ddim yn ymgynghori am ein polisi ynni adnewyddadwy a'r dyheadau sydd ynddo o ran ynni.'

Yn wir, gwnaethoch ymgynghori ar rywbeth gwahanol iawn i'r hyn a addawyd. Yn eich ateb i'm cyd-Aelod, Mark Isherwood, gwnaethoch sôn am ddatblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr, sy'n wahanol iawn i'r hyn a oedd yn cael ei drafod pan luniwyd TAN 8. Oherwydd datblygiadau mewn technoleg—

Y Llywydd: Trefn. A yw hyn yn arwain at gwestiwn?

Russell George: Ydy, Lywydd. Oherwydd y datblygiadau mewn technoleg yn ystod y saith mlynedd diwethaf, ynghyd â'r newid ym maint tyrbinau gwynt ar y tir, a fyddech yn cyfaddef bod y rhesymeg wedi newid, bod angen cynnal adolygiad a bod y cyhoedd yn gyffredinol am weld adolygiad yn cael ei gynnal fel yr addawyd?

John Griffiths: Rwyf yn deall yn iawn fod rhai Aelodau am ddatgymalu'r polisi strategol yr ydym wedi'i osod allan yn glir yn TAN 8. Fodd bynnag, fel y dywedais yn gynharach, rydym wedi ymrwymo'n gadarn i TAN 8 fel y dull gweithredu strategol cwbl angenrheidiol hwnnw, a byddwn yn parhau yn ymrwymedig iddo.

Twbercwlosis mewn Gwartheg

Tuberculosis in Cattle

5. Llyr Huws Gruffydd: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad â dwbercwlosis mewn gwartheg. OAQ(4)0107(ESD)*

John Griffiths: Yr wythnos diwethaf, ar 20 Mawrth, rhoddais ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn a oedd yn nodi fframwaith cynhwysfawr Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â TB mewn gwartheg.

Llyr Huws Gruffydd: Diolch am hynny. Byddwch yn ymwybodol o'r adwaith a gafwyd i'r cyhoeddiad hwnnw ymhlith y diwydiant ac, yn fwy arwyddocaol yn fy marn i, ymhlith y gwyddonwyr hefyd. Disgrifiodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain y penderfyniad fel ceisio gwneud i'r wyddoniaeth ffitio'r polisi, yn hytrach na gwneud i'r polisi ffitio'r wyddoniaeth. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod pontydd yn cael eu hadeiladu rhwng Llywodraeth Cymru a rhai o'r rhanddeiliaid allweddol hynny er mwyn sicrhau bod eich *approach* newydd yn mynd i fod yn effeithiol?

John Griffiths: In making the statement and responding to Members last week, I made it clear that, in my view, the science shows varying degrees of uncertainty about any option. Looking at the science in that way, as well as the legal aspects, I felt that the most productive approach was to get on and do something about the wildlife element in the intensive action area and carry out this vaccination programme. Following that decision, I have met farmers from the intensive action area, the farming unions, veterinary surgeons and other stakeholders, and made it clear that, of course, we wish to continue to work in partnership. I am very pleased to say that there is a good degree of goodwill to ensure that we move forward together in tackling this very difficult disease.

Vaughan Gething: Minister, I welcome the recent Welsh Government decision to introduce a vaccination programme for badgers as part of efforts to eradicate bovine TB. I do not accept that the previous science led us to the conclusion that a cull was a proportionate first response, especially when

5. Llyr Huws Gruffydd: *Will the Minister make a statement on tuberculosis in cattle. OAQ(4)0107(ESD)*

John Griffiths: Last week, on 20 March, I made a statement to Plenary setting out the Welsh Government's comprehensive framework to tackle bovine TB.

Llyr Huws Gruffydd: Thank you for that. You will be aware of the reaction to that announcement among the industry and, more significantly in my opinion, among the scientists too. The British Veterinary Association has described the decision as like trying to make the science fit the policy, rather than making the policy fit the science. What steps are you taking to ensure that bridges are built between the Welsh Government and some of those key stakeholders to ensure that your new approach will be effective?

John Griffiths: Wrth wneud y datganiad ac ymateb i Aelodau yr wythnos diwethaf, nodais yn glir fod gwyddoniaeth, yn fy marn i, yn dangos gwahanol raddau o ansicrwydd am unrhyw opsiwn. Wrth edrych ar y wyddoniaeth yn y ffordd honno, yn ogystal â'r agweddau cyfreithiol, roeddwn yn teimlo mai'r dull mwyaf cynhyrchiol oedd bwrw iddi a gwneud rhywbeth am yr elfen bywyd gwyllt yn yr ardal triniaeth ddwys a chynnal y rhaglen frechu hon. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, rwyf wedi cyfarfod â ffermwyr o'r ardal triniaeth ddwys, undebau ffermwyr, milfeddygon a rhanddeiliaid eraill, ac wedi datgan yn glir ein bod, wrth gwrs, am barhau i weithio mewn partneriaeth. Rwyf yn falch iawn o ddweud bod cryn ewyllys da yn bodoli i sicrhau ein bod yn symud ymlaen gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r clefyd anodd iawn hwn.

Vaughan Gething: Weinidog, rwyf yn croesawu penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen frechu ar gyfer moch daear fel rhan o'r ymdrechion i ddileu TB mewn gwartheg. Nid wyf yn derbyn bod y wyddoniaeth flaenorol wedi'n harwain i'r casgliad bod rhaglen ddifa

three quarters of badgers are not infected with TB. Can you confirm how and when you will report back to the Chamber on the progress and evaluation of the vaccination programme?

John Griffiths: This vaccination programme is a very important part of our animal health strategy and policy in Wales, because of the magnitude and seriousness of TB in cattle. We would very much hope to get the vaccination programme in the intensive action area under way this summer and, in due course, to have vaccination elsewhere in Wales. Given the importance and significance of the programme, I will be keen to report to Members regularly on progress.

Angela Burns: Minister, the science review states that no scientific evidence exists to assess whether vaccinating badgers will reduce the incidence of TB in cattle. Therefore, can you clearly confirm to the Chamber today that badger vaccination was the preferred option for reducing the incidence of bovine TB in wildlife of both the chief veterinary officer and the chief scientific adviser to the Welsh Government?

John Griffiths: Government policy is quite clear. It is also important not to quote selectively from the science review. The science review also states that, if badger vaccine reduces infection in badgers, as there is evidence that it will, it is logical to assume that, over time, it will result in a reduced incidence in cattle. That is in the science review. I have stated the Government policy, it is quite clear, and we now need to get on and implement it.

Kirsty Williams: I declare an interest, as my husband's farm is currently shut down as a result of TB infection, for the second time in two years. Will the Minister highlight for my constituents in Brecon and Radnorshire the exact piece of scientific evidence that was produced by his review group that convinced him that he was wrong to vote for a cull 12 months ago and that he is right to be against one now?

yn ymateb cyntaf cymesur, yn enwedig pan nad yw tri chwarter y moch daear wedi'u heintio â TB. A allwch gadarnhau sut a phryd y byddwch yn adrodd yn ôl i'r Siambr ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r rhaglen frechu a gwerthusiad ohoni?

John Griffiths: Mae'r rhaglen frechu yn rhan bwysig iawn o'n polisi a'n strategaeth iechyd anifeiliaid yng Nghymru, oherwydd maint a difrifoldeb TB mewn gwartheg. Byddem yn gobeithio cychwyn ar y rhaglen frechu yn yr ardal triniaeth ddwys dros yr haf a, maes o law, cychwyn brechu mewn mannau eraill yng Nghymru. Ac ystyried pwysigrwydd ac arwyddocâd y rhaglen, byddaf yn awyddus i roi adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Angela Burns: Weinidog, mae'r adolygiad gwyddoniaeth yn nodi nad oes dim tystiolaeth wyddonol yn bodoli i asesu a fydd brechu moch daear yn lleihau nifer yr achosion o TB mewn gwartheg. Felly, a allwch gadarnhau yn glir yn y Siambr heddiw mai brechu moch daear oedd y dewis a oedd yn cael ei ffafrio gan brif swyddog milfeddygol a phrif gynghorydd gwyddonol Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau nifer yr achosion o TB buchol mewn bywyd gwyllt?

John Griffiths: Mae polisi'r Llywodraeth yn glir. Mae hefyd yn bwysig peidio â dyfynnu'n ddetholus o'r adolygiad gwyddoniaeth. Mae'r adolygiad gwyddoniaeth hefyd yn datgan, os bydd y brechlyn moch daear yn lleihau'r haint ymysg moch daear, ac mae tystiolaeth yn dweud y bydd hynny'n digwydd, mae'n rhesymol tybio y bydd hyn, dros amser, yn arwain at lai o achosion mewn gwartheg. Mae hynny yn yr adolygiad gwyddoniaeth. Rwyf wedi datgan polisi'r Llywodraeth, mae'n ddigon clir, ac yn awr mae angen inni fwrw ymlaen a'i roi ar waith.

Kirsty Williams: Rwyf yn datgan budd, oherwydd bod fferm fy ngŵr ar hyn o bryd wedi'i chau i lawr oherwydd TB, am yr eildro mewn dwy flynedd. A wnaiff y Gweinidog nodi ar gyfer fy etholwyr ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yr union ddarn o dystiolaeth wyddonol a gynhyrchwyd gan ei grŵp adolygu a'i darbwyllodd fod pleidleisio o blaid difa 12 mis yn ôl wedi bod yn anghywir, a'i fod yn iawn iddo fod yn erbyn

difa erbyn hyn?

John Griffiths: I think that it is quite clear from the statement that I made last week and the responses that I gave to Members as part of that statement that we looked at the science review and the law and we decided to get on and do something about the wildlife element through a vaccination programme, whereas, previously, when the policy was to cull badgers, years elapsed, legal difficulties developed and not a single badger was culled. Those who want to see something done about the wildlife element of this disease will be very pleased that we are now going to get on and carry out that vaccination programme.

John Griffiths: Credaf ei bod yn eithaf amlwg o'r datganiad a roddais yr wythnos diwethaf a'r ymatebion a roddais i'r Aelodau fel rhan o'r datganiad hwnnw ein bod wedi edrych ar yr adolygiad gwyddoniaeth a'r gyfraith ac wedi penderfynu bwrw ymlaen a gwneud rhywbeth am yr elfen bywyd gwyllt trwy raglen frechu, tra o'r blaen, pan mai difa moch daear oedd y polisi, aeth blyneddoddd heibio, datblygodd anawsterau cyfreithiol ac ni chafodd yr un mochyn daear ei ddifa. Bydd y rhai sydd am weld rhywbeth yn cael ei wneud am elfen bywyd gwyllt y clefyd hwn yn falch iawn ein bod yn awr am fwrw ymlaen â'r rhaglen frechu.

Tlodi Tanwydd

6. Mark Drakeford: *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cysylltiad rhwng cymhlethdod tariffau cwmnïau ynni a thlodi tanwydd yng Nghymru. OAQ(4)0102(ESD)*

John Griffiths: Reducing the cost of energy bills is a key factor in reducing the number of people in Wales living in fuel poverty. The complexity of the current tariff system makes it more difficult for consumers to compare different tariffs and find the cheapest tariff to meet their needs.

Mark Drakeford: Have you had a chance to look at recent research by the Office of the Gas and Electricity Markets that suggests that tariff complexity is particularly off-putting for the least well-off customers and for pensioner households in particular? Do you agree that the persistence of tariff complexity is not best explained by market failure but by the deliberate actions of energy companies seeking to attract the customers that they like and put off those that they would rather not have? Finally, do you welcome the commitment made by Ed Miliband to guarantee that pensioner households with someone over the age of 75 would be charged the lowest energy prices, thus saving such households £200 a year on the costs that they currently incur?

Fuel Poverty

6. Mark Drakeford: *What assessment has the Minister made of the relationship between energy company tariff complexity and fuel poverty in Wales. OAQ(4)0102(ESD)*

John Griffiths: Mae lleihau cost biliau ynni yn ffactor allweddol ar gyfer lleihau nifer y bobl yng Nghymru sy'n byw mewn tldi tanwydd. Mae cymhlethdod y system tariff bresennol yn ei gwneud yn fwy anodd i ddefnyddwyr gymharu gwahanol dariffau a dod o hyd i'r tariff rhataf i ddiwallu eu hanghenion.

Mark Drakeford: A ydych wedi cael cyfle i edrych ar ymchwil diweddar gan Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan sy'n awgrymu bod cymhlethdod tariffau'n broblem fwy i'r cwsmeriaid lleiaf cefnog ac i gartrefi pensiynwyr yn benodol? A ydych yn cytuno nad methiant y farchnad sy'n esbonio orau'r parhad yng nghymhlethdod tariffau ond gweithredoedd bwriadol cwmnïau ynni sy'n ceisio denu cwsmeriaid y maent yn eu hoffi ac i'r gwrthwyneb gyda phobl y byddai'n well ganddynt beidio â'u cael yn gwsmeriaid? Yn olaf, a ydych yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan Ed Miliband i warantu y byddai cartrefi pensiynwyr lle mae rhywun dros 75 oed yn byw yn talu'r prisiau ynni isaf, gan arbed £200 y flwyddyn i gartrefi o'r fath ar y costau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd?

John Griffiths: I very much agree that more needs to be done to identify vulnerable customers and to ensure that the vulnerable and the elderly get the cheapest tariffs available. It is incumbent upon the suppliers to ensure that that is the case. The onus should not be on the customers, but on the suppliers, to ensure that, where households contain the elderly and the vulnerable, they are automatically on the cheapest tariff. I was pleased to put that position forward in the Welsh Government's response to Ofgem's recent consultation, 'The Retail Market Review: Domestic Proposals'.

Mark Isherwood: Both the previous speakers referred to the retail market review, which ended with proposals to reduce the number of standard tariffs across the UK, making it far easier for customers to find the cheapest standard tariff and putting competitive pressures on prices. However, as the Minister is aware, Wales has one of the lowest tariffs switch rates in the UK according to that Ofgem research. What action can the Welsh Government take to promote greater awareness of the need to switch and of the protection in the current licensing arrangements for older, sick and disabled customers from being cut off during periods of cold and severe weather?

John Griffiths: I am pleased that our fuel poverty strategy has now been knitted in with the Welsh Government's tackling poverty action plan, with my colleague Carl Sargeant and all Ministers involved in ensuring that that is taken forward effectively. Our effort is rightly integrated in that way on these matters. We also have the Nest helpline, which can provide advice on switching and much else to ensure that households get the best deal. We recognise that there is an issue with Welsh households not switching to the same extent as households in many other parts of the UK. I think that the Nest helpline and our general anti-poverty actions will help to address those issues.

2.00 p.m.

Alun Ffred Jones: O ran torri monopoli'r cwmnïau ynni mawr, gall cynlluniau

John Griffiths: Rwyf yn cytuno'n llwyr fod angen gwneud mwy i ddynodi cwsmeriaid sy'n agored i niwed ac i sicrhau bod pobl agored i niwed a'r henoed yn cael y tariffau rhataf sydd ar gael. Mae'n ddyletswydd ar y cyflenwyr i sicrhau bod hynny'n digwydd. Y cyflenwyr ac nid y cwsmeriaid ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod cartrefi sy'n cynnwys pobl oedrannus a phobl agored i niwed yn talu'r tariff rhataf yn awtomatig. Roeddwn yn falch o gyflwyno'r safbwynt hwnnw yn ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad diweddar Ofgem, 'Yr Adolygiad o'r Farchnad Manwerthu: Cynigion Domestig'.

Mark Isherwood: Mae'r ddau siaradwr blaenorol wedi cyfeirio at yr adolygiad o'r farchnad manwerthu, a ddaeth i ben gyda chynigion i leihau nifer y tariffau safonol ar draws y DU, gan ei gwneud yn llawer haws i gwsmeriaid ddod o hyd i'r tariff safonol rhataf a rhoi pwysau cystadleuol ar brisiau. Fodd bynnag, fel y gŵyr y Gweinidog, mae gan Gymru un o'r cyfraddau newid tariff isaf yn y DU yn ôl yr ymchwil hwnnw gan Ofgem. Pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r angen i newid ac o'r amddiffyniad yn y trefniadau trwyddedu presennol rhag i gyflenwad cwsmeriaid hŷn, gwael ac anabl gael ei dorri yn ystod tywydd oer a chaled?

John Griffiths: Rwyf yn falch fod ein strategaeth tlodi tanwydd wedi dod yn rhan bellach o gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi, gyda fy nghyd-Aelod Carl Sargeant a phob Gweinidog yn rhan o'r gwaith o sicrhau bod hynny'n cael ei ddatblygu'n effeithiol. Mae ein hymdrech wedi'i hintegreiddio'n gywir yn y ffordd honno ar y materion hyn. Mae gennym hefyd linell gymorth Nyth, a all roi cyngor ar newid a llawer mwy i sicrhau bod teuluoedd yn cael y fargen orau. Rydym yn cydnabod bod problem yn bodoli lle nad yw cartrefi yng Nghymru yn newid cyflenwr i'r un graddau â chartrefi mewn sawl rhan arall o'r DU. Credaf y bydd llinell gymorth Nyth a'n camau gweithredu gwrthdlodi cyffredinol yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Alun Ffred Jones: In order to break the monopoly of the large energy companies,

microgynhyrchu fod yn rhan o'r ateb. Nodaf fod gennych darged i greu 20,000 o systemau gwresogi micro erbyn 2012, a 10,000 o systemau trydan micro erbyn 2012. A ydych wedi cyrraedd y targedau hyn?

John Griffiths: We have had difficulty in making the sort of progress that we wished to make with community energy, which is why I am very pleased that Community Energy Wales is going to provide further advice and assistance. A lot of good work has taken place, and Ynni'r Fro, with which I think Members will be familiar, has facilitated a lot of development. However, there are issues, such as the cost of connecting to the grid and finding upfront capital. We therefore continue to work around these matters, but I think that Community Energy Wales is a very welcome development.

Joyce Watson: Minister, energy prices generally only go one way and that is up. Last year, the average household saw its energy costs rise by about £300. That is the challenge that we face in terms of getting rid of fuel poverty. Contrast that with the six big energy companies clearing £15 billion in profit last year. Do you agree that, as well as simplifying the tariff system, energy companies must bring down their prices for prepay and standard credit customers so that they are in line with the prices paid by those using other forms of payment, like direct debit?

John Griffiths: I very much agree that there is much more that energy companies can do to fulfil their social obligations in the way that Mark Drakeford mentioned earlier, and in the way that Joyce Watson also mentions. In meeting with the energy companies, I have been very keen to make those points, and I will continue to make them.

Eluned Parrott: Minister, Consumer Focus Wales has demonstrated that it is possible to save hundreds of pounds by switching energy suppliers. However, more than 80% of Welsh households are with one or more of their former monopoly suppliers. There are a number of initiatives, as you said, that aim to

microgeneration schemes can be part of the answer. I note that you have targets to create 20,000 micro heating systems by 2012 and 10,000 micro electricity systems by 2012. Have you achieved those targets?

John Griffiths: Rydym wedi cael anhawster gwneud y math o gynnydd yr oeddem yn awyddus i'w wneud gydag ynni cymunedol, a dyna pam rwyf yn falch iawn bod Ynni Cymunedol Cymru yn mynd i ddarparu rhagor o gyngor a chymorth. Mae llawer o waith da wedi'i wneud, ac mae Ynni'r Fro, y credaf fod yr Aelodau'n gyfarwydd ag ef, wedi hwyluso llawer o waith ddatblygu. Er hynny, mae problemau'n bodoli, megis cost cysylltu â'r grid a dod o hyd i gyfalaf cychwynnol. Rydym felly'n parhau i weithio ar y materion hyn, ond credaf fod Ynni Cymunedol Cymru yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr.

Joyce Watson: Weinidog, fel arfer dim ond un ffordd y mae prisiau ynni'n symud, ac i fyny mae hynny. Y llynedd, gwelwyd cynnydd o ryw £300 yng nghostau ynni'r cartref cyffredin. Dyna'r her sy'n ein hwynebu wrth geisio cael gwared â thlodi tanwydd. Cyferbynnwch hynny ag elw'r chwe chwmmi ynni mawr o £15 biliwn y llynedd. A ydych yn cytuno y bydd yn rhaid i gwmnïau ynni, yn ogystal â symleiddio'r system tariffau, ostwng eu prisiau ar gyfer cwsmeriaid talu ymlaen llaw a chredyd safonol fel eu bod yn cyfateb i'r prisiau sy'n cael eu talu gan y rhai sy'n defnyddio mathau eraill o dalu, fel debyd uniongyrchol?

John Griffiths: Rwyf yn cytuno bod llawer mwy y gall cwmnïau ynni ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau cymdeithasol yn y modd a grybwyllwyd yn gynharach gan Mark Drakeford, ac yn y ffordd y mae Joyce Watson yn ei grybwyll hefyd. Wrth gyfarfod â'r cwmnïau ynni, rwyf wedi bod yn awyddus iawn i wneud y pwyntiau hynny, a byddaf yn parhau i'w gwneud.

Eluned Parrott: Weinidog, mae Llais Defnyddwyr Cymru wedi dangos bod modd arbed cannoedd o bunnoedd drwy newid cyflenwyr ynni. Fodd bynnag, mae dros 80 y cant o gartrefi Cymru yn gwsmeriaid i un neu fwy o'u cyflenwyr monopoli blaenorol. Mae nifer o fentrau, fel y nodwyd gennych, yn

tackle this, but we have not yet seen the impact that we would all wish for. What further action will you be taking to push forward and encourage people to switch energy suppliers?

John Griffiths: As I said, I think our Nest helpline—which is fairly new, having been established in the spring last year—has a big role to play here. Also, fuel poverty is incorporated as a very important aspect of our general action plan for tackling poverty, and this plan will look at ways in which we can make further progress. Of course, we will work with all stakeholders and organisations that have a role to play here.

ceisio mynd i'r afael â hyn, ond nid ydym eto wedi gweld yr effaith y byddai pob un ohonom yn dymuno'i gweld. Pa gamau pellach y byddwch yn eu cymryd i annog pobl i newid cyflenwyr ynni?

John Griffiths: Fel y dywedais, credaf fod gan ein llinell gymorth Nyth—sy'n gymharol newydd, gan iddi gael ei sefydlu yn ystod y gwanwyn diwethaf—rôl fawr i'w chwarae yma. Hefyd, mae tlodi tanwydd yn cael ei ymgorffori fel agwedd bwysig iawn ar ein cynllun gweithredu cyffredinol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi, a bydd y cynllun hwn yn edrych ar sut y gallwn wneud cynnydd pellach. Wrth gwrs, byddwn yn gweithio gyda phob rhanddeiliad a sefydliad sydd â rôl i'w chyflawni yma.

Blaenoriaethau ar gyfer y Gorllewin

Priorities for West Wales

7. Paul Davies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y gorllewin dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0106(ESD)*

7. Paul Davies: *Will the Minister make a statement on his priorities for west Wales for the next six months. OAQ(4)0106(ESD)*

John Griffiths: I am committed to fulfilling, across Wales, the commitments that are set out for my portfolio in the programme for government. These include delivering our commitment to sustainable development as the central organising principle of Government, protecting our natural environment, and tackling animal health and welfare issues.

John Griffiths: Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni, ar draws Cymru, yr ymrwymïadau sy'n cael eu nodi ar gyfer fy mhortffolio yn y rhaglen lywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys cyflawni ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor drefniadol ganolog y Llywodraeth, diogelu ein hamgylchedd naturiol, a mynd i'r afael â materion iechyd a lles anifeiliaid.

Paul Davies: Thank you for that response, Minister. I am sure that one of your priorities is to encourage more recycling. I recently had the pleasure of visiting Pembrokeshire Frame, a community reuse organisation that encourages and promotes the use of sound environmental practices by extending the useful life of household items such as furniture, bedding, curtains and so on. Will you therefore tell us, Minister, what discussions you have had with your colleague the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science to encourage environmental social enterprise organisations like Pembrokeshire Frame to develop across west Wales and beyond?

Paul Davies: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Rwyf yn siŵr mai un o'ch blaenoriaethau yw annog mwy o ailgylchu. Yn ddiweddar, cefais y pleser o ymweld â Pembrokeshire Frame, mudiad ailddefnyddio cymunedol sy'n annog ac yn hyrwyddo'r defnydd o arferion amgylcheddol cadarn trwy ymestyn oes ddefnyddiol eitemau'r cartref, megis dodrefn, dillad gwely, llenni ac ati. A wnewch chi ddweud wrthym felly, Weinidog, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i annog mudiadau menter gymdeithasol amgylcheddol fel Pembrokeshire Frame i ddatblygu ar draws gorllewin Cymru a thu hwnt?

John Griffiths: I have had discussions with my colleague the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. I know that she is very keen on social enterprises in Wales and sees that sector as being an important part of our economic development ambitions as a Government. Reuse is very high on the waste hierarchy, and I have visited organisations across Wales that are similar to the one that Paul Davies mentioned. They play a very important role, and that is very much valued by the Welsh Government.

Rebecca Evans: What discussions has the Minister had in relation to how the next round of EU funding will help to deliver the 'A Living Wales' framework in west Wales?

John Griffiths: I have met my colleague Alun Davies, who has responsibility for our European funding programmes, and I have recently written to Alun Davies on these very matters. I am keen that the very encouraging emphasis on environmental matters by the European Union in terms of future European structural and regional development funds is recognised in Wales and that we ensure that 'Sustaining a Living Wales' benefits from those new opportunities.

Simon Thomas: Weinidog, mae nifer fawr o drigolion gorllewin Cymru yn dibynnu ar danwydd sy'n dod mewn tanceri, boed yn nwy neu'n olew, gan na allant ddefnyddio'r grid am eu tanwydd. Pa waith mae'r Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi ffurfio clybiau tanwydd, fel yr un a gefnogir gan Fenter Cwm Gwendraeth, i sicrhau bod pobl yn gallu prynu tanwydd am bris rhesymol a bod yn siŵr y bydd y tanwydd yn cael ei ddelifro mewn da bryd ar gyfer tywydd garw?

John Griffiths: We are very supportive of that sort of community self-help. It is a very important part of all Welsh Government activity and policy to see people coming together and doing things for themselves. I am very pleased to support that sort of initiative here in Wales, and we would be very pleased to work with such groups to

John Griffiths: Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'm cyd-Weinidog, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Gwn ei bod yn frwd iawn o blaid mentrau cymdeithasol yng Nghymru ac yn gweld y sector hwnnw fel rhan bwysig o'n dyheadau datblygu economaidd fel Llywodraeth. Mae ailddefnyddio yn uchel iawn ar yr hierarchaeth gwastraff, ac rwyf wedi ymweld â sefydliadau ledled Cymru sy'n debyg i'r un a grybwyllodd Paul Davies. Mae ganddynt rôl bwysig iawn, ac mae hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn gan Lywodraeth Cymru.

Rebecca Evans: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ar sut y bydd y cylch nesaf cyllid yr UE yn helpu i gyflwyno fframwaith 'Cymru Fyw' yng ngorllewin Cymru?

John Griffiths: Rwyf wedi cwrdd â'm cyd-Aelod, Alun Davies, sy'n gyfrifol am ein rhaglenni cyllid Ewropeaidd, ac rwyf wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Alun Davies yn sôn am yr union faterion hyn. Rwyf yn awyddus bod y pwyslais calonogol iawn ar faterion amgylcheddol gan yr Undeb Ewropeaidd o ran cronfeydd datblygu rhanbarthol a strwythurol Ewropeaidd yn y dyfodol yn cael ei gydnabod yng Nghymru ac y byddwn yn sicrhau bod 'Cynnal Cymru Fyw' yn elwa o'r cyfleoedd newydd hynny.

Simon Thomas: Minister, many residents in west Wales are dependent on fuel that is delivered in tankers, be it gas or oil, as they are not able to use the grid for their fuel. What work is the Government doing to support the creation of fuel clubs, like the one supported by Menter Cwm Gwendraeth, to ensure that people can purchase fuel at a reasonable price and be assured that the fuel will be delivered in good time, before the bad weather?

John Griffiths: Rydym yn gefnogol iawn i'r math hwnnw o hunangymorth yn y gymuned. Mae gweld pobl yn dod at ei gilydd ac yn gwneud pethau drostynt eu hunain yn rhan bwysig iawn o holl weithgareddau a pholisïau Llywodraeth Cymru. Rwyf yn falch iawn o gefnogi'r math hwnnw o fenter yma yng Nghymru, a byddem yn falch iawn o weithio

facilitate and help that sort of activity.

gyda grwpiau o'r fath i hwyluso a helpu'r math hwnnw o weithgaredd.

Proses Cynllun Datblygu Lleol

Local Development Plan Process

8. Peter Black: *A yw'r Gweinidog wedi cynnal adolygiad o'r broses Cynllun Datblygu Lleol, ac a wnaiff ddatganiad am hynny. OAQ(4)0103(ESD)*

8. Peter Black: *Has the Minister carried out a review of the Local Development Plan process and will he make a statement. OAQ(4)0103(ESD)*

John Griffiths: The local development plan process refinement exercise is currently under way with the assistance of key stakeholders from the public, private and voluntary sectors. I intend to build on good practice, experience and lessons learnt to ensure that the process is as efficient and effective as possible without imposing unnecessary prescription.

John Griffiths: Mae ymarfer mireinio'r broses cynllun datblygu lleol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda chymorth rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Rwyf yn bwriadu manteisio ar arferion da, profiad a'r gwersi a fydd yn cael eu dysgu i sicrhau bod y broses mor effeithlon ac effeithiol â phosibl heb unrhyw ragnodi diangen.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. You will be aware that there has been controversy in some areas about the ability of individuals or developers to nominate various bits of land for development to be included in local development plans. Some councils have failed to include their councillors in consultations on whether such land is suitable or not. That has caused quite a lot of anxiety in some communities. Could you take a look at that particular process when you come to review the LDP process to see whether it can be refined to perhaps give local people more of a say at an earlier stage?

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol y bu dadlau mewn rhai ardaloedd am allu unigolion neu ddatblygwyr i enwebu gwahanol ddarnau o dir ar gyfer datblygu i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol. Mae rhai cynghorau heb gynnwys eu cynghorwyr mewn ymgynghoriadau ynghylch a yw tir o'r fath yn addas ai peidio. Mae hynny wedi achosi cryn dipyn o bryder mewn rhai cymunedau. A allech chi edrych ar y broses arbennig honno pan fyddwch yn adolygu'r broses cynllun datblygu lleol i weld a ellir ei mireinio i roi cyfle efallai i bobl leol gael mwy o lais yn gynharach?

John Griffiths: I would be very pleased to look at those matters. It is important that we consider anything that could produce a better system of local development plans in Wales, given the very important role that they play.

John Griffiths: Byddwn yn falch iawn o edrych ar y materion hynny. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried unrhyw beth a allai gynhyrchu system well o gynlluniau datblygu lleol yng Nghymru, o gofio'r rôl bwysig iawn sydd ganddynt.

Janet Finch-Saunders: I am really heartened to hear that, Minister. Under section 71 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, if Welsh Ministers think that a local planning authority is failing in due process, they can hold an independent inquiry to revise the plan. However, the legal ambiguity surrounding these powers can make local authorities reluctant to expose themselves to the financial risk of undertaking inquiries of this kind. In your last

Janet Finch-Saunders: Mae'n galonogol iawn clywed hynny, Weinidog. O dan adran 71 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw awdurdod cynllunio lleol yn dilyn y drefn briodol, gallant gynnal ymchwiliad annibynnol i adolygu'r cynllun. Fodd bynnag, gall yr amwysedd cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r pwerau hyn olygu y bydd awdurdodau lleol yn amharod o bosibl i wynebu'r risg ariannol o gynnal ymchwiliadau o'r math

response to me, you said that if local authorities consider the figures being used by Welsh Government on housing provision to be inappropriate, they can carry out their own work and put their own figures into their local development plans. Minister, would you not agree that section 71 is a stick that can be used by the Welsh Government, intentionally or otherwise, to cajole local authorities into presenting LDPs that are more consistent with the Welsh Government's aims than with the aims of the communities themselves?

John Griffiths: No, I would not agree with that, actually, because we have examples right across Wales of local authorities doing the hard work and providing the evidence to support their own housing figures and projections, which shows that it is perfectly possible for a local authority to have a local development plan based on its own housing figures, if it does that work and carries out that exercise.

Lindsay Whittle: I am not sure about that last answer. Can the Minister give us an assurance that the system will not change again before all the authorities have completed their local development plans, as happened when LDPs replaced UDPs? Also, can the Minister tell us if he knows how many local authorities have completed their plans?

John Griffiths: I can tell Lindsay Whittle, as I am sure he already knows, that there is a great deal of work going on in Wales to ensure that we get a planning system that is effective and efficient. We have an independent advisory group, for example, that has taken evidence and is due to report. Therefore, it is not possible to pre-empt that exercise by stating in advance what the new system will be. I think Members should take heart from the extent of the work that is taking place and the opportunities to help shape the system for the future. Not nearly enough of the local authorities in Wales have their local development plans in place. I am afraid that often it demonstrates what, effectively, is an abdication of responsibility

hwn. Yn eich ateb diwethaf i mi, dywedasoch y gallai awdurdodau lleol, os ydynt yn ystyried bod y ffigurau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt y ddarpariaeth tai yn amhriodol, gynnal eu gwaith eu hunain a rhoi eu ffigurau eu hunain yn eu cynlluniau datblygu lleol. Weinidog, oni fydddech yn cytuno bod adran 71 yn abwyd y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio, yn fwriadol neu fel arall, i gymell awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau datblygu lleol sy'n fwy cydnaws ag amcanion Llywodraeth Cymru nag ag amcanion y cymunedau eu hunain?

John Griffiths: Na, ni fyddwn yn cytuno â hynny i ddweud y gwir, gan fod gennym enghreifftiau ar draws Cymru gyfan o awdurdodau lleol yn gwneud y gwaith caled ac yn darparu'r dystiolaeth i gefnogi eu ffigurau a'u hamcanestyniadau eu hunain o ran tai, sy'n dangos ei bod yn gwbl bosibl i awdurdod lleol gael cynllun datblygu lleol sy'n seiliedig ar ei ffigurau tai ei hun, os bydd yn gwneud y gwaith hwnnw ac yn cynnal yr ymarfer hwnnw.

Lindsay Whittle: Nid wyf yn siŵr am yr ateb olaf. A all y Gweinidog roi sicrwydd inni na fydd y system yn newid eto cyn y bydd yr holl awdurdodau wedi cwblhau eu cynlluniau datblygu lleol, fel y digwyddodd pan ddisodlodd y Cynlluniau Datblygu Lleol y Cynlluniau Datblygu Unedol? Hefyd, a all y Gweinidog ddweud wrthym a yw'n gwybod faint o awdurdodau lleol sydd wedi cwblhau eu cynlluniau?

John Griffiths: Gallaf ddweud Lindsay Whittle, fel yr wyf yn siŵr ei fod eisoes yn gwybod, fod llawer iawn o waith yn mynd rhagddo yng Nghymru i sicrhau y byddwn yn cael system gynllunio sy'n effeithiol ac effeithlon. Mae gennym grŵp cyngori annibynnol, er enghraifft, sydd wedi cymryd tystiolaeth ac a fydd yn adrodd yn y man. Felly, nid oes modd achub y blaen ar yr ymarfer hwnnw drwy nodi ymlaen llaw sut beth fydd y system newydd. Credaf y dylai Aelodau gymryd cysur o'r holl waith sy'n cael ei wneud a'r cyfleoedd i helpu i siapia'r system ar gyfer y dyfodol. Does dim hanner digon o'r awdurdodau lleol yng Nghymru â'u cynlluniau datblygu lleol ar waith. Mae arnaf ofn fod hynny, i bob pwrpas, yn aml yn

in not getting those plans in place in a timely manner and shaping the development that takes place locally.

enghraifft o ymwrthod â chyfrifoldeb o ran peidio â chael y cynlluniau hynny yn eu lle yn brydlon a siapio'r datblygu sy'n digwydd yn lleol.

Cronfeydd Dŵr

9. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch adeiladu neu gynyddu maint cronfeydd dŵr yng Nghymru. OAQ(4)0108(ESD)*

John Griffiths: I have not had any discussions concerning the construction or enlargement of reservoirs in Wales. Water companies have a statutory obligation to produce water resource management plans every five years that set out projected water needs for the next 25 years, taking into account climate change and population growth predictions.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. You may know that the Severn Trent Water Limited, which serves some customers in Wales, is concerned and is having to consider an emergency plan. United Utilities Group plc has had to build a new water main to allow water to be moved where necessary, particularly to north Wales. Are you aware of these discussions and have you been part of them?

John Griffiths: I have been told by my officials and the water industry in Wales that, although we hear a lot about the difficulties caused by a fairly low rainfall and the need to protect the water supply, there are no difficulties in Wales currently that are causing great anxiety. However, water is a valuable resource to us and we need to ensure that that continues to be the case. Given that we value water so much, I will be bringing forward important statements on those matters in due course.

Julie Morgan: Has the Minister made any assessment of the potential to bring redundant reservoirs back into use for supply purposes, as possible water resources, bearing in mind that in my constituency of Cardiff North, the

Reservoirs

9. William Graham: *Will the Minister outline discussions he has held concerning the construction or enlargement of reservoirs in Wales. OAQ(4)0108(ESD)*

John Griffiths: Nid wyf wedi cael dim trafodaethau ynghylch adeiladu neu gynyddu maint cronfeydd dŵr yng Nghymru. Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd statudol i gynhyrchu cynlluniau rheoli adnoddau dŵr bob pum mlynedd sy'n pennu'r anghenion a ragwelir o ran cyflenwadau dŵr ar gyfer y 25 mlynedd nesaf, gan ystyried newid yn yr hinsawdd a rhagfynegiadau am dwf yn y boblogaeth.

William Graham: Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Efallai y gwyddoch fod Severn Trent Water Cyfyngedig, sy'n gwasanaethu rhai cwsmeriaid yng Nghymru, yn pryderu ac yn gorfod ystyried cynllun argyfwng. Mae United Utilities Group ccc wedi gorfod adeiladu prif bibell ddŵr newydd er mwyn gallu symud dŵr os bydd angen, yn arbennig i ogledd Cymru. A ydych yn ymwybodol o'r trafodaethau hyn ac a ydych wedi bod yn rhan ohonynt?

John Griffiths: Rwyf wedi cael gwybod gan fy swyddogion a'r diwydiant dŵr yng Nghymru, er ein bod yn clywed llawer am yr anawsterau sy'n cael eu hachosi oherwydd glawiad eithaf isel a'r angen i ddiogelu'r cyflenwad dŵr, nad oes anawsterau yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n achosi pryder mawr. Fodd bynnag, mae dŵr yn adnodd gwerthfawr inni ac mae angen inni sicrhau bod hynny'n parhau. Oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi gymaint ar ddŵr, byddaf yn cyflwyno datganiadau pwysig ar y materion hynny maes o law.

Julie Morgan: A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiad o'r potensial i aildddefnyddio cronfeydd segur at ddibenion cyflenwi, fel adnoddau dŵr posibl, gan gofio nad yw cronfeydd Llanisien a Llys-faen yn fy

Lisvane and Llanishen reservoirs are currently not used for water supply? However, I realise that he cannot comment on Llanishen reservoir because of the planning inquiry.

John Griffiths: Absolutely. I am certainly unable to comment on that particular matter. As I said earlier, the water companies develop their water resource management plans for a 25-year period to determine how they are going to take forward the supply of water. I know that Dŵr Cymru Welsh Water in its draft 2011 plan has identified the potential need to reinstate five reservoirs in south-east Wales. That is part of its draft plan. Therefore, these matters are constantly kept under review by the water companies.

Elin Jones: Weinidog, fel yr ydych wedi cydnabod yn barod, mae dŵr yn adnodd gwerthfawr a bydd yn gynyddol werthfawr dros yr hanner canrif nesaf. Mae'n bosibl y bydd angen cronfa ddŵr newydd yng Nghymru neu y bydd angen ymestyn rhai o'r cronfeydd presennol. Ar hyn o bryd, nid chi fel Gweinidog na'r Llywodraeth hon sydd â'r hawl i benderfynu ar hynny a chynllunio ar ei gyfer. A gytunwch mai Llywodraeth Cymru ddylai fod â'r hawl i benderfynu ar bolisïau'n ymwneud â dŵr Cymru?

John Griffiths: I am happy to agree with the last comment by Elin Jones that, yes, of course, I believe that the Welsh Government should have responsibility and the ability to control water resource in Wales and develop that. It is a valuable resource for us. We will work with the water companies around their water resource management plans to ensure that we continue to have adequate supply. Where there are any issues regarding our ability to properly shape our own future in terms of water, then, of course, we will seek to address them.
2.15 p.m.

Un Corff Amgylcheddol

10. David Rees: *Pa gynnydd a wneir i fynd ati i greu Un Corff Amgylcheddol. OAQ(4)0108(ESD)*

John Griffiths: A public consultation was

etholaeth i, Gogledd Caerdydd, yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer cyflenwi dŵr? Ond rwyf yn sylweddoli na all roi sylwadau ar gronfa ddŵr Llanisien oherwydd yr ymchwiliad cynllunio.

John Griffiths: Yn hollol. Yn sicr ni allaf roi sylwadau ar y mater penodol hwnnw. Fel y dywedais yn gynharach, mae'r cwmnïau dŵr yn datblygu eu cynlluniau rheoli adnoddau dŵr am gyfnod o 25 mlynedd i bennu sut maent am ddatblygu'r cyflenwad dŵr. Gwn fod Dŵr Cymru Welsh Water yn ei gynllun drafft yn 2011 wedi nodi y bydd o bosibl angen adfer 5 cronfa yn ne ddwyrain Cymru. Mae hynny'n rhan o'i gynllun drafft. Felly, mae'r materion hyn yn cael eu hadolygu'n gyson gan y cwmnïau dŵr.

Elin Jones: Minister, as you have already acknowledged, water is a valuable resource and it will be increasingly so over the next half a century. It is possible that a new reservoir will be needed in Wales or that the current reservoirs will need to be extended. At the moment, neither you as Minister nor this Government have the right to decide on and plan for that. Do you agree that the Welsh Government should have the right to decide on policies appertaining to Welsh water?

John Griffiths: Rwyf yn fodlon cytuno â'r sylw diwethaf gan Elin Jones, sef fy mod, wrth gwrs, yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod â'r cyfrifoldeb a'r gallu i reoli adnoddau dŵr yng Nghymru a datblygu hynny. Mae'n adnodd gwerthfawr i ni. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr mewn cysylltiad â'u cynlluniau rheoli adnoddau dŵr i wneud yn siŵr y bydd gennym gyflenwad digonol o hyd. Os bydd unrhyw anawsterau o ran ein gallu i lunio'n dyfodol ein hunain yn briodol o ran dŵr, yna, wrth gwrs, byddwn yn ceisio delio â'r rheini.

Single Environment Body

10. David Rees: *What progress is being made on the creation of a Single Environment Body. OAQ(4)0112(ESD)*

John Griffiths: Cafodd ymgynghoriad

launched on 9 February to seek views on the proposed new single body, and it will close on 2 May 2012.

David Rees: Thank you for that answer, Minister. We all hope that it will build on the achievements of its predecessors and drive the environmental agenda forward. In this respect, when the chair and director of Forestry Commission Wales visited my constituency to present a powerful vision of the Afan Valley following the attack of the *Phytophthora ramorum* within the forestry areas, they indicated a way forward for that area. What will the Welsh Government do to ensure that such commitments, which may be longer term and not have had finance allocated to them, will be kept, so that residents and businesses in the Afan Valley can have assurances for the future?

John Griffiths: As a Welsh Government, we have published our 'Woodlands for Wales' strategy, which commits us to maintaining and, indeed, expanding woodland cover here in Wales. Of course that strategy relies on the Forestry Commission and its successor body, in terms of the single environment body, maintaining sustainable forest management certification, which is a long-term commitment. I can give the Member an assurance that the work in the Afan Valley is very much part of that commitment, and will remain so into the future.

Christine Chapman: Minister, it is vital that the single environment body has the necessary structures and resources to enable it to deliver effective wildlife conservation as well as to support the police service to prevent and prosecute wildlife crime. It is, therefore, important that the full range of the current functions and powers of the three agencies that will form the new body are transferred. Given the important role of the wildlife crime officers currently seconded to the three agencies, can the Minister also ensure that their ability to deliver for wildlife will not be compromised by the merger?

John Griffiths: I can hopefully reassure Christine Chapman that the Welsh

cyhoeddus ei lansio ar 9 Chwefror i geisio barn ar yr un corff newydd arfaethedig, a bydd yn cau ar 2 Mai 2012.

David Rees: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rydym i gyd yn gobeithio y bydd yn adeiladu ar gyflawniadau ei ragflaenwyr ac yn datblygu rhagor ar yr agenda amgylcheddol. Yn hyn o beth, pan ymwelodd cadeirydd a chyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru â'm hetholaeth i gyflwyno gweledigaeth bwerus o Gwm Afan yn dilyn ymosodiad y *Phytophthora ramorum* o fewn yr ardaloedd coedwigaeth, gwnaethant ddangos ffordd ymlaen ar gyfer yr ardal honno. Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau y bydd ymrwymadau o'r fath, a all fod yn y tymor hwy a dim cyllid wedi'i ddyrannu ar eu cyfer, yn cael eu cadw, fel y gall trigolion a busnesau yng Nghwm Afan gael sicrwydd ar gyfer y dyfodol?

John Griffiths: Fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi cyhoeddi ein strategaeth 'Coetiroedd i Gymru', sy'n ein hymrwymo i gynnal ac, yn wir, ehangu'r gorchudd coetir yma yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'r strategaeth honno'n dibynnu ar y Comisiwn Coedwigaeth a'i gorff olynol, sef yr un corff amgylcheddol, yn parhau i ardystio gwaith sy'n rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, sy'n ymrwymiad hirdymor. Gallaf roi sicrwydd i'r Aelod bod y gwaith yng Nghwm Afan yn sicr yn rhan o'r ymrwymiad hwnnw, a bydd yn parhau felly yn y dyfodol.

Christine Chapman: Weinidog, mae'n hanfodol bod gan yr un corff amgylcheddol newydd y strwythurau a'r adnoddau angenrheidiol i'w alluogi i ddiogelu bywyd gwyllt yn effeithiol yn ogystal â chefnogi gwasanaeth yr heddlu i atal ac erlyn troseddau bywyd gwyllt. Mae'n bwysig felly fod holl swyddogaethau a phwerau presennol y tair asiantaeth a fydd yn ffurfio'r corff newydd yn cael eu trosglwyddo. O gofio rôl bwysig y swyddogion troseddau bywyd gwyllt sydd wedi'u secondio ar hyn o bryd i'r tair asiantaeth, a all y Gweinidog hefyd sicrhau na fydd eu gallu i gyflawni ar gyfer bywyd gwyllt yn cael ei beryglu gan yr uno?

John Griffiths: Gallaf sicrhau Christine Chapman gobeithio fod Llywodraeth Cymru

Government is very much committed to wildlife conservation and, indeed, to tackling and reducing wildlife crime. I hope that a single environment body will give a more streamlined and focused approach to dealing with those issues, although we are out to consultation at the moment, and I am sure that many views will be fed in as to these matters and how we best address them in moving forward.

Russell George: Minister, I and many environmental organisations are concerned to know why the word 'environment' has been removed from all Welsh Government communications on this subject. I would be interested to know the rationale behind that, especially as the primary responsibility of the new body will be delivering for the environment.

John Griffiths: I would not develop too much of a conspiracy theory around these matters, Russell. We just talk more about natural resource management now, and ecosystem services, because that is the debate in which these matters are discussed at the current time. It is important that the new body is not seen as just the sum of the parts of the existing three bodies, but as a new organisation with a new culture. That is an important part of this debate.

yn ymrwymedig iawn i ddiogelu bywyd gwyllt ac, yn wir, i fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt, a'u lleihau. Gobeithio y bydd un corff amgylcheddol yn gweithredu'n fwy syml ac eglur wrth ddelio â'r materion hynny, er ein bod yn ymgynghori ar hyn o bryd, ac rwyf yn siŵr y bydd llawer o sylwadau'n cael eu cyflwyno ar y materion hyn a'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain yn y dyfodol.

Russell George: Weinidog, rwyf fi a llawer o sefydliadau amgylcheddol yn awyddus i wybod pam mae'r gair 'amgylchedd' wedi cael ei dynnu oddi ar holl gyfathrebiadau Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwn. Byddai gennyf ddiddordeb i wybod y rhesymeg y tu ôl i hynny, yn enwedig gan mai prif gyfrifoldeb y corff newydd fydd cyflawni ar gyfer yr amgylchedd.

John Griffiths: Ni fyddwn yn datblygu gormod o ddamcaniaeth gynllwynio yng nghyswllt y materion hyn, Russell. Rydym yn siarad mwy am reoli adnoddau naturiol yn awr, a gwasanaethau ecosystem, oherwydd dyna'r ddadl lle mae'r materion hyn yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Mae'n bwysig nad yw'r corff newydd yn cael ei weld fel dim ond cyfuniad o'r tri chorff presennol, yn hytrach na chael ei weld fel sefydliad newydd gyda diwylliant newydd. Mae hynny'n rhan bwysig o'r ddadl hon.

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth **Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage**

Llwyfan

1. Rhodri Glyn Thomas: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd y mae Theatr Genedlaethol Cymru a chyrff eraill yn defnyddio'r Llwyfan yng Nghaerfyrddin.* OAQ(4)0105(HRH)

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I thank the Member for Carmarthen East and Dinefwr for that question. Y Llwyfan provides both rehearsal space and office accommodation for Theatr Genedlaethol Cymru. I welcome the fact that, when the company is not using the rehearsal space, it is available for hire to

Llwyfan

1. Rhodri Glyn Thomas: *Will the Minister make a statement on the use made by Theatr Genedlaethol Cymru and other organisations, of the Llwyfan in Carmarthen.* OAQ(4)0105(HRH)

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr am y cwestiwn hwnnw. Mae'r Llwyfan yn darparu lle i ymarfer a swyddfeydd ar gyfer Theatr Genedlaethol Cymru. Pan nad yw'r cwmni'n defnyddio'r lle i ymarfer, mae modd i bobl eraill ei logi, ac rwyf yn croesawu hynny.

others.

Rhodri Glyn Thomas: Credaf y byddai'n fuddiol pe baech yn edrych ar y defnydd mae Theatr Genedlaethol Cymru yn ei wneud o'r Llwyfan. Byddwn yn gobeithio y byddech yn awgrymu i'r theatr y dylai wneud mwy o ddefnydd o'r adnodd pwysig hwnnw. Rydych yn sôn am y ffaith ei fod ar gael i gyrff eraill i'w ddefnyddio, ond rwy'n deall, yn ôl y cytundeb, nad yw Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gallu defnyddio'r adnodd hwnnw. A fydddech yn annog Theatr Genedlaethol Cymru i edrych ar y posibilïadau o ran denu cwmnïau eraill, fel Cwmni Mega yn sir Gaerfyrddin a chwmnïau eraill sy'n cynnal gweithdai i blant, i ddefnyddio'r adnodd?

Huw Lewis: I thank the Member for raising these issues. Until he raised them, I was not aware of any specific difficulties or issues with the use of Y Llwyfan by Theatr Genedlaethol Cymru or any other organisation. However, now that he has raised the issue—and that matters—I am happy to ask my officials to look into it, if he writes to me with the specifics of his concerns.

Suzy Davies: One of the welcome realities of Theatr Genedlaethol Cymru is that, despite it being a national institution, it is based in Carmarthen and not Cardiff. However, it is only through Theatr Genedlaethol Cymru and Gofal Celf that it has been possible to find out what is on at Y Llwyfan. It is a disadvantage for a venue if it cannot market its programmes and facilities. Given that Y Llwyfan received financial support from the Welsh Government, what steps have you taken to ensure that it is adequately resourced to get the best maximum use for what I am sure is the excellent work done there? How can it best be preserved in the environment of the university mergers?

Huw Lewis: Y Llwyfan is a relatively youthful facility. From the tone of Members' comments, it sounds as if there have been

Rhodri Glyn Thomas: I believe that it would be beneficial if you were to look at the use that Theatr Genedlaethol Cymru is making of Y Llwyfan. I would hope that you would suggest that it should make more use of this important resource. You mentioned the fact that it is available for other organisations to use, but I understand that, according to the agreement, the University of Wales Trinity St David's cannot use that resource. Would you encourage Theatr Genedlaethol Cymru to look at the possibility of attracting other companies, such as Cwmni Mega in Carmarthenshire and other companies that hold workshops for children, to use the resource?

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod am godi'r materion hyn. Tan iddo eu codi, nid oeddwn yn ymwybodol o unrhyw anawsterau na phroblemau penodol ynghylch y modd y mae Theatr Genedlaethol Cymru neu unrhyw gorff arall yn defnyddio'r Llwyfan. Ond, gan ei fod wedi codi'r mater—ac mae hynny'n bwysig—rwyf yn fwy na pharod i ofyn i'm swyddogion edrych ar y mater os gwnaiff ysgrifennu ataf yn nodi manylion ei bryderon.

Suzy Davies: Un peth sy'n wir am Theatr Genedlaethol Cymru—ac mae hwnnw'n rhywbeth derbyniol iawn—yw'r ffaith ei bod wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin ac nid yng Nghaerdydd, er bod Theatr Genedlaethol Cymru yn gorff cenedlaethol. Fodd bynnag, dim ond drwy Theatr Genedlaethol Cymru a Gofal Celf y bu'n bosibl cael gwybod beth sy'n digwydd yn y Llwyfan. Mae'n anfantais i ganolfan os nad yw'n gallu marchnata ei rhaglenni a'i chyfleusterau. Gan gofio bod y Llwyfan wedi cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, pa gamau rydych wedi'u cymryd i wneud yn siŵr ei fod yn cael digon o adnoddau i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio cymaint ag y bo modd ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud yno, a hwnnw'n waith rhagorol rwyf yn siŵr? Beth yw'r ffordd orau o'i ddiogelu wrth i'r prifysgolion uno?

Huw Lewis: Mae'r Llwyfan yn gyfleuster cymharol ifanc. Yn ôl tŷn sylwadau'r Aelodau, bu problemau cychwynnol o ran y

teething troubles with how it is fitting in with aspects of community use, its wider duties and so on. I am happy to take those concerns seriously and look into those issues.

Tai Fforddiadwy

2. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiâu Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r ddarpariaeth tai fforddiadwy. OAQ(4)0112(HRH)*

Huw Lewis: I thank the Member for South Wales East for that question. Improving people's lives by increasing housing supply is one of my key priorities. I am working with the housing sector to maximise the number of affordable homes that can be delivered with and without capital grant and across all tenures.

William Graham: Thank you for that answer, Minister. Although my party welcomes the housing Bill, we are sad to see it delayed, yet again. Will you confirm that an integral element of such a housing Bill will be to encourage registered social landlords, who have quantifiable stock and income with which to secure loans, to undertake an affordable housing building programme, creating both necessary homes and construction employment opportunities?

Huw Lewis: I assure the Member for South Wales East that I am aware of no delay in the introduction of the housing Bill. Things continue to work to the advertised timetable and the White Paper is expected in May. RSLs are critical and central, and there are numerous plans throughout Wales for RSLs to contribute to the supply of affordable housing. The Member will be aware that innovative forms of funding new capital streams for the Welsh housing partnership have begun, with 150 intermediate rented homes as the first contribution of that particular form of partnership. I am confident that that will serve as a platform for further initiatives.

Mike Hedges: I am sure that the Minister is

modd y mae'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gymuned, ei ddyletswyddau ehangach ac yn y blaen. Rwyf yn fodlon ystyried y pryderon hynny o ddifrif ac ymchwilio i'r materion hynny.

Affordable Housing

2. William Graham: *Will the Minister outline the Welsh Government's policies to address the provision of affordable housing. OAQ(4)0112(HRH)*

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru am y cwestiwn hwnnw. Mae gwella bywydau pobl drwy gynyddu'r cyflenwad tai yn un o fy mhrif flaenoriaethau. Rwyf yn gweithio gyda'r sector tai i gyflenwi cymaint o dai fforddiadwy ag y bo modd, gyda grant cyfalaf a heb grant cyfalaf, ac ar draws pob deiliadaeth.

William Graham: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Er bod fy mhlaid yn croesawu'r Bil Tai, rydym yn siomedig bod oedi yn ei gylch eto fyth. A wnewch gadarnhau mai un rhan annatod o'r Bil Tai hwnnw fydd annog landlordiaid cymdeithasol cofrestredig—sydd â stoc y gellir ei mesur ac incwm i sicrhau benthychiadau—i ymgymryd â rhaglen adeiladu tai fforddiadwy, gan greu cartrefi a chyfleoedd am waith adeiladu angenrheidiol?

Huw Lewis: Rwyf yn sicrhau'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru nad wyf yn ymwybodol o unrhyw oedi yng nghyswllt cyflwyno'r Bil Tai. Mae pethau'n dal i ddatblygu yn ôl yr amserlen a hysbysebwyd, a disgwylir y Papur Gwyn ym mis Mai. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn hanfodol ac yn ganolog, a cheir nifer o gynlluniau ledled Cymru i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyfrannu at y cyflenwad tai fforddiadwy. Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod dulliau arloesol o ariannu ffrydiau cyfalaf newydd ar gyfer Partneriaeth Tai Cymru wedi cael eu rhoi ar waith. Bydd cyfraniad cyntaf y math penodol hwnnw o bartneriaeth yn cynnwys 150 o gartrefi rhent canolradd. Rwyf yn ffyddiog y bydd hynny'n llwyfan ar gyfer mentrau pellach.

Mike Hedges: Rwyf yn siŵr bod y

well aware of the desperate need for more affordable homes in Wales. Will he look at the provision of co-operative housing as one methodology for meeting the demand?

Huw Lewis: I thank Mike Hedges for that question. Mike will be aware that I am a passionate advocate of the co-operative alternative when it comes to affordable housing—in this case, an affordable model of home ownership. I assure Mike that there are various pioneer schemes, as they have been dubbed, on the starting blocks. They are being investigated at the moment. We have brought experts in the co-operative and housing sectors to work together in Wales to ensure that we have a financially robust way forward for what will be a new form of housing tenure on the Welsh housing scene.

Llyr Huws Gruffydd: Minister, one of the Welsh Government's flagship programmes for delivering affordable housing is the Welsh housing partnership. However, it is only proposed to deliver 150 affordable homes. Is that an example of a lack of ambition on the part of this Government, particularly when you consider that the One Wales Government set, achieved and exceeded a target of 6,500 affordable homes?

Huw Lewis: There is no lack of ambition. I remind the spokesperson for Plaid Cymru that the Welsh housing partnership saw its genesis under the One Wales Government—I would not seek to claim credit for that. It was a programme that I inherited, but was pleased to inherit. The figure of 150 intermediate rented homes that Llyr referred to is quite correct, but it refers only to the first year of the operation of this partnership. Discussions are already under way about second and subsequent years, and I see the intermediate rented market as something that we need to open up. It is small and youthful in terms of the Welsh housing scene, and is another tack that we need to take in order to meet housing need.

Llyr Huws Gruffydd: Thank you for that answer, Minister, but we are yet to receive any figures or estimates for how many homes the Government expects these policies to lead

Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r angen dybryd am ragor o dai fforddiadwy yng Nghymru. A wnaiff edrych ar ddarparu tai cydweithredol fel un fethodoleg i ateb y galw?

Huw Lewis: Diolch i Mike Hedges am y cwestiwn hwnnw. Bydd Mike yn gwybod fy mod yn frwd dros y syniad cydweithredol ym maes tai fforddiadwy—yn yr achos hwn, model fforddiadwy o berchentyaeth. Rwyf yn sicrhau Mike bod amrywiol gynlluniau sydd wedi cael eu galw'n arloesol yn barod i'w rhoi ar waith. Maent yn destun gwaith ymchwil ar hyn o bryd. Rydym wedi dod ag arbenigwyr yn y sector cydweithredol ac yn y sector tai at ei gilydd i gydweithio yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gennym ffordd gadarn ymlaen o safbwynt ariannol ar gyfer yr hyn a fydd yn fath newydd o ddeiliadaeth tai ar gyfer tai yng Nghymru.

Llyr Huws Gruffydd: Weinidog, un o raglenni blaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu tai fforddiadwy yw Partneriaeth Tai Cymru. Fodd bynnag, dim ond 150 o dai fforddiadwy y bwriedir iddi eu cyflenwi. A yw hynny'n enghraifft o ddiffyg uchelgais y Llywodraeth hon, yn enwedig o gofio y bu i Lywodraeth Cymru'n Un bennu targed o 6,500 o dai fforddiadwy, gan gyrraedd y targed hwnnw a rhagori arno?

Huw Lewis: Nid oes diffyg uchelgais. Hoffwn atgoffa llefarydd Plaid Cymru mai o dan Lywodraeth Cymru'n Un y dechreuodd Partneriaeth Tai Cymru—ni fyddwn am hawlio'r clod am hynny. Rhaglen a etifeddais oedd hi, ond roeddwn yn falch o'i hetifeddu. Mae'r ffigur o 150 o gartrefi rhent canolradd y cyfeiriodd Llŷr ato yn gywir, ond dim ond at flwyddyn gyntaf y bartneriaeth hon y mae'n cyfeirio. Mae trafodaethau eisoes ar y gweill am yr ail flwyddyn ac am y blynyddoedd dilynol, ac mae'r farchnad rhent canolradd yn rhywbeth y mae angen ei chynyddu yn fy marn i. Mae'n fach ac yn ifanc o ran tai yng Nghymru, ac yn gam arall y mae angen inni ei gymryd er mwyn diwallu'r angen am dai.

Llyr Huws Gruffydd: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, ond rydym yn dal i aros am unrhyw ffigurau neu amcangyfrifon ar gyfer faint o gartrefi y mae'r Llywodraeth yn

to. I invite you to tell the Chamber how many affordable homes you expect to have created during this Assembly.

Huw Lewis: Figures you will have, and in good time. I have answered this question repeatedly in the Chamber. Figures there will be. As you are aware, the White Paper that I mentioned in connection with the housing Bill will be published some time in May. I intend that figures regarding affordable housing and other housing tenures will be launched around the same time as the White Paper. I can assure the Member that these figures will not only make interesting reading, but will surpass the ambitions of the One Wales Government.

Peter Black: Minister, you will know that the Welsh Government study of housing demand, commissioned by the One Wales Government, identified that we need to build 11,200 new homes every year in Wales, of which 5,100 should be affordable. In the absence of a target, I think that we have to take that as the figure that you are aiming for. In 2007, just over 8,700 new home registrations were made in Wales, but last year that figure was down to just under 3,500—quite a significant decline. Can you tell me how you intend to meet that demand?

Huw Lewis: Peter Black is quite right to point to the hit that the housebuilding market, in all forms of tenure—rental, owner occupation and so on—has taken because of the economic downturn. It has been considerable, but not surprising. The question then arises, and Peter Black asks it, of what can be done. I have attempted to answer that question in many ways in the Chamber. The White Paper in May will lay out in detail the Government's response to these difficult developments. However, in essence, it involves a redoubling of commitment in terms of the political emphasis that is laid upon housebuilding and bringing homes back into use, as well as a recognition that we must act differently. Bringing homes into use for occupation is a much wider question than the supply of social housing grant for the construction of social housing. We must

disgwyl i'r polisïau hyn eu cyflenwi. Rwyf yn eich gwahodd i ddweud wrth y Siambr faint o dai fforddiadwy rydych yn disgwyl eu creu yn ystod oes y Cynulliad hwn.

Huw Lewis: Byddwch yn cael ffigurau, a hynny mewn da bryd. Rwyf wedi ateb y cwestiwn hwn dro ar ôl tro yn y Siambr. Byddwch yn cael ffigurau. Fel y gwyddoch, bydd y Papur Gwyn y soniais amdano mewn cysylltiad â'r Bil Tai yn cael ei gyhoeddi rywbryd fis Mai. Fy mwriad yw lansio'r ffigurau ar gyfer tai fforddiadwy a daliadaethau tai eraill tua'r un adeg â'r Papur Gwyn. Gallaf sicrhau'r Aelod y bydd y ffigurau hyn, yn ogystal â bod yn ddiddorol i'w darllen, yn rhagori ar uchelgais Llywodraeth Cymru'n Un.

Peter Black: Weinidog, byddwch yn gwybod bod astudiaeth Llywodraeth Cymru o'r galw am dai, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un, yn dangos bod angen inni adeiladu 11,200 o gartrefi newydd bob blwyddyn yng Nghymru, ac y dylai 5,100 o'r rheini fod yn dai fforddiadwy. Gan nad oes targed, credaf ei bod yn rhaid inni dderbyn hwnnw fel y ffigur rydych yn anelu ato. Yn 2007, cofrestrwyd ychydig dros 8,700 o gartrefi newydd yng Nghymru, ond y llynedd roedd y ffigur hwnnw wedi gostwng i ychydig o dan 3,500. Mae hynny'n ostyngiad sylweddol. A allwch ddweud wrthyf sut rydych yn bwriadu cwrdd â'r galw hwnnw?

Huw Lewis: Mae Peter Black yn llygad ei le i dynnu sylw at yr ergyd honno y mae'r farchnad adeiladu tai a'i deiliadaethau o bob math—rhent, perchen-feddiannaeth ac yn y blaen—wedi ei hwynebu yn sgîl y dirywiad economaidd. Mae wedi bod yn sylweddol, ond nid yn syndod. Yna, mae cwestiwn yn codi, ac mae Peter Black yn ei ofyn, sef beth y gellir ei wneud. Rwyf wedi ceisio ateb y cwestiwn hwnnw mewn sawl ffordd yn y Siambr. Bydd y Papur Gwyn ym mis Mai yn rhoi manylion ymateb y Llywodraeth i'r datblygiadau anodd hyn. Fodd bynnag, yn ei hanfod, mae'n golygu mwy byth o ymrwymiad o safbwynt y pwyslais gwleidyddol sy'n cael ei roi ar adeiladu tai a dechrau defnyddio cartrefi unwaith eto. Mae hefyd yn golygu cydnabod ei bod yn rhaid inni weithredu mewn ffordd wahanol. Mae defnyddio cartrefi i bobl fyw ynddynt yn

concern ourselves with all forms of tenure in all parts of Wales and include those empty properties—22,000 of them—that are also a drain on the system at the moment.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister, and I take your interpretation of the statistics with great interest, given that, over the last two years, the number of new home registrations in England has gone up, while there is quite a sharp decline in Wales. The decline in Welsh new home registrations is not a recent phenomenon—in 2008, it was 3,640, and in 2009, it was 2,872. What is England doing right that Wales is doing wrong? Can you learn any lessons from the English housing Minister on how you can improve things for Wales?

Huw Lewis: I thank the Member for that question. I am always, I hope, humble enough to realise that I could learn lessons from across the border in England, as well as from Holyrood in Edinburgh and from Northern Ireland, when it comes to tackling the real, pressing housing difficulties that we are up against. We could trade statistics in terms of what is happening over the border, but I would caution the Member that as we once again see the determined ideological destruction of affordable housing being undertaken by yet another Tory housing Minister—after all these years—by reopening the right to buy and ensuring that the money can only be recycled into intermediate rental products; in other words, taking housing away from the least well-off section of society and giving it to the slightly less well-off section of society can only be regressive. I would not count any housing chickens in England before they are hatched.

2.30 p.m.

Christine Chapman: Thanks to investment from Rhondda Cynon Taf County Borough Council, the Welsh Government and Cynon Taf Community Housing Group, we have

gwestiwn llawer ehangach na chyflenwi grant tai cymdeithasol i adeiladu tai cymdeithasol. Rhaid inni ymwneud â deiliadaethau o bob math ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys yr adeiladau gwag hynny—22,000 ohonynt—sydd hefyd yn dreth ar y system ar hyn o bryd.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae eich dehongliad o'r ystadegau o ddiddordeb mawr imi, o gofio bod nifer y cartrefi newydd sydd wedi cael eu cofrestru yn Lloegr wedi codi yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, tra mae'r nifer wedi gostwng yn sylweddol yng Nghymru. Nid yw'r gostyngiad yn nifer y tai newydd sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru yn ffenomen ddiweddar—yn 2008, roedd y ffigur yn 3,640, ac yn 2009, roedd yn 2,872. Beth mae Lloegr yn ei wneud yn iawn, a beth mae Cymru'n ei wneud o'i le? A allwch ddysgu unrhyw wersi gan y Gweinidog Tai yn Lloegr ar sut y gallwch wella'r sefyllfa yng Nghymru?

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Rwyf bob amser, gobeithio, yn ddigon gwylaidd i sylweddoli y gallwn ddysgu gwersi gan Loegr, a chan Holyrood yng Nghaeredin a Gogledd Iwerddon hefyd, yng nghyswllt mynd i'r afael â'r problemau tai gwirioneddol a dybryd rydym yn eu hwynebu. Gallem gyfnewid ystadegau o ran yr hyn sy'n digwydd dros y ffin, ond, wrth inni unwaith eto weld Gweinidog Tai Toriaidd gyda'i ideoleg yn benderfynol o ddinistrio'r syniad o dai fforddiadwy, ar ôl yr holl flynyddoedd, drwy ailafael yn y syniad o hawl i brynu a sicrhau mai dim ond i gynnyrch rhent canolradd y gellir ailgylchu'r arian—mewn geiriau eraill, cymryd tai oddi ar y bobl sydd yn y sefyllfa waethaf yn y gymdeithas a'u rhoi i'r rheini sydd ychydig yn well eu byd yn y gymdeithas—byddwn yn rhybuddio'r Gweinidog na all hyn fod yn ddim ond cam yn ôl. Ni fyddwn yn cyfrif unrhyw gywion cyn iddynt ddeor o ran tai yn Lloegr.

Christine Chapman: Diolch i fuddsoddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Llywodraeth Cymru a Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf, rydym wedi gweld

seen the creation of a new modern housing development in Hirwaun where tenants can enjoy high-quality housing at affordable rates. The successful scheme in my constituency—which also won Rhondda Cynon Taf County Borough Council the sustainable development of the year award at the 2011 building Oscars—shows the ongoing work that has been carried out to ensure that people from all walks of life have access to the homes that they need. Do you agree that with ecological measures such as solar panels, heat pumps and rainwater harvesting, tenants can benefit from such high-quality housing, safe in the knowledge that their heating and water bills will also be affordable?

Huw Lewis: Thank you for that question. You are right to emphasise these points when it comes to the future of our housing stock. The many environmental and climate change measures that you have mentioned will directly benefit tenants and it is a necessity for us now to think along these lines; it is not just an optional extra. Our proposals for building regulations, on which we intend to consult at the end of May, will further improve the energy performance of new and existing housing, providing further reduction, we hope, in energy bills.

Blaenoriaethau

3. Janet Finch-Saunders: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Aberconwy dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0107(HRH)*

Huw Lewis: Our programme for government sets out the commitments for my portfolio across Wales. These include: better housing services and support, particularly for some of our most vulnerable families and children; and investing in the infrastructure, renewal and regeneration of communities.

Janet Finch-Saunders: On regeneration, the Welsh Government last year welcomed the Portas review into the future of the high street in Britain. Her report was widely welcomed by the business community, including by the Federation of Small Businesses in Wales.

datblygiad tai modern newydd yn cael ei greu yn Hirwaun, lle gall tenantiaid fwynhau tai o safon uchel am gyfraddau fforddiadwy. Mae'r cynllun llwyddiannus yn fy etholaeth—a ddaeth â gwobr datblygiad cynaliadwy y flwyddyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng ngwobrau mawreddog y byd adeiladu 2011—yn dangos y gwaith parhaus sydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod pobl o bob cefndir yn gallu cael gafael ar y cartrefi y mae eu hangen arnynt. A ydych yn cytuno bod mesurau ecolegol fel paneli solar, pypmiau gwres a dulliau o gynaeafu dŵr glaw yn caniatáu i denantiaid elwa o dai o safon uchel, gan wybod y bydd eu biliau gwresogi a dŵr hefyd yn fforddiadwy?

Huw Lewis: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Rydych yn iawn i bwysleisio'r pwyntiau hyn o ran dyfodol ein stoc tai. Bydd y mesurau amgylcheddol a newid hinsawdd lu rydych wedi sôn amdanynt o fudd uniongyrchol i denantiaid, ac mae angen inni'n awr feddwl am y pethau hyn yn hytrach na'u hystyried yn bethau ychwanegol dewisol. Bydd ein cynigion ar gyfer rheoliadau adeiladu y bwriadwn ymgynghori arnynt ddiwedd mis Mai yn gwella mwy byth ar berfformiad ynni tai newydd a thai sydd eisoes yn bodoli, gyda'r gobaith o sicrhau gostyngiad pellach mewn biliau ynni.

Priorities

3. Janet Finch-Saunders: *Will the Minister make a statement on his priorities for Aberconwy in the next six months. OAQ(4)0107(HRH)*

Huw Lewis: Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ymrwymïadau fy mhortffolio ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: gwell gwasanaethau a chymorth ym maes tai, yn enwedig ar gyfer rhai o'n teuluoedd a'n plant mwyaf agored i niwed; a buddsoddi mewn seilwaith cymunedau ac yn y gwaith o'u hadnewyddu a'u hadfywio.

Janet Finch-Saunders: O ran adfywio, y llynedd, croesawodd Llywodraeth Cymru adolygiad Portas o ddyfodol y stryd fawr ym Mhrydain. Cafodd ei hadroddiad groeso cynnes gan y gymuned fusnes, a chan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd.

Proposals outlined by Mary Portas include a national market day, cutting business rates and the rolling out of free parking. This week, we see the finalisation of 12 Portas pilot towns, which are set to receive over £1 million in funding, and guidance from the retail guru herself. As the Minister for regeneration, what support and guidance will the Welsh Government provide to help regenerate town-centre businesses, many of which are small and medium-sized enterprises or family owned, in my constituency of Aberconwy?

Huw Lewis: The Portas review made interesting reading, but it did not apply to Wales; it was specifically about the situation that English town centres find themselves in, but there is always something to learn from that. We are about to embark on a debate, later this afternoon, on the equally interesting and thought-provoking committee report from this Assembly, which deals specifically with Welsh town centres. I ask the Member to linger on for that debate.

Llyr Huws Gruffydd: Mae pawb yn derbyn yr angen i ddefnyddio tai gwag, fel y gwnaethoch grybwyll yn gynt, fel rhan o'r ymdrechion i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael. Fodd bynnag, yn rhannau o Aberconwy, ac, yn wir, mewn rhannau penodol eraill o Gymru, mae problem ychwanegol, sef tai a chartrefi sydd yn wag am rannau helaeth o'r flwyddyn. A wnewch chi ystyried ffyrdd o ddefnyddio ail gartrefi, efallai, er enghraifft, trwy ddefnyddio system y dreth gyngor?

Huw Lewis: You will be aware that issues regarding council tax are not part of my portfolio, but I assure you that discussions are ongoing as to how empty properties could be brought back into use, not only through the encouragement of the empty properties initiative, 'Houses to Homes', which I have recently launched, but by looking at the council tax system.

Asiantaethau Gosod Tai Cymdeithasol

4. Mark Isherwood: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynorthwyo asiantaethau

Mae'r cynigion a amlinellwyd gan Mary Portas yn cynnwys diwrnod marchnad cenedlaethol, lleihau ardrethi busnes a chyflwyno cynlluniau parcio am ddim. Yr wythnos hon, byddwn yn cael gwybod pa 12 tref sydd wedi'u dewis yn drefi peilot Portas. Byddant yn cael dros £1 miliwn o gyllid, ac arweiniad gan seren byd y siopau ei hun. Fel y Gweinidog Adfywio, pa gymorth ac arweiniad y bydd Llywodraeth Cymru yn eu darparu i helpu i adfywio busnesau yng nghanol trefi, nifer ohonynt yn fusnesau bach a chanolig neu'n eiddo i deuluoedd yn fy etholaeth i, Aberconwy?

Huw Lewis: Roedd yn ddiddorol darllen adolygiad Portas, ond nid oedd yn berthnasol i Gymru; roedd yn edrych yn benodol ar sefyllfaoedd canol trefi yn Lloegr, ond gellir dysgu rhywbeth o hynny bob amser. Yn nes ymlaen y prynhawn yma, byddwn yn cychwyn trafod adroddiad pwyllgor gan y Cynulliad hwn—adroddiad sydd yr un mor ddiddorol ac sydd hefyd yn procio'r meddwl—sy'n ymdrin yn benodol â chanol trefi Cymru. Gofynnaf i'r Aelod aros am y ddadl honno.

Llyr Huws Gruffydd: Everyone accepts the need to bring vacant homes back into use, as you mentioned earlier, as part of the efforts to increase the number of affordable homes available. However, in certain parts of Aberconwy, and, indeed, in other parts of Wales, there is the additional problem of homes that are vacant for large parts of the year. Will you consider ways of bringing second homes into use, perhaps, for example, by using the council tax system?

Huw Lewis: Byddwch yn ymwybodol nad yw materion yn ymwneud â'r dreth gyngor yn rhan o'm portffolio, ond gallaf eich sicrhau bod trafodaethau ar y gweill ar ffyrdd o ddefnyddio eiddo gwag unwaith eto, nid yn unig drwy hybu'r fenter eiddo gwag, 'Troi Tai'n Gartrefi', a lansiwyd gennyf yn ddiweddar, ond drwy edrych ar system y dreth gyngor.

Social Letting Agencies

4. Mark Isherwood: What proposals does the Minister have for supporting social letting

gosod tai cymdeithasol. OAQ(4)0103(HRH)

Huw Lewis: I am committed to promoting social letting agencies and similar services that help people to access suitable housing in the private rented sector. I want them to be used to a greater extent in future and they will feature quite heavily in the proposals I set out in the forthcoming White Paper.

Mark Isherwood: I welcome that response. As we heard at last week's Tai 2012 annual housing conference, there is increasing recognition across the sectors of the need for closer working between local authorities, housing associations and the private rented sector, reflecting the current position of demand exceeding housing supply for tenants in need of social and supported housing. How, therefore, do you respond to the call by the National Landlords Association, among others, to build on the good practice it has established by working with third sector and community interest organisations to roll out social letting agencies across Wales, with the National Landlords Association and those third sector bodies implementing and delivering in partnership with the third sector rather than having the projects taken over from them?

Huw Lewis: The Member is quite right to lay emphasis on these issues, and I would respond positively. The National Landlords Association, with which I have already met, has heard me respond positively to such suggestions. I am aware that there is some very good practice scattered across Wales and that it is better in some areas than others. We need to raise all boats here and make sure that that good practice is rolled out right across the country.

The interaction between registered social landlords, local authorities and the private rented sector is the place where we need to begin. The dialogue between those key partners is absolutely central to this. We have to promote that dialogue and promote trust in

agencies. OAQ(4)0103(HRH)

Huw Lewis: Rwyf wedi ymrwymo i hyrwyddo asiantaethau gosod tai cymdeithasol a gwasanaethau tebyg sy'n helpu pobl i gael gafael ar dai addas yn y sector rhentu preifat. Rwyf am iddynt gael eu defnyddio fwyfwy yn y dyfodol, a byddant yn amlwg iawn yn y cynigion y byddaf yn eu hamlinellu yn y Papur Gwyn sydd ar y gweill.

Mark Isherwood: Rwyf yn croesawu'r ymateb hwnnw. Fel y clywsom yng nghynhadledd flynyddol Tai 2012 yr wythnos diwethaf, ceir mwy a mwy o gydnabyddiaeth ar draws y sectorau bod angen i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r sector rhentu preifat gydweithio'n agosach, gan adlewyrchu'r sefyllfa bresennol lle mae'r galw yn uwch na'r cyflenwad tai i denantiaid sydd angen tai cymdeithasol a thai â chymorth. Sut, felly, rydych yn ymateb i'r cais gan Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, ymysg eraill, i ddatblygu'r arferion da y mae wedi'u meithrin wrth weithio gyda'r trydydd sector a chwmnïau buddiant cymunedol i gyflwyno asiantaethau gosod tai cymdeithasol ledled Cymru, gyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid a'r cyrff hynny yn y trydydd sector yn gweithredu ac yn cyflwyno ar y cyd â'r trydydd sector, yn hytrach na bod y prosiectau yn cael eu cymryd drosodd ganddynt?

Huw Lewis: Mae'r Aelod yn llygad ei le i roi pwyslais ar y materion hyn, a byddwn yn ymateb yn gadarnhaol. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, yr wyf eisoes wedi cael cyfarfod â hi, wedi fy nghlywed yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfryw awgrymiadau. Rwyf yn ymwybodol fod arferion da iawn i'w gweld ar hyd a lled Cymru, a'u bod yn well mewn rhai ardaloedd nag eraill. Mae angen inni wneud yn siŵr bod pawb yn elwa a sicrhau bod arferion da yn cael eu cyflwyno ym mhob rhan o'r wlad.

Y gwaith rhyngweithio rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol a'r sector rhentu preifat yw'r man cychwyn. Mae'r trafodaethau rhwng yartneriaid allweddol hynny yn gwbl ganolog i hyn. Rhaid inni hybu'r drafodaeth honno ac annog

that dialogue, because, at the end of the day, the need for us to direct more people towards a growing private rented sector is starkly obvious in my view.

Mark Isherwood: I welcome that response. In addition to the general provision of social letting agencies, there is also the recognised need for private rented sector access agencies, such as Cefni Lettings, to provide housing for the most vulnerable and to support people in that housing, and remove any risk from landlords. Once again, there has been a call by the National Landlords Association and others for that to be rolled out on a Wales-wide basis. It has said that that need not cost much money at all. Therefore, in addition to your discussions and proposals for Wales-wide social letting agencies for general housing need, what proposals do you have to utilise models such as Cefni Lettings in order to roll that out for the most vulnerable who are in need across Wales?

Huw Lewis: Once again, the Member is quite right; I agree with him wholeheartedly and with the National Landlords Association on this point. Discussions and thinking have begun and are well under way in terms of how we could promote and increase the spread of access agencies and those bond schemes that are often associated with access agencies. I have been very impressed by this when I have seen it operating well. I have seen the difference it makes to those who are in a vulnerable position vis-à-vis potential homelessness. I want to see that good practice spread across Wales. Once again, that discussion between the private rented sector, the third sector and local authorities, led by the Welsh Government, will be central to that. The proposals will be laid out in more detail in the White Paper.

pobl i gael ffydd ynddi oherwydd, yn y pen draw, mae'n gwbl amlwg yn fy marn i fod angen inni gyfeirio rhagor o bobl at sector rhentu preifat sy'n tyfu.

Mark Isherwood: Rwyf yn croesawu'r ymateb hwnnw. Yn ychwanegol at y ddarpariaeth gyffredinol o asiantaethau gosod tai cymdeithasol, ceir angen amlwg hefyd am asiantaethau i ddarparu mynediad i'r sector rhentu preifat, fel Cefni Lettings, er mwyn cynnig tai i'r rhai mwyaf agored i niwed a chefnogi pobl yn y tai hynny—a dileu unrhyw risg i landlordiaid. Unwaith eto, cafwyd cais gan Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid ac eraill i gyflwyno hynny drwy Gymru gyfan. Mae wedi dweud na fydd angen llawer o arian o gwbl ar gyfer hynny. Felly, yn ychwanegol at eich trafodaethau a'ch cynigion ar gyfer asiantaethau gosod tai cymdeithasol Cymru gyfan i ddiwallu anghenion tai cyffredinol, pa gynigion sydd gennych i ddefnyddio modelau fel Cefni Lettings er mwyn cyflwyno hynny i'r rhai mwyaf agored i niwed sydd mewn angen ar hyd a lled Cymru?

Huw Lewis: Unwaith eto, mae'r Aelod yn llygad ei le; rwyf yn cytuno'n llwyr ag ef a chyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid ar y pwynt hwn. Mae trafodaethau a gwaith meddwl wedi dechrau ac ar y gweill go iawn o ran sut y gallem hyrwyddo'r asiantaethau mynediad hyn a'u lledaenu, yn ogystal â'r cynlluniau bond hynny sy'n aml yn gysylltiedig ag asiantaethau mynediad. Mae hyn wedi cael cryn argraff arnaf pan rwyf wedi ei weld yn gweithio'n dda. Rwyf wedi gweld y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i'r rheini sydd mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu'r posibilrwydd o golli eu cartrefi. Rwyf am weld yr arferion da hynny yn cael eu rhannu ledled Cymru. Unwaith eto, bydd y drafodaeth rhwng y sector rhentu preifat, y trydydd sector ac awdurdodau lleol, o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn ganolog i hynny. Bydd y cynigion yn cael eu nodi'n fanylach yn y Papur Gwyn.

Theatrau Gymunedol

5. Ann Jones: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo theatrau gymunedol yn Nyffryn Clwyd.

Community Theatre

5. Ann Jones: What is the Welsh Government doing to support community theatre in the Vale of Clwyd.

OAQ(4)0102(HRH)

Huw Lewis: I thank the Member for the Vale of Clwyd for that question. Welsh Government arts funding, including community theatre, is channelled through the Arts Council of Wales. The Arts Council of Wales utilises a variety of funding sources to support a wide range of local groups, touring companies and community venues across Wales, concentrating in particular on youth and disability groups.

Ann Jones: Thank you very much for that reply, Minister. I was pleased that Prestatyn's Rhys Ifans is taking on the presidency of the Little Theatre in Rhyl, which was the first purpose-built theatre for children and young people. I think that you have some memories of being there at one time. In tough economic times, these venues need support and it is vital that children and young people can access and take part in the arts, including theatre, regardless of their backgrounds. Do you agree that local authorities and even supportive local businesses should be encouraged to use their numerous procurement and contract arrangements to help with the day-to-day expenses of running community theatres?

Huw Lewis: Thank you for that question, Ann. I of course agree. This, again, is part of the new emphasis we have to place on new avenues in terms of drawing down funding support, expertise and other forms of support to reinforce the agenda, in this case around community arts. These are very tough economic times, so it is imperative that local authorities work with local businesses alongside those community arts and theatre organisations. I have asked the Arts Council of Wales to promote an agenda of collaboration among those organisations. However, nothing can beat a local willingness to retain an emphasis on this agenda. It can be seen as something that is an added extra in very tough times, and I think that we need to remind everyone involved that it is not an added extra and that the arts remain a central part of our quality of life here in Wales, tough times or no.

OAQ(4)0102(HRH)

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd am y cwestiwn hwnnw. Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau, gan gynnwys theatrau cymunedol, yn cael ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cyllid i gefnogi ystod eang o grwpiau lleol, cwmnïau teithio a lleoliadau cymunedol ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau anabled a grwpiau pobl ifanc.

Ann Jones: Diolch yn fawr iawn am eich ymateb, Weinidog. Roeddwn yn falch bod Rhys Ifans gyda'i gysylltiadau â Phrestatyn wedi cael ei enwi'n llywydd Theatr Fach y Rhyl, sef y theatr gyntaf i gael ei hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc. Credaf fod gennych atgofion o fod yno ar un adeg. Mewn cyfnod economaidd anodd, mae angen cymorth ar y canolfannau hyn, ac mae'n hollbwysig bod plant a phobl ifanc yn gallu mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau, gan gynnwys theatrau, beth bynnag fo'u cefndir. A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau lleol, a busnesau lleol cefnogol hyd yn oed, gael eu hannog i ddefnyddio eu trefniadau caffael a'u contractau lu i helpu gyda'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg theatrau cymunedol o ddydd i ddydd?

Huw Lewis: Diolch am y cwestiwn hwnnw, Ann. Rwyf yn cytuno wrth gwrs. Mae hyn, unwaith eto, yn rhan o'r pwyslais newydd y mae'n rhaid inni ei roi ar lwybrau newydd o ran denu cymorth ariannol, arbenigedd a mathau eraill o gymorth i atgyfnerthu'r agenda, sef ym maes celfyddydau cymunedol yn yr achos hwn. Mae hwn yn gyfnod economaidd anodd iawn, felly mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda busnesau lleol ochr yn ochr â'r mudiadau theatr a chelfyddydau cymunedol hynny. Rwyf wedi gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru hybu cydweithredu ymhlith y cyrff hynny. Fodd bynnag, nid oes dim a all guro parodrwydd lleol i gynnal y pwyslais ar yr agenda hon. Gellir edrych arno fel rhywbeth ychwanegol mewn cyfnod anodd iawn, a chredaf fod angen inni atgoffa pawb o dan sylw nad rhywbeth ychwanegol ydyw a bod y celfyddydau yn dal yn rhan ganolog o ansawdd ein bywyd yma yng

Nghymru, cyfnod anodd neu beidio.

Suzy Davies: Minister, the Scala cinema in Prestatyn has been instrumental in bringing cinema and theatre back into the heart of the community and improving community engagement. Residents of Porthmadog are trying to save the Coliseum, inspired by what the Scala has achieved. What assistance or guidance can the Welsh Government give to local people trying to save their community assets, perhaps including Port Talbot as well as the Vale of Clwyd?

Suzy Davies: Weinidog, mae sinema Scala ym Mhrestatyn wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod y sinema a'r theatr yn ganolog i'r gymuned unwaith eto, ac wrth wella cyswllt â'r gymuned. Mae trigolion Porthmadog yn ceisio achub y Coliseum, ar ôl cael eu hysbrydoli gan yr hyn y mae Scala wedi'i gyflawni. Pa gymorth neu arweiniad y gall Llywodraeth Cymru ei roi i bobl leol sy'n ceisio achub asedau eu cymunedau, gan gynnwys Port Talbot efallai yn ogystal â Dyffryn Clwyd?

Huw Lewis: As the Member will be aware, there are many avenues through which committed local groups could seek advice and support. You have to begin at the end in these circumstances because the end use and the sustainability of the end use of such a building are the most important things. Then, the conversation can begin about who is in a position to support it and which colleagues we should bring into the discussion to come up with a sustainable end use for such venues and such well loved pieces of our built heritage. With regard to Porthmadog specifically, I would be very happy to investigate as thoroughly as I can what the Welsh Government could do to assist in terms of advice or perhaps something more substantial, if possible.

Huw Lewis: Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae nifer o lwybrau y gallai grwpiau lleol ymroddedig eu dilyn er mwyn cael gafael ar gyngor a chymorth. Rhaid ichi ddechrau yn y diwedd yn yr amgylchiadau hyn gan mai'r hyn sydd bwysicaf yw gwneud yn siŵr bod yr adeilad, yn y pen draw, yn cael ei ddefnyddio ac yn gynaliadwy. Yna, gellir dechrau siarad am bwy sydd mewn sefyllfa i'w gefnogi a pha gydweithwyr y dylem drafod â nhw er mwyn dod o hyd i ffordd gynaliadwy o ddefnyddio'r lleoliadau hyn yn ogystal â darnau o'n treftadaeth adeiledig—sydd mor agos at ein calon—mewn ffordd gynaliadwy. O ran Porthmadog yn benodol, byddwn yn fwy na bodlon ymchwilio mor drylwyr ag y gallaf i'r hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu, o ran cyngor neu efallai rhywbeth mwy sylweddol, os yw hynny'n bosibl.

The Presiding Officer: Geography lessons might be helpful.

Y Llywydd: Efallai y byddai gwersi daearyddiaeth yn ddefnyddiol.

Blaenoriaethau

Priorities

6. Lynne Neagle: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Tor-faen yn 2012. OAQ(4)0106(HRH)*

6. Lynne Neagle: *Will the Minister make a statement on his priorities for Torfaen in 2012. OAQ(4)0106(HRH)*

Huw Lewis: I am committed to fulfilling, across Wales, the commitments set out for my portfolio in the programme for government. These include wider access to high-quality arts for all, maximising participation and performance in sport, delivering extra homes to meet increasing housing need and the introduction of the housing and heritage Bills.

Huw Lewis: Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni'r ymrwymadau a nodwyd ar gyfer fy mhortffolio yn y rhaglen lywodraethu, a hynny drwy Gymru gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad ehangach i gelfyddydau o safon uchel, gwella lefelau cyfranogiad a pherfformiad yn y byd chwaraeon, cyflenwi cartrefi ychwanegol i ddiwallu mwy a mwy o anghenion o ran tai a chyflwyno'r Biliau Tai

a Threftadaeth.

Lynne Neagle: As the Tories in Westminster slash taxes for the very richest in society, they are now effectively planning to tax the spare bedrooms of the very poorest. Given that we know that 40,000 households across Wales are set to lose £500 a year—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. Can we please concentrate on the Welsh aspect of things? I would also like to be able to hear what Lynne Neagle is saying.

Lynne Neagle: Given that we know that 40,000 households across Wales will lose an average of £500 a year of their housing benefit if they are deemed to be underoccupying, including well over 2,000 households in my constituency alone, I believe that this is no less than a new housing crisis in the making. Minister, I appreciate that you are not able to wave a magic wand, given the pressures your department is facing, but will you commit to doing everything you can to work with social landlords and local authorities to help them prepare for and adapt to these incredibly pernicious changes?

Huw Lewis: I thank the Member for Torfaen for that question and those points. Of course, this is very much a Welsh issue because, despite the fact that the UK Government is making these changes and that, obviously, I and this Welsh Government have no control over the changes to housing benefit, we will be expected to deal with the fallout from these changes. With that in mind, and to mitigate the potential impact of these changes, we have started work to try to understand the scale of the problem and what kind of action we can take to help people. There are three pilot scheme areas identified for the work: one is Swansea, Neath Port Talbot and Bridgend working together; the second is Powys, Ceredigion and Flintshire working together; and the third is Wrexham and Denbighshire working together. If you add these changes on underoccupancy, as it is called, to the fact that 99% of claimants are already worse off as a result of the April 2012 housing benefit changes—that is almost all benefit recipients in Wales at least £9 a

Lynne Neagle: Gan fod y Torïaid yn San Steffan yn cwtogi trethi'r bobl gyfoethocaf yn y gymdeithas, i bob pwrpas maent yn awr yn bwriadu trethu ystafelloedd gwely sbâr y bobl dlotaf. Gan gofio ein bod yn gwybod bod 40,000 o gartrefi ledled Cymru am golli £500 y flwyddyn—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. A allwn ganolbwyntio ar sefyllfa Cymru os gwelwch yn dda? Byddwn hefyd yn hoffi gallu clywed yr hyn sydd gan Lynne Neagle i'w ddweud.

Lynne Neagle: O ystyried ein bod yn gwybod y bydd 40,000 o gartrefi ledled Cymru yn colli £500 y flwyddyn ar gyfartaledd o'u budd-dal tai mewn achosion o danddefnyddio, gan gynnwys ymhell dros 2,000 o gartrefi yn fy etholaeth i yn unig, credaf nad yw hyn yn ddim llai na chreu argyfwng tai newydd. Weinidog, rwyf yn sylweddoli nad ydych yn gallu chwifio ffon hud, gan gofio am y pwysau y mae eich adran yn ei wynebu, ond a wnewch ymrwymo i wneud popeth yn eich gallu i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol i'w helpu i baratoi ar gyfer y newidiadau hynod niweidiol hyn ac i addasu ar eu cyfer?

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros Dor-faen am y cwestiwn hwnnw ac am y pwyntiau hynny. Wrth gwrs, mae hyn yn sicr yn fater i Gymru. Er mai Llywodraeth y DU sy'n gwneud y newidiadau hyn ac, yn amlwg, nid oes gennyf fi na Llywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros y newidiadau mewn budd-dal tai, bydd disgwyl inni ymdrin â chanlyniadau'r newidiadau hyn. Gyda hynny mewn golwg, ac i liniaru effaith bosibl y newidiadau hyn, rydym wedi dechrau gweithio i geisio deall maint y broblem a pha fath o gamau y gallwn eu cymryd i helpu pobl. Mae tair ardal beilot wedi cael eu pennu ar gyfer y gwaith: yn yr ardal gyntaf bydd Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda'i gilydd; yn yr ail ardal bydd Powys, Ceredigion a sir y Fflint yn gweithio gyda'i gilydd, ac yn y drydedd ardal bydd Wrecsam a sir Ddinbych yn gweithio gyda'i gilydd. Os ychwanegwch y newidiadau hyn o ran tanddefnyddio, fel y'i gelwir, at y ffaith bod 99 y cant o hawlwr eisoes yn waeth eu byd o ganlyniad i'r

week worse off already—to the fact that 40,000 households in Wales will be at least £11 a week worse off in April 2013, and you quickly begin to grasp that what we are talking about here, without the ability for 40,000 households to rapidly downsize, and I do not know where those smaller properties are in such numbers, is a destabilisation of the social housing system in Wales on a mass scale.

newidiadau i fudd-dal tai ym mis Ebrill 2012—gyda bron i bawb yng Nghymru sy'n derbyn budd-daliadau yn cael o leiaf £9 yn llai bob wythnos yn barod—ac at y ffaith y bydd 40,000 o aelwydydd yng Nghymru yn cael o leiaf £11 yn llai bob wythnos ym mis Ebrill 2013, mae rhywun yn dechrau gweld yn gyflym—heb i 40,000 o aelwydydd allu dod o hyd i gartrefi llai yn gyflym, ac nid wyf yn gwybod lle mae'r tai niferus hynny sy'n llai o faint—bod y system tai cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei hansefydlogi'n aruthrol.

2.45 p.m.

William Graham: Minister, you will be aware that Assembly statistics highlight that the population of Torfaen will remain static for the foreseeable future. However, there remain 3,300 applicants on the housing waiting list in Labour-controlled Torfaen. The local development plan proposes that some 6,000 new dwellings should be constructed. Within that planning policy, will you have influence to ensure that there will be accurate and correct statistics to support creating commuter zones and the services that those zones require?

William Graham: Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod ystadegau'r Cynulliad yn dangos y bydd poblogaeth Tor-faen yn aros yn sefydlog yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae 3,300 o ymgeiswyr yn dal ar y rhestr aros am dai yn Nhor-faen, sydd o dan arweinyddiaeth y Blaid Lafur. Mae'r cynllun datblygu lleol yn cynnig y dylid adeiladu oddeutu 6,000 o anheddau newydd. O fewn y polisi cynllunio hwnnw, a fydd gennych ddylanwad i sicrhau ystadegau cywir i gefnogi'r gwaith o greu parthau cymudwyr a'r gwasanaethau y mae eu hangen ar gyfer y parthau hynny?

Huw Lewis: I thank the Member for that point and question. Much of what he said would be a matter for the local planning authority. I am relieved that at least Torfaen does have an LDP with which we can work and that it seems to have a good grasp of the fact that there is housing need within Torfaen. Those two things are the first vital elements in terms of tackling the problem.

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod am y pwynt a'r cwestiwn hwnnw. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol fyddai cryn dipyn o'r hyn a ddywedodd. Rwyf yn falch bod gan Dor-faen o leiaf gynllun datblygu lleol y gallwn weithio ag ef, a'i fod i bob golwg yn deall yn dda bod angen tai yn Nhor-faen. Y ddau beth hynny yw'r elfennau cyntaf hanfodol i fynd i'r afael â'r broblem.

Lindsay Whittle: I know that you are currently reviewing the approach to regeneration that you intend to pursue post 2013, as transport poverty increases. It is the hottest topic in Wales at the moment due to rising fuel prices, and public transport remains poor throughout many parts of Wales. How will you ensure that your new approach to regeneration will specifically account for sustainability and promotion of local employment, and, in particular, for vulnerable communities such as those in Torfaen?

Lindsay Whittle: Gwn eich bod wrthi'n adolygu'r ymagwedd at adfywio y bwriadwch ei dilyn ar ôl 2013, wrth i dlodi trafndiaeth gynyddu. Hwn yw'r pwnc mwyaf llosg yng Nghymru ar hyn o bryd o ganlyniad i'r prisiau tanwydd sydd ar gynydd, ac mae trafndiaeth gyhoeddus yn dal yn wael ar draws sawl rhan o Gymru. Sut y byddwch yn sicrhau y bydd eich ymagwedd newydd at adfywio yn cyfrif yn benodol am gynaliadwyedd a hyrwyddo cyflogaeth leol, ac, yn benodol, i gymunedau bregus fel y rheini yn Nhor-faen?

Huw Lewis: I thank the Member for that question, which is so specific to Torfaen. Our review of regeneration policy and philosophy, if you like, is a root and branch review. I have recently announced that review, and it will run for 12 months. It will take us into a period post 2013 when we will have to face up to doing regeneration rather differently, in very different budgetary circumstances, apart from anything else. However, even though we are facing much more challenging times when it comes to the amount of resource that Ministers might have at their disposal, I am keen that the quid pro quo for that unfortunate part of the situation is that we step up, by several degrees, our efforts to make more holistic our regeneration interventions in communities up and down Wales. Transport and employment will be absolutely central to that. I am very keen that Communities First partnerships, for example, are encouraged to step up in terms of the degree of strategic grasp that they might want to take of the local situation now that they are being clustered together and would perhaps be able to take on bigger and more strategic projects themselves, in partnership with others.

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw, sydd mor benodol i Dor-faen. Mae ein hadolygiad o bolisi adfywio ac athroniaeth, os mynnwch, yn adolygiad cyflawn iawn. Rwyf wedi cyhoeddi'r adolygiad hwnnw yn ddiweddar, a bydd yn parhau am 12 mis. Bydd yn mynd â ni i gyfnod ar ôl 2013 pryd y bydd yn rhaid inni edrych ar adfywio mewn ffordd wahanol, o dan amgylchiadau cyllidebol gwahanol iawn, ar wahân i unrhyw beth arall. Fodd bynnag, er ein bod yn wynebu cyfnodau mwy heriol o lawer o ran faint o adnoddau a allai fod ar gael i Weinidogion, rwyf yn meddwl mai'r quid pro quo ar gyfer y rhan anffodus honno o'r sefyllfa yw ein bod yn gwella cryn dipyn ar ein hymdrechion i wneud ein hymyriadau adfywio mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru yn fwy cyfannol. Bydd trafndiaeth a chyflogaeth yn gwbl ganolog i hynny. Gan fod partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu clystyru gyda'i gilydd, rwyf yn awyddus iawn eu bod, er enghraifft, yn cael eu hannog i gael mwy o afael strategol ar y sefyllfa leol ac y byddai modd iddynt efallai ysgwyddo prosiectau mwy a mwy strategol eu hunain, mewn partneriaeth ag eraill.

Y Diwydiant Yswiriant

The Insurance Industry

7. Jenny Rathbone: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod tenantiaid tai cymdeithasol yn cael eu trin yn deg gan y diwydiant yswiriant. OAQ(4)0113(HRH)*

7. Jenny Rathbone: *What is the Welsh Government doing to ensure that social housing tenants are fairly treated by the insurance industry. OAQ(4)0113(HRH)*

Huw Lewis: I thank the Member for Cardiff Central for that very pertinent question. As part of the financial inclusion strategy for Wales, 'Taking Everyone into Account', the financial inclusion champions team is working with social landlords to increase the numbers of insurance companies who offer appropriate home contents insurance schemes for tenants. They are also encouraging the take-up of existing schemes where available. However, I recognise that there is a real problem here.

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd am y cwestiwn perthnasol hwnnw. Fel rhan o'r strategaeth cynhwysiant ariannol ar gyfer Cymru, 'Mae Pawb yn Cyfrif', mae'r tîm o hyrwyddwyr cynhwysiant ariannol yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i gynyddu nifer y cwmnïau yswiriant sy'n cynnig cynlluniau yswiriant cynnwys cartref priodol ar gyfer tenantiaid. Maent hefyd yn annog pobl i ddefnyddio'r cynlluniau presennol pan fyddant ar gael. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod y ceir problem go iawn yn y fan hon.

Jenny Rathbone: One of my constituents had huge difficulty getting contents insurance because the tenant in the place she was renting was nominated by a housing association. There she was offering a home to

Jenny Rathbone: Roedd un o'm hetholwyr yn ei chael yn anodd iawn cael yswiriant cynnwys gan fod y tenant yn y man roedd hi'n ei osod ar rent wedi cael ei enwebu gan gymdeithas tai. Er ei bod yn cynnig cartref i

somebody who needed a home and who did not qualify for local authority housing and two companies downright refused to give a quotation, and another increased the insurance considerably. I am concerned to read that nearly half of all social-rented households do not have any contents insurance, compared with only one in five owner-occupier households. There is a serious possibility that the insurance industry is simply redlining areas that they do not wish to insure. I wonder what the Government can do about it.

Huw Lewis: The Member for Cardiff Central puts her finger on a very important and disturbing set of statistics. As I mentioned, the Welsh Government funds the financial inclusion champions team to work with social landlords, and I would advise social housing tenants to, at least, as a first port of call in this regard, contact their landlords to see what kind of schemes and advice they can extend. Alternatively, there are a growing number of credit unions throughout Wales that offer affordable contents insurance, and we need that number to grow.

Paul Davies: Following on from the points made by the Member for Cardiff Central, what discussions or meetings has the Minister had with key insurance representatives regarding home insurance for social tenants?

Huw Lewis: As yet, meetings have not taken place, but I can assure the Member that they will. I recognise that this is a very real problem. I also intend to contact my ministerial colleagues with regard to the assistance that credit unions may be able to extend in this regard.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, rwy'n falch o glywed eich bod yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon, sy'n broblem ledled Cymru i denantiaid. Rydych yn sôn am weithio gyda landlordiaid ac rydych yn sôn am undebau credyd. Sut yr ydych yn mynd i sicrhau bod y tenantiaid eu hunain yn cael y wybodaeth hon am y cymorth a'r opsiynau sydd ar gael iddynt?

rywun a oedd angen cartref ac nad oedd yn gymwys ar gyfer tai awdurdod lleol, gwrthododd dau gwmni yn llwyr roi dyfynbris iddi hyd yn oed, a chynyddodd un arall yr yswiriant yn sylweddol. Mae'n destun pryder imi nad oes gan bron i hanner yr holl gartrefi rhent cymdeithasol unrhyw yswiriant cynnwys, o'i gymharu â dim ond un o bob pump o gartrefi perchen-feddianwyr. Mae posibilrwydd difrifol bod y diwydiant yswiriant yn syml iawn yn amddifadu pobl o yswiriant mewn meysydd nad ydynt am eu hyswirio. Tybed beth y gall y Llywodraeth ei wneud ynghylch hyn.

Huw Lewis: Mae'r Aelod dros Ganol Caerdydd yn nodi ystadegau brawychus sydd hefyd yn bwysig iawn. Fel y soniais, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r tîm o hyrwyddwyr cynhwysiant ariannol i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol, a byddwn yn cynghori tenantiaid tai cymdeithasol, fel man cychwyn o leiaf yn hyn o beth, i gysylltu â'u landlordiaid i weld pa fath o gynlluniau a chynghor y gallant eu rhoi. Neu, ceir mwy a mwy o undebau credyd ledled Cymru sy'n cynnig yswiriant cynnwys fforddiadwy, ac mae angen i'r nifer hwnnw gynyddu.

Paul Davies: Yn dilyn y pwyntiau a wnaed gan yr Aelod dros Ganol Caerdydd, pa drafodaethau neu gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda chynrychiolwyr allweddol o'r byd yswiriant ynghylch yswiriant cartref i denantiaid cymdeithasol?

Huw Lewis: Hyd yn hyn, nid oes unrhyw gyfarfodydd wedi cael eu cynnal, ond gallaf sicrhau'r Aelod y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Rwyf yn cydnabod bod hon yn broblem go iawn. Rwyf hefyd yn bwriadu cysylltu â'm cyd-Weinidogion ynglŷn â'r cymorth y gall undebau credyd ei roi o bosibl yng nghyswllt hyn.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, I am pleased to hear that you are trying to get to grips with this problem, which is a problem for tenants throughout Wales. You mention working with landlords and credit unions. How are you going to ensure that the tenants themselves receive this information about the assistance and options available to them?

Huw Lewis: More and more registered social landlords—in fact, I will stick my neck out and say that almost all registered social landlords—have a good recognition of their wider social mission when it comes to working alongside tenants, and are much more than just landlords. I very much hope that local authorities, where they remain as landlords, take a similar view. We will certainly be taking that view when we draft the housing White Paper. The housing Bill will lay out some of our expectations of partners in terms of the social agency that we would require from larger organisations, in particular, such as RSLs and local authorities. It should be primarily and firstly for those organisations to inform their tenants about all kind of issues and, in particular, financial inclusion issues. I am aware of some very good practice that currently exists across Wales. We need to ensure that all social landlords take that kind of attitude and, indeed, we need to start thinking about how the private rented sector could also work better in this regard.

Huw Lewis: Mae mwy a mwy o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig—yn wir, rhoddaf fy mhen ar y bloc a dweud bod pob landlord cymdeithasol cofrestredig bron—yn gwybod yn iawn beth yw eu nod cymdeithasol ehangach wrth weithio ochr yn ochr â thenantiaid, a'u bod yn fwy o lawer na dim ond landlordiaid. Rwyf yn gobeithio'n fawr fod awdurdodau lleol, pan maent hwythau'n landlordiaid, yn gwneud rhywbeth tebyg. Byddwn yn sicr yn ystyried hynny pan fyddwn yn drafftio'r Papur Gwyn ar Dai. Bydd y Bil Tai yn nodi ambell beth rydym yn ei ddisgwyl gan bartneriaid o ran yr asiantaeth gymdeithasol y byddem yn gofyn amdani gan sefydliadau mwy yn enwedig, fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol. Lle'r sefydliadau hynny yn gyntaf yw rhoi gwybod i'w tenantiaid am faterion o bob math, ac am faterion cynhwysiant ariannol yn benodol. Rwyf yn ymwybodol o rywfaint o arferion da iawn sy'n bodoli ar hyn o bryd ar draws Cymru. Mae angen inni sicrhau bod yr holl landlordiaid cymdeithasol yn arddel yr agwedd honno ac, yn wir, mae angen inni ddechrau ystyried sut y gallai'r sector rhentu preifat weithio'n well yn hyn o beth hefyd.

Darpariaeth Tai yng Nghanol Trefi

8. William Powell: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth tai yng nghanol trefi yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0109(HRH)*

Huw Lewis: I thank William Powell for that question. I am keen to see housing considered as an option in town centres where there are vacant retail premises and where that is in keeping with housing need and the regeneration strategy of the local authority. This, I hope, will encourage the revitalisation of town centres in Wales, which are currently under pressure, as we all know, due to the recession and other reasons.

William Powell: I thank the Minister for that answer. The Welsh Liberal Democrats are united in welcoming the Welsh Government's acceptance of recommendation 10 of the Enterprise and Business Committee's report on town-centre regeneration, which picks up this very topic

Town-centre Housing Provision

8. William Powell: *Will the Minister make a statement on town centre housing provision in Mid and West Wales. OAQ(4)0109(HRH)*

Huw Lewis: Diolch i William Powell am y cwestiwn hwnnw. Rwyf yn awyddus i weld tai yn cael eu hystyried yn opsiwn yng nghanol trefi lle ceir adeiladau siopau gwag, pan fydd hynny'n cyd-fynd â'r angen am dai a strategaeth adfywio'r awdurdod lleol. Bydd hyn, gobeithio, yn hybu adfywio canol trefi yng Nghymru, sydd o dan bwysau ar hyn o bryd, fel y gwyddom oll, oherwydd y dirwasgiad a rhesymau eraill.

William Powell: Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn unedig wrth groesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad 10 adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi, sy'n ymdrin â'r union bwnc hwn o fyw yng

of town-centre living. We also welcome the Welsh Government's recently launched landlord loan scheme, which has much to commend it. However, having engaged with people in the sector, I have become aware that there is a problem with regard to the time frames for repayment. Specifically, the Welsh Government's new scheme is looking to achieve repayment within only three years for regeneration schemes for rental properties and two years for regeneration for sale.

The Presiding Officer: Order. Are you coming to a question?

William Powell: Indeed. Best practice within local authorities suggests a shorter time frame. Will the Minister consider looking at best practice in that area to ensure that the scheme is fit for purpose to achieve the success that is so important to all of us?

Huw Lewis: I thank William Powell for those points. He is quite right, and I would echo his sentiments, as regards the residential development option in our town-centre regeneration work being an absolutely critical part of the way that we proceed. The committee has been unanimous in its view, and I think that it is quite correct that looking at retail alone will not solve the problems of any of our town centres; we have to throw the net wider in terms of the use that is made of our town centres up and down Wales. On the time frames for repayments, these are based on a series of best practice initiatives that we have studied, particularly those run by Kent County Council. They were not pulled out of the air, but based on real repayment timescales that were run for several years through Kent County Council. I am always willing, of course, to look at any concerns that Members may have in this regard and if the Member would like to write to me or to meet to talk through the detail of this, I would be more than happy to do so.

Russell George: One recommendation of the Portas review was for the use of empty shops and high-street properties by the community through a community right to buy. Mary Portas said that the use of these properties for housing should be a high priority. A

nghanol trefi. Rydym hefyd yn croesawu'r cynllun benthyciadau i landlordiaid sydd newydd gael ei lansio gan Lywodraeth Cymru—mae llawer i'w gymeradwyo ynddo. Fodd bynnag, wedi ymgysylltu â phobl yn y sector, rwyf wedi sylweddoli bod problem yn y cyfnodau ad-dalu. Yn benodol, mae cynllun newydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael yr ad-daliad o fewn dim ond tair blynedd i gynlluniau adfywio ar gyfer eiddo i rentu, a dwy flynedd ar gyfer adfywio i werthu.

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn bwriadu gofyn cwestiwn?

William Powell: Yn wir. Mae'r arferion gorau o fewn awdurdodau lleol yn awgrymu cyfnod byrrach. A wnaiff y Gweinidog ystyried edrych ar arferion gorau yn y maes hwnnw i sicrhau bod y cynllun yn addas at y pwrpas i sicrhau'r llwyddiant sydd mor bwysig i bob un ohonom?

Huw Lewis: Diolch i William Powell am y pwyntiau hynny. Mae'n hollol iawn, a byddwn yn ategu ei safbwyntiau, sef bod yr opsiwn datblygu preswyl yn ein gwaith ar adfywio canol trefi yn rhan gwbl hanfodol o'r ffordd rydym yn bwrw ymlaen. Roedd y pwyllgor yn unfrydol, ac rwyf yn meddwl ei bod yn gywir dweud na fydd edrych ar siopau yn unig yn datrys problemau dim un canol tref; mae'n rhaid inni edrych yn ehangach ar y modd rydym yn defnyddio canol ein trefi ar hyd a lled Cymru. O ran y cyfnodau ad-dalu, mae'r rhain yn seiliedig ar gyfres o fentrau arferion gorau rydym wedi eu hastudio, yn enwedig y rheini sy'n cael eu rhedeg gan Gyngor Sir Caint. Nid ydynt wedi cael eu creu o ddim byd—maent yn seiliedig ar gyfnodau ad-dalu go iawn a fu ar waith am flynyddoedd lawer drwy Gyngor Sir Caint. Rwyf bob amser yn barod, wrth gwrs, edrych ar unrhyw bryderon sydd gan Aelodau yn hyn o beth, ac os byddai'r Aelod yn hoffi ysgrifennu ataf neu gael cyfarfod â mi i drafod y manylion hyn, byddwn yn fwy na bodlon gwneud hynny.

Russell George: Un o argymhellion adolygiad Portas oedd i'r gymuned ddefnyddio siopau ac adeiladau gwag ar y stryd fawr drwy gyfrwng cynlluniau hawl i brynu cymunedol. Dywedodd Mary Portas y dylid rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio'r

community right to buy in England was built into the Localism Act 2011; I understand that the Welsh Government was going to examine this in more detail and undertake its own consultation. Do you support the principle of a community right to buy and will the Government consult on this in the near future?

Huw Lewis: Again, I remind the Member that the Portas review referred to England and that we have our own work going on in Wales, primarily through the good work of our committees in the National Assembly for Wales. I understand that the committee has not highlighted a community right to buy in its report—I am willing to stand corrected if that is not the case, but I understand that that is the situation. I am willing to look at all options when it comes to the menu that we can draw from in order to regenerate town centres, particularly if, for an individual town centre, such a thing could be seen as a solution: in other words, that there is a specific problem that could be solved by something like a community right to buy. I would not say for a moment that that would be a solution that would fit every single town centre across Wales, but there may be those where it would fit, and I would be very interested and willing to look at these sorts of measures in that regard. Again, our debate around regeneration strategy and legislative changes will no doubt include consideration of this issue.

Simon Thomas: Developing town-centre sites for affordable and energy-efficient homes can often be expensive. Will you take the opportunity to visit the Coed Cymru Tŷ Unnos project, which is looking to use Welsh wood to develop affordable, much cheaper homes that are flexible, adaptable and can be placed on awkward sites without needing a great deal of prior site building work and are available now for development, which is a virtuous circle of using Welsh products and skills to develop Welsh affordable homes? I hope that you will take the opportunity to visit one of the projects.

adeiladau hyn ar gyfer tai. Cafodd hawl i brynu cymunedol yn Lloegr ei gynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011; caf ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn mynd i edrych ar hyn yn fanylach ac ymgymryd â gwaith ymgynghori ei hun. A ydych yn cefnogi'r egwyddor o hawl i brynu cymunedol ac a fydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar hyn yn y dyfodol agos?

Huw Lewis: Unwaith eto, rwyf yn atgoffa'r Aelod mai at Loegr yr oedd adolygiad Portas yn cyfeirio a'n bod yn cynnal ein gwaith ein hunain yng Nghymru, yn bennaf drwy waith da ein pwyllgorau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Caf ar ddeall nad yw'r pwyllgor wedi tynnu sylw at hawl i brynu cymunedol yn ei adroddiad—rwyf yn barod i gael fy nghywiro os nad yw hynny'n wir, ond caf ar ddeall mai dyna'r sefyllfa. Rwyf yn barod i ystyried yr holl opsiynau wrth edrych ar y dewisiadau ar gyfer adfywio canol trefi, yn enwedig pe bai'n bosibl cael y fath beth ag ateb ar gyfer canol tref: mewn geiriau eraill, y ceir problem benodol y gellid ei datrys gyda rhywbeth fel hawl i brynu cymunedol. Ni fyddwn yn dweud am eiliad y byddai hynny'n ateb a fyddai'n addas ar gyfer pob canol tref ar draws Cymru, ond efallai y byddai'n addas i ambell un, a byddai gennyf gryn dipyn o ddiddordeb yn y mathau hyn o fesurau yng nghyswllt hynny, a byddwn yn barod i edrych arnynt. Unwaith eto, bydd ein dadl ynglŷn â'r strategaeth adfywio a newidiadau deddfwriaethol yn bendant yn ystyried y mater hwn.

Simon Thomas: Mae'r gwaith o ddatblygu safleoedd yng nghanol trefi i greu tai fforddiadwy sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn aml yn gallu bod yn ddud. A wnewch fanteisio ar y cyfle i ymweld â phrosiect Tŷ Unnos Coed Cymru, sydd am ddefnyddio coed o Gymru i greu cartrefi fforddiadwy? Mae'r cartrefi hyn yn rhatach o lawer ac yn hyblyg, yn gallu cael eu haddasu ac yn gallu cael eu lleoli mewn safleoedd lletchwith heb orfod gwneud llawer iawn o waith adeiladu ar y safle ymlaen llaw. Mae'r rhain ar gael nawr i'w datblygu, ac mae'n enghraifft o gylch rhinweddol o ddefnyddio cynnyrch a sgiliau o Gymru i ddatblygu cartrefi fforddiadwy yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle i ymweld ag un o'r prosiectau.

Huw Lewis: I thank Simon Thomas for that invitation. I am always willing to look at Welsh manufacturers that are involved in housing production. Being able to source local Welsh materials is a double whammy in terms of the positive effect that it can have through housing investment, so I would be happy if Simon Thomas were to give me some more details so that I could visit that Welsh company, as part of a growing list of companies that I will visit.

Huw Lewis: Diolch i Simon Thomas am y gwahoddiad hwnnw. Rwyf bob amser yn barod i edrych ar weithgynhyrchwyr o Gymru sy'n ymwneud â chynhyrchu tai. Mae gallu cael gafael ar ddeunyddiau lleol o Gymru yn dyblu'r effaith gadarnhaol y gall ei chael drwy fuddsoddi mewn tai. Byddwn yn falch felly pe bai Simon Thomas yn gallu rhoi rhagor o fanylion imi er mwyn i mi allu ymweld â'r cwmni hwnnw o Gymru, fel rhan o restr gynyddol o gwmnïau y byddaf yn ymweld â hwy.

Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau Motions to Elect Members to Committees

Cynnig NDM4956 Rosemary Butler

Motion NDM4956 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Leanne Wood (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) as a member of the Enterprise and Business Committee in place of Leanne Wood (Plaid Cymru).

Cynnig NDM4957 Rosemary Butler

Motion NDM4957 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Lindsay Whittle (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Leanne Wood (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Lindsay Whittle (Plaid Cymru) as a member of the Public Accounts Committee in place of Leanne Wood (Plaid Cymru).

3.00 p.m.

Jocelyn Davies: I move the motions.

Jocelyn Davies: Cynigiau y cynigion.

The Presiding Officer: Thank you. Unless there are any objections, I propose that the votes on the motions are grouped. I see that there are no objections. The proposal is to agree the motions. Does any Member object? I see that there are no objections. The motions are therefore agreed, in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y Llywydd: Diolch. Oni bai fod unrhyw wrthwynebiadau, cynigiau fod y pleidleisiau ar y cynigion yn cael eu grwpio. Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Y cynnig yw bod y cynigion yn cael eu derbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynigion, felly, wedi'u derbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynigion
Motions agreed.*

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Adfywio Canol Trefi The Enterprise and Business Committee's Report on the Regeneration of Town Centres

Cynnig NDM4952 Nick Ramsay

Motion NDM4952 Nick Ramsay

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Adfywio Canol Trefi a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ionawr 2012.

Notes the Report of the Enterprise and Business Committee: The Regeneration of Town Centres which was laid in the Table Office on 25 January 2012.

Nick Ramsay: I move the motion.

Nick Ramsay: Cynigiaf y cynnig.

It was Napoleon who labelled Britain a nation of shopkeepers, intending it to be a slight against the national character.

Napoleon alwodd Prydain yn genedl o fân farsiantdwy, gyda'r bwriad o fychanu' ei chymeriad cenedlaethol.

Jeff Cuthbert: What happened to him, then? [*Laughter.*]

Jeff Cuthbert: Beth ddigwyddodd iddo felly? [*Chwerthin.*]

Nick Ramsay: I was a little bit fearful about starting off with that line. [*Laughter.*] As William says, I should clarify this by stating that I was referring to Napoleon Bonaparte.

Nick Ramsay: Roedd gennyf ychydig o ofn dechrau gyda'r llinell honno. [*Chwerthin.*] Fel y dywed William, dylwn egluro hyn drwy ddweud fy mod yn cyfeirio at Napoleon Bonaparte.

I would argue that this description should have been seen as a compliment by shopkeepers across the UK. Traditionally, Wales, like the rest of the UK, has seen communities develop around town and village centres, with shops and businesses run by hard-working local people, forming the focal point of these communities. Vital, vibrant town centres are at the heart of sustainable communities, and they are core to a healthy and prosperous Welsh economy. In recent years, however, the traditional high street has declined, and in some areas it has disappeared altogether. This has changed the shape and structure of our communities beyond all recognition. I am therefore pleased, as Chair of the Enterprise and Business Committee, to open this debate on our report on the regeneration of town centres.

Byddwn i'n dadlau y dylai mân farsiantdwy ym mhob cwr o'r DU fod wedi ystyried y disgrifiad hwn yn ganmoliaeth. Yn draddodiadol mae Cymru, fel gweddill y DU, wedi gweld cymunedau'n datblygu o amgylch canol trefi a phentrefi, wrth i siopau a busnesau a redir gan bobl leol weithgar ddod yn ganolbwynt i'r cymunedau hyn. Mae canol trefi llewyrchus a hanfodol wrth galon cymunedau cynaliadwy, ac maent yn greiddiol i sicrhau economi iach a ffyniannus i Gymru. Fodd bynnag, mae'r stryd fawr draddodiadol wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae wedi diflannu'n gyfan gwbl mewn rhai ardaloedd. Mae hyn wedi newid ffurf a strwythur ein cymunedau fel nad oes modd eu hadnabod bellach. Felly mae'n bleser gennyf, fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, agor y ddadl hon ynghylch ein hadroddiad ar adfywio canol trefi.

Over a period of four months, the committee heard evidence from a range of key stakeholders. I will take this opportunity to

Dros gyfnod o bedwar mis, bu'r pwyllgor yn gwrandao ar dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid allweddol. Manteisiaf ar y cyfle

thank all those people who took the time to speak to us or to send us their views. My particular thanks go to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage for co-ordinating evidence across a range of Government departments—not always an easy task—and for responding so positively to our report and recommendations. I also wish to thank the Federation of Small Businesses for engaging so many of its members in contributing evidence to our inquiry.

Our committee was well aware of the Portas review of British high streets, commissioned by the Westminster Government, but we wanted to focus our inquiry on the future of Welsh town centres. We made 21 recommendations to the Welsh Government in our report, and I am delighted that the Minister has agreed to 20 of those recommendations in full and one in principle. I am glad that we have given the Government much to think about and act upon in recent and coming months.

There are a few recommendations that I would particularly like to highlight. Recommendation 1 is that the Welsh Government should ensure that 'Planning Policy Wales' fully protects town centres from the potential impacts of out-of-town retail developments and should improve the implementation of national and local planning policy. If the Government can get the planning framework right, much good development will follow. We shall therefore be keeping a keen eye on the Government's revisions to 'Planning Policy Wales' to ensure that it delivers the outcomes for town centres that we have identified in our report.

Recommendation 4 is that the Welsh Government should commission research on the effects that supermarkets can have on the quality of town centres, and that local retail impact assessments should be obligatory for all supermarket proposals. Again, I am pleased that the Minister has accepted this recommendation, and I would also like to ask him when and how he plans to commission the research that he promised. Over a period

hwn i ddiolch i'r holl bobl hynny a roddodd o'u hamser i siarad â ni neu i anfon eu sylwadau atom. Diolch yn arbennig i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth am gyd-drefnu tystiolaeth ar draws amryw o adrannau'r Llywodraeth—tasg nad yw bob amser yn hawdd—ac am ymateb mor gadarnhaol i'n hadroddiad a'n hargymhellion. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Ffederasiwn Busnesau Bach am wneud yn siŵr bod cynifer o'i aelodau yn rhoi tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad.

Roedd ein pwyllgor yn ymwybodol iawn o adolygiad Portas o'r stryd fawr ym Mhrydain, a gomisiynwyd gan Lywodraeth San Steffan, ond roeddem yn dymuno i'n hymchwiliad ganolbwyntio ar ddyfodol canol trefi yng Nghymru. Gwnaethom 21 o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ein hadroddiad, ac rwyf yn falch iawn bod y Gweinidog wedi cytuno ar 20 o'r argymhellion hynny yn llawn, ac un mewn egwyddor. Rwyf yn falch ein bod wedi rhoi llawer o bethau i'r Llywodraeth gnoi cil drostynt ac i weithredu arnynt yn ystod y misoedd diwethaf a'r misoedd sydd i ddod.

Hoffwn dynnu sylw at ambell argymhelliad yn benodol. Argymhelliad 1 yw y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod 'Polisi Cynllunio Cymru' yn diogelu canol trefi'n llwyr rhag effeithiau posibl datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi, ac y dylai gymryd camau i wella'r broses o roi polisi cynllunio cenedlaethol a lleol ar waith. Os gall y Llywodraeth gael y fframwaith cynllunio'n iawn, bydd llawer o ddatblygiadau da yn dod yn sgîl hynny. Byddwn felly'n cadw llygad barcud ar ddiwygiadau'r Llywodraeth i 'Polisi Cynllunio Cymru' er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn sicrhau'r canlyniadau rydym wedi eu nodi yn ein hadroddiad ar gyfer canol trefi.

Argymhelliad 4 yw y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil ar effeithiau posibl archfarchnadoedd ar ansawdd canol trefi, ac y dylai asesiadau o'r effaith ar fanwerthwyr lleol fod yn orfodol mewn perthynas â chynigion archfarchnadoedd. Unwaith eto, rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn, a hoffwn hefyd ofyn iddo pryd a sut y mae'n bwriadu comisiynu'r

of four months, the committee heard evidence from a range of key stakeholders. Of course, I am reading from the previous page again. *[Laughter.]* I shall therefore swiftly move on to the next page and to recommendation 6. It was going so well, too. *[Laughter.]*

Recommendation 6 is that the Welsh Government should establish dedicated ministerial leadership for town centres, including the setting up of a town centre policy forum chaired by the lead Minister, which would bring together officials from different departments and key representatives from the private, public and voluntary sectors to share good practice and to identify a plan of action and monitoring framework for regenerating Wales's town centres. Again, I am pleased that this recommendation has been accepted, and I would ask the Minister when he plans to make an announcement on a forum and how the private, public and voluntary sectors will be engaged in that initiative.

Recommendation 7 is that the Welsh Government should integrate sustainable transport planning with planning for town and city centres. Again, I welcome the Minister's response to this recommendation, although I would like to know further details on how integrated and sustainable transport will be developed in towns that are not within the sustainable travel centres initiative.

Recommendation 16 is that the Welsh Government's independent panel on business rates should consider changes in legislation and in the application of discretionary powers, in order to improve the mix and quality of the retail offer in town centres. I am pleased to say that this recommendation, too, has been accepted, and we eagerly await the independent panel's report and recommendations, which were initially promised for last February.

Finally, there is recommendation 3, which is that examples of good practice in stimulating town centres should be promoted and

gwaith ymchwil a addawodd. Dros gyfnod o bedwar mis, bu'r pwyllgor yn gwrandao ar dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid allweddol. Wrth gwrs, rwyf yn darllen y dudalen flaenorol eto. *[Chwerthin.]* Symudaf ymlaen yn gyflym felly i'r dudalen nesaf, ac i argymhelliad 6. Roedd pethau'n mynd mor dda hefyd. *[Chwerthin.]*

Argymhelliad 6 yw y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu arweinyddiaeth Weinidogol benodedig ar gyfer canol trefi, gan gynnwys sefydlu fforwm polisi canol trefi wedi'i gadeirio gan y weinidog arweiniol, a fyddai'n dwyn ynghyd swyddogion o adrannau gwahanol a chynrychiolwyr allweddol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i rannu arfer da a nodi cynllun gweithredu a fframwaith monitro ar gyfer adfywio canol trefi Cymru. Unwaith eto, rwyf yn falch bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn, a hoffwn ofyn i'r Gweinidog pryd y mae'n bwriadu gwneud cyhoeddiad ynghylch fforwm, a sut y bydd y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yn cael eu cynnwys yn y fenter honno.

Argymhelliad 7 yw y dylai Llywodraeth Cymru integreiddio cynlluniau'n ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy gyda chynlluniau ar gyfer canol trefi a dinasoedd. Unwaith eto, rwyf yn croesawu ymateb y Gweinidog i'r argymhelliad hwn, er y byddai'n dda gennyf gael rhagor o fanylion am sut y bydd trafndiaeth gynaliadwy ac integredig yn cael ei datblygu mewn trefi nad ydynt yn rhan o'r fenter canolfannau teithio cynaliadwy.

Argymhelliad 16 yw y dylai panel annibynnol Llywodraeth Cymru ar ardrethi busnes ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth ac yn y broses o arfer pwerau disgresiwn, gyda'r nod o wella'r amrywiaeth o fusnesau manwerthu sy'n bodoli mewn canol trefi a'u hansawdd. Rwyf yn falch o ddweud bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn hefyd, ac rydym yn aros yn eiddgar am adroddiad ac argymhellion y panel annibynnol, a addawyd yn wreiddiol ar gyfer mis Chwefror diwethaf.

Yn olaf, ceir argymhelliad 3, sef y dylid hybu a lledaenu enghreifftiau o arfer da wrth hyrwyddo canol trefi yn ehangach ymysg

disseminated to councils throughout Wales. Towns such as Narberth in Pembrokeshire and Caerphilly—both of which we visited during our inquiry—have made a conscious effort to attract businesses to their town centres by creating attractive conditions for them to locate there. We look forward to the Government's forthcoming activity for promoting good practice, as outlined in the Minister's response.

With regard the Minister's response to the other 15 recommendations in our report, which I am sure that other committee members will want to comment on, I note that the Government, in several places, has signalled its intention to embark on new work, such as: exploring opportunities for bringing empty properties in town centres into use; encouraging greater use of the design review service for town-centre regeneration schemes; strengthening community engagement in local development plans; supporting local leadership in town-centre regeneration; and piloting a scheme for helping new businesses to set up in town centres. This is in all a very positive and very welcome response to our suggestions, but I would again ask the Minister to give us further details as to when and how this promised work will be taken forward.

In conclusion, one of the main themes of our inquiry was that the regeneration of Wales's town centres will require strong leadership, from the national level to the local, and for all policy, planning and financial levers to be strategically co-ordinated and streamlined. Sustainable and diverse growth, along with quality, value and choice for consumers, are our watchwords. Government therefore needs to set the right framework, while local partnerships need to deliver on the ground. Above all, it requires collaboration between the public, the private and the voluntary sectors, and a commitment from all of us as consumers to continue to support our local high street.

I am pleased to be associated with this report and, based on the Minister's full and constructive response, I look forward to seeing swift and concerted action by Government in implementing our recommendations and in achieving positive

cyngorau ym mhob cwr o Gymru. Mae trefi fel Arberth yn sir Benfro a Chaerffili—dwy dref y gwnaethom ymweld â hwy yn ystod ein hymchwiliad—wedi gwneud ymdrech arbennig i ddenu busnesau i ganol y dref drwy greu amodau deniadol iddynt ymsefydlu yno. Edrychwn ymlaen at y gweithgarwch sydd ar droed gan y Llywodraeth i hyrwyddo arfer da, fel yr amlinellir yn ymateb y Gweinidog.

O ran ymateb y Gweinidog i'r 15 argymhelliad arall yn ein hadroddiad—ac rwyf yn siŵr y bydd aelodau eraill y pwyllgor am wneud sylwadau arnynt—sylwaf fod y Llywodraeth, mewn sawl lle, wedi dangos ei bwriad i ymgymryd â gwaith newydd fel: ystyried cyfleoedd i ddefnyddio eiddo gwag yng nghanol trefi; hybu defnyddio mwy ar y gwasanaeth adolygu dylunio ar gyfer cynlluniau i adfywio canol trefi; sicrhau bod y gymuned yn cael mwy o lais mewn cynlluniau datblygu lleol; cefnogi arweinyddiaeth leol wrth adfywio canol trefi; a threialu cynllun i helpu busnesau newydd i ymsefydlu yng nghanol trefi. Ar y cyfan, mae hwn yn ymateb cadarnhaol a chalonogol iawn i'n hawgrymiadau, ond byddwn eto yn gofyn i'r Gweinidog roi rhagor o fanylion ynglŷn â phryd a sut y bydd yn mynd ati i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

I gloi, un o brif themâu ein hymchwiliad oedd y bydd angen arweinyddiaeth gadarn i adfywio canol trefi yng Nghymru—o lefel genedlaethol i lefel leol—ac y dylid symleiddio a chydlynu pob dull polisi, cynllunio ac ariannol yn strategol. Twf amrywiol a chynaliadwy, ynghyd ag ansawdd, gwerth a dewis i ddefnyddwyr, yw ein geiriau allweddol. Felly mae angen i'r Llywodraeth bennu'r fframwaith priodol, a bydd angen i bartneriaethau lleol gyflawni ar lawr gwlad. Yn anad dim, mae'n gofyn am gydweithredu rhwng y cyhoedd, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, ac ymrwymiad gan bob un ohonom fel defnyddwyr i barhau i gefnogi ein stryd fawr leol.

Rwyf yn falch o fod yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn ac, yn seiliedig ar ymateb llawn ac adeiladol y Gweinidog, edrychaf ymlaen at weld y Llywodraeth yn gweithredu'n gyflym ac yn unedig wrth fynd ati i roi ein hargymhellion ar waith ac wrth

outcomes for sustaining our town centres and the vital role that we all recognise they play in Welsh life.

Kenneth Skates: Thank you, Presiding Officer, for the opportunity to speak in this important debate. Of course, there are important social, economic, health and lifestyle benefits to having vibrant town centres, but the big question is how we can turn struggling high streets into active urban centres. The traditional role of town centres, and the established view of them, is crucial at this point. Town centres are traditionally seen as retail centres—this is how they have developed over many centuries. Now, however, in the twenty-first century, there have been considerable changes that we need to take on board when we convert towns into modern places. Consequently, we need to challenge the established view of town centres.

An intelligent approach is needed in examining town centres and town-centre regeneration. It should be one that converts town centres into places that offer over and above convenience shopping. During the course of the inquiry, we took evidence from a plethora of stakeholders of the highest quality. For me, one of the companies that engaged very proactively with us was Boots. It identified seven key elements to town centre success. First and foremost is the need to appeal to those enjoying healthy and modern lifestyles, which means that access by bike and on foot needs to be easy. It means that we need town centres that are pleasant to be in and that offer services that are more than just shopping. The second element is the need to offer convenience, which means extending opening hours in many cases. Again, it means ease of access and ease of parking. The third is individualism in terms of what is offered, by individual shops and individual towns, because that will enable them to have unique selling points. The fourth is connectivity so that surrounding communities—especially low-income areas—have a sense of belonging. You might call this a doughnut effect in which you have the prize in the

sicrhau canlyniadau cadarnhaol er mwyn cynnal canol ein trefi, a'r rôl hollbwysig rydym i gyd yn cydnabod y maent yn ei chwarae ym mywyd Cymru.

Kenneth Skates: Diolch, Lywydd, am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon. Wrth gwrs, mae canol trefi llewyrchus yn arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd pwysig, a manteision pwysig o ran iechyd a ffordd o fyw, ond y cwestiwn mawr yw sut y gallwn weddnewid stryd fawr sydd mewn trafferthion i fod yn ganolfan drefol brysur. Mae rôl draddodiadol canol trefi, a'r farn draddodiadol ohonynt, yn hanfodol ar hyn o bryd. Yn draddodiadol, mae canol trefi yn cael eu hystyried yn ganolfannau ar gyfer manwerthu—dyma sut y maent wedi datblygu dros ganrifoedd lawer. Yn awr, fodd bynnag, yn yr unfed ganrif ar hugain, mae newidiadau sylweddol wedi digwydd ac y mae angen inni eu hystyried pan fyddwn yn newid trefi i fod yn lleoedd modern. O ganlyniad, mae angen inni herio'r farn draddodiadol o ganol trefi.

Mae angen ymagwedd ddeallus wrth edrych ar ganol trefi ac adfywio canol trefi. Dylai fod yn ymagwedd sy'n newid canol trefi i fod yn fwy na dim ond lleoedd cyfleus i siopa. Yn ystod yr ymchwiliad, cawsom dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid o'r safon uchaf. I mi, un o'r cwmnïau a fu'n gweithio'n frwd iawn gyda ni oedd Boots. Nododd saith elfen allweddol i sicrhau llwyddiant canol tref. Yn gyntaf oll, mae angen apelio at y rheini â ffordd iach a modern o fyw, sy'n golygu bod angen gallu mynd yno'n hawdd ar feic ac ar droed. Mae'n golygu bod angen inni gael canol trefi sy'n braf i fod ynddynt ac sy'n cynnig mwy o wasanaethau na dim ond siopa. Yr ail elfen yw'r angen i fod yn gyfleus, sy'n golygu ymestyn oriau agor mewn llawer o achosion. Unwaith eto, mae'n golygu mynediad hawdd a gallu parcio'n hawdd. Y trydydd yw bod yn unigryw o ran yr hyn a gynigir, gan siopau unigol a threfi unigol, oherwydd bydd hynny'n golygu bod ganddynt nodweddion gwerthu unigryw. Y pedwerydd yw cyswllt er mwyn i'r cymunedau cyfagos—yn enwedig ardaloedd incwm isel—deimlo eu bod yn perthyn. Gallech ddisgrifio hynny fel rhywbeth tebyg i doesen—lle mae'r wobr yn y canol a'r ardaloedd o'i amgylch yn sicrhau bod yr

centre, with the surrounding areas ensuring that the income is there to support the town centre. The fifth is comfort—this is absolutely crucial—with safe, attractive and green open spaces. The sixth point relates to income complexity, where high and low consumerism is offered. Finally, the seventh point is that town centres need age and lifestyle complexity, so that people of all ages and social groups are catered for. These elements have been reflected in the report. We should welcome the determination of the Welsh Government to pursue those recommendations.

I will pick up on one issue regarding supermarkets. There is a need to integrate supermarkets and town centres in a way that has not been done by out-of-town developments. I think it was widely recognised that out-of-town developments damaged town centres. They offer, if you like, soulless alternatives to the high street. Equally, evidence from some experts, shows that in-town and edge-of-town developments can increase footfall and help boost economic activity. Therefore, to ensure that maximum benefits are secured, it is essential that towns have strong chambers of commerce and dynamic members of the FSB.

We also learned that most successful towns have champions, such as town centre managers and so forth, who organise events and festivals and bring together businesses for mutual benefit. It is clear that when all organisations, businesses and public servants work together, great success can follow. That means, sometimes, that we can act as honest brokers—bringing together businesses and organisations that traditionally might see one another as a threat rather than an opportunity. I will pick one example from my constituency to illustrate this. In Cefn Mawr, on Monday, Tesco opened a new supermarket. Whenever a new supermarket opens there is some controversy. In Cefn Mawr, it was supported, apparently, by approximately 85% of residents. I am pleased to note that the supermarket engaged

incwm yno i gefnogi canol y dref. Y pumed yw awyrgylch gyfforddus—mae hyn yn gwbl hanfodol—gyda mannau agored gwyrdd, deniadol a diogel. Mae'r chweched pwynt yn ymwneud â chymlethdod incwm, lle cynigir prynwriaeth uchel ac isel. Yn olaf, y seithfed pwynt yw bod angen i ganol trefi fod yn hyblyg o ran oed a ffordd o fyw, er mwyn darparu ar gyfer pobl o bob oed a gwahanol grwpiau cymdeithasol. Mae'r elfennau hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. Dylem groesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn benderfynol o ddilyn yr argymhellion hynny.

Rwyf am grybwyll un mater yn ymwneud ag archfarchnadoedd. Mae angen integreiddio archfarchnadoedd a chanol trefi mewn ffordd nad yw datblygiadau ar gyrion trefi wedi'i wneud. Rwyf yn credu y cydnabuwyd yn gyffredinol fod datblygiadau ar gyrion trefi yn niweidio canol trefi. Maent yn cynnig, os mynnwch, opsiynau eraill dienaidd yn hytrach na'r stryd fawr. Yn yr un modd, mae tystiolaeth gan rai arbenigwyr yn dangos y gall datblygiadau yn y trefi ac wrth ymyl trefi gynyddu nifer yr ymwelwyr a helpu i roi hwb i weithgarwch economaidd. Felly, er mwyn sicrhau cymaint o fanteision â phosibl, mae'n hanfodol bod gan drefi siambrau masnach cryf ac aelodau deinamig o'r Ffederasiwn Busnesau Bach.

Rydym hefyd wedi dysgu bod gan y trefi mwyaf llwyddiannus hyrwyddwyr, fel rheolwyr canol trefi ac ati, sy'n trefnu digwyddiadau a gwyliau ac yn dod â busnesau ynghyd er budd pawb. Mae'n amlwg pan fydd yr holl sefydliadau, busnesau a gweision cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd, y gall hynny arwain at lwyddiant mawr. Felly mae hynny'n golygu ein bod, weithiau, yn gallu gweithredu fel broceriaid gonest—dwyn ynghyd fusnesau a sefydliadau sydd o bosibl, yn draddodiadol, yn ystyried ei gilydd yn fygythiad yn hytrach nag yn gyfle. Dewisaf un enghraifft yn fy etholaeth i esbonio hyn. Agorodd Tesco archfarchnad newydd yng Nghefn Mawr ddydd Llun. Ceir cryn ddadlau pryd bynnag y bydd archfarchnad newydd yn agor. Yn ôl pob tebyg, roedd tua 85 y cant o drigolion

proactively with businesses, heritage organisations, councillors and residents about how it could maximise benefits not just for itself, but also the wider community. I think we are now seeing a social responsibility returning to large retail companies. The supermarket is also part of a wider ambitious plan to regenerate Cefn Mawr and exploit its unique potential and industrial heritage. Again, it comes back this mixed-use approach, offering something over and above simple retail business.

This example illustrates, I believe, why the Welsh Government was right to invest £4 million in revitalising town centres in north-east Wales, because without attractive centres offering a mix of shops and services, town centres will suffer further decline, regardless of what happens to business rates and out-of-town developments. No two town centres are the same. However, in applying best practice, we can learn from the success of towns such as Narberth and Mold.

Byron Davies: I am delighted to contribute to this debate on the Enterprise and Business Committee report on the regeneration of town centres. I am pleased for two reasons: first, as a member of the committee investigating this issue and, secondly, as shadow Minister for regeneration.

Over a period of four months, the committee heard evidence from a range of key stakeholders. It was an extremely frank four months and many issues were discussed at length and I want to echo the praise of the Chairman to thank especially the Federation of Small Businesses for engaging so many of its members in contributing evidence to our inquiry.

Many of the recommendations have been touched upon and I do not want to reiterate the same concerns. However, I want to emphasise the need for urgent action. It will come as no surprise that I am raising the

Cefn Mawr o blaid yr archfarchnad newydd. Rwyf yn falch o nodi bod yr archfarchnad wedi mynd ati i ymgysylltu'n frwd â busnesau, sefydliadau treftadaeth, cynghorwyr a thrigolion ynghylch sut y gallai sicrhau cymaint o fanteision â phosibl i'r archfarchnad ei hun yn ogystal â'r gymuned ehangach. Rwyf yn credu ein bod bellach yn gweld cwmnïau manwerthu mawr yn ailddechrau ystyried eu cyfrifoldeb cymdeithasol. Mae'r archfarchnad hefyd yn rhan o gynllun uchelgeisiol ehangach i adfywio Cefn Mawr ac i ymelwa ar ei photensial unigryw a'i threftadaeth ddiwydiannol. Unwaith eto, mae'n dod yn ôl at yr ymagwedd hyblyg hon, gan gynnig rhywbeth mwy na dim ond busnes manwerthu syml.

Mae'r enghraifft hon yn dangos, yn fy marn i, pam roedd Llywodraeth Cymru yn iawn i fuddsoddi £4 miliwn mewn adfywio canol trefi yn y gogledd-ddwyrain, oherwydd heb ganolfannau deniadol sy'n cynnig amrywiaeth o siopau a gwasanaethau, bydd canol trefi yn dirywio ymhellach ni waeth beth fydd yn digwydd i ardrethi busnes a datblygiadau ar gyrion trefi. Mae pob canol tref yn wahanol. Fodd bynnag, wrth roi arfer gorau ar waith, gallwn ddysgu oddi wrth lwyddiant trefi fel Arberth a'r Wyddgrug.

Byron Davies: Mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon ynghylch adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi. Rwyf yn falch am ddau reswm: yn gyntaf, fel aelod o'r pwyllgor sy'n ymchwilio i'r mater hwn ac, yn ail, fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Adfywio.

Dros gyfnod o bedwar mis, bu'r pwyllgor yn gwrandao ar dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid allweddol. Bu'n bedwar mis gonest iawn, a chafodd llawer o faterion eu trafod yn fanwl. Hoffwn innau ategu canmolïaeth y Cadeirydd a diolch yn arbennig i'r Ffederasiwn Busnesau Bach am annog cynifer o'i aelodau i roi tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad.

Rydym wedi sôn am lawer o'r argymhellion, ac nid wyf am ailadrodd yr un pryderon. Fodd bynnag, rwyf am bwysleisio'r angen i weithredu ar frys. Ni fydd yn syndod fy mod yn codi'r pryder mwyaf—hynny yw,

biggest concern, that is, something that those of us on this side of the Chamber have long been pushing for, which is business rate relief. It cannot be doubted that the single greatest tool at this Government's disposal to help town centres and high streets up and down Wales is to provide some form of business rate relief. We can haggle over the threshold of the relief until we are blue in the face, every day, week and month, and indeed, with this Government, I fear that it could go on for years. While this Government dithers, more businesses close, more empty shops blight our streets and the regeneration of many of our towns suffers. It is the policy on this side of the Chamber to provide business rate relief and I strongly believe this should be the Welsh Government's policy.

In terms of the independent review looking at business rate relief and other issues, we welcomed its creation at the start. I still welcome the review, but it must report soon. We can ill-afford any further delay; this is now the time for action. You have a comprehensive report before you from the Business and Enterprise Committee that can only compliment your own review.

In terms of the report, I want to look quickly at two recommendations. The first is recommendation 6:

'We recommend that the Welsh Government should establish dedicated Ministerial leadership for town centres, including setting up a town centre policy forum chaired by the lead Minister, that would bring together officials from different Departments and key representatives from the private, public and voluntary sectors to share good practice and to identify a plan of action and monitoring framework for regenerating Wales's town centres'.

3.15 p.m.

I am pleased that this recommendation has been accepted, but again, I would urge action. When will he make an announcement on the town-centre policy forum and on how the private, public and voluntary sectors will be engaged in that initiative?

rhywbeth y mae'r rheini ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr wedi bod yn pwysu amdano ers tro, sef rhyddhad ardrethi busnes. Yn sicr, yr adnodd gorau sydd ar gael i'r Llywodraeth hon i helpu canol trefi a'r stryd fawr ar hyd a lled Cymru yw darparu rhyw fath o ryddhad ardrethi busnes. Gallwn ddadlau am drothwy'r rhyddhad hyd ddydd y farn, bob dydd, bob wythnos a bob mis, ac yn wir, gyda'r Llywodraeth hon, rwyf yn ofni y gallai hyn barhau am flynyddoedd. Tra bo'r Llywodraeth hon yn llusgo'i thraed, bydd rhagor o fusnesau'n cau, rhagor o siopau gwag yn difetha ein strydoedd a bydd llawer o'n trefi'n cael trafferthion o ran adfywio. Polisi yr ochr hon i'r Siambr yw darparu rhyddhad ardrethi busnes, ac rwyf yn credu'n gryf y dylai hyn fod yn bolisi i Lywodraeth Cymru.

O ran yr adolygiad annibynnol sy'n edrych ar ryddhad ardrethi busnes a materion eraill, roeddem yn croesawu creu'r adolygiad hwnnw ar y dechrau. Rwyf yn dal i groesawu'r adolygiad, ond rhaid iddo adrodd cyn bo hir. Ni allwn fforddio unrhyw oedi pellach; mae'n bryd gweithredu. Mae gennych adroddiad cynhwysfawr ger eich bron gan y Pwyllgor Menter a Busnes, sy'n siŵr o ategu eich adolygiad eich hun.

O ran yr adroddiad, hoffwn edrych ar ddau argymhelliad yn gyflym. Argymhelliad 6 yw'r cyntaf:

'Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu arweinyddiaeth Weinidogol benodedig ar gyfer canol trefi, gan gynnwys sefydlu fforwm polisi canol trefi wedi'i gadeirio gan y Gweinidog arweiniol, a fyddai'n dwyn ynghyd swyddogion o Adrannau gwahanol a chynrychiolwyr allweddol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i rannu arfer da a nodi cynllun gweithredu a fframwaith monitro ar gyfer adfywio canol trefi Cymru'.

Rwyf yn falch bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn, ond eto, byddwn yn annog gweithredu. Pryd y bydd yn gwneud cyhoeddiad am y fforwm polisi canol trefi ac am sut y bydd y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yn cymryd

rhannu yn y fenter honno?

Recommendation 16 is that the Welsh Government's independent panel on business rates should consider changes in legislation and in the application of discretionary powers in order to improve the mix and quality of the retail offer in town centres. This recommendation has also been accepted, and as I touched on earlier, the independent panel's report and recommendations, which were initially promised for last February, are long overdue.

Argymhelliad 16 yw y dylai panel annibynnol Llywodraeth Cymru ar ardrethi busnes ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth ac yn y broses o arfer pwerau disgresiwn, gyda'r nod o wella'r amrywiaeth o fusnesau manwerthu sy'n bodoli mewn canol trefi a'u hansawdd. Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn hefyd, ac fel y soniais yn gynharach, mae'n hen bryd inni gael adroddiad ac argymhellion y panel annibynnol, a addawyd yn wreiddiol ar gyfer mis Chwefror diwethaf.

Regeneration is possible. Look at towns such as Narberth in Pembrokeshire, and Caerphilly, both of which were visited during our inquiry. They pulled every trick out of the book to attract new businesses to their towns, and bent over backwards to accommodate their needs. The only consistent problem that they met was business rates and the lack of relief, which I again urge this Government to address.

Mae adfywio yn bosibl. Edrychwch ar drefi fel Arberth yn sir Benfro a Chaerffili, dwy dref yr ymwelwyd â hwy yn ystod ein hymchwiliad. Maent yn manteisio ar bob cyfle posibl i ddenu busnesau newydd i'w trefi, ac yn gwneud eu gorau glas i ddiwallu eu hanghenion. Yr unig broblem gyson roeddent yn ei hwynebu oedd ardrethi busnes a'r diffyg rhyddhad, ac yr wyf eto'n annog y Llywodraeth i fynd i'r afael â hynny ar unwaith.

In ending, I will build on the committee Chair's opening remark. It may have been Napoleon who famously labelled Britain a nation of shopkeepers, but it was Adam Smith in *The Wealth of Nations* who began to recognise the importance of that, back in 1776. To quote the man himself:

Wrth gloi, adeiladaf ar sylw agoriadol Cadeirydd y pwyllgor. Efallai mai Napoleon sy'n enwog am alw Prydain yn genedl o fân farsïandwyr, ond Adam Smith yn *The Wealth of Nations* ddechreuodd sylweddoli pwysigrwydd hynny, yn ôl ym 1776. I ddyfynnu'r dyn ei hun:

'To found a great empire for the sole purpose of raising up a people of customers may at first sight appear a project fit only for a nation of shopkeepers. It is, however, a project altogether unfit for a nation of shopkeepers; but extremely fit for a nation whose government is influenced by shopkeepers'.

Ar yr olwg gyntaf, mae creu ymerodraeth wych dim ond er mwyn magu cenedl o gwsmeriaid yn ymddangos yn brosiect nad yw ond yn addas i genedl o fân farsïandwyr. Mae'n brosiect cwbl anaddas i genedl o fân farsïandwyr; ond yn hynod addas i genedl lle mae mân farsïandwyr yn dylanwadu ar ei llywodraeth.

With that quote in mind, I commend this report to the Chamber—a report influenced by shopkeepers that I hope will urge this Government into action.

Gyda'r dyfyniad hwnnw mewn cof, rwyf yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Siambr—adroddiad y dylanwadwyd arno gan fân farsïandwyr ac a fydd, gobeithio, yn annog y Llywodraeth hon i weithredu.

Alun Ffred Jones: Diolch am gael cyfrannu at y ddadl. Nid oes rhaid imi ailddweud bod canol llawer o'n trefi wedi colli bywiogrwydd, a'u bod yn edrych yn ddi-raen. Hyd yn oed lle mae cynlluniau adfywio wedi

Alun Ffred Jones: Thank you for the opportunity to contribute to the debate. I do not need to reiterate that many of our town centres have lost their vibrancy and do not look particularly appealing. Even when there

digwydd—palmentydd newydd, seddi sgleiniog ac ambell goeden—nid oes ond rhaid cerdded rownd y gornel, yn aml iawn, i ddod wyneb yn wyneb ag adeiladau'n dirywio a siopau blêr wedi'u cau. Mae newid wedi digwydd ac yn digwydd i'n trefi ni.

are regeneration schemes in place—new pavements, shiny seats and a few trees—you only need to walk around the corner, very often, to come face to face with buildings that are in decline and shops that are untidy and closed. Changes have happened and are happening to our towns.

Ond un pwynt a wnaed gan un o'r tystion oedd ein bod yn colli llawer mwy na gwasanaeth wrth i lai a llai ohonom ymweld â chanol ein trefi a'u defnyddio. Yn aml, mae'n arwain at eu troi yn lleoedd anghymdeithasol—hyd yn oed yn lleoedd gwrthgymdeithasol—ac rydym hefyd yn colli man cyfarfod a thrafod. Dyna sy'n creu ymwybyddiaeth o gymuned, a dyna, efallai, yw'r golled fwyaf. Roedd newid yn anochel, ond yr hyn nad oedd yn anochel oedd gwerthu ein henaid a thanseilio cynaliadwyedd canol trefi drwy adael i ddatblygiadau y tu allan i drefi danseilio hyfywedd y canol. Rwy'n nodi bod y Llywodraeth wedi cytuno i adolygu'r rheolau cynllunio, ond yn anffodus daeth hynny'n rhy hwyr i wneud gwahaniaeth yn y mwyafrif o leoedd. Gwell hwyr na hwyrach, efallai.

However, one point that was made by a witness was that we are losing far more than a service as fewer and fewer of us visit and use the centre of our towns. Very often, it leads to turning them into places that are unsociable—even anti-social—and we lose a meeting place and a place for discussion. That is what creates a community, and is perhaps the most significant loss. Change was inevitable; what was not inevitable was to sell our souls and undermine the sustainability of our town centres by allowing out-of-town developments to undermine the viability of the centre. I note that the Government has agreed to review planning regulations, but unfortunately, that has come too late to make a difference in the majority of areas. Better late than never, perhaps.

Derbyniwyd hefyd yr argymhelliad i orfodi pob cais archfarchnad newydd i gynnwys asesiad ardrawiad manwerthu. Yn rhyfedd iawn, cynigiais i hynny yn ystod fy nhymor cyntaf fel Aelod, ac fe'i gwrthodwyd gan y Blaid Lafur a'r blaid Doriaidd ar y pryd. Rwy'n falch iawn bod newid meddwl wedi bod, ond byddwn yn hoffi cael amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhelliad hwn, ac, fel y dywedodd y Cadeirydd, amserlen neu raglen ar gyfer gweithredu'r argymhellion eraill y cytunwyd arnynt. Rwy'n falch hefyd bod y Llywodraeth yn cadw meddwl agored ar fater ardrethi busnes. Ein barn ni yn y Blaid yw y byddai ymestyn y cynllun goddefiad ardrethi yn ffordd uniongyrchol o helpu busnesau bach ar amser anodd, ond rydym wedi gwneud y dadleuon hynny o'r blaen, a chawn weld beth a ddaw o'r adolygiad sydd ar y gweill.

The recommendation to require every bid for a new supermarket to include an assessment of the impact on retail was also accepted. Strangely enough, I proposed that during my first term as a Member, and it was rejected at the time by the Labour Party and the Tory party. I am pleased that there has been a change of heart, but I would like to see a timetable for implementing that particular recommendation and, as the Chair said, a timetable or programme for the implementation of the other recommendations that have been agreed. I am also pleased that the Government is keeping an open mind on the business rates issue. Our opinion in Plaid is that extending the rate relief scheme would be a direct means of assisting small businesses at a difficult time, but we have made that case in the past, and we will see what will come of the review that is in the pipeline.

Cyfeiriaf at ddau argymhelliad arall sydd o ddiddordeb arbennig i mi. Mae'r pumed argymhelliad yn annog llywodraeth leol i ddatblygu lleoedd gwaith—swyddfeydd ac ati—o fewn trefi yn hytrach na'u datblygu ar

I will refer to two further recommendations that are of particular interest to me. The fifth recommendation encourages local government to develop places of work, such as offices, within town centres rather than on

y cyrion fel sydd wedi bod yn digwydd ers y 1970au, a chyn hynny. Cafwyd enghraifft ardderchog o hynny yng Nghaernarfon pan ddatblygwyd swyddfeydd newydd ar gyfer yr hen gyngor sir yn ôl yn y 1970au. Cafwyd cynllun dychmygus gan y pensaer Dewi-Prys Thomas o fewn hen waliau'r dref drwy ddefnyddio llawer o'r hen adeiladau a datblygu adeiladau newydd. Roedd hynny'n hollol wahanol i'r hyn a ddigwyddodd mewn tref arall y bûm yn byw ynddi—yr Wyddgrug—lle datblygwyd swyddfeydd ymhell o ganol y dref gan ddod â fawr o fudd ddiol i'r dref honno.

Cyfeiriai at argymhelliad 10, sy'n annog perchnogion eiddo i osod eu heiddo gwag yng nghanol trefi at ddibenion byw a gwaith. Mae hynny'n cyfeirio'n ôl at sylwadau'r Gweinidog am yr 20,000 a mwy o anheddau gwag y mae angen eu troi yn gartrefi. Roeddwn yn falch o drafod, gyda swyddogion yng Ngwynedd yn ddiweddar, gynllun sydd ar y gweill i wneud hynny drwy roi arian i berchnogion i wneud addasiadau. Gellid gweithredu'r cynllun hwnnw mewn ardaloedd eraill. Dylai fod yn gynllun cenedlaethol, oherwydd yr angen a fydd yn codi yn benodol o ganlyniad i'r newidiadau yn y rheolau budd-dal tai.

Mae'r angen yn fawr ac mae'r Llywodraeth wedi ymateb yn gadarnhaol i'r mwyafrif o'r argymhellion. Mewn blwyddyn, bydd rhaid edrych ar faint o weithredu a fu, er mwyn sicrhau bod yr adroddiad hwn wedi cyflawni rhywbeth yn hytrach na bod yn ddogfen ar silff.

Eluned Parrott: It was a privilege to take part in this inquiry as part of the Enterprise and Business Committee. I am pleased that the Welsh Government has accepted all of our recommendations, in principle at least. Our town centres cannot remain fossilised versions of a rose-tinted past. However, many town centres have succeeded by developing a distinctive brand and character. Cowbridge, in my region, is often cited as an example. It is described by some as the Bond Street of south Wales. That is because it has a unique selling point and a range of shops that are not available elsewhere. Similarly, Narberth has succeeded because it is very different to the other towns in its area that it could be

the periphery, as has happened since the 1970s and before then. There is an excellent example of this in Caernarfon, where new offices were developed for the old county council back in the 1970s. An imaginative plan was put forward by architect Dewi-Prys Thomas within the walls of the old town, using many of the old buildings and developing new buildings. That was completely different to what happened in another town where I used to live—Mold—where offices were developed far from the middle of town, bringing very little benefit on a day to day basis to that town centre.

I also refer to recommendation 10, which encourages property owners to let their empty properties for living and working purposes. This refers back to the comments made by the Minister about the more than 20,000 vacant properties and the need to turn them into homes. I was pleased to discuss with officials in Gwynedd recently a scheme there to achieve this by providing funds to owners to make adaptations to their properties. That scheme could be implemented in other areas. It should be a national scheme, because of the need that will arise specifically as a result of changes in housing benefits.

The needs are great and the Government has responded positively to most of the recommendations. In 12 months' time, we will have to see what action has been taken to ensure that this report achieves something, rather than being left to gather dust on a shelf.

Eluned Parrott: Roedd yn ffrainc cael cymryd rhan yn yr ymchwiliad hwn fel rhan o'r Pwyllgor Menter a Busnes. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'n hargymhellion, mewn egwyddor o leiaf. Ni allwn gadw canol ein trefi fel ffosiliau, yn atgof o'r gorffennol llewyrchus a fu. Fodd bynnag, mae llawer o ganol trefi wedi llwyddo drwy ddatblygu brand a chymeriad nodedig. Mae'r Bont-faen, yn fy rhanbarth i, yn cael ei defnyddio fel enghraifft yn aml. Mae rhai'n ei disgrifio fel Bond Street de Cymru. Mae hynny wedi digwydd gan fod ganddi nodwedd gwerthu unigryw ac amrywiaeth o siopau nad ydynt ar gael yn unman arall. Yn yr un modd, mae Arberth

considered to be competing with. The imagination and drive of local traders and associations shows what can be achieved. That largely inspired recommendation 20, which talks about encouraging town partnerships to market their unique selling points, such as architectural heritage, environmental quality, local produce and local culture. All of those things create a rich and enjoyable town-centre environment for people to visit.

While we celebrate those successes, we must remember that some have simply not succeeded. We explored some of the reasons why. The internet remains a major threat to specialist retailers in particular. The Colliers International study that drew on research carried out by Experian states that

‘the forecasts for e-tailing suggest that online sales will continue to increase rapidly over the next five years, after which rate of growth is expected to slow. Perhaps of more importance to retailers is the expectation that special forms of trading (mainly internet shopping) is expected to capture an increasing share of all retail goods sales, rising to around 12.6% by 2016’.

It is clear that it is a very real and growing threat to small, independent retailers.

In my own region, I see problems in other small towns. Pontypridd is undergoing some regeneration work at the moment. Sadly, freedom of information requests by Rhondda Cynon Taf Welsh Liberal Democrats have shown that only three businesses have applied for funding from its townscape enhancement programme. They would do very well to note recommendation 21 and its emphasis on measuring outcomes, because it is the outcomes that are important. If you do not get the results that you want, then you need to understand the reasons why.

wedi llwyddo oherwydd ei bod yn wahanol iawn i'r trefi eraill yn ei hardal—trefi y gellid ystyried ei bod yn cystadlu yn eu herbyn. Mae dychymyg a brwdfrydedd masnachwyr a chymdeithasau lleol yn dangos beth y gellir ei gyflawni. Dyna sydd wedi ysbrydoli argymhelliad 20 i raddau helaeth, sy'n sôn am annog partneriaethau tref i farchnata eu nodweddion gwerthu unigryw, fel treftadaeth bensaernïol, ansawdd amgylcheddol, cynnyrch lleol a diwylliant lleol. Mae pob un o'r pethau hynny'n creu amgylchedd canol tref cyfoethog a braf i bobl ymweld ag ef.

Er ein bod yn dathlu'r llwyddiannau hynny, rhaid inni gofio nad yw rhai ohonynt wedi llwyddo. Buom yn edrych ar rai o'r rhesymau dros hynny. Mae'r rhyngwrwyd yn dal yn fygythiad mawr i fanwerthwyr arbenigol yn enwedig. Yn ôl yr astudiaeth gan Colliers International a oedd yn defnyddio ymchwil a gynhaliwyd gan Experian:

mae'r rhagolygon ar gyfer manwerthu electronig yn awgrymu y bydd gwerthiannau ar-lein yn parhau i gynyddu'n gyflym dros y pum mlynedd nesaf, a disgwylir i gyfradd y twf arafu ar ôl hynny. Yn bwysicach i fanwerthwyr o bosibl yw'r disgwyliad y bydd mathau arbennig o fasnachu (siopa ar y rhyngwrwyd yn bennaf) yn cipio cyfran gynyddol o'r holl nwyddau fydd yn cael eu gwerthu, gan godi i tua 12.6 y cant erbyn 2016.

Mae'n amlwg ei fod yn fygythiad gwirioneddol a chynyddol i fanwerthwyr bach annibynnol.

Yn fy rhanbarth i, rwyf yn gweld problemau mewn trefi bach eraill. Mae rhywfaint o waith adfywio yn cael ei wneud ym Mhontypridd ar hyn o bryd. Yn anffodus, mae ceisiadau rhyddid gwybodaeth gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn Rhondda Cynon Taf wedi dangos mai dim ond tri busnes sydd wedi gwneud cais am gyllid gan y rhaglen gwella treflun. Byddent yn gwneud yn dda iawn i nodi argymhelliad 21 a'i bwyslais ar fesur canlyniadau, gan mai'r canlyniadau sy'n bwysig. Os nad ydych yn cael y canlyniadau y mae arnoch eu heisiau, yna mae angen ichi ddeall y rhesymau dros hynny.

Similarly, in Barry, a £30,000 set of bollards has been installed on Thompson Street, funded by the Welsh Government's regeneration area programme. However, local traders have complained to me that the constant roadworks that they have endured to fit paving and then street furniture and then street art, in stages, has driven shoppers away and has prevented shoppers from being able to effectively access their buildings, particularly if they are disabled. It has even forced some small businesses out of business.

The Centre for Regeneration Excellence Wales agrees that the power and dominance of chain stores and the emergence of clone towns has had a negative impact on Wales's small towns. We need to balance the need for a range of shops to be available to people with that idea of individuality and appeal.

Planning policy is inadequate to fight some of the large-scale developments that are not desired by local residents. That has come out in recommendations 1, 4 and 12. There has been much discussion, particularly about the role of out-of-town centres in the demise of our towns, but I agree with the British Retail Consortium, which has stated that we should build town centres up rather than try to knock out-of-town centres. I hope that planning alterations can prevent further out-of-town developments, but for those that already exist, we need to find ways to level the playing field between them and the traditional town centres. The only way that we might be able to do that is by looking at practical issues such as parking and transport.

As we have heard, another issue that was raised frequently was business rates. It is of critical importance, because it hits the higher-valued retail premises particularly hard. Retail premises, by their very definition, attract much higher rates and, therefore, much higher rents than other kinds of business property. We have heard some awful stories during the course of this inquiry from businesses that are facing a real fight for survival. I have case work from businesses that have folded and have already failed but

Yn yr un modd, yn y Barri, mae set o folardiau gwerth £30,000 wedi cael ei gosod yn Stryd Thompson, ac ariannwyd y gwaith hwnnw gan raglen ardal adfywio Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae masnachwyr lleol wedi cwyno wrthyf fod y gwaith ffordd di-baid y maent wedi'i ddioddef er mwyn gosod palmentydd ac yna dodrefn stryd ac yna celf stryd sydd, gam wrth gam, wedi gwneud i siopwyr gadw draw ac wedi atal siopwyr rhag gallu cael mynediad effeithiol i'w hadeiladau, yn enwedig os ydynt yn anabl. Mae wedi gwneud i rai busnesau fynd i'r wal hyd yn oed.

Mae Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn cytuno bod pŵer a goruchafiaeth siopau cadwyn a'r trefi clôn sy'n ymddangos wedi cael effaith negyddol ar drefi bach Cymru. Mae angen inni gael cydbwysedd rhwng yr angen i ystod o siopau fod ar gael i bobl a'r syniad o fod yn unigryw ac apelio at bobl.

Nid yw'r polisi cynllunio'n ddigonol i ymladd yn erbyn rhai o'r datblygiadau mawr nad yw trigolion lleol yn dymuno eu gweld. Mae hynny wedi dod i'r amlwg yn argymhellion 1, 4 a 12. Bu llawer o drafod, yn enwedig am rôl canolfannau ar gyrion trefi yn nirywiad ein trefi, ond rwyf yn cytuno â Chonsortium Manwerthu Prydain, sydd wedi datgan y dylem roi hwb i ganol trefi yn hytrach na lladd ar ganolfannau ar gyrion trefi. Gobeithio y gall newidiadau cynllunio atal rhagor o ddatblygiadau ar gyrion trefi, ond o ran y rheini sydd eisoes yn bodoli, mae angen inni sicrhau maes chwarae cyfartal rhyngddynt hwy a chanol trefi traddodiadol. Yr unig ffordd y gallem wneud hynny yw drwy edrych ar faterion ymarferol fel parcio a thrafnidiaeth.

Fel rydym wedi clywed, mater arall a oedd yn cael ei godi'n aml oedd ardrethi busnes. Mae'n hollbwysig, gan ei fod yn cael effaith fawr ar safleoedd manwerthu â gwerth uchel yn benodol. Mae safleoedd manwerthu, yn unol â'u hunion bwrpas, yn denu ardrethi llawer uwch ac, felly, rhenti llawer uwch na mathau eraill o safleoedd busnes. Rydym wedi clywed straeon erchyll yn ystod yr ymchwiliad hwn gan fusnesau sy'n wynebu brwydr go iawn i oroesi. Mae gennyf waith achos gan fusnesau sydd eisoes wedi mynd i'r

are still paying their business rates. We need to look at ways in which we can improve this. I hope that the business rates review that is under way will address some of these difficult concerns.

As Alun Ffred Jones mentioned, one interesting idea that we heard, but which has not had much attention or focus in the report itself, is the importance of getting other kinds of businesses to locate in town centres, such as the Admiral Group plc development in Newport.

Christine Chapman: I am not a member of the Enterprise and Business Committee, but I welcome its report. The regeneration of our town and village centres is an incredibly important subject. Making sure that town centres are sustainable and vibrant in the twenty-first century is a topic that I have chosen on a number of occasions for the short debate. I have enjoyed following the evidence sessions of the committee, and I welcome the report for the opportunity that it gives us to return to the question of how we can enhance our communities across Wales. I know that the inquiry engaged the public, and I pay tribute to the committee for this. For example, from my constituency, the Aberdare and district chamber of trade replied to the consultation. I know that it had concerns around planning, the role of supermarkets, rates and the sharing of information. I know that the inquiry has engaged the general public across Wales, alongside the Mary Portas report, which was useful.

I want to mention two recommendations in particular. Recommendation 11, which is about making sure that we draw out the individual characteristics of our towns, is significant. For town centres to be viable, we must make sure that our towns do not look the same. It was a comment made by Eluned Parrott. We should encourage towns to have their own identity, possibly drawing on their historic roots and their community. That is important. I would also like to mention the Aberdare townscape heritage initiative, which offers grants to commercial property owners to give them the chance to restore and maintain the historic Victorian character of

gwellt ac wedi methu, ond sy'n dal i dalu eu hardrethi busnes. Mae angen inni edrych ar ffyrdd o wella hyn. Gobeithio y bydd yr adolygiad o ardrethi busnes sy'n mynd rhagddo yn rhoi sylw i rai o'r pryderon anodd hyn.

Fel y soniodd Alun Ffred Jones, un syniad diddorol a glywsom, ond nad yw wedi cael llawer o sylw na ffocws yn yr adroddiad ei hun, yw pwysigrwydd cael mathau eraill o fusnesau i ymsefydlu yng nghanol trefi, fel datblygiad Admiral Group plc yng Nghasnewydd.

Christine Chapman: Nid wyf yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes, ond rwyf yn croesawu ei adroddiad. Mae adfywio canol ein trefi a'n pentrefi yn bwnc hynod bwysig. Mae gwneud yn siŵr bod canol trefi yn gynaliadwy ac yn llewyrchus yn yr unfed ganrif ar hugain yn bwnc rwyf wedi'i ddewis droeon ar gyfer y ddadl fer. Rwyf wedi mwynhau dilyn sesiynau tystiolaeth y pwyllgor, ac rwyf yn croesawu'r adroddiad oherwydd y cyfle y mae'n ei roi inni ddychwelyd at y cwestiwn o sut y gallwn roi hwb i'n cymunedau ym mhob cwr o Gymru. Gwn fod yr ymchwiliad wedi ymgysylltu â'r cyhoedd, a hoffwn ganmol y pwyllgor am hyn. Er enghraifft, yn fy etholaeth i, cyflwynodd siambr fasnach Aberdâr a'r cylch ymateb i'r ymgynghoriad. Gwn ei bod yn pryderu am gynllunio, rôl archfarchnadoedd, cyfraddau a rhannu gwybodaeth. Gwn fod yr ymchwiliad wedi ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol ar draws Cymru, ochr yn ochr ag adroddiad Mary Portas, a oedd yn ddefnyddiol.

Hoffwn sôn am ddau argymhelliad yn arbennig. Mae argymhelliad 11, sy'n ymwneud â sicrhau ein bod yn manteisio ar y nodweddion sy'n gwneud ein trefi'n unigryw, yn hollbwysig. Er mwyn i ganol trefi fod yn llewyrchus, mae'n rhaid inni wneud yn siŵr nad yw ein trefi i gyd yn edrych yr un fath. Eluned Parrott wnaeth y sylw hwnnw. Dylem annog trefi i gael eu hunaniaeth eu hunain, a hynny o bosibl drwy fanteisio ar eu gwreiddiau hanesyddol a'u cymuned. Mae hynny'n bwysig. Hoffwn sôn hefyd am fenter treftadaeth treflun Aberdâr, sy'n cynnig grantiau i berchnogion eiddo masnachol i roi'r cyfle iddynt adfer a chynnal cymeriad

Aberdare town centre, as well as modernising it for the twenty-first century. Like other initiatives, the investment has come from the Welsh Government, the council, European funds and Cadw. It has been a good partnership.

However, we also need to be aware of the mixed messages that we sometimes get in town-centre planning, particularly around design. While we try to make our town centres warm and friendly environments—which is absolutely right—by means of good design, it is also about striking a balance, because there are sometimes conflicting priorities. For example, constituents have told me about seeing too many crime reduction measures, such as too many closed-circuit television cameras and railings. This is about making town centres friendly, but on the other hand, there has to be an element of safety and, sometimes, we do not always get that balance right. This is important if we are to ensure that towns are for all age groups and for everyone to use, because it can be very off-putting.

3.30 p.m.

I particularly support recommendation 20, on the related topic of developing the unique selling point of Welsh towns. This is an excellent point. Last week, I attended the fifth European summit of regions and cities in Copenhagen in my role as a member of the Committee of the Regions, along with my colleague Rhodri Glyn Thomas. That summit was on the regeneration of urban areas. We know that urban areas will house 80% of Europe's population by 2020. Town-centre regeneration will be a vital part of that. One interesting element of the summit was a thematic exhibition that allowed cities and regions to promote the unique selling points of urban areas around Europe. For example, part of North Rhine-Westphalia emphasised its approach to water management; Lisbon focused on the creation of urban farms; and Groningen in the Netherlands was badged as a city of talent—a city that encouraged a good climate for entrepreneurship and healthy ageing. I know that Darren Millar will be interested in the fact that I visited Colwyn Bay's stand. Colwyn Bay was

Fictoraidd hanesyddol canol tref Aberdâr, yn ogystal â'i foderneiddio ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Fel mentrau eraill, mae'r buddsoddiad wedi dod gan Lywodraeth Cymru, y cyngor, cronfeydd Ewropeaidd a Cadw. Mae wedi bod yn bartneriaeth dda.

Fodd bynnag, mae angen inni fod yn ymwybodol hefyd o'r negeseuon cymysg a gawn weithiau mewn cynlluniau canol tref, yn enwedig yng nghyswllt dylunio. Er ein bod yn ceisio gwneud canol trefi yn lleoedd braf a chyfeillgar—sydd yn gwbl briodol—drwy ddylunio da, mae hefyd yn bwysig sicrhau cydbwysedd, oherwydd ceir gwrthdaro rhwng blaenoriaethau weithiau. Er enghraifft, mae etholwyr wedi dweud wrthyf eu bod yn gweld gormod o fesurau i leihau troseddu, fel gormod o gamerâu teledu cylch cyfyng a barrau. Hanfod hyn yw gwneud canol trefi'n lleoedd cyfeillgar, ond ar y llaw arall, mae'n rhaid cael elfen o ddiogelwch ac, weithiau, nid ydym bob amser yn cael y cydbwysedd hwnnw'n iawn. Mae hyn yn bwysig os ydym am sicrhau bod y rhain yn drefi i bob grŵp oedran ac i bawb eu defnyddio, oherwydd gall fod yn annymunol iawn.

Rwyf yn cefnogi argymhelliad 20 yn arbennig, oherwydd y pwnc cysylltiedig o ddatblygu nodweddion gwerthu unigryw trefi Cymru. Mae hwn yn bwynt ardderchog. Yr wythnos diwethaf, bûm yn yr uwchgynhadledd Ewropeaidd ar gyfer rhanbarthau a dinasoedd yn Copenhagen—y bumed uwchgynhadledd o'r fath—fel aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau, ynghyd â'm cyd-aelod, Rhodri Glyn Thomas. Thema'r uwchgynhadledd honno oedd adfywio ardaloedd trefol. Gwyddom y bydd ardaloedd trefol yn gartref i 80 y cant o boblogaeth Ewrop erbyn 2020. Bydd adfywio canol trefi yn rhan hanfodol o hynny. Un elfen ddiddorol yn yr uwchgynhadledd oedd arddangosfa thematig a oedd yn caniatáu i ddinasoedd a rhanbarthau hyrwyddo nodweddion gwerthu unigryw ardaloedd trefol o amgylch Ewrop. Er enghraifft, roedd rhan o Ogledd Rhine-Westphalia yn rhoi pwyslais ar ei dull o reoli dŵr; roedd Lisbon yn canolbwyntio ar greu ffermydd trefol; a chafodd Groningen yn yr Iseldiroedd ei disgrifio'n ddinas o ddoniau—dinas a oedd

emphasising its local regeneration work and, again, it was a town to be proud of. So, it was good to see that.

The lesson from that is that we need towns and cities to identify—

The Presiding Officer: Order. Your time is up.

Darren Millar: I am pleased to take part in this debate. Like the previous speaker, I was not a member of this committee when it considered this issue, but I am impressed with the report that has been produced and its recommendations. I am delighted that the Minister has accepted all of the recommendations, albeit one only in principle. Town centres are important to everyone in the Chamber; we all have towns in our constituencies that need that little bit of extra support, including my own constituency. You have already heard from Christine Chapman about Colwyn Bay, and I am pleased to say that it is on the up; it has benefited significantly from the strategic regeneration area status awarded by the Welsh Government. I welcome that. However, it is not without its challenges. Unfortunately, it is suffering more than most from its empty shops—19.5% of shops stand empty in Colwyn Bay at the moment. That is an increase on last year and is above the Welsh average. So, a great deal of work still needs to be done to turn that situation around and to make the town centre more viable. Having said that, I pay tribute to the Bay Life initiative and the town centre manager in Colwyn Bay, who are working extremely hard to improve the centre. The fabric of the town, given the investment made, is feeling good these days.

The jury is still out on supermarkets. Ken Skates referred to their presence. Some seem to breathe fresh air and new life into town centres while others seem to have the opposite effect. I have seen how Tesco really helped to lift Abergele up when it established

yn annog hinsawdd dda ar gyfer entrepreneuriaeth a heneiddio'n iach. Gwn y bydd gan Darren Millar ddiddordeb yn y ffaith fy mod wedi ymweld â stondin Bae Colwyn. Roedd Bae Colwyn yn pwysleisio ei gwaith adfywio lleol ac, unwaith eto, roedd yn dref i ymfalchïo ynddi. Felly, roedd yn braf gweld hynny.

Y wers y mae angen inni ei dysgu o hynny yw bod angen i drefi a dinasoedd nodi—

Y Llywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben.

Darren Millar: Rwyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon. Yn yr un modd â'r siaradwr blaenorol, nid oeddwn yn aelod o'r pwyllgor hwn pan fu'n ystyried y mater hwn, ond mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi gwneud argraff arnaf. Rwyf yn falch iawn bod y Gweinidog wedi derbyn yr holl argymhellion ac eithrio un, sydd wedi'i dderbyn mewn egwyddor. Mae canol trefi yn bwysig i bawb yn y Siambr; mae gan bob un ohonom drefi yn ein hetholaethau sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol, gan gynnwys fy etholaeth fy hun. Rydych eisoes wedi clywed am Fae Colwyn gan Christine Chapman, ac rwyf yn falch o ddweud bod pethau'n gwella'n sylweddol yno; mae wedi elwa llawer o'r statws ardal adfywio strategol a ddyfarnwyd iddi gan Lywodraeth Cymru. Rwyf yn croesawu hynny. Er hynny, mae heriau o'i blaen. Yn anffodus, mae ganddi fwy o siopau gwag na'r rhan fwyaf o leoedd—mae 19.5 y cant o siopau Bae Colwyn yn wag ar hyn o bryd. Mae hynny'n fwy na'r llynedd, ac mae'n fwy na chyfartaledd Cymru. Felly, mae llawer o waith i'w wneud eto i weddnewid y sefyllfa honno ac i wneud canol y dref yn fwy llewyrchus. Wedi dweud hynny, hoffwn ganmol menter Bywyd y Bae a rheolwr canol y dref Bae Colwyn, sy'n gweithio'n eithriadol o galed i wella canol y dref. Mae gwread y dref, o ystyried y buddsoddiad a wnaed, yn braf y dyddiau hyn.

Ceir ansicrwydd o hyd ynghylch yr archfarchnadoedd. Cyfeiriodd Ken Skates at eu presenoldeb. Mae rhai, i bob golwg, yn rhoi anadl einioes a bywyd newydd i ganol trefi tra mae eraill, i bob golwg, yn cael effaith gwbl wahanol. Rwyf wedi gweld sut

itself there. However, the Tesco on Ruthin's outskirts seemed to have the opposite effect. More needs to be done by local authorities, the Welsh Government and others to look at how town centres are impacted on by supermarkets and to find out those key factors that allow a town to have a successful outcome when a supermarket moves in.

As we have heard, empty shops can really blight town centres. Unfortunately, local authorities do not have sufficient powers to force property owners to tidy up their shops on the inside, although they have the powers to do so with the outside of shops. In your reply to today's debate, Minister, could you give some consideration and thought as to how you might be able to address that either through the planning regime or in conjunction with the Minister for Local Government and Communities to see how those issues could be tackled.

Reference has already been made to business rates and I look forward to the independent panel on business rates reporting in May. I am a little disappointed that it was unable to do so in February, which was the date promised and the date by which we expected this report. That means that there is an extra three months during which businesses that could be benefiting from a new regime are unable to do so. As we know, three months can mean the difference between life and death for some businesses, particularly in the current economic circumstances.

I want to focus for a few moments on market towns. There has been a significant regeneration focus on seaside towns and urban areas in Wales over the past few years. As I have said, I welcomed that in Colwyn Bay in my constituency. However, market towns have their own unique challenges. In the past, I have called for a market towns initiative to be embarked upon by the Welsh Government, and I would like to renew that call again today, because the unique challenges that market towns face, often in more remote parts of the country, lend

mae Tesco wir wedi helpu i roi hwb i Abergele pan ymsefydlodd yno. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr archfarchnad Tesco ar gyrion Rhuthun wedi cael effaith gwbl wahanol. Mae angen i awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill wneud rhagor i edrych ar sut y mae archfarchnadoedd yn effeithio ar ganol trefi, ac i ganfod beth yw'r ffactorau allweddol hynny sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i dref pan fydd archfarchnad yn ymsefydlu yno.

Fel rydym wedi clywed, mae siopau gwag wir yn gallu difetha canol trefi. Yn anffodus, nid oes gan awdurdodau lleol ddigon o bwerau i orfodi perchnogion eiddo i dacluso y tu mewn i'w siopau, ond mae ganddynt y pwerau i wneud hynny gyda thu allan y siopau. Yn eich ymateb i'r ddadl heddiw, Weinidog, a allech ystyried a meddwl sut y gallwch fynd i'r afael â hynny, naill ai drwy'r system gynllunio neu ar y cyd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, i weld sut y gellid datrys y problemau hynny.

Cyfeiriwyd eisoes at ardrethi busnes, ac rwyf yn edrych ymlaen at adroddiad y panel annibynnol ar ardrethi busnes ym mis Mai. Rwyf ychydig yn siomedig nad oedd yn gallu gwneud hynny ym mis Chwefror, sef y dyddiad a addawyd a'r dyddiad roeddem yn disgwyl yr adroddiad hwn. Mae hynny'n golygu y byddai busnesau wedi gallu elwa o system newydd am dri mis ychwanegol, ond na fyddant yn gallu gwneud hynny. Fel y gwyddom, gall tri mis olygu'r gwahaniaeth rhwng llwyddo a methu i rai busnesau, yn enwedig yn yr amgylchiadau economaidd presennol.

Rwyf am ganolbwyntio ar drefi marchnad am ychydig. Cafwyd ffocws sylweddol ar adfywio trefi glan môr ac ardaloedd trefol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Fel rwyf wedi'i ddweud, roeddwn yn croesawu hynny ym Mae Colwyn yn fy etholaeth. Fodd bynnag, mae gan drefi marchnad eu heriau unigryw eu hunain. Yn y gorffennol, rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ymgymryd â menter trefi marchnad. Hoffwn ail-ddatgan y cais hwnnw eto heddiw, oherwydd mae'r heriau unigryw y mae trefi marchnad yn eu hwynebu, yn aml

themselves to a different kind of strategy to help town centres in those areas. The infrastructure needs to be right, the signage to those town centres needs to be right, and the issue of free parking in town centres needs to be dealt with once and for all. Unfortunately, local authorities are often unable to provide free parking in town centres. Can the Welsh Government look at giving some support to local authorities in order to help them to do that? You might want to look at Ruthin as an example of somewhere where you might be able to locate a pilot project in the future in order to explore those issues. Therefore, I welcome the report and the Government's response and, with those comments on market towns in particular, I look forward to the Minister's reply.

Joyce Watson: First, I would like to thank those people who took time out of their busy lives to talk to us and to help us to put this report together. I would also like to welcome yesterday's news from the Welsh Government that it is putting £800,000 towards the regeneration of Aberystwyth town centre. This shows a real commitment by the Government to help towns like Aberystwyth to regenerate themselves. There is no doubt that that money will provide a welcome boost for local contractors in the area and help to provide job opportunities for local residents. It will also build into that an element that came out of the report that, in tourist areas, town centres, and their regeneration, can increase real opportunities to build upon both elements of shopping and tourism.

As we all know, town centres are important. However, they are important not only in themselves, but in the way in which they serve the surrounding communities. Towns and the surrounding communities and villages have a two-way relationship, as they depend on each other. In line with recommendation 6 of the report, I welcome the news that the Government will set up a town centre policy forum, bringing together the private, public and voluntary sectors to share good practice for regenerating Wales's town centres. I would like to point the Government to the work of Carmarthenshire

mewn rhannau mwy anghysbell o'r wlad, yn gofyn am fath gwahanol o strategaeth i helpu canol trefi yn yr ardaloedd hynny. Mae angen i'r seilwaith fod yn iawn, mae angen i'r arwyddion i ganol y trefi hynny fod yn iawn, ac mae angen datrys y broblem parcio am ddim yng nghanol trefi unwaith ac am byth. Yn anffodus, mae awdurdodau lleol yn aml yn methu â darparu lleoedd parcio am ddim yng nghanol trefi. A all Llywodraeth Cymru ystyried rhoi rhywfaint o gefnogaeth i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i wneud hynny? Efallai y byddwch am edrych ar Ruthun fel enghraifft o rywle lle gallech leoli prosiect peilot yn y dyfodol er mwyn archwilio'r materion hynny. Felly, rwyf yn croesawu'r adroddiad ac ymateb y Llywodraeth a, chyda'r sylwadau hynny ynghylch trefi marchnad yn benodol, edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog.

Joyce Watson: Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r bobl hynny a roddodd o'u hamser yn eu bywydau prysur i siarad â ni ac i'n helpu i lunio'r adroddiad hwn. Hoffwn hefyd groesawu'r newyddion a gyhoeddwyd ddoe gan Lywodraeth Cymru ei bod yn rhoi £800,000 tuag at y gwaith o adfywio canol tref Aberystwyth. Mae hyn yn dangos ymrwymiad gwirioneddol gan y Llywodraeth i helpu trefi fel Aberystwyth i adfywio eu hunain. Heb os, bydd yr arian hwnnw'n hwb i'w groesawu ar gyfer contractwyr lleol yn yr ardal, ac yn helpu i ddarparu cyfleoedd gwaith i drigolion lleol. Bydd hynny hefyd yn cynnwys elfen a ddaeth i'r amlwg yn yr adroddiad y gall canol trefi a'r broses o'u hadfywio, mewn ardaloedd twristaidd, gynyddu cyfleoedd go iawn i ddatblygu'r elfennau siopa a thwristiaeth fel ei gilydd.

Fel y mae pob un ohonom yn gwybod, mae canol trefi yn bwysig. Fodd bynnag, maent yn bwysig yn eu haeddiant eu hunain ac o ran y ffordd y maent yn gwasanaethu'r cymunedau cyfagos. Mae gan drefi a'r cymunedau a'r pentrefi cyfagos berthynas ddwyffordd, gan eu bod yn dibynnu ar ei gilydd. Yn unol ag argymhellid 6 yr adroddiad, rwyf yn croesawu'r newyddion y bydd y Llywodraeth yn sefydlu fforwm polisi canol trefi, a fydd yn dwyn ynghyd y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i rannu arfer da ar gyfer adfywio canol trefi Cymru. Hoffwn dynnu sylw'r

County Council in regenerating Carmarthen town centre as an example of best practice that can be shared throughout Wales and one which undoubtedly demonstrates a commitment to keep trade within the town centre.

The Welsh Government has also set out plans for growth, particularly for small and medium-sized enterprises and has put this at the heart of its vision. Therefore, I ask the Minister whether he will reaffirm his commitment to ensure that best practice from throughout mid and west Wales will actively be shared in the policy-making process for regenerating Wales's town centres.

Suzy Davies: I, too, welcome the Enterprise and Business Committee's report on the regeneration of town centres and would like to thank the members of the committee for their hard work in preparing this report for us. The decline of town and city centres across Wales has become a huge issue, particularly in the current economic climate. Just two days ago, we learned that the UK's largest video games retailer had gone into administration and we have all witnessed the boarded-up shops in our town centres. The committee's recommendations will start to address some of the problems facing town centres across Wales, and it is heartening that the Welsh Government has accepted the recommendations. Members will be aware that the WLGA has been critical in the past of the lack of Welsh Government involvement in local regeneration, so we must also welcome the Minister's commitment to ensure collaboration across Government and full engagement with the private, public and third sectors.

However, I ask the Minister to recognise that, although a one-size-fits-all approach does not work for town and city regeneration, localities can be inspired by those unique selling points that Christine Chapman mentioned and that Joyce Watson has just been speaking about. Many respondents to the committee highlighted the role played by out-of-town developments, and their effect is undeniable. On the other hand, bringing supermarkets back into the town does not

Llywodraeth at waith Cyngor Sir Caerfyrddin i adfywio canol tref Caerfyrddin fel enghraifft o arfer gorau y gellir ei rannu ledled Cymru, ac sy'n sicr yn dangos ymrwymiad i gadw masnach yng nghanol y dref.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi amlinellu cynlluniau ar gyfer twf, yn enwedig ar gyfer mentrau bach a chanolig, ac mae wedi rhoi hyn wrth wraidd ei gweledigaeth. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog a fydd yn ailddatgan ei ymrwymiad i sicrhau y bydd yr arfer gorau o bob cwr o'r canolbarth a'r gorllewin yn cael ei rannu yn y broses o lunio polisiau i adfywio canol trefi Cymru.

Suzy Davies: Rwyf finnau hefyd yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi, a hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled i baratoi'r adroddiad hwn ar ein cyfer. Mae dirywiad canol trefi a dinasoedd ledled Cymru wedi dod yn broblem enfawr, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Dim ond ddau ddiwrnod yn ôl, cawsom wybod fod manwerthwr gemau fideo mwyaf y DU wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ac mae pob un ohonom wedi gweld siopau sydd wedi cau yng nghanol ein trefi. Bydd argymhellion y pwyllgor yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n wynebu canol trefi ar draws Cymru, ac mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion yn galonogol. Bydd yr Aelodau'n gwybod bod CLILC wedi bod yn feirniadol yn y gorffennol o ddiffyg presenoldeb Llywodraeth Cymru mewn gwaith adfywio lleol, felly mae'n rhaid inni hefyd groesawu ymrwymiad y Gweinidog i sicrhau cydweithio ar draws y Llywodraeth ac i ymgysylltu'n llawn â'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Fodd bynnag, gofynnaf i'r Gweinidog gydnabod, er nad yw un ateb addas i bawb yn gweithio i adfywio trefi a dinasoedd, y gall ardaloedd lleol gael ysbrydoliaeth o'r nodweddion gwerthu unigryw hynny a grybwyllwyd gan Christine Chapman ac y mae Joyce Watson newydd sôn amdanynt. Gwnaeth llawer o'r rheini a gyflwynodd ymateb i'r pwyllgor bwysleisio rôl datblygiadau ar gyrion trefi, ac ni ellir gwadu eu heffaith. Ar y llaw arall, nid yw dod ag

always work either, as Darren Millar pointed out. Residents in Porthcawl in my region are very sceptical about whether a supermarket development there will genuinely contribute to a more vigorous future for the town centre.

When Brecon's cattle market was moved out of town, it was hoped that building a new supermarket on the site would succeed in keeping people shopping in the traditional town centre. Unfortunately, this did not happen in the way expected, despite the supermarket being only yards away from the main streets. I hope that Darren Millar will be pleased to hear that among the town's responses to that disappointment was the development by some retailers and others of the idea of making Brecon an art town. Perhaps inspired by the way that books have transformed Hay on Wye, Brecon is now using its many art shops and galleries to generate new interest in the town, something achieved by the jazz festival nearly 30 years previously. When there is a buzz about town, it stands a better chance of yet more businesses, including retailers, wanting a piece of the success.

Prestatyn has its arts regeneration defence in first. The Scala cinema, a community-run enterprise in the Value of Clwyd, which has brought life back to the high street, is inspiring others. However, during my recent visit, I learnt that Prestatyn town centre's fortunes were tied in with a large development behind the venue. As the Scala has now established itself as a valued piece of the town's landscape, I hope that it will attract footfall from the new stores to the high street, rather than those new stores taking it the other way.

Recommendation 11 of the committee's report recognises the role that a town's heritage and identity has to play in regeneration. It is a shame that this recommendation will be too late to save locally important buildings, such as Customs House in Port Talbot and perhaps even the Palace Theatre and Elysium cinema on Swansea's High Street. These buildings

archfarchnadoedd yn ôl i mewn i'r dref bob amser yn gweithio ychwaith, fel y dywedodd Darren Millar. Mae trigolion ym Mhorthcawl yn fy rhanbarth i yn amheus iawn a fydd datblygiad archfarchnad yno wir yn cyfrannu at ddyfodol mwy llewyrchus i ganol y dref.

Pan gafodd marchnad wartheg Aberhonddu ei symud allan o'r dref, y gobaith oedd y byddai adeiladu archfarchnad newydd ar y safle yn llwyddo i gadw pobl yn siopa yng nghanol traddodiadol y dref. Yn anffodus, ni ddigwyddodd hynny yn y modd y disgwyliid, er nad oedd yr archfarchnad ond ychydig lathenni o'r prif strydoedd. Gobeithio y bydd Darren Millar yn falch o glywed bod ymatebion y dref i'r siom hwnnw yn cynnwys sylwadau am syniad rhai manwerthwyr a phobl eraill i wneud Aberhonddu yn dref celf. Wedi'i hysbrydoli gan y ffordd y mae llyfrau wedi trawsnewid y Gelli Gandryll efallai, mae Aberhonddu yn awr yn defnyddio ei horielau a'i siopau celf niferus i ennyn diddordeb newydd yn y dref, rhywbeth y llwyddodd yr wyl jazz i'w wneud bron i 30 mlynedd yn ôl. Pan fydd ymdeimlad o gynnwrf yn perthyn i dref, mae mwy o siawns y bydd hyd yn oed mwy o fusnesau, gan gynnwys manwerthwyr, yn dymuno bod yn rhan o'r llwyddiant hwnnw.

Mae Prestatyn yn rhoi pwyslais ar adfywio celfyddydau. Mae sinema Scala, menter gymunedol yn Nyffryn Clwyd sydd wedi dod â bywyd yn ôl i'r stryd fawr, yn ysbrydoli mentrau eraill. Fodd bynnag, yn ystod fy ymweliad diweddar, cefais wybod fod ffawd canol tref Prestatyn yn dibynnu ar ddatblygiad mawr y tu ôl i'r lleoliad. Gan fod sinema Scala wedi sefydlu ei hun fel rhan werthfawr o dirwedd y dref erbyn hyn, rwyf yn gobeithio y bydd yn denu nifer o ymwelwyr o'r siopau newydd i'r stryd fawr, yn hytrach na bod y siopau newydd hynny yn denu ymwelwyr o'r stryd fawr.

Mae argymhelliad 11 adroddiad y pwyllgor yn cydnabod y rôl y mae treftadaeth a hunaniaeth tref yn ei chwarae mewn adfywio. Mae'n drueni y bydd yr argymhelliad hwn yn rhy hwyr i achub adeiladau pwysig lleol, fel adeilad Customs House ym Mhort Talbot ac efallai hyd yn oed Theatr y Palas a sinema Elysium ar stryd fawr Abertawe. Llwyddodd yr adeiladau hyn i oroesi'r Luftwaffe, ond nid

survived the Luftwaffe, but they are not surviving inappropriate planning decisions or deliberate neglect. Perhaps that is something the Minister can consider. But guess what—as part of a wider £25 million regeneration programme for High Street, we have a starring role for the arts in the form of a new theatre and home to a host of creative groups in Swansea Creative Hub. It is part of the new urban village, which will also include flats, courtyards, retail units and the refurbished Kings Lane warehouse.

In Neath, the Gwyn Hall has undergone major refurbishment and modernisation, following the 2007 fire and is now a state-of-the-art digital cinema, theatre and public meeting space. I am going there as a punter tomorrow night; I got the last two tickets for the show when I bought them three weeks ago. Of course, I love the fact that the whole place is run by a social enterprise. From Aberystwyth to Cardiff bay, from Mold to Milford, you can see that an active arts presence is a restorative force. However, there are numerous examples of a wide variety of different approaches to regeneration. The fair trade, transition town and Cittaslow movements all bring new value-added ideas to our towns. In Newport, the Welsh Conservative-led council has allowed buses back into the city centre, something one of the councils in my region might like to consider for over-pedestrianised Bridgend. Newport council has also moved 350 staff from the civic centre to new premises at the railway station in order to turn them back into town-centre shoppers.

Many communities means many solutions. So, Minister, it is time to put your multitasking skills to good use.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I would like to thank Members for a very thought-provoking debate on the future of town centres in Wales. We all know that these are challenging times for our town and city centres, and it is important for us to consider and debate how we tackle the issues they

dynt yn goroesi penderfyniadau cynllunio amhriodol nac esgeulustod bwriadol. Efallai fod hynny'n rhywbeth y gall y Gweinidog ei ystyried. Ond wyddoch chi beth, fel rhan o raglen adfywio ehangach gwerth £25 miliwn ar gyfer y Stryd Fawr, mae gennym rôl amlwg i'r celfyddydau ar ffurf theatr newydd a chartref i lu o grwpiau creadigol yn Creative Hub Abertawe. Mae'n rhan o'r pentref trefol newydd, a fydd hefyd yn cynnwys fflatiau, cyrtiau, unedau manwerthu a warws Kings Lane ar ei newydd wedd.

Yng Nghastell-nedd, mae Neuadd Gwyn wedi cael ei hadnewyddu a'i moderneiddio yn dilyn y tân yn 2007, ac erbyn hyn mae'n sinema ddigidol, yn theatr ac yn fan cyfarfod cyhoeddus modern. Rwyf yn mynd yno fel cwsmer nos yfory; llwyddais i gael y ddau docyn olaf ar gyfer y sioe dair wythnos yn ôl. Wrth gwrs, rwyf yn falch iawn o'r ffaith fod y lle i gyd yn cael ei redeg gan fenter gymdeithasol. O Aberystwyth i Fae Caerdydd, o'r Wyddgrug i Aberdaugleddau, gallwch weld bod presenoldeb y celfyddydau gweithredol yn rym atgyfnerthol. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lu o wahanol ddulliau o adfywio. Mae mudiadau masnach deg, trefi pontio a Cittaslow i gyd yn cynnig syniadau newydd sy'n ychwanegu gwerth i'n trefi. Yng Nghasnewydd, mae'r cyngor sydd o dan arweiniad y Ceidwadwyr Cymreig wedi caniatáu i fysiau fynd yn ôl i ganol y ddinas, rhywbeth y gallai un o'r cynghorau yn fy rhanbarth i ei ystyried ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr lle ceir gormod o ardaloedd i gerddwyr yn unig. Mae cyngor Casnewydd hefyd wedi symud 350 o staff o'r ganolfan ddinesig i safle newydd yn yr orsaf rheilffordd er mwyn iddynt ailddechrau siopa yng nghanol y dref.

Mae llawer o gymunedau yn golygu llawer o atebion. Felly, Weinidog, mae'n bryd manteisio ar eich sgiliau i gyflawni sawl tasg ar unwaith.

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am ddadl sydd wedi procio'r meddwl am ddyfodol canol trefi yng Nghymru. Gŵyr pob un ohonom bod hwn yn gyfnod anodd i ganol trefi a dinasoedd, ac mae'n bwysig inni ystyried a thrafod sut rydym am fynd i'r afael â'r problemau sy'n eu hwynebu. Canol trefi a

face. Town and city centres are the heartbeat of many communities, and the extremely positive engagement the committee has received in response to its inquiry is testament to the fact that town centres play a vital role in Welsh community life. I am pleased to say that we welcome the report. I would like to thank the committee members for their hard work in reviewing the evidence and presenting the findings in a positive and well balanced way. I also thank the numerous individuals and organisations that have provided evidence over recent months.

3.45 p.m.

The recommendations contained in the report fit closely with our current policy direction and we are very pleased to be able to say that we have responded positively to all 21 of them. Some require further consideration and consultation with our partners, but we support the general direction of what the committee has recommended. It is good to see that we share a common understanding of the issues and challenges and a unity of view, very nearly, on how we should tackle them. This is important in taking forward our vision for town-centre regeneration across Wales. This Government is committed to our town centres. We are currently supporting town-centre regeneration across a number of portfolio interests, through housing, transport, tourism and heritage programmes, to name just a few. This holistic approach is absolutely essential within my portfolio, within Government more widely, and alongside our regeneration partners and their work. With European funding, we are supporting 24 town-centre regeneration projects at present, totalling around £270 million of investment across Wales. Many of these projects lie within our seven regeneration areas, from Holyhead, Caernarfon and Rhyl in the north, to Aberystwyth in mid Wales, to Bargoed, Merthyr and Barry in the south. However, I would like to set our response within the context of the review that I will be undertaking into our approaches to regeneration, which has already been announced.

In Plenary last month I said that our existing commitments provide us with the time to

dinasoedd yw curiad calon llawer o gymunedau, ac mae'r ymrwymiad hynod gadarnhaol y mae'r pwyllgor wedi'i gael mewn ymateb i'w ymchwiliad yn brawf o'r ffaith bod canol trefi yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd cymunedau Cymru. Rwyf yn falch o ddweud ein bod yn croesawu'r adroddiad. Hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled wrth adolygu'r dystiolaeth, ac wrth gyflwyno'r canfyddiadau mewn ffordd gadarnhaol a chytbwys. Diolch hefyd i'r nifer o unigolion a sefydliadau sydd wedi darparu tystiolaeth yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cydfynd yn agos â chyfeiriad ein polisi ar hyn o bryd, ac rydym yn falch iawn o allu dweud ein bod wedi ymateb yn gadarnhaol i bob un o'r 21 o argymhellion. Mae angen ystyried ac ymgynghori ymhellach â'n partneriaid ynghylch rhai ohonynt, ond rydym yn cefnogi'r cyfeiriad cyffredinol y mae'r pwyllgor wedi ei argymhell. Mae'n dda gweld bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o'r problemau a'r heriau a'n bod o'r un farn, bron iawn, ynghylch sut y dylem fynd i'r afael â hwy. Mae hyn yn bwysig er mwyn datblygu ein gweledigaeth i adfywio canol trefi ar hyd a lled Cymru. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i'n canol trefi. Ar hyn o bryd, rydym yn cefnogi adfywio canol trefi ar draws nifer o fuddiannau portffolio, drwy raglenni tai, trafnidiaeth, twristiaeth a threftadaeth i enwi dim ond rhai. Mae'r ymagwedd gyfannol hon yn gwbl hanfodol o fewn fy mhortffolio, o fewn y Llywodraeth yn ehangach, ac ochr yn ochr â'n partneriaid adfywio a'u gwaith. Gyda chyllid Ewropeaidd, rydym yn cefnogi 24 o brosiectau adfywio canol trefi ar hyn o bryd, sy'n gyfanswm o tua £270 miliwn o fuddsoddiad ar draws Cymru. Mae llawer o'r prosiectau hyn o fewn ein saith ardal adfywio, o Gaergybi, Caernarfon a'r Rhyl yn y gogledd, i Aberystwyth yn y canolbarth, i Fargoed, Merthyr a'r Barri yn y de. Fodd bynnag, hoffwn egluro ein hymateb yng nghyd-destun yr adolygiad y byddaf yn ei gynnal o'n dulliau gweithredu ar gyfer adfywio, sydd eisoes wedi cael ei gyhoeddi.

Yn y Cyfarfod Llawn fis diwethaf, dywedais fod ein hymrwymadau presennol yn rhoi

pause for that review. I want to ensure that we are providing the right kind of leadership and co-ordination to our partners so that we achieve maximum impact from our regeneration investment in future years. This pause for reflection will also give us time to further consider the committee's 21 recommendations and also to take advice from the national regeneration panel and other partners and experts in regeneration. In the short time that we have remaining today, I would like to reiterate two important issues that this process has highlighted, and which have been raised again here in the Chamber this afternoon. First, there is need to address the dynamism of our town centres. Towns and cities are continuously evolving; they have never stayed the same. They are influenced by many factors these days, such as internet shopping, the economic downturn, which faces us all, as well as competition from nearby towns or out-of-town shopping centres. It can be hard to keep up with technological advances. E-commerce has already changed our way of life, and this week I will begin to inform myself about M-commerce, which is about the ability to do your weekly shop via your mobile phone. These changes mean that only the most adaptable, innovative, creative high streets, where the needs of customers are understood, will survive and thrive in a global changing marketplace. Government, and our partners, also need to be adaptable and innovative in the way that we support town-centre regeneration, responding to the needs of customers in Wales.

Secondly, it is clear that our town centres need to diversify, as many speakers have already said this afternoon. Retail can no longer be the sole driving force for our towns. As towns change, we need to explore how to consolidate retail in more focused areas, and how to locate housing and local services in town centres as well. Kenneth Skates, among others, was quite right to point that out. That includes increasing opportunities to consider the role of leisure and the role of the night-time economy as part of a town's offer as a destination for

amser inni bwyso a mesur ar gyfer yr adolygiad hwnnw. Rwyf am sicrhau ein bod yn darparu'r math priodol o arweinyddiaeth a chydlyniant i'n partneriaid er mwyn sicrhau y bydd ein buddsoddiad mewn adfywio yn cael cymaint o effaith â phosibl yn y blynyddoedd nesaf. Bydd y cyfle hwn i bwyso a mesur hefyd yn rhoi amser inni ystyried ymhellach yr 21 o argymhellion a gyflwynwyd gan y pwyllgor, a hefyd i gael cyngor gan y panel adfywio cenedlaethol a chan bartneriaid ac arbenigwyr eraill ym maes adfywio. Yn yr amser byr sydd gennym ar ôl heddiw, hoffwn ailadrodd dau fater pwysig y mae'r broses hon wedi tynnu sylw atynt, ac sydd wedi cael eu codi eto yma yn y Siambr y prynhawn yma. Yn gyntaf, mae angen inni fynd i'r afael â deinamigrwydd canol ein trefi. Mae trefi a dinasoedd yn datblygu drwy'r amser; nid ydynt erioed wedi aros yr un fath. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu arnynt y dyddiau hyn, fel siopa ar y rhyngwrdd, y dirywiad economaidd—sy'n wynebu pob un ohonom—yn ogystal â chystadleuaeth gan drefi cyfagos neu ganolfannau siopa ar gyrion trefi. Yng nghanol datblygiadau technolegol, mae'n hawdd cael eich gadael ar ôl. Mae e-fasnach eisoes wedi newid ein ffordd o fyw, a'r wythnos hon byddaf yn dechrau dysgu am M-fasnach, sy'n ymwneud â gallu gwneud eich siopa wythnosol drwy gyfrwng eich ffôn symudol. Mae'r newidiadau hyn yn golygu mai dim ond y stryd fawr fwyaf hyblyg, arloesol a chreadigol sy'n deall anghenion cwsmeriaid fydd yn goroesi ac yn ffynnu mewn marchnad fyd-eang sy'n newid. Mae angen i'r Llywodraeth a'n partneriaid hefyd fod yn fwy hyblyg ac arloesol yn y modd rydym yn cefnogi adfywio canol trefi, gan ymateb i anghenion cwsmeriaid yng Nghymru.

Yn ail, mae'n amlwg bod angen i ganol ein trefi arallgyfeirio, fel y mae llawer o siaradwyr eisoes wedi'i ddweud y prynhawn yma. Ni all manwerthu ar ei ben ei hun sbarduno ein trefi mwyach. Wrth i drefi newid, mae angen inni edrych ar sut mae atgyfnerthu manwerthu mewn ardaloedd mwy penodol, a sut mae sefydlu gwasanaethau tai a gwasanaethau lleol yng nghanol trefi hefyd. Roedd Kenneth Skates, ymysg eraill, yn llygad ei le i dynnu sylw at hynny. Mae hynny'n cynnwys cynyddu cyfleoedd i ystyried rôl hamdden a rôl

residents and visitors. One of the key questions here was also asked by Ken Skates: who cares enough about a particular town centre to work at it? It does not matter if each town centre in Wales is descended upon by battalions of politicians. It does not matter anywhere near as much, as Christine Chapman pointed out, as the importance of business improvement districts, town-centre managers, local authorities, the business sector locally and the residents of that town beginning to take charge and care enough about that town centre to be a part of the debate.

Alun Ffred also pointed out the importance of maintaining the dynamism of our town centres. The key questions that we need to ask are: why would people spend time in this place, and why would people spend money in this place? As Eluned Parrott, Chris Chapman and Suzy Davies have pointed out, the distinctiveness of Welsh towns is key in answering those questions. The heritage of our towns, unique retail offers, quality catering, space to socialise, and, in some instances, the importance of tourism, all form partial answers to those questions. Best practice, as Joyce Watson said, needs to be shared urgently across Wales, and there are some great examples of it.

I would like to finish by reassuring Members that town and city-centre regeneration is a commitment for this Welsh Government, even in these difficult times, now and in the future. I am committed to honouring the existing commitments to the seven regeneration areas and the towns within them. Early next year, I will set out future priorities for focused and holistic investment to deliver our manifesto commitment to renew town centres and our seaside towns.

Nick Ramsay: I thank the Minister for taking on board the recommendations of the committee and for concluding the debate so comprehensively. You mentioned many of the comments that Members had made, and I have picked up on some myself. It has been

economi'r nos fel rhan o'r hyn sydd gan dref i'w gynnig fel cyrchfan i drigolion ac ymwelwyr. Gofynnodd Ken Skates un o'r cwestiynau allweddol ynghylch hyn hefyd: pwy sy'n poeni digon am ganol tref benodol i geisio ei wella? Ni fydd yn gwneud gwahaniaeth os bydd llu o wleidyddion yn hoelio'u sylw ar ganol pob tref yng Nghymru. Nid yw hynny hanner mor bwysig, fel y dywedodd Christine Chapman, â phwysigrwydd ardaloedd gwella busnes, rheolwyr canol tref, awdurdodau lleol, y sector busnes yn lleol a thrigolion y dref honno yn dechrau cymryd cyfrifoldeb ac yn poeni digon am ganol y dref honno i fod yn rhan o'r ddadl.

Soniodd Alun Ffred hefyd am bwysigrwydd cynnal deinamyddiaeth canol ein trefi. Y cwestiynau allweddol y mae angen inni eu gofyn yw: pam y byddai pobl yn treulio amser yn y lle hwn, a pham y byddai pobl yn gwario arian yn y lle hwn? Fel y mae Eluned Parrott, Chris Chapman a Suzy Davies wedi'i ddweud, natur unigryw trefi Cymru yw'r allwedd i ateb y cwestiynau hynny. Mae treftadaeth ein trefi, cyfleoedd manwerthu unigryw, gwasanaethau arlwy o safon, lle i gymdeithasu ac, mewn rhai achosion, pwysigrwydd twristiaeth, i gyd yn atebion rhannol i'r cwestiynau hynny. Mae angen rhannu arfer gorau, fel y dywedodd Joyce Watson, ar draws Cymru ar unwaith, a cheir rhai enghreifftiau gwych o hynny.

Hoffwn orffen drwy sicrhau'r Aelodau bod adfywio canol trefi a dinasoedd yn un o ymrwymadau Llywodraeth bresennol Cymru, hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn, yn awr ac yn y dyfodol. Rwyf wedi ymrwymo i anrhydeddu'r ymrwymadau presennol i'r saith ardal adfywio a'r trefi yn yr ardaloedd hynny. Yn gynnar y flwyddyn nesaf, byddaf yn nodi blaenoriaethau i'r dyfodol yng nghyswllt buddsoddiad cyfannol a phenodol i gyflawni'r ymrwymiad yn ein manifest o i adnewyddu canol trefi a'n trefi glan môr.

Nick Ramsay: Diolch i'r Gweinidog am dderbyn argymhellion y pwyllgor ac am ddirwyn y ddadl i ben mewn ffordd mor gynhwysfawr. Sonioch am lawer o'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau, ac rwyf wedi sylwi ar rai fy hun. Mae wedi bod yn

an excellent and informative debate. During the course of our inquiry, we had a great degree of engagement from all the stakeholders whom we spoke to. Clearly, town centres are close to all of our hearts and we see them as a key to regenerating the Welsh economy as a whole.

I will start with Ken Skates's comments—they were eloquent as ever, Ken. When you talked about the doughnut effect in our town centres, I could not have put it as well myself. You also talked about the need to have connectivity between town centres and the areas around them. You also made a very good point about supermarkets. Too often, we see supermarkets as some kind of evil ogre, when, actually, they are not. It is all about where they are. They are very useful to many people, and to all of us at some point. It is about planning where they are and the role we require them to fulfil. You also spoke about the difference between an out-of-town supermarket and an in-town or edge-of-town supermarket, which can have quite a different effect on a town centre.

Byron Davies quoted Adam Smith, among other things. He also spoke about the importance of business rates policy in assisting our town centres. He referred to our trip to Caerphilly, and, when we walked up the town centre of Caerphilly and spoke to many of the shopkeepers there, I do not think that there was a single shopkeeper who did not, at some point, mention the need for a business rates policy that addresses the needs of small shops in town centres in particular, especially at a time of recession. As a committee, we did not really want to go too much into that, because we did not want to pre-empt the findings of the review that has been commissioned. However, we hope that the review takes on board the recommendations of the committee.

Alun Ffred Jones talked about allowing out-of-town developments to undermine the viability of our town centres and selling the soul of our town centres. He also asked for a timetable for the implementation of the Minister's plans and a requirement of local authorities to develop new offices at the centre of towns, not on the edge. Those are

ddadl wych a llawn gwybodaeth. Yn ystod ein hymchwiliad, cawsom lawer o wybodaeth gan yr holl randdeiliaid y buom yn siarad â hwy. Yn amlwg, mae canol trefi yn agos at galon pob un ohonom, ac rydym yn eu hystyried yn allweddol i adfywio economi Cymru drwyddi draw.

Dechreuaf gyda sylwadau Ken Skates—roeddent mor huawdl ag erioed, Ken. Pan sonioch am yr effaith toesen yng nghanol ein trefi, ni allwn fod wedi ei egluro cystal fy hun. Sonioch hefyd am yr angen i gael cysylltiad rhwng canol trefi a'r ardaloedd o'u cwmpas. Gwnaethoch bwynt da iawn am archfarchnadoedd hefyd. Yn rhy aml, rydym yn ystyried archfarchnadoedd yn rhyw fath o gawr mawr drwg, er nad yw hynny'n wir. Eu lleoliad sy'n bwysig. Maent yn ddefnyddiol iawn i lawer o bobl, ac i bob un ohonom ar ryw adeg. Mae'n rhaid cynllunio eu lleoliad a'r rôl rydym am iddynt ei chyflawni. Siaradoch hefyd am y gwahaniaeth rhwng archfarchnadoedd ar gyrion trefi ac archfarchnadoedd yn y trefi, sy'n gallu effeithio ar ganol tref mewn ffordd dra gwahanol.

Gwnaeth Byron Davies ddyfynnu Adam Smith, ymysg pethau eraill. Siaradodd hefyd am bwysigrwydd polisi ardrethi busnes er mwyn cynorthwyo canol ein trefi. Cyfeiriodd at ein taith i Gaerffili. Pan fuom yn cerdded yng nghanol tref Caerffili ac yn siarad â llawer o berchnogion siopau yno, rwyf yn credu bod pob perchennog siop, ar ryw adeg, wedi sôn am yr angen am bolisi ardrethi busnes sy'n mynd i'r afael ag anghenion siopau bach yng nghanol trefi yn benodol, yn enwedig mewn cyfnod o ddirwasgiad. Fel pwyllgor, nid oeddem am sôn gormod am hynny, oherwydd nid oeddem yn dymuno achub y blaen ar ganfyddiadau'r adolygiad sydd wedi cael ei gomisiynu. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd yr adolygiad yn derbyn argymhellion y pwyllgor.

Siaradodd Alun Ffred Jones am ganiatáu i ddatblygiadau y tu allan i drefi danseilio hyfywedd canol ein trefi a gwerthu enaid canol ein trefi. Gofynnodd hefyd am amserlen ar gyfer gweithredu cynlluniau'r Gweinidog, ac am ofyniad i awdurdodau lleol ddatblygu swyddfeydd newydd yng nghanol trefi, nid ar y cyrion. Mae'r rheini i gyd yn

all excellent points.

Eluned Parrott spoke of the need to promote a rich town-centre environment and, interestingly, of the threat of the internet. I agreed with many of the comments that she made. However, there is a flip side to that, because, when the committee was in Narberth, one of the shops that we visited relied very heavily on the internet, and we were told by that shop owner that, without the shop's internet presence, it would be difficult for the physical store to survive. So there is flip side to that argument about the internet, but there is no doubt at all that we have to get the balance right. She also mentioned the British Retail Consortium, which spoke of the need to build up town centres, not knock supermarkets down—that comment was made, at least; forgive me if I have attributed it to the wrong speaker.

I was very surprised by the lack of reference to the Swansea business improvement district in today's debate. It was mentioned frequently in committee. It was a favourite subject of the local Assembly Members in Swansea and for very good reason, because a lot of good work has gone on there. Recommendation 19 of our report states:

'We recommend that the Welsh Government should commission a full and transparent assessment of the effectiveness of the Swansea Business Improvement District and consult with a broad range of stakeholders to inform further BID development in Wales.'

The committee was eager that, if that is successful and is working, elements of that should be rolled out to improve and regenerate town centres across Wales.

Chris Chapman spoke of her desire to improve town centres across Wales, and she referred to recommendation 11, making an excellent point about regenerating town centres in a way that recognises their individual appeal. The point that the committee made was that we do not want to see all town centres following an identikit form. We have seen too much of that over recent years, and it is important that there is sympathetic regeneration of town centres,

bwyntiau rhagorol.

Siaradodd Eluned Parrott am yr angen i hyrwyddo amgylchedd cyfoethog ar gyfer canol trefi ac, yn ddiddorol, bygythiad y rhyngwrwyd. Roeddwn yn cytuno â llawer o'r sylwadau a wnaed ganddi. Fodd bynnag, ceir dwy ochr i hynny, oherwydd pan oedd y pwyllgor yn Arberth, roedd un o'r siopau y gwnaethom ymweld â hi'n dibynnu'n llawer ar y rhyngwrwyd. Dywedodd perchennog y siop wrthym y byddai'n anodd i'r siop ei hun oroesi heb bresenoldeb y siop ar y rhyngwrwyd. Felly mae dwy ochr i'r ddadl honno am y rhyngwrwyd, ond yn sicr mae'n rhaid inni gael y cydbwysedd yn iawn. Soniodd hefyd am Gonsortium Manwerthu Prydain, a oedd yn sôn am yr angen i wella canol trefi, nid chwalu archfarchnadoedd—cafodd y sylw hwnnw ei wneud, beth bynnag; maddeuwch imi os wyf wedi'i briodoli i'r siaradwr anghywir.

Roeddwn yn synnu'n fawr na soniwyd llawer am ardal gwella busnes Abertawe yn y ddadl heddiw. Soniwyd am yr ardal honno droeon yn y pwyllgor. Dyna oedd hoff bwnc yr Aelodau Cynulliad lleol dros Abertawe ac am reswm da iawn, oherwydd mae llawer o waith da wedi cael ei wneud yno. Mae argymhelliad 19 ein hadroddiad yn datgan:

'Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu asesiad llawn a thryloyw o effeithiolrwydd Ardal Gwella Busnes Abertawe ac yn ymgynghori ar ystod eang o randdeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru ymhellach.'

Roedd y pwyllgor yn awyddus i elfennau o hynny, os yw'n llwyddiannus ac yn gweithio, gael eu rhoi ar waith i wella ac i adfywio canol trefi ar hyd a lled Cymru.

Siaradodd Chris Chapman am ei dymuniad i wella canol trefi ar hyd a lled Cymru, a chyfeiriodd at argymhelliad 11, gan wneud pwynt ardderchog am adfywio canol trefi mewn ffordd sy'n cydnabod eu hapêl unigryw. Y pwynt a wnaeth y pwyllgor oedd nad ydym am weld pob canol tref yn dilyn ffurf sy'n union yr un fath. Rydym wedi gweld gormod o hynny dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n bwysig bod canol trefi yn cael eu hadfywio mewn ffordd ystyriol, fel

such as in Narberth, which has been improved over the last two decades, but in a way that respects its original character. She also said that we need to make town centres friendly while protecting other aspects such as safety, because people need to know that it is a friendly environment but also safe.

Darren Millar referred to empty shops. Rates of empty shops are high at the moment in certain parts of Wales, and he made reference to Colwyn Bay. He also said that supermarkets can, in some cases, have a negative effect, but they can also have a positive effect, and that goes back to the planning process. Sometimes, the difference between that effect being positive or negative is minor, so we have to get that right.

Joyce Watson spoke about small and medium-sized businesses and the importance of protecting them. Suzy Davies spoke about collaboration across all areas of Government—it is not just the Minister who can improve things; he needs to work with local authorities to ensure that we get the balance right across the whole of Wales.

I am delighted, Presiding Officer, that this has stimulated such an interesting debate. It was one of the most interesting, if not the most interesting, committee inquiry of which I have been a part. It has engaged everyone, because this affects us all at some point or other. Whatever our background, what unites us all is the need to go to a town centre and to rely on the services that are provided there. Therefore, we believe as a committee that the regeneration of Welsh town centres is not just a nice add-on or something that we would possibly like to see, but that it should be at the heart of the Welsh Government's policy. Minister, in your remarks earlier, you spoke about the beating heart of our towns. If you do not have that beating heart at the heart of towns, that is, town centres, then do you have a proper town? I will finish by returning to Ken Skates's opening remarks about the doughnut. We would like to see the Minister

sydd wedi digwydd yn Arberth. Mae hynny wedi gwella dros y ddau ddegawd diwethaf, ond mae angen gwneud hynny mewn ffordd sy'n parchu cymeriad gwreiddiol y dref. Dywedodd hefyd fod angen inni wneud canol trefi yn lleoedd cyfeillgar, gan amddiffyn elfennau eraill fel diogelwch ar yr un pryd, oherwydd mae angen i bobl wybod ei fod yn amgylchedd cyfeillgar ac yn amgylchedd diogel hefyd.

Cyfeiriodd Darren Millar at siopau gwag. Mae'r cyfraddau siopau gwag yn uchel ar hyn o bryd mewn rhai rhannau o Gymru, a chyfeiriodd at Fae Colwyn. Dywedodd hefyd y gall archfarchnadoedd, mewn rhai achosion, gael effaith negyddol, ond y gallant hefyd gael effaith gadarnhaol, a'r broses gynllunio sy'n gyfrifol am hynny. Weithiau, gwahaniaeth bach sy'n golygu a fydd archfarchnad yn cael effaith gadarnhaol ynteu effaith negyddol, felly mae'n rhaid inni gael hynny'n iawn.

Siaradodd Joyce Watson am fusnesau bach a chanolig a pha mor bwysig yw eu hamddiffyn. Siaradodd Suzy Davies am gydweithredu ar draws pob rhan o'r Llywodraeth—nid dim ond y Gweinidog sy'n gallu gwella pethau; mae angen iddo weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd yn iawn ar draws Cymru gyfan.

Rwyf yn falch iawn, Lywydd, bod hyn wedi ysgogi dadl mor ddiddorol. Roedd yn un o'r ymchwiliadau pwyllgor mwyaf diddorol, os nad y mwyaf diddorol, yr wyf fi wedi bod yn rhan ohono. Mae wedi cynnwys pawb, oherwydd mae hyn yn effeithio ar bob un ohonom ar ryw adeg neu'i gilydd. Beth bynnag yw ein cefndir, yr hyn sy'n uno pob un ohonom yw'r angen i fynd i ganol y dref ac i ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir yno. Felly, rydym yn credu fel pwyllgor nad rhywbeth ychwanegol neu rywbeth y byddai'n braf ei weld yw adfywio canol trefi Cymru—dylai fod wrth wraidd polisi Llywodraeth Cymru. Weinidog, yn eich sylwadau yn gynharach, sonioch am guriad calon ein trefi. Os nad canol y dref yw curiad calon ein trefi, a oes gennych dref go iawn? Rwyf am gloi drwy ddychwelyd at sylwadau agoriadol Ken Skates am y doesen. Hoffem weld y Gweinidog yn rhoi'r argymhellion hyn

place these recommendations at the core of his policy and ensure that the regenerated town centres are the jam at the heart of the Welsh Government's policy doughnut. That is probably the most effective way to get that in again and to conclude. Thank you for your support in this debate.

The Presiding Officer: The proposal is that the motion to note the Enterprise and Business Committee's report be agreed. Is there any objection? I see that there is not. I therefore declare the motion agreed, in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.58 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.58 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Grymuso Empowerment

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 3, 5, 6 a 8 yn enw Peter Black, gwelliant 2 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 4, 7 a 9 yn enw Jocelyn Davies. Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliannau 3, 4 a 5 eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 3, caiff gwelliant 4 ei ddad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 7, caiff gwelliant 8 ei dad-ddethol.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 3, 5, 6 and 8 in the name of Peter Black, amendment 2 in the name of Jane Hutt and amendments 4, 7 and 9 in the name of Jocelyn Davies. If amendment 2 is agreed, amendments 3, 4 and 5 will be deselected. If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected. If amendment 7 is agreed, amendment 8 will be deselected.

Cynnig NDM4954 William Graham

Motion NDM4954 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei pholisïau i sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar grymuso cymunedau lleol;

1. Calls on the Welsh Government to review its policies to ensure greater emphasis is placed on empowering local communities;

2. Yn cydnabod y rhan y byddai rhewi'r Dreth Gyngor ledled Cymru wedi'i chwarae o ran grymuso aelwydydd yn ariannol;

2. Acknowledges the role a Wales-wide Council Tax freeze would have played in financially empowering households;

3. Yn nodi'r rhan y byddai gwella rhyddhad ardrethi busnesau bach yn ei chwarae o ran grymuso busnesau ledled Cymru, gan

3. Notes the role which enhancing small business rate relief would play in empowering businesses across Wales,

ganiatáu iddynt ehangu a chyflogi staff newydd; *allowing them to expand and hire new staff;*

4. Yn annog llywodraeth leol i weithredu mewn ffordd sy'n dryloyw, yn agored ac yn atebol, a fydd yn annog cymunedau lleol i gymryd mwy o ran mewn democratiaeth leol; *4. Encourages local government to act in a way which is transparent, open and accountable, which will motivate local communities to become more involved in local democracy;*

5. Yn nodi y bydd ariannu ysgolion yn uniongyrchol yn eu grymuso i osod eu blaenoriaethau eu hunain; a *5. Notes that funding schools directly will empower them to set their own priorities; and*

6. Yn nodi ymhellach y rhan y gall polisi cynllunio datganoledig ei chwarae o ran grymuso cymunedau. *6. Further notes the role decentralised planning policy can play in the empowerment of communities.*

Janet Finch-Saunders: I move the motion.

Janet Finch-Saunders: Cynig iaf y cynnig.

I am most grateful to open what I consider to be an essential debate, which, at its heart, calls for greater levels of political autonomy, transparency and empowerment to be returned to the people of Wales. Local government works well for Wales. Council employees and counsellors work hard for Wales, and local council services consistently rank highly in public satisfaction polls—in most cases, hovering around the 60% mark. However, there is always room for improvement.

Rwyf yn falch iawn o agor yr hyn yr wyf yn ei ystyried yn ddadl hanfodol, sydd, yn ei hanfod, yn galw am ddychwelyd lefelau uwch o annibyniaeth wleidyddol, tryloywder a grym i bobl Cymru. Mae llywodraeth leol yn gweithio'n dda i Gymru. Mae gweithwyr y Cyngor a chynghorwyr yn gweithio'n galed dros Gymru, ac mae gwasanaethau cyngor lleol yn cyrraedd safle uchel yn gyson mewn arolygon boddhad y cyhoedd—ym mwyafrif yr achosion, maent oddeutu'r 60 y cant. Ond, mae lle i wella bob amser.

Turnout for local elections is poor, and turnout in the 2011 National Assembly elections was the lowest since 2003—58% of those entitled to vote did not do so. Currently, there is a big gap between the hopes and aspirations of individuals and communities and their ability to bring about change. The 2002 Electoral Commission report on voter engagement among young people identified a lack of knowledge as the key barrier to voter participation. That is why today's motion centres on one key issue: empowerment.

Mae'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol yn wael, ac roedd y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2011 yr isaf er 2003—ni ddaeth 58 y cant o'r rheini a chanddynt hawl i bleidleisio i wneud hynny. Ar hyn o bryd, mae bwlch mawr rhwng gobeithion a dyheadau unigolion a chymunedau a'u gallu i ennyn newid. Roedd adroddiad y Comisiwn Etholiadol yn 2002 ar ennyn diddordeb pleidleiswyr ymhlith pobl ifanc wedi nodi diffyg gwybodaeth fel y prif beth a oedd yn rhwystro cyfranogiad pleidleiswyr. Dyna pam y mae'r cynnig heddiw yn canolbwyntio ar un mater allweddol: grymuso.

4.00 p.m.

The time has come for the Welsh Government to promote policies that will serve to empower local communities and have the potential to deliver long-term, bottom-up progress for local people. That is

Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru hyrwyddo polisiau a fydd yn grymuso cymunedau lleol ac sydd â'r potensial i gyflawni cynnydd hirdymor o'r gwaelod i'r brig ar gyfer pobl leol. Dyna pam ei bod yn peri gofid mawr, ar

why it is a cause for deep regret that, at a time when Welsh families are facing fiscal hardship on an unprecedented level, the Welsh Government has opted to exacerbate their difficulties further by failing to correctly utilise the £39.8 million consequential that was provided to it by the UK Government. To add insult to injury, we know that all local authorities in Scotland have frozen council tax for a fifth consecutive year, resulting in a 0% rise. Similarly, in England, council tax will rise by just 0.3%, with around 85% of local authorities opting to exercise a council tax freeze. Welsh council tax payers, however, will have to endure an average increase of 2.2% for starters come April, and for some it will be double that. The people of Wales have every right to feel aggrieved at this lack of parity with their counterparts in England and Scotland. They will rightly be asking, 'Why for them, but not for us?'

The third point of our motion reiterates the urgent need for increased business rate relief. If adopted, bolstered rate relief will serve the express purpose of freeing up capital for SMEs. This, in turn, will allow small companies to employ increased numbers of people, train more staff and apprentices and enlarge their operations. The level of insecurity felt by many SMEs in Wales was made apparent in a recent survey of SME managers conducted by NatWest. According to the survey, 50% of Welsh managers questioned cited company survival as their greatest fear in 2012, the third highest figure across the UK. Continuing this worrying data trend, a survey of members of the Federation of Small Businesses in Wales, published in February 2012, found that the average number of persons employed by its members had fallen from 8.7 in 2009 to just 7.6 in 2011. Meanwhile, the average turnover of Welsh FSB members fell by £4,000 to £454,000. These statistics tell us that many Welsh SMEs are battling to stay afloat and are desperately calling for financial empowerment from the Welsh Government.

adeig pan fo teuluoedd Cymru yn wynebu caledi ariannol ar lefel heb ei thebyg o'r blaen, fod Llywodraeth Cymru wedi dewis gwneud eu hanawsterau yn anos fyth drwy fethu â defnyddio'r swm canlyniadol o £39.8 miliwn a roddwyd iddi gan Lywodraeth y DU. I ychwanegu halen ar y briw, rydym yn gwybod bod pob awdurdod lleol yn yr Alban wedi rhewi'r dreth gyngor am y bumed flwyddyn yn olynol, gan arwain at gynydd o 0 y cant. Yn yr un modd, yn Lloegr, bydd y dreth gyngor yn codi 0.3 y cant yn unig, gydag oddeutu 85 y cant o awdurdodau lleol yn dewis rhewi'r dreth gyngor. Ond bydd talwyr y dreth gyngor yng Nghymru yn gorfod wynebu cynnydd cyfartalog o 2.2 y cant i ddechrau pan ddaw mis Ebrill, a bydd yn ddwbl hynny i rai. Mae gan bobl Cymru bob hawl i deimlo'n ddig gyda'r diffyg cydraddoldeb â'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban. Byddant yn gofyn yn briodol, 'Pam bod hyn yn digwydd iddynt hwy, ond nid i ni?'

Mae trydydd pwynt ein cynnig yn ailddatgan yr angen ar fyrder am fwy o ryddhad mewn ardrethi busnes. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y rhyddhad ategol mewn ardrethi yn ateb y diben penodol o ryddhau cyfalaf ar gyfer busnesau bach a chanolig. Bydd hyn, yn ei dro, yn caniatáu i gwmnïau bach gyflogi mwy o bobl, hyfforddi mwy o staff a phrentisiaid ac ehangu eu gwaith. Roedd lefel yr ansicrwydd a deimlir gan nifer o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn amlwg mewn arolwg diweddar gyda rheolwyr busnesau bach a chanolig a wnaed gan NatWest. Yn ôl yr arolwg, roedd 50 y cant o reolwyr Cymru a holwyd yn dweud mai'r hyn yr oeddent yn ei ofni fwyaf yn 2012 oedd parhad cwmni, y trydydd ffigur uchaf ar draws y DU. Gan barhau â'r duedd bryderus hon o ran data, canfu arolwg o aelodau'r Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012, fod nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd gan ei aelodau wedi gostwng o 8.7 yn 2009 i ddim ond 7.6 yn 2011. Yn y cyfamser, gwelwyd gostyngiad o £4,000 yn nhrosiant cyfartalog aelodau Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru i £454,000. Mae'r ystadegau hyn yn dweud wrthym fod llawer o fusnesau bach a chanolig Cymru yn brwydro i gadw pethau i fynd ac maent yn galw'n daer am rym ariannol gan Lywodraeth Cymru.

In these times of austerity and dwindling public resources, the need for truly accountable, transparent and democratic local government has taken on a renewed importance. The rationale behind this is self-evident. Greater transparency and accountability will empower communities and individuals to better hold their elected representatives to account, and in so doing, restore trust and confidence in local government. Greater transparency can be achieved by challenging all local authorities in Wales to publish all expenditure of over £500, as has been successfully undertaken by all three Welsh Conservative-led councils. This alone would enable the public to determine whether their local authority is delivering value for money. However, we can go further and really commit to empowering our local communities by introducing referenda on council tax hikes of over 3.5%. This alone would help make local councils more accountable and responsive to their communities, as well as putting pressure on councils to justify properly their reasons for the rises. Above all, we can empower the individual by ensuring that public council meetings are just that—public. This includes allowing the filming of proceedings as a fundamental principle, so that the case of Jacqui Thompson being led away in handcuffs is never repeated in Wales.

Regarding the fifth point of the motion, the latest statistics tell us that Welsh schools are serially underperforming in terms of both UK and global comparisons. The recent Welsh ranking for the Programme for International Student Assessment saw Wales sliding down the international rankings. Out of the 67 countries taking part, Wales was ranked in position 38 for reading, position 40 for mathematics and position 30 for science. Wales spends, on average, about 9.5% less per head of population on education than is spent in England. We also know that one-third of the education budget is swallowed up by administration costs. This cannot be allowed to continue. Our policy of funding schools directly would not only cut out waste, but would ensure that more resources go to the front line. Furthermore, it would

Mewn cyfnod o galedi a llai o adnoddau cyhoeddus, mae'r angen am lywodraeth leol wirioneddol atebol, tryloyw a democrataidd yn bwysig unwaith eto. Mae'r rhesymeg y tu ôl i hyn yn gwbl amlwg. Bydd mwy o dryloywder ac atebolrwydd yn grymuso cymunedau ac unigolion i sicrhau'n well eu bod yn dal eu cynrychiolwyr etholedig yn atebol, ac wrth wneud hynny, adfer ymddiriedaeth a hyder mewn llywodraeth leol. Gellir sicrhau mwy o dryloywder drwy herio holl awdurdodau lleol Cymru i gyhoeddi pob gwariant dros £500, fel sydd wedi'i wneud yn llwyddiannus gan y tri chynghor a arweinir gan y Ceidwadwyr Cymreig. Byddai hyn ynddo'i hun yn galluogi'r cyhoedd i benderfynu a yw eu hawdurdod lleol yn cyflawni gwerth am arian. Fodd bynnag, gallwn fynd ymhellach ac ymrwymo go iawn i rymuso ein cymunedau lleol drwy gyflwyno refferenda ar godiadau yn y dreth gyngor o fwy na 3.5 y cant. Byddai hyn ynddo'i hun yn helpu i wneud cynghorau lleol yn fwy atebol ac ymatebol i'w cymunedau, yn ogystal â rhoi pwysau ar gynghorau i gyfiawnhau yn briodol eu rhesymau dros y cynnydd. Yn anad dim, gallwn rymuso'r unigolyn drwy sicrhau bod cyfarfodydd cyhoeddus y cyngor yn gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys caniatáu ffilmio trafodion fel egwyddor sylfaenol, fel na fydd achos lle gwelwyd Jacqui Thompson yn cael ei harwain gyda gefynnau am ei dwylo byth yn digwydd eto yng Nghymru.

O ran pumed pwynt y cynnig, mae'r ystadegau diweddaraf yn dweud wrthym fod ysgolion Cymru yn tangyflawni dro ar ôl tro o'u cymharu â'r DU ac yn fyd-eang. Wrth bennu safle Cymru yn ddiweddar ar y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, gwelwyd bod Cymru wedi llithro yn y safleoedd rhyngwladol. O blith y 67 gwlad sy'n cymryd rhan, roedd Cymru yn safle 38 ar gyfer darllen, safle 40 ar gyfer mathemateg a safle 30 ar gyfer gwyddoniaeth. Ar gyfartaledd, mae Cymru yn gwario tua 9.5 y cant yn llai y pen o'r boblogaeth ar addysg nag a werir yn Lloegr. Rydym hefyd yn gwybod bod un rhan o dair o'r gyllideb addysg yn cael ei llyncu gan gostau gweinyddol. Ni ellir caniatáu i hyn barhau. Byddai ein polisi o ariannu ysgolion yn uniongyrchol yn cael gwared ar y gwastraff,

empower teachers to focus on teaching and help raise attainment.

yn ogystal â sicrhau bod mwy o adnoddau yn mynd i'r rheng flaen. Ar ben hynny, byddai'n galluogi athrawon i ganolbwyntio ar addysgu a helpu i godi lefel cyrhaeddiad.

Finally, planning policy is close to the hearts of most communities across Wales. It is true to say that few areas of policy have such a capacity to arouse passions and emotions as the planning process. Churchill once said that we shape our buildings and then our buildings shape us. Decentralising planning is all about placing local people in the driving seat concerning planning decisions that directly affect them. A case in point is the subject of garden grabbing. The redefinition of brownfield sites needs to be looked at in depth, and the planning loophole that allows garden grabbing to take place needs to be closed. Decentralising planning has further benefits: it will allow us to fight overzealous LDPs and, most importantly, it will reduce the amount of guidance emanating from Cardiff bay.

Yn olaf, mae polisi cynllunio yn agos at galonnau'r rhan fwyaf o gymunedau ar draws Cymru. Mae'n wir dweud mai ychydig o feysydd polisi sydd â chymaint o allu i ennyn yr un angerdd ac emosiynau â'r broses gynllunio. Dywedodd Churchill un tro ein bod yn siapio ein hadeiladau ac yna mae ein hadeiladau yn ein siapio ni. Mae datganoli'r broses gynllunio yn ymwneud â rhoi pobl leol wrth y llyw yng nghyswllt penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Un enghraifft o hyn yw crafangio tir. Mae angen edrych yn fanwl ar ailddiffinio safleoedd tir llwyd, ac mae angen cau'r bwlch cynllunio sy'n caniatáu i'r crafangio tir hyn ddigwydd. Mae manteision pellach i ddatganoli'r broses gynllunio: bydd yn caniatáu inni frwydro yn erbyn Cynlluniau Datblygu Lleol eithafol ac, yn bwysicaf oll, bydd yn lleihau faint o arweiniad a ddaw o fae Caerdydd.

The people of Wales are crying out for empowerment at local government level. It is now up to the Welsh Government to appease them. I call on everybody in this Chamber to do the right thing by getting behind this motion. Please, give power back to our local communities.

Mae pobl Cymru yn crefu am rym ar lefel llywodraeth leol. Mater i Lywodraeth Cymru yn awr yw eu tawelu. Galwaf ar bawb yn y Siambr hon i wneud yr hyn sy'n iawn drwy gefnogi'r cynnig hwn. Rhowch rym yn ôl i'n cymunedau lleol.

Gwelliant 1 Peter Black

Amendment 1 Peter Black

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

Insert at end of point 1:

'ac yn galw am ystyried cyflwyno Bil Hawliau Cymunedol mewn unrhyw adolygiad er mwyn rhoi pwerau ychwanegol i gymunedau lleol yn y system gynllunio, datblygu tai ac amgylchedd lleol'

'and calls for any review to include consideration of the introduction of a Community Bill of Rights to give local communities additional powers in the planning system, housing development and local environment'

Gwelliant 3 Peter Black

Amendment 3 Peter Black

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Delete point 2 and replace with:

'Yn credu y byddai agwedd gynaliadwy at gadw'r dreth gyngor yn isel, a ellid ei chyflawni drwy drefniadau llywodraethu cyfrifol gan gynghorau lleol yn hytrach na ffrydiau cyllido o'r brig i lawr, yn helpu i

'Believes that a sustainable approach to keeping council tax low, which could be delivered by responsible governance from local councils not top-down funding streams, would help financially empower households

rymuso aelwydydd ledled Cymru yn across Wales.'
ariannol.'

Gwelliant 5 Peter Black

Amendment 5 Peter Black

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

Insert at end of point 3:

'ond yn credu fel sail i hyn bod yn rhaid diwygio ardrethi busnes yn ehangach, gan gynnwys rhoi terfyn ar godiadau bob blwyddyn sy'n rhy uchel.'

'but believes this must be underpinned by wider reform of business rates, including ending overly large rises each year'

Gwelliant 6 Peter Black

Amendment 6 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 4, ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Add as new point after point 4, and renumber accordingly:

Yn credu y byddai cymunedau lleol yn cymryd mwy o ran mewn democratiaeth leol petai llywodraeth leol yn cael ei chryfhau drwy:

Believes that local communities would become further involved in local democracy if local government was strengthened by:

a) cyflwyno Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy mewn etholiadau lleol;

a) introducing the Single Transferable Vote for local elections;

b) cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol i rymuso cynghorau lleol;

b) introducing a power of general competence to empower local councils;

c) lleihau nifer y rheolaethau o'r brig i lawr ar awdurdodau lleol, fel dyletswyddau statudol; a

c) reducing the number of top-down controls on local authorities, such as statutory duties; and

d) archwilio'r enghreifftiau gorau a gwaethaf o lywodraeth agored a thryloyw ledled Cymru er mwyn rhannu'r arfer gorau hwn.

d) auditing the best and worst examples of open and transparent government across Wales in order to spread this best practice.

Gwelliant 8 Peter Black

Amendment 8 Peter Black

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 5:

Insert at end of point 5:

'ac yn galw am adolygiad cyflawn o atebolrwydd ysgolion, gan archwilio'n benodol atebolrwydd lleol ac arweinyddiaeth briodol i gyrff llywodraethu'

'and calls for a full review of school accountability, particularly investigating local accountability and appropriate leadership for governing bodies'

Peter Black: I move amendments 1, 3, 5, 6 and 8 in my name.

Peter Black: Cynigiau welliannau 1, 3, 5, 6 ac 8 yn fy enw.

I think that that is all of them. Janet Finch-Saunders obviously wins the prize for the number of different ways you can say the same thing in a motion. I think that this is the third successive Conservative debate in which we have discussed this matter. Now, I am more than happy to talk about local

Rwyf yn meddwl mai dyna'r cyfan. Mae Janet Finch-Saunders yn amlwg yn ennill y wobwr am y nifer o ffyrdd gwahanol o ddweud yr un peth mewn cynnig. Rwyf yn meddwl mai dyma'r drydedd ddadl olynol gan y Ceidwadwyr lle rydym wedi trafod y mater hwn. Rwyf yn fwy na pharod i siarad am

government until the cows come home, because I think a lot more needs to be done about it, but not necessarily what is proposed in this motion, which is in many ways flawed. That is why the Welsh Liberal Democrats have tabled amendments to it, to try to improve its general thrust.

Welsh Liberal Democrats believe that the greater the range of powers and freedom offered to local authorities, the greater the opportunities they have to improve services in their area. This is coupled to a belief that decisions are best taken at the lowest possible level, where local needs and aspirations can be taken into account. This means that we have to push forward plans for real localism, by not just empowering local authorities, but removing the bureaucracy that means that local priorities are effectively decided by the Welsh Government as a result of a profligate set of statutory duties and ring-fenced grants. That cannot be allowed to continue. Many of these top-down measures have not succeeded in raising standards, and an audit of their effectiveness has to be undertaken and looked at.

It seems to be a default position of the previous Government and this one to resort to service delivery by means of simply adding another statutory duty to local government. We do not believe that that method is sustainable.

The motion before us is vague about certain elements of how it wants to deliver improvements. For example:

‘greater emphasis is placed on empowering local communities;’

and,

‘Encourages local government to act in a way which is transparent, open and accountable’.

Those are very good views, and we support them, but we have tabled amendments to provide additional detail, to try to stimulate debate. For example, we have cited a power

lywodraeth leol tan ddydd Sul y Pys, gan fy mod yn meddwl bod angen gwneud llawer mwy am hyn, ond nid o reidrwydd yr hyn a gynnigir yn y cynnig hwn, sydd mewn sawl ffordd yn ddiffygiol. Dyna pam y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflwyno gwelliannau iddo, i geisio gwella ei fyrddwn cyffredinol.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu mai po fwyaf yw'r ystod o bwerau a rhyddid a gynnigir i awdurdodau lleol, y mwyaf yw'r cyfleoedd sydd ganddynt i wella gwasanaethau yn eu hardal. Mae hyn yn mynd law yn llaw â'r gred bod penderfyniadau'n cael eu gwneud orau ar y lefel isaf bosibl, lle mae modd ystyried dyheadau ac anghenion lleol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni wthio cynlluniau ymlaen ar gyfer lleoliaeth go iawn, nid dim ond drwy rymuso awdurdodau lleol yn unig, ond drwy gael gwared ar y fiwrocratiaeth sy'n golygu bod blaenoriaethau lleol yn cael eu penderfynu, i bob pwrpas, gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gyfres wastraffus o ddyletswyddau statudol a grantiau sydd wedi'u neilltuo'n benodol. Ni ellir caniatáu i hyn barhau. Mae llawer o'r camau hynny o'r brig i lawr wedi methu â chodi safonau, ac mae angen cynnal archwiliad o'u heffeithiolrwydd ac edrych arnynt.

Mae'n ymddangos bod y Llywodraeth flaenorol a'r un yma yn troi'n awtomatig at ddarparu gwasanaethau drwy ychwanegu dyletswydd statudol arall ar lywodraeth leol. Nid ydym yn credu bod y dull hwnnw'n gynaliadwy.

Mae'r cynnig ger ein bron yn amwys ynghylch elfennau penodol o sut y mae am sicrhau gwelliannau. Er enghraifft:

‘sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar rymuso cymunedau lleol;’

ac,

‘Annog llywodraeth leol i weithredu mewn ffordd sy'n dryloyw, yn agored ac yn atebol’.

Mae'r rheini'n safbwyntiau da iawn, ac rydym yn eu cefnogi, ond rydym wedi cyflwyno gwelliannau i ddarparu manylion ychwanegol, er mwyn ceisio ysgogi

of general competence as a specific legal mechanism for empowering local councils further.

I find it difficult to reconcile this week's Conservative motion on local government with last week's motion on local government, which would have required local councillors to hold a referendum on some spending choices. Considering that, just before the Assembly elections, the Conservative's shadow budget proposals wanted to strip more money from local councils, these restrictions would do as much to undermine local democracy as any proposal to boost it.

I am disappointed, however, by the Government's plans for local government. There are two proposed Bills, one of which is the Local Government Byelaws (Wales) Bill that is going through at the moment. I think that that will receive unanimous support because, by and large, it does not change a great deal except, to be fair, to take some power from the Minister and to give it to local councils, which we are happy to support. I do not believe that the local government collaboration measures Bill is a way forward, but we will see what that Bill will contain. However, it is hardly the radical reform of local government that we need.

Much of the Government's programme of local government reform seems to concentrate on top-down collaboration, rather than empowering local authorities to deliver a wider range of policies for local communities. My view is that collaboration should be based on what is most effective for local communities. It should be driven by local councils themselves, with local councillors deciding the best way to drive efficiencies in local service improvement and the Welsh Government restricted to offering and facilitating best practice where possible. The Gwent older people's project is a good example, where the Welsh Government has put up money to facilitate better joint working as part of that.

trafodaeth. Er enghraifft, rydym wedi nodi pŵer o gymhwysedd cyffredinol fel mecanwaith cyfreithiol penodol i rymuso cynghorau lleol ymhellach.

Rwyf yn ei chael yn anodd derbyn cynnig y Ceidwadwyr yr wythnos hon ar lywodraeth leol o'i gymharu â chynnig yr wythnos ddiwethaf ar lywodraeth leol, a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr lleol gynnal refferendwm ar ddewisiadau gwario. O ystyried bod cynigion cyllideb gwrthblaid y Ceidwadwyr, union cyn etholiadau'r Cynulliad, am dynnu mwy o arian oddi ar gynghorau lleol, byddai'r cyfyngiadau hyn yn gwneud lawn gymaint i danseilio democratiaeth leol ag y byddai unrhyw gynnig i roi hwb iddi.

Rwyf yn siomedig, fodd bynnag, gyda chynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer llywodraeth leol. Ceir dau Fesur arfaethedig, un ohonynt yw Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) sy'n mynd drwy'r broses ar hyn o bryd. Credaf y bydd yn cael cefnogaeth unfrydol oherwydd nad yw, ar y cyfan, yn newid llawer iawn ac eithrio'r ffaith, i fod yn deg, ei fod yn cymryd rhywfaint o rym oddi ar y Gweinidog ac yn ei roi i gynghorau lleol, ac rydym yn hapus i gefnogi hynny. Nid wyf yn credu mai Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) yw'r ffordd ymlaen, ond cawn weld beth a fydd yn y Bil hwnnw. Fodd bynnag, prin ei fod yn gynnig radical i ddiwygio llywodraeth leol y mae ei angen arnom.

Mae llawer o raglen y Llywodraeth ar ddiwygio llywodraeth leol yn canolbwyntio, i bob golwg, ar gydweithio o'r brig i lawr, yn hytrach na grymuso awdurdodau lleol i ddarparu ystod ehangach o bolisiau ar gyfer cymunedau lleol. Rwyf yn credu y dylai cydweithio fod yn seiliedig ar yr hyn sydd fwyaf effeithiol i gymunedau lleol. Dylai cynghorau lleol eu hunain fod yn sbarduno hyn, gyda chynghorwyr lleol yn penderfynu ar y ffordd orau o ysgogi effeithlonrwydd o ran gwella gwasanaethau lleol, a bod Llywodraeth Cymru ond yn cynnig ac yn hwyluso arfer gorau lle y bo'n bosibl. Mae prosiect pobl hŷn Gwent yn enghraifft dda, lle mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i hwyluso gwell cydweithio fel rhan o hynny.

I also feel that the Welsh Government is focusing on the wrong issues. The way to drive efficiencies is to improve service delivery by breaking down barriers, such as those that exist between health and social care, and by investing in wellbeing so that NHS costs are lower. Rather than focusing on the job descriptions of chief executives and councillors in Wales, we should be looking at how we deliver services and not who is delivering them. We should be looking at the mechanisms that we use, not necessarily the details of prescription. We should not be telling councils what they should be paying their chief executives, how they should be appointed, who should appoint them and who they should work for.

I wanted to end by speaking specifically about one issue that I believe will reform local government more strongly than anything else. This is the single transferable vote, which the Government should legislate for as part of its planned reform of local government. It was recommended by the Sunderland commission of 2002 and that report has been studiously ignored by successive Governments. STV would make seats competitive and make councils more accountable and I would urge the Government to look at it.

Gwelliant 2 Jane Hutt

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4, rhoi'r pwyntiau canlynol yn eu lle, ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn.

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi 1.3 y cant yn fwy o gyllid i awdurdodau lleol nag a wnaed yn Lloegr, ac y bydd hynny'n grymuso cynghorau Cymru i rewi'r dreth gyngor, os dymunant.

Yn nodi darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011, sy'n ceisio cryfhau atebolrwydd ac ymgysylltiad mewn democratiaeth leol yng Nghymru.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I move amendment 2 in the name of Jane Hutt.

Rwyf hefyd yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y materion anghywir. Y ffordd i ysgogi effeithlonrwydd yw gwella'r modd y darperir gwasanaethau drwy chwalu rhwystrau, fel y rheini sy'n bodoli rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, a thrwy fuddsoddi mewn lles fel bod costau GIG yn is. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddisgrifiadau swyddi prif weithredwyr a chynghorwyr yng Nghymru, dylem fod yn edrych ar sut rydym yn darparu gwasanaethau ac nid pwy sy'n eu darparu. Dylem fod yn edrych ar y mecanweithiau a ddefnyddiwn, nid manylion yr amodau o reidrwydd. Ni ddylem fod yn dweud wrth gynghorau beth y dylent ei dalu i'w prif weithredwyr, sut y dylid eu penodi, pwy ddylai eu penodi ac i bwy y dylent weithio.

Hoffwn gloi drwy siarad yn benodol am un mater a fydd, yn fy marn i, yn diwygio'r llywodraeth leol yn gryfach nag unrhyw beth arall. A'r mater hwnnw yw'r bleidlais sengl drosglwyddadwy, y dylai'r Llywodraeth ei deddfu fel rhan o'i chynlluniau i ddiwygio llywodraeth leol. Argymhellwyd hyn gan gomisiwn Sunderland yn 2002 ac mae'r adroddiad hwnnw wedi cael ei anwybyddu'n fwriadol gan un Llywodraeth ar ôl y llall. Byddai'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn gwneud seddi yn gystadleuol ac yn gwneud cynghorau'n fwy atebol a byddwn yn annog y Llywodraeth i edrych ar hyn.

Amendment 2 Jane Hutt

Delete points 2, 3 and 4, replace with the following, and renumber accordingly:

Notes that the Welsh Government has provided 1.3% more funding to local authorities than England, which will empower Welsh councils to freeze council tax, if they so choose.

Notes the provisions of the Local Government Measure 2011, which seeks to enhance local democratic accountability and engagement in Wales.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Cynigïaf welliant 2 yn enw Jane Hutt.

Gwelliant 4 Jocelyn Davies

Dileu pwynt 2.

Gwelliant 7 Jocelyn Davies

Dileu pwynt 5.

Gwelliant 9 Jocelyn Davies

Dileu pwynt 6.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiau welliannau 4, 7 a 9 yn enw Jocelyn Davies.

Rwyf yn hapus i gyflwyno'r gwelliannau hyn yn enw Plaid Cymru. Rydym wedi edrych ar y cynnig sydd wedi ei osod gerbron gan y Ceidwadwyr. Daethom i'r casgliad mai'r unig ffordd i'w wella yw drwy ddileu tair adran byddai'n niweidio cymunedau yng Nghymru yn fwy na chymalau eraill y cynnig hwn. Rhaid i mi gyfaddef nad wyf yn gweld unrhyw beth yn y cynnig hwn i'w gymeradwyo mewn gwirionedd. Mae'n dangos nad yw Ceidwadwyr Cymreig bellach yn deall natur ein cymunedau o gwbl, nad ydynt yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr, er bod y gwahaniaethau hynny'n amlwg iawn, a'u bod, mewn gwirionedd, am wneud yng Nghymru yn union beth sy'n digwydd yn Lloegr, heb ystyried anghenion cymunedau a llywodraeth leol yng Nghymru o gwbl.

Mae sôn unwaith yn rhagor am rewi'r dreth gyngor. Mae'r Ceidwadwyr yn anwybyddu'n llwyr y ffaith bod y setliad, o ran llywodraeth leol yng Nghymru, yn dra gwahanol i'r hyn a gafwyd yn Lloegr, ei fod yn llawer mwy anrhydeddus a bod y toriadau yn llawer llai llym na'r rhai a gyflwynwyd yn Lloegr. Maent yn anwybyddu'n llwyr y ffaith bod y dreth gyngor yng Nghymru yn is nag yn Lloegr. Maent yn mynnu adrodd yr un hen stori sy'n deillio o Lundain.

Petai'r Ceidwadwyr Cymreig yn deall unrhyw beth am hanes Cymru, byddent yn sylweddoli bod ein cymunedau wedi bod yn rhai grymus ar hyd ein hanes. Pe baent wedi bod yn dilyn hanes datganoli, byddent wedi sylweddoli hefyd bod partneriaeth naturiol wedi codi rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru dros y 12

Amendment 4 Jocelyn Davies

Delete point 2.

Amendment 7 Jocelyn Davies

Delete point 5.

Amendment 9 Jocelyn Davies

Delete point 6.

Rhodri Glyn Thomas: I move amendments 4, 7 and 9 in the name of Jocelyn Davies.

I am pleased to move these amendments in the name of Plaid Cymru. We looked at the motion tabled by the Conservatives and came to the conclusion that the only way to improve it would be to delete the three sections that would cause more damage to communities in Wales than the other clauses of the motion. I must confess that I do not see anything in this motion to recommend it to be honest. It demonstrates that the Welsh Conservatives no longer understand the nature of our communities at all, they do not see any differences between Wales and England, although those differences are very stark, and, in reality, they want to do exactly the same in Wales as is happening in England, without giving any consideration to the needs of communities and local government in Wales.

There is mention once again about freezing council tax rates. The Conservatives totally ignore the fact that the local government settlement in Wales is very different to the settlement in England: it is far more generous and the cuts are far less harsh than those introduced in England. They completely ignore the fact that council tax in Wales is lower than it is in England. They insist on repeating the same old story, which emanates from London.

If the Welsh Conservatives understood anything about the history of Wales, they would realise that our communities have been powerful throughout our history. If they had been following the story of devolution, they would also have realised that a natural partnership has developed between the Welsh Government and local government in Wales

mllynedd diwethaf. Rydym yn wlad fechan ac mae cydweithredu ar wahanol lefelau o lywodraeth yn eithriadol bwysig.

4.15 p.m.

Rwyf yn hapus i gefnogi gwelliant y Llywodraeth. Credaf fod y gwelliant hwnnw at ei gilydd yn cydnabod realiti'r sefyllfa. Mae hefyd yn cael gwared â dau gymal niweidiol arall yn y cynnig hwn. Felly, byddwn yn cefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Gallaf gefnogi rhai o welliannau Peter Black. Maent yn rhy niferus i fynd drwyddynt i gyd. Nid wyf yn siŵr a oes eu hangen i gyd, ond mae'n amlwg bod Peter wrth ei fodd yn ysgrifennu gwelliannau a'u cyflwyno yn enw'r Democratiaid Rhyddfrydol. Fodd bynnag, nid oes dim yn yr hyn sydd gan y Ceidwadwyr i'w ddweud sydd, yn fy marn i, yn haeddu cymeradwyaeth. Maent wedi mynd yn ôl i ffordd yr hen Geidwadwyr— [*Torri ar draws.*] Na, rwyf wedi edrych yn fanwl, ac nid oes dim yno y gellir ei gymeradwyo, a dim byd i ddangos eich bod, mewn unrhyw ffordd, yn deall natur cymunedau Cymru.

Rwy'n hyderus y bydd gwelliant y Llywodraeth yn cael ei gymeradwyo'r prynhawn yma, ac rwy'n mawr obeithio y bydd gwelliannau Plaid Cymru yn cael eu cymeradwyo, er na fyddwn yn mynd i bleidlais ar bob un ohonynt os yw'r gwelliannau blaenorol yn cael eu cymeradwyo. Mae hyn yn dangos gwahaniaeth sylfaenol rhwng agwedd y Ceidwadwyr Cymreig a'r tair plaid arall o ran edrych ar anghenion pobl Cymru a chymunedau Cymru. Mae gwahaniaethau, wrth gwrs, ymhlith y tair plaid arall, ond mae bwlch enfawr rhwng y tair plaid hynny a'r Ceidwadwyr Cymreig. Felly, mae'n ddrwg gennyf, ond nid oes gennyf ddim i'w gymeradwyo yn y cynnig hwn. [*Torri ar draws.*] Nid oes dim yno. Mae'n rhaid imi ddweud wrth Andrew R.T. Davies nad yw pob un ohonom yn credu bod rhaid llenwi'r amser i gyd pan nad oes gennym ddim i'w ddweud.

Suzy Davies: This motion calls on the Government to place greater emphasis on empowering people, and for me, it is the logical consequence of having a National

over the last 12 years. We are a small country and collaboration between the various levels of government is extremely important.

I am content to support the Government's amendment. I believe that that amendment, generally speaking, recognises the reality of the situation. It also eliminates two very damaging clauses from this motion. Therefore, we will support the amendment tabled in the name of Jane Hutt. I am able to support some of Peter Black's amendments. They are too numerous to cover them all. I am not sure that they are all necessary, but Peter obviously enjoys writing amendments and tabling them in the name of the Liberal Democrats. However, there is nothing in what the Conservatives have to tell us that, in my opinion, deserves our support. They have returned to the old Conservative— [*Interruption.*] No, I have looked in detail, and there is nothing there that can be applauded, nothing to show that you understand, in any way, the nature of communities in Wales.

I am confident that the Government amendment will be agreed today, and I very much hope that the Plaid Cymru amendments will also be agreed, although we may not move to a vote on all of them if preceding amendments are agreed. This demonstrates a fundamental difference between the attitude of the Welsh Conservatives and that of the other three parties as they assess the needs of the people of Wales and the communities of Wales. There are differences, of course, between the other three parties, but there is a huge gulf between them and the Welsh Conservatives. Therefore, I am sorry, but I cannot say anything in praise of this motion. [*Interruption.*] There is nothing there. I have to say to Andrew R.T. Davies that not all of us feel that we have to fill the allotted speaking time when we have nothing to say.

Suzy Davies: Mae'r cynnig hwn yn galw ar y Llywodraeth i roi mwy o bwyslais ar rymuso pobl, ac imi, dyma'r canlyniad rhesymegol o gael Cynulliad Cenedlaethol. Roedd y

Assembly. The reasons for the 'yes' vote in 1997 were many and varied, but it showed a positive, if nervous, willingness to trust ourselves. However, that did not come easily. Just 18 years earlier, there had been a resounding 'no' to the mere idea of making our own decisions, acting on those decisions, and facing the consequences of those decisions. Yet in one generation, through incremental steps that either reinforced or started to create a sense of national identity, depending on your viewpoint, we have become brave enough, collectively, to take the plunge.

The proposition set out in this motion and some of the amendments is for a new and basic set of incremental steps. Each on their own would demonstrate improvements, some small, some greater, in the economy, schools or planning. However, beyond the specifics, they would demonstrate to people that they themselves are capable of exercising power. Electing a Government ought not to be seen as a complete abdication of responsibility for our neighbourhoods and public services, yet with fewer and fewer people voting, it is becoming more of a case of abdication than delegation. If, as I believe, support for devolution grew partly out of a rejection of both free-market individualism and state-first socialism, it must be seen as looking hopefully towards power being exercised by communities—a word open to many definitions, and rightly so. Attempts to claim the idea of citizen empowerment by either the right or the left are meaningless, because it is not about ideology—it is about people responding to other people, their own and others' needs, and the common wish to make life better for themselves and their neighbours.

It is no wonder that we hear people declare that it is the Government's fault or the council's fault—that is inevitable when citizens have no direct responsibility for decision making. However, the will is there, and so now is the confidence. Every one of us can point to a community group or a larger voluntary organisation, a co-op, mutual or social enterprise, that grew out of a jointly identified need in a constituency or region

rhesymau dros y bleidlais 'ie' ym 1997 yn niferus ac yn amrywiol, ond roedd yn dangos parodrwydd positif, os nerfus, i ymddiried ynom ein hunain. Fodd bynnag, nid oedd hynny yn beth hawdd. Ddeunaw mlynedd yn gynharach, cafwyd 'na' ysgubol i'r syniad o wneud ein penderfyniadau ein hunain, gweithredu ar y penderfyniadau hynny, ac wynebu canlyniadau'r penderfyniadau hynny. Eto i gyd mewn un genhedlaeth, drwy gamau cynyddol a oedd naill ai wedi atgyfnerthu neu wedi dechrau creu ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol, yn dibynnu ar eich safbwynt, rydym wedi bod yn ddigon dewr, gyda'n gilydd, i fentro.

Yr hyn a gynigir yn y cynnig hwn ac yn rhai o'r gwelliannau yw cyfres newydd a sylfaenol o gamau cynyddol. Byddai pob un yn unigol yn dangos gwelliannau, rhai bach, rhai mwy, yn yr economi, mewn ysgolion neu faes cynllunio. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r manylion penodol, byddent yn dangos i bobl eu bod hwy eu hunain yn gallu arfer pŵer. Ni ddylai ethol Llywodraeth fod yn rheswm dros wrthod cyfrifoldeb yn llwyr dros ein cymdogaethau a gwasanaethau cyhoeddus, ac eto gyda llai a llai o bobl yn pleidleisio, mae'n dod yn fwy o achos o wrthod na dirprwyo. Os oedd y gefnogaeth i ddatganoli, fel y tybiaf, wedi tyfu'n rhannol yn sgîl gwrthod unigolyddiaeth marchnad rydd a sosialaeth a roddai flaenoriaeth i wladwriaeth, rhaid i hyn gael ei weld fel ein bod yn gobeithio y caiff pwerau eu harfer gan gymunedau—gair a chanddo sawl diffiniad, ac yn gywir ddigon. Mae'r ymgais gan naill ai'r dde neu'r chwith i hawlio'r syniad o rymuso dinasyddion yn ddibwrpas, oherwydd nid yw hyn yn ymwneud ag ideoleg—mae'n ymwneud â phobl yn ymateb i bobl eraill, i anghenion eu hunain ac anghenion pobl eraill, a'r dymuniad cyffredin i wneud bywyd yn well iddynt hwy eu hunain a'u cymdogion.

Nid yw'n syndod ein bod yn clywed pobl yn dweud mai'r Llywodraeth neu'r cyngor sydd ar fai—mae hynny'n anochel pan nad oes gan ddinasyddion dim cyfrifoldeb uniongyrchol dros wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r ewyllys yno, a hefyd yr hyder, erbyn hyn. Gall pob un ohonom gyfeirio at grŵp cymunedol neu sefydliad mawr gwirfoddol, menter gydweithredol, menter gydfuddiannol neu fenter gymdeithasol, a dyfodd yn sgîl

that had not been addressed. You might even be able to point to local council departments that have gone beyond their statutory obligations to respond to that need.

Local councils have accepted what I am talking about, to a degree. Through service level agreements and other procurement they are prepared to repatriate work to this pool of social capital to deliver public services. They may have done it to save money, but they could not have done it if they could not trust those groups or organisations. It is not just the smaller public services—as I mentioned before, Neath Port Talbot County Borough Council has contracted its leisure services out to a large social enterprise. While many of the staff are the same, and employment safeguards exist, the way of working is different. While Neath Port Talbot can say what it wants, it is up to the company how it meets those requirements.

As a result of the Public Bodies Act 2011, we are about to see the demise of the British Waterways Board and its replacement by Glandŵr Cymru, a charitable trust, again providing significant public service through direct involvement with citizen trustees and without direct involvement by Government officials. Of course, I am not suggesting that social capital of civil society is the answer to everything—just look at AWEMA. On the other hand, the communities-by-Government-design approach, which characterised Communities First, did not convince either; although perhaps the common problem with both those projects was the lack of proper monitoring by the Government. After all, Communities First worked best when existing, organically developed organisations were financially empowered to get on with what they were good at and reported their results properly.

angen a nodwyd ar y cyd mewn etholaeth neu ranbarth nad oedd wedi cael sylw. Efallai y byddech hyd yn oed yn gallu cyfeirio at adrannau'r cyngor lleol sydd wedi mynd y tu hwnt i'w rhwymedigaethau statudol i ymateb i'r angen hwnnw.

Mae cynghorau lleol wedi derbyn yr hyn yr wyf yn sôn amdano, i raddau. Drwy gytundebau lefel gwasanaeth a threfniadau caffael eraill, maent yn barod i ddychwelyd gwaith i'r gronfa hon o gyfalaf cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Efallai eu bod wedi gwneud hynny er mwyn arbed arian, ond ni fyddent wedi gallu gwneud hyn oni bai eu bod yn gallu ymddiried yn y grwpiau neu'r sefydliadau hynny. Ac mae'n fwy na nid dim ond y gwasanaethau cyhoeddus llai—fel y soniais o'r blaen, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi contractio ei wasanaethau hamdden i fenter gymdeithasol fawr. Er mai'r un rhai yw llawer o'r staff, a bod mesurau diogelu cyflogaeth ar gael, mae'r ffordd o weithio yn wahanol. Er bod Castell-nedd Port Talbot yn gallu dweud beth yr hoffai ei weld, y cwmni sydd yn penderfynu sut y mae'n bodloni'r gofynion hynny.

O ganlyniad i Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, rydym ar fin gweld Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain yn dod i ben ac yn cael ei ddisodli gan Glandŵr Cymru, ymddiriedolaeth elusennol, sydd, unwaith eto, yn darparu gwasanaeth cyhoeddus pwysig drwy ymwneud yn uniongyrchol â dinasyddion sy'n ymddiriedolwyr a heb gyfranogiad uniongyrchol swyddogion y Llywodraeth. Wrth gwrs, nid wyf yn awgrymu mai cyfalaf cymdeithasol cymdeithas sifil yw'r ateb i bopeth—edrychwch ar AWEMA. Ar y llaw arall, nid oedd y dull cymunedau-wedi'u cynllunio-gan-y-Llywodraeth, a oedd yn nodwedd o'r cynllun Cymunedau yn Gyntaf, yn taro deuddeg ychwaith; er efallai mai'r broblem gyffredin gyda'r ddau brosiect hynny oedd diffyg monitro priodol gan y Llywodraeth. Wedi'r cyfan, roedd Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio orau pan oedd mudiadau a oedd eisoes yn bodoli ac wedi'u datblygu'n organig yn cael eu grymuso'n ariannol i fwrw ymlaen â'r hyn yr oeddent yn dda am ei wneud ac yn adrodd eu canlyniadau yn gywir.

Although we need to start asking questions about the increasingly bureaucratic structures of the third sector, with its risk of asset top-slicing as money filters through the extra layers on its way to the front line, the argument has gone beyond community action in the third sector being a cosmetic cover for doing the Government's work in the Government's way. We may be moving on from the assumption that the provision of public service is entirely a matter for Government in the first place. I am not talking about privatisation; I am talking about who knows best about how to do better, and trusting them with that responsibility.

To engage voter interest, to slow down our loss of social cohesion, to reinforce our natural desire for kinship, mutual responsibility and inter-dependence, a wise Government—regardless of its political colour—must recognise that giving power back to the people means actions not words.

Gwyn R. Price: Over recent months, we have often debated the issue of business rates, and business rate relief for small businesses in particular. A range of opinions have been expressed and proposed and put forward. It is in recognition of the importance of this issue, and the concerns expressed by businesses, that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science established an independent task and finish group, chaired by Professor Brian Morgan, to consider the business rates policy. The group has recently published the responses to its call for evidence. A total of 70 responses were received, and according to the summary of the responses, published on the Welsh Government's website, responders overwhelmingly welcomed the review. Evidence was received from a range of sources, including individual businesses of different sizes, representative bodies and politicians. The group is now considering the responses and will draw up a final report to present to the Minister in May.

The Welsh Conservatives wish to note the role that business rate relief for small

Er bod angen inni ddechrau gofyn cwestiynau am strwythurau'r trydydd sector sy'n mynd yn fwyfwy biwrocrataidd, gyda'r risg y bydd haenau asedau yn cael eu defnyddio wrth i arian dreiddio drwy'r haenau ychwanegol ar ei ffordd i'r rheng flaen, mae hyn wedi mynd y tu hwnt i'r ddadl bod gweithredu cymunedol yn y trydydd sector yn orchudd cosmetig am wneud gwaith y Llywodraeth yn null y Llywodraeth. Efallai ein bod yn symud ymlaen o'r dybiaeth mai'r Llywodraeth yn unig ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y lle cyntaf. Nid wyf yn sôn am breifateiddio; rwyf yn sôn am bwy sy'n gwybod orau am sut i wneud yn well, ac i roi iddynt y cyfrifoldeb hwnnw gydag ymddiriedaeth.

Er mwyn ennyn diddordeb y pleidleiswyr, i arafu'r broses o golli ein cydlynad cymdeithasol, i atgyfnerthu ein hawydd naturiol am garennydd, cyfrifoldeb ar y ddwy ochr a rhyng-ddibyniaeth, rhaid i Lywodraeth ddoeth—waeth beth yw ei lliw gwleidyddol—gydnabod bod rhoi pŵer yn ôl i'r bobl yn golygu gweithredu nid geiriau.

Gwyn R. Price: Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi trafod ardrethi busnes yn aml, a rhyddhad ardrethi busnes i fusnesau bach yn arbennig. Mae sawl safbwynt wedi'i fynegi, ei gynnig a'i gyflwyno. Sefydlodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Brian Morgan, i ystyried y polisi ardrethi busnes, a hynny er mwyn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn, a'r pryderon a fynegwyd gan fusnesau. Yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi cyhoeddi'r ymatebion i'w alwad am dystiolaeth. Cafwyd cyfanswm o 70 o ymatebion, ac yn ôl y crynodeb o'r ymatebion, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn croesawu'r adolygiad. Cafwyd tystiolaeth gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys busnesau unigol o wahanol faint, cyrff cynrychioliadol a gwleidyddion. Mae'r grŵp wrthi'n ystyried yr ymatebion a bydd yn llunio adroddiad terfynol i'w gyflwyno i'r Gweinidog ym mis Mai.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am nodi'r rôl y bydd rhyddhad ardrethi busnes i fusnesau

business will play in empowering businesses across Wales, allowing them to expand and hire new staff. However, that is surely a specific issue that the task and finish group has been asked to consider. Given that part of its terms of reference is to consider the relative importance of non-business domestic rates, the business rates regime and the level of response to economic growth, it is only fair to the members of that task and finish group, who give their time to consider this issue in detail, and to those who have submitted evidence, that we should wait for the opportunity to consider the work that they have done. That is the way forward on the issue of business rates. Let us take decisions based on the first available evidence, and await the report of the task and finish group.

Mark Isherwood: Welsh Government policy has empowered the Government itself rather than local communities. Mischievous opponents often quote Margaret Thatcher's statement that there is no such thing as society without adding the rest of the sentence; she also said that it is our duty to look after ourselves and then also to look after our neighbour.

In this, she blazed a trail that has been followed by every successive UK Labour and Conservative leader. Of course, there is such a thing as society; it is just not the same thing as the state. When the Archbishop of Canterbury was here on Monday, he said that 'society' is a neutral word with no moral value, but that 'community' has a moral value. He went on to say that, in order to turn society into a community, people must take responsibility for one another. Communities must push back against managerial and functional approaches, prepare people to understand themselves and the society they inhabit, and not to be cogs in a wheel. There must be public and shared effort, getting the right balance between statutory provision and local initiative, enhancing mutual responsibility. Although there has been important progress in state welfare, there is also a problem with dependency and assuming that someone else is responsible for our problems. That is what he said on

bach yn ei chwarae o ran grymuso busnesau ledled Cymru, gan eu galluogi i ehangu a chyflogi staff newydd. Fodd bynnag, siawns bod hynny'n fater penodol y gofynnwyd i'r grŵp gorchwyl a gorffen ei ystyried. O gofio mai rhan o'i gylch gorchwyl yw ystyried pwysigrwydd cymharol ardrethi domestig ar gyfer pethau nad ydynt yn fusnesau, trefn yr ardrethi busnes a lefel yr ymateb i dwf economaidd, nid yw ond yn deg, o ran aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw, sy'n rhoi o'u hamser i ystyried y mater hwn yn fanwl, a'r rheini sydd wedi cyflwyno tystiolaeth, ein bod yn aros am y cyfle i ystyried y gwaith y maent wedi'i wneud. Dyna'r ffordd ymlaen o ran ardrethi busnes. Gadewch inni wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael i ddechrau, ac aros am adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen.

Mark Isherwood: Mae polisi Llywodraeth Cymru wedi grymuso'r Llywodraeth ei hun yn hytrach na chymunedau lleol. Mae gwrthwynebwyr cellweirus yn aml yn dyfynnu datganiad Margaret Thatcher nad oes y fath beth â chymdeithas heb ychwanegu gweddill y frawddeg; dywedodd hefyd ei bod yn ddyletswydd arnom i ofalu amdanom ein hunain ac wedyn i ofalu am ein cymydog hefyd.

Yn hyn, torrodd gŵys newydd sydd wedi cael ei dilyn gan bob arweinydd olynol y blaid Llafur a'r blaid Geidwadol yn y DU. Wrth gwrs, mae'r fath beth â chymdeithas yn bodoli; nid yw'r un peth â'r wladwriaeth, dyna oll. Pan oedd Archesgob Caergaint yma ddydd Llun, dywedodd fod 'cymdeithas' yn air niwtral heb unrhyw werth moesol, ond bod gan 'cymuned' werth moesol. Aeth ymlaen i ddweud, er mwyn troi cymdeithas yn gymuned, rhaid i bobl ysgwyddo cyfrifoldeb dros ei gilydd. Rhaid i gymunedau wthio'n ôl yn erbyn dulliau rheolaethol a gweithredol, paratoi pobl i ddeall eu hunain a'r gymdeithas y maent yn byw ynddi, ac i beidio â bod yn gocsen mewn olwyn. Rhaid cael ymdrech gyhoeddus ar y cyd, er mwyn cael y cydbwysedd cywir rhwng darpariaeth statudol a menter leol, gan sicrhau mwy o gyfrifoldeb ar y ddwy ochr. Er bod datblygiad pwysig wedi bod yn y wladwriaeth les, ceir problem hefyd gyda dibyniaeth a thybiaeth bod rhywun arall yn

Monday.

gyfrifol am ein problemau. Dyna a ddywedodd ddydd Llun.

Sadly, this has not been the experience of Wales since devolution. What has been termed 'the third society' is increasingly being seen as a vehicle for delivering strategy and programmes as an extension of the Welsh Government: managerial and functional. As the Wales Council for Voluntary Action has said, the big society has been promoted as a new approach, but the traditions of community action, mutual aid and co-operation in Wales are part of our social and cultural history. It added, however, that to move beyond rhetoric to action does mean a greater sharing of responsibilities between Government, communities and citizens. Taking power out of the hands of Government and giving it to individuals, enterprises and charities in our communities can help us provide better services more efficiently, benefiting the most vulnerable. In the 2008 document, 'Communities in Control: real people, real power', the UK Labour Government aspired to enhance the power of communities and help people to set and meet their own priorities, thereby strengthening local democracy by increasing local participation.

As a process of real community engagement, participatory budgeting is perhaps the most effective community empowerment process yet devised. The Wales participatory budgeting unit is already having great success as a social enterprise that directly involves local people in making decisions on spending priorities. However, it is still struggling to engage with the Welsh Government. The UK Sustainable Communities Act 2007, introduced under Labour, began from the principle that local people know best what needs to be done to promote the sustainability of their area, but the Welsh Government refused to implement it in Wales.

Community Housing Cymru's local government election manifesto, 'Are you serious about sustainable communities?', launched yesterday, states that linking regeneration to housing development can contribute significantly to the economic

Yn anffodus, nid hyn yw profiad Cymru ers datganoli. Mae'r hyn sydd wedi cael yr enw 'y drydedd gymdeithas' yn cael ei gweld fwyfwy fel cyfrwng i gyflwyno strategaeth a rhaglenni fel estyniad o Lywodraeth Cymru: rheolaethol a gweithredol. Fel y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi'i ddweud, mae'r gymdeithas fawr wedi cael ei hyrwyddo fel dull newydd, ond mae traddodiadau gweithredu cymunedol, cyd-gymorth a chydweithredu yng Nghymru yn rhan o'n hanes cymdeithasol a diwylliannol. Ychwanegodd, er hynny, fod symud o rethreg i weithredu yn golygu rhannu cyfrifoldebau'n well rhwng y Llywodraeth, cymunedau a dinasyddion. Gall cymryd grym o ddwylo'r Llywodraeth a'i roi i unigolion, mentrau ac elusennau yn ein cymunedau ein helpu i ddarparu gwasanaethau gwell yn fwy effeithlon, a fydd yn dwyn budd i'r bobl fwyaf agored i niwed. Yn nogfen 'Communities in Control: real people, real power' 2008, nod Llywodraeth Lafur y DU oedd gwella grym cymunedau a helpu pobl i bennu a chyflawni eu blaenoriaethau eu hunain, gan gryfhau democratiaeth leol drwy gynyddu cyfranogiad lleol.

Fel proses o ymgysylltu gwirioneddol â'r gymuned, efallai mai cyllidebu cyfranogol yw'r broses fwyaf effeithiol o rymuso cymunedau a ddyfeisiwyd eto. Mae uned cyllidebu cyfranogol Cymru eisoes yn cael llwyddiant mawr fel menter gymdeithasol sy'n cynnwys pobl leol yn uniongyrchol wrth wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau gwariant. Fodd bynnag, mae'n dal i gael anhawster ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Deilliodd Deddf Cymunedau Cynaliadwy 2007 y DU, a gyflwynwyd o dan lywodraeth Lafur, o'r egwyddor mai pobl leol sy'n gwybod orau beth y mae angen ei wneud i hybu cynaliadwyedd eu hardal, ond gwrthododd Llywodraeth Cymru roi hyn ar waith yng Nghymru.

Ddoe, lansiwyd maniffesto etholiad llywodraeth leol Cartrefi Cymunedol Cymru, 'Ydych chi o ddifrif am gymunedau cynaliadwy?', ac ynddo nodir bod cysylltu adfywio i ddatblygiadau tai yn gallu cyfrannu'n sylweddol at adferiad economaidd

recovery of communities. However, Wales has suffered over a decade of housing cuts and while new home registrations rose in England and Scotland last year, they fell another 17% in Wales.

Although well intentioned, the Welsh Government's flagship policy to tackle deprivation, Communities First, has failed to tackle its deep rooted causes. Before the change in UK Government, the poverty gap between the richest and poorest in Wales had widened. Before the change in UK Government, social mobility had stalled. Before the change in UK Government, Wales had the highest levels of child poverty in the UK, rising for years before the recession. Before the change in UK Government, Wales had record youth unemployment. Before the recession even began, we had one in three working-aged people in Wales not in work, which was double the UK average. However, the Welsh Government has rejected calls by the Wales Council for Voluntary Action for real community ownership in the future of Communities First.

The Chartered Institute of Housing Cymru has estimated that council house stock transfers invest approximately five times more money into tenants' homes than if ownership remains in local authority hands, delivering local accountability and control, creating local jobs and training opportunities and supporting local businesses.

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please, Mark.

Mark Isherwood: However, after a campaign of misinformation by the Flintshire Labour Party, Flintshire's council tenants have voted against transfer. All too often, under the Welsh Labour Government, money has washed over—

The Deputy Presiding Officer: Order. I call Jenny Rathbone.

Jenny Rathbone: This Conservative motion

cymunedau. Fodd bynnag, mae Cymru wedi dioddef dros ddegawd o doriadau ym maes tai ac er bod cofrestriadau cartrefi newydd wedi codi yn Lloegr a'r Alban y llynedd, gostwng 17 y cant arall a wnaethant yng Nghymru.

Er bod bwriad da i brif bolisi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag amddifadedd, mae Cymunedau yn Gyntaf wedi methu â mynd i'r afael â'r hyn sy'n ei achosi yn y bôn. Cyn y newid yn Llywodraeth y DU, roedd y bwlch tldi rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf yng Nghymru wedi lledu. Cyn y newid yn Llywodraeth y DU, roedd symudedd cymdeithasol wedi dod i stop. Cyn y newid yn Llywodraeth y DU, roedd gan Gymru y lefelau uchaf o dlodi plant yn y DU, yn codi am flynyddoedd cyn y dirwasgiad. Cyn y newid yn Llywodraeth y DU, roedd gan Gymru y lefelau uchaf erioed o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc. Cyn i'r dirwasgiad hyd yn oed ddechrau, roedd gennym un person o bob tri o oedran gweithio yng Nghymru nad oedd yn gweithio, ac roedd hyn yn ddwbl y cyfartaledd yn y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod galwadau gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am berchnogaeth gymunedol go iawn yn nyfodol Cymunedau yn Gyntaf.

Mae Sefydliad Tai Siartredig Cymru wedi amcangyfrif bod trosglwyddiadau stoc tai cyngor yn buddsoddi tua phum gwaith yn fwy o arian i gartrefi tenantiaid na phe bai perchnogaeth yn parhau i fod yn nwylo awdurdodau lleol, gan sicrhau atebolrwydd a rheolaeth leol, creu swyddi lleol a chyfleoedd hyfforddi, a chefnogi busnesau lleol.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A fydddech cystal â dirwyn i ben yn awr, os gwelwch yn dda, Mark.

Mark Isherwood: Fodd bynnag, ar ôl ymgyrch o wybodaeth anghywir gan Blaid Lafur sir y Flint, mae tenantiaid cyngor sir y Fflint wedi pleidleisio yn erbyn trosglwyddo. Yn rhy aml o lawer, o dan Lywodraeth Llafur Cymru, mae arian wedi—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Galwaf Jenny Rathbone.

Jenny Rathbone: Mae'r cynnig hwn gan y

is a real hotchpotch that faces both ways. On the one hand, it calls for us to empower local communities, which all of us, I hope, are signed up to—at least in theory. On the other hand, it suggests that the Welsh Government should centrally decide whether or not local councils should freeze their council tax, when, in fact, we need to trust local authorities to be able to make decisions that will be for the benefit of their local communities. It is difficult enough to get people to stand as local councillors, and if we remove the powers from them, why would people bother to do it?

Ceidwadwyr yn gawdel go iawn ac mae dwy ochr iddo. Ar y naill law, mae'n galw arnom i roi grym i gymunedau lleol, y mae pob un ohonom, gobeithio, yn ei gefnogi—mewn egwyddor, o leiaf. Ar y llaw arall, mae'n awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru benderfynu'n ganolog a ddylai cynghorau lleol rewi eu treth gyngor, pan mae angen i ni, mewn gwirionedd, ymddiried yn yr awdurdodau lleol i allu gwneud penderfyniadau a fydd er lles eu cymunedau lleol. Mae'n ddigon anodd cael pobl i sefyll fel cynghorwyr lleol, ac os ydym yn cael gwared ar eu pwerau, pam y byddai pobl yn trafferthu gwneud hynny?

4.30 p.m.

Empowering local communities is an absolutely essential ingredient to reshape our services so that they better meet our needs with fewer resources. If people do not trust their council, then they are unlikely to engage in what they see as a pointless exercise.

Mae grymuso cymunedau lleol yn elfen gwbl hanfodol i ail-siapio ein gwasanaethau fel eu bod yn diwallu ein hanghenion yn well gyda llai o adnoddau. Os nad yw pobl yn ymddiried yn eu cyngor, yna maent yn annhebygol o gymryd rhan yn yr hyn y maent yn ei weld yn ymarfer ddibwrpas.

Andrew R.T. Davies: I thank the Member for Cardiff Central for giving way. Do you accept the point that the Member for Aberconwy made, that engagement in local government elections is very poor in Wales, with many councillors being returned unopposed or on a 20% or 25% turnout? There is a need to re-energise local politics. One way of doing that would be to implement some of the solutions offered in this motion.

Andrew R.T. Davies: Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd am ildio. A ydych yn derbyn y pwynt a wnaeth yr Aelod dros Aberconwy, bod ymgysylltu mewn etholiadau llywodraeth leol yn wael iawn yng Nghymru, gyda llawer o gynghorwyr yn dychwelyd yn ddiwrthwynebiad neu'n cael eu hethol ar ôl i 20 y cant neu 25 y cant yn unig bleidleisio? Mae angen rhoi hwb i wleidyddiaeth leol. Un ffordd o wneud hynny fyddai gweithredu rhai o'r atebion a gynigir yn y cynnig hwn.

Jenny Rathbone: I absolutely agree that we need to re-energise local politics, but I do not think that the solution lies in telling local authorities what they should do with their council tax. It is up to local authorities to engage with their communities and ensure that local councils are representative of the communities they serve. I absolutely agree that there is a lot of work to be done. A recent poll showed that only three out of 10 people trust their local councillors and even fewer trust senior council officers. That is pretty low when you consider that nine out of 10 people trust their doctor and eight out of 10 trust teachers. It does not mean that teachers and doctors are always right, but they certainly have a better face-to-face

Jenny Rathbone: Cytunaf yn llwyr fod angen inni roi hwb i wleidyddiaeth leol, ond nid wyf yn credu mai'r ateb yw dweud wrth awdurdodau lleol beth y dylent ei wneud gyda'u treth gyngor. Mater i'r awdurdodau lleol yw ymgysylltu â'u cymunedau a sicrhau bod cynghorau lleol yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Cytunaf yn llwyr fod llawer o waith i'w wneud. Roedd arolwg diweddar yn dangos mai dim ond tri pherson o 10 sy'n ymddiried yn eu cynghorwyr lleol ac mae hyd yn oed llai yn ymddiried yn uwch swyddogion y cyngor. Mae hynny'n eithaf isel o ystyried bod naw person o bob 10 yn ymddiried yn eu meddyg ac wyth person o bob 10 yn ymddiried mewn athrawon. Nid yw'n golygu

relationship with the people they serve. Therefore, communities need to feel more empowered about being able to influence services in order to feel that they want to engage. We know, from a long history, that those services that are provided within a 1-mile pram pushing distance are the ones that enable everyone to use them. However, I appreciate that that is not a formula that will work in a rural community.

The second most important thing about empowering local communities is the need to get people to take responsibility for their own behaviour and their neighbourhood. I find it hard to understand how people can put out their recycling bags on top of the daffodils as they did this morning, once again, in my community. As the Archbishop of Canterbury, who was much quoted by Mark Isherwood, said on Monday, there is a problem about assuming that someone else will resolve all of the problems. We, as elected members, have a particular duty to help to resolve the problems of those who are least able to do it themselves, but we also have a duty to promote community action, to help people to help each other. Therefore, I was very pleased last Friday to take part in another Keep Wales Tidy litter pick around Pentwyn lake with pupils from the local Sir Philip Evans Primary School as well as unemployed and retired volunteers. I got an e-mail this morning reporting that the area remains clear of litter and that fisherman are taking their litter home.

The final report of the riots communities and victims panel published today addresses a much more acute problem. While we had no riots in Wales, it would be foolish of us, with rising unemployment, debt and poverty, to think that such an outburst could not happen here in the future. The report highlights that people did not feel that public services were doing enough to tackle the big problems, such as truancy, anti-social behaviour and unemployment, nor did they feel engaged, informed or involved by public services in finding and delivering solutions. Therefore,

bod athrawon a meddygon yn iawn bob tro, ond yn sicr mae ganddynt well perthynas wyneb-yn-wyneb â'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Felly, mae angen i gymunedau deimlo bod ganddynt fwy o rym i allu dylanwadu ar wasanaethau a theimlo eu bod yn dymuno ymgysylltu. Gwyddom, ers tro byd, mai'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu o fewn pellter cerdded o 1 filltir yw'r rhai sy'n galluogi pawb i'w defnyddio. Fodd bynnag, rwyf yn sylweddoli nad yw hynny'n fformiwla a fydd yn gweithio mewn cymuned wledig.

Yr ail beth pwysicaf am roi grym i gymunedau lleol yw'r angen i gael pobl i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu hymddygiad eu hunain a'u cymdogaeth. Rwyf yn ei chael yn anodd deall sut y gall pobl roi eu bagiau ailgylchu ar ben y cennin Pedr fel y gwnaethant y bore yma, unwaith eto, yn fy nghymuned. Fel y dywedodd Archesgob Caergaint ddydd Llun, a gafodd ei ddyfynnu cryn dipyn gan Mark Isherwood, mae problem yn bodoli am gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn datrys yr holl broblemau. Mae'n ddyletswydd arbennig arnom, fel aelodau etholedig, i helpu i ddatrys problemau'r rheini sydd leiaf abl i wneud hynny eu hunain, ond mae gennym ddyletswydd hefyd i hyrwyddo gweithredu cymunedol, i helpu pobl i helpu ei gilydd. Felly, roeddwn yn falch iawn o gymryd rhan ddydd Gwener diwethaf mewn ymgyrch codi sbwriel arall gan Cadwch Gymru'n Daclus o gwmpas llyn Pentwyn gyda disgyblion o'r ysgol leol, Ysgol Gynradd Syr Philip Evans yn ogystal â gwirfoddolwyr di-waith a gwirfoddolwyr wedi ymddeol. Cefais e-bost y bore yma yn dweud nad oes dim sbwriel yn yr ardal hyd yn hyn a bod pysgotwyr yn mynd â'u sbwriel adref gyda hwy.

Mae adroddiad terfynol y panel terfysgoedd, cymunedau a dioddefwyr a gyhoeddwyd heddiw yn ymdrin â phroblem lawer mwy difrifol. Er na chawsom derfysgoedd yng Nghymru, byddai'n annoeth inni feddwl, gyda chynnydd mewn diweithdra, dyled a thlodi, na allai terfysg o'r fath ddigwydd yma yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl yn teimlo nad oedd gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r problemau mawr, fel triwantiaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diweithdra, a'u bod yn teimlo nad oedd

four out of the seven recommendations for preventing future riots relate to community engagement and empowerment. Therefore, this is exceptionally important. However, although I agree with what Suzy Davies said about the importance of considering social enterprises to deliver services—using the same people who are delivering them centrally for the local authority at the moment—we do not want to be in the same situation as England, where GPs, who are going to be commissioning health services, are also shareholders in the private healthcare funds that they may be outsourcing to. That level of conflict of interest is something that should absolutely be prevented.

gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi rhan iddynt na'r holl wybodaeth iddynt ddod o hyd i atebion a'u gweithredu. Felly, mae pedwar argymhellad o'r saith ar gyfer atal terfysgoedd yn y dyfodol yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned a'i grymuso. Felly, mae hyn yn eithriadol o bwysig. Fodd bynnag, er fy mod yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Suzy Davies am bwysigrwydd ystyried mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau—gan ddefnyddio'r un bobl sy'n eu darparu yn ganolog ar gyfer yr awdurdod lleol ar hyn o bryd—nid ydym am fod yn yr un sefyllfa â Lloegr, lle mae meddygon teulu, a fydd yn comisiynu gwasanaethau iechyd, hefyd yn gyfranddalwyr yn y cronfeydd gofal iechyd preifat y gallant fod yn cynnig y contractau allanol iddynt. Dylid atal yn llwyr y lefel honno o wrthdaro rhwng buddiannau.

Angela Burns: Having heard various contributions to the debate today, I will not talk about what I was going to talk about because I would like to respond to a couple of Member. As far as Rhodri Glyn Thomas's commentary on this is concerned, I do not recognise this halcyon land that he described of happy communities skipping around, arm in arm and culturally vibrant—not on my patch of Carmarthen West and South Pembrokeshire. In my local communities, I meet frustrated people who endlessly bang their heads against local government of whatever flavour and the Government. Rhodri says, 'Oh, you do not know about the communities'. I tell you, the reason I know about the communities is because that is how I got back here, because I actually got off my proverbial and went out to talk to these people who cannot get local government to listen to them.

Angela Burns: Ar ôl clywed cyfraniadau amrywiol i'r ddadl heddiw, nid wyf am siarad am yr hyn yr oeddwn am ei wneud oherwydd hoffwn ymateb i un neu ddau o'r Aelodau. O ran sylwadau Rhodri Glyn Thomas ar hyn, nid wyf yn adnabod y wlad ddedwydd hon a ddisgrifiodd, gyda chymunedau hapus yn sgipio fraich ym mraich ac yn fwrlwm o ddiwylliant—nid yn fy ardal i yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro. Yn fy nghymunedau lleol, rwyf yn cwrdd â phobl rwystredig sy'n rhygnu'n ddiiddiwedd yn erbyn llywodraeth leol o ba bynnag liw a'r Llywodraeth. Dywed Rhodri, 'Nid ydych yn gwybod am y cymunedau'. Rwyf yn dweud wrthyf, y rheswm yr wyf yn gwybod am y cymunedau yw mai dyna sut y deuthum yn ôl yma, oherwydd fy mod, mewn gwirionedd, wedi codi ar fy nhraed ac wedi mynd i siarad â'r bobl hyn sy'n methu â chael llywodraeth leol i wrando arnynt.

You talk about what makes people feel empowered. It is the ability to influence a decision, to get your voice heard, to access information so that you can make the right decisions, and the ability to talk to people collectively. The community is made up of lots and lots of individuals. Unless we can get all the individuals in our communities to become part of a community, we are on a hiding to nothing.

Rydych yn sôn am yr hyn sy'n gwneud i bobl deimlo bod ganddynt rym. A'r pethau hyn yw'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniad, i gael dweud eich dweud, i gael gafael ar wybodaeth er mwyn ichi allu gwneud y penderfyniadau cywir, a'r gallu i siarad â phobl gyda'i gilydd. Mae'r gymuned yn cynnwys llawer iawn o unigolion. Oni bai y gallwn gael yr holl unigolion yn ein cymunedau i fod yn rhan o gymuned, mae hyn i gyd yn ddibwrpas.

My problem with community and the reason why I want to speak so strongly to the first part of our motion, which calls upon the Welsh Government to review its policies and to ensure that greater emphasis is placed on empowering local communities, is this: if you do not do it and if you do not put it into your policies and really believe it and follow it through, you will not be able to pass that lesson on to others. You have to set the bar that local government can follow, and local government has to set the bar that community councils can follow. But you know what I find when I go out there? It is this whole thing about power: once you have got power, boy oh boy, you do not want to let go of it do you? So I listen to Governments not really wanting to empower others. I listen to local councils—and I have two—talking about getting rid of community councils because, you know, it is a bit of a faff and a bit of a nuisance and saying ‘Let’s cut their numbers’ and so on.

However, if we want the people who live on the streets, who own the streets, who own the village, who own the town, to actually own the decision making and the policy making and feel that this is about them, we have to provide the access so that they can get to it. Where are the disabled people among our county councillors? Where are the young people? Where are the women? We are getting better, but I tell you what: it is up to us; it is up to the Labour Party, the Conservatives, the Liberals—Liberal Democrats, forgive me—and Plaid. It is up to us to make that enormous difference. Otherwise, our county councils will not reflect the societies they are supposed to represent, and this motion is about empowering those societies.

Therefore, Plaid Cymru will be promoting its positive alternative to the UK Government's agenda as this debate continues. However, for the moment we want to establish in people's minds that this policy is damaging to the Welsh economy, as well as being unfair to Welsh workers. That is why I have sought cross-party support for a strong and effective campaign against this to be rolled out. Plaid Cymru's No. 1 priority is the Welsh economy and its future. Without a stronger economy, our constitutional aims will not gain support. While we cannot always draw parallels between Scottish and Welsh politics, it is evident that the case for constitutional change in Scotland is only popular when it is on the back of pay and conditions and people's lives being made better rather than worse.

It is dangerous to try to sell this insidious policy as being beneficial to the private sector. The divide-and-rule tactic of comparing and contrasting private sector to public sector workers is deeply damaging and will only lead to a downward spiral—a race to the bottom in which everyone loses.

The economics of George Osborne's policy are under firm scrutiny by the media and the results of that scrutiny do not look good. It has been noted today by Income Data Services, a company that analyses pay across the economy, that you are more likely to need qualifications in the public sector than you are in the private sector. That is why public sector pay is slightly higher throughout most

gan eich plaid chi, pan oedd mewn Llywodraeth yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Pe bai gennym reolaeth dros gyflog ac amodau yn y meysydd datganoledig, fel sydd gan yr Alban, gan fwyaf, byddem yn diystyru tâl lleol yng Nghymru ac yn gosod cyfradd tâl genedlaethol i Gymru. Mae Plaid Lafur yr Alban a Phlaid Genedlaethol yr Alban ill dau wedi gwarchod cyflogau yn eu gwlad ar y sail honno. Nid oes unrhyw reswm i feddwl na fyddai'r un peth yn digwydd yng Nghymru pe baem yn cael ein hariannu'n deg ac yn cael ein trin â'r un parch y mae'r Alban wedi ei ennill.

Felly, bydd Plaid Cymru yn hyrwyddo ei dewis cadarnhaol sy'n wahanol i agenda Llywodraeth y DU wrth i'r ddadl hon fynd rhagddi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym am wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod bod y polisi hwn yn niweidiol i economi Cymru, ac hefyd yn annheg i weithwyr Cymru. Dyna pam rwyf wedi ceisio cefnogaeth drawsbleidiol i sicrhau y cyflwynir ymgyrch gryf ac effeithiol yn erbyn hyn. Blaenoriaeth bennaf Plaid Cymru yw economi Cymru a'i ddyfodol. Heb economi cryfach, ni fydd ein hamcanion cyfansoddiadol yn denu cefnogaeth. Er na allwn bob amser wneud cymariaethau rhwng gwleidyddiaeth Cymru a'r Alban, mae'n amlwg bod yr achos dros newid cyfansoddiadol yn yr Alban ddim ond yn boblogaidd pan ddaw yn sgîl cyflog ac amodau a gwella bywydau pobl yn hytrach na'u gwneud yn waeth.

Mae'n beryglus ceisio gwerthu'r polisi llechwraidd hwn fel rhywbeth sydd o fudd i'r sector preifat. Mae'r dacteg rhannu-a-rheoli, sef cymharu a chyferbynnu gweithwyr sector preifat a gweithwyr sector cyhoeddus, yn hynod o niweidiol a dim ond mynd yn waeth ac yn waeth y bydd pethau—ras i lawr i'r gwaelod fydd hi a bydd pawb ar eu colled.

Mae'r cyfryngau'n craffu'n bendant ar economeg polisi George Osborne, ac nid yw canlyniadau'r broses graffu honno'n addawol. Heddiw, dywedodd *Income Data Services*, cwmni sy'n dadansoddi tâl ar draws yr economi, eich bod yn fwy tebygol o fod angen cymwysterau yn y sector cyhoeddus nag yn y sector preifat. Dyna pam fod tâl sector cyhoeddus ychydig yn uwch drwy'r

of the UK, not just in Wales.

The answer to this in Wales is to support private sector growth in a positive way. Plaid Cymru is clear about what it wants. We want investment not austerity. There is not much left in Wales to cut back on. The wider debate about Wales's future is ongoing. The economy is central to that and many of Plaid Cymru's ideas are now centre-stage: the need for borrowing powers and investment, the infrastructure agenda and the specialist key sectors for economic renewal. We do not want a low-wage, low-ambition future for Wales. Through today's debate, we will demonstrate that local pay will exacerbate the problem and not provide part of the solution.

Gwelliant 1 Andrew R.T. Davies

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod Llywodraeth Lafur flaenorol y DU wedi cyflwyno cyflogau rhanbarthol yn y gwasanaeth llysoedd yng Nghymru; a

2. Yn credu y gallai sefydlu Cymru annibynnol arwain at lefelau cyflog is i weithwyr ledled Cymru, gan gynnwys y rheini yn y sector cyhoeddus, ac y byddai felly'n cael effaith debyg i gyflwyno cyflogau rhanbarthol yng Nghymru.

Paul Davies: I move amendment 1 in the name of Andrew R.T. Davies.

I am pleased to take part in this important debate this afternoon. Let me make it clear from the outset that we cannot support the motion in its current form as it is factually incorrect. The UK Government clearly has not yet proposed to introduce a regional pay system. The situation as it stands is that the Chancellor has asked independent pay review bodies to look at the issue and report back in the summer.

We will be supporting all the amendments tabled in the name of Peter Black, apart from amendment 4 with regards to the Secretary of State for Business, Innovation and Skills, because it is factually incorrect and has been

rhan fwyaf o'r DU, nid dim ond yng Nghymru.

Yr ateb i hyn yng Nghymru yw cefnogi twf y sector preifat mewn ffordd gadarnhaol. Mae Plaid Cymru yn bendant ynglŷn â'r hyn y mae ei eisiau. Mae arnom eisiau buddsoddiad, nid cynildeb. Nid oes llawer o bethau ar ôl yng Nghymru y gallwn wneud toriadau arnynt. Mae'r ddadl ehangach am ddyfodol Cymru yn parhau. Mae'r economi yn ganolog i hynny ac mae llawer o syniadau Plaid Cymru bellach yn hawlio sylw: yr angen am bwerau benthyca a buddsoddiad, yr agenda seilwaith a'r sectorau allweddol arbenigol ar gyfer adfywio economaidd. Nid ydym am weld dyfodol cyflog isel, di-uchelgais i Gymru. Trwy drafodaeth heddiw, byddwn yn dangos y bydd tâl lleol yn gwaethygu'r broblem yn hytrach na darparu rhan o'r ateb.

Amendment 1 Andrew R.T. Davies

Delete all and replace with:

1. Notes that the previous UK Labour Government introduced regional pay into the court service in Wales; and

2. Believes that establishing an independent Wales could result in lower levels of pay to workers throughout Wales, including those in the public sector, and would therefore have a similar effect to the introduction of regional pay in Wales.

Paul Davies: Cynigiau welliant 1 yn enw Andrew R.T. Davies.

Rwyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Gadewch imi egluro o'r cychwyn na allwn gefnogi'r cynnig ar ei ffurf bresennol gan nad yw'n ffeithiol gywir. Yn amlwg, nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig cyflwyno system tâl rhanbarthol eto. Y sefyllfa fel y mae yw bod y Canghellor wedi gofyn i gyrff adolygu tâl annibynnol edrych ar y mater ac adrodd yn ôl yn yr haf.

Byddwn yn cefnogi'r holl welliannau a gyflwynwyd yn enw Peter Black, ar wahân i welliant 4 sy'n ymwneud â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau, gan nad yw'n ffeithiol gywir ac am ei fod wedi ei

quoted out of context.

To turn to the issue itself, we on this side of the Chamber have huge concerns about a regional pay system, on the basis that it could disadvantage thousands of public sector workers across the United Kingdom. As a group, we have not seen any evidence at all of the benefits of introducing a regional pay system in the United Kingdom, and that is why we are making it absolutely clear that we are against the introduction of a regional pay system in the United Kingdom. Introducing such a system could, in fact, have a very negative effect, where salaries would change dramatically for many public sector workers.

However, I have to say to Plaid Cymru, and to the leader of Plaid Cymru, that I find it ironic that a party advocating independence for Wales is tabling this motion, when any movement towards independence would surely create a regional pay system within the United Kingdom. Last year, one of Plaid Cymru's election pledges was to devolve teachers' pay and conditions, which could potentially undermine national pay bargaining and lead to poorer pay and conditions for teaching staff in Wales. Surely, the devolution of teachers' pay would result in a regional pay system. I will give way to the Member for Mid and West Wales.

Simon Thomas: I thank Paul Davies for giving way. Surely the only way that the devolution of teachers' pay and conditions could lead to a diminution of their pay in Wales would be if we were to accept your budget proposals for a 20% decrease in the education budget.

Paul Davies: Let me tell the Member for Mid and West Wales that they obviously want independence, but they do not want the responsibilities that go with it. We on this side of the Chamber will take no lectures from the Labour Party and the Welsh Government on this issue. As has already been said, it was the previous UK Labour Government that first introduced a regional pay system through the court service. Labour's then Secretary of State for Wales, Paul Murphy, oversaw the introduction of

ddyfynnu allan o gyd-destun.

Gan droi at y mater ei hun, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn mawr bryderu am system tâl rhanbarthol, ar y sail y gallai fod o anfantais i filoedd o weithwyr sector cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig. Fel grŵp, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gwbl o fanteision cyflwyno system tâl rhanbarthol yn y Deyrnas Unedig, a dyna pam rydym yn ei gwneud yn gwbl glir ein bod yn erbyn cyflwyno system tâl rhanbarthol yn y Deyrnas Unedig. Mewn gwirionedd, gallai cyflwyno system o'r fath gael effaith negyddol iawn, lle byddai cyflogau llawer o weithwyr sector cyhoeddus yn newid yn ddramatig.

Fodd bynnag, rhaid imi ddweud wrth Blaid Cymru, ac wrth arweinydd Plaid Cymru, ei bod yn eironig, yn fy marn i, bod plaid sy'n hyrwyddo annibyniaeth i Gymru yn cyflwyno'r cynnig hwn, pan fyddai symud tuag at annibyniaeth yn siŵr o greu system tâl rhanbarthol yn y Deyrnas Unedig. Y llynedd, un o addewidion etholiadol Plaid Cymru oedd datganoli cyflog ac amodau athrawon. Mae'n bosibl y gallai hynny danseilio'r broses o fargeinio am dâl cenedlaethol ac arwain at gyflog ac amodau gwaeth ar gyfer staff addysgu yng Nghymru. Yn sicr, byddai datganoli cyflog athrawon yn arwain at system tâl rhanbarthol. Ildiaf i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru.

Simon Thomas: Diolch i Paul Davies am ildio. Yn sicr, yr unig ffordd y gallai datganoli cyflog ac amodau athrawon arwain at leihad yn eu cyflog yng Nghymru fyddai pe baem yn derbyn eich cynigion cyllideb ar gyfer gostyngiad o 20 y cant yn y gyllideb addysg.

Paul Davies: Gadewch imi ddweud wrth yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru bod arnynt eisiau annibyniaeth, yn amlwg, ond nad oes arnynt eisiau'r cyfrifoldebau sy'n mynd law yn llaw â hynny. Ni wnawn ni ar yr ochr hon i'r Siambr ganiatáu i'r Blaid Lafur na Llywodraeth Cymru bregethu wrthym ar y mater hwn. Fel y dywedwyd eisoes, Llywodraeth Lafur flaenorol y DU oedd y cyntaf i gyflwyno system tâl rhanbarthol drwy'r gwasanaeth llysoedd. Bu i Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru'r

regional pay in the court service and said:

‘Regional pay is not a new development—it is a reality in the economy as a whole, and HMCS is reacting to regional pay, rather than creating it. The Government’s policy is that pay should reflect local labour market conditions.’

That is what Paul Murphy said. I will give way to the Member for Pontypridd.

Mick Antoniw: I agree with you. I expressed my opposition to those proposals at that time. Do you agree that, when it was looked at, following its introduction, the Labour Government of that time dropped all reference to regional pay because it did not work and the consequences were dire?

Paul Davies: I am not going to take any lectures from the Labour Party. He should apologise on behalf of the Labour Party for introducing regional pay to the court system. The First Minister and his Government call a regional pay system ‘socially divisive’, so perhaps they can tell us what they did in 2000 and 2008, when they were in Government in Wales and at a UK level, to advocate their opposition to the Labour Party’s regional pay policy. It is shameful that the Welsh Government decides only now to take a proper stance on this issue. It is clearly political opportunism.

Here in the Assembly we have been consistent on this issue. Back in 2007, our then group leader, Nick Bourne, said that our party was:

‘not happy to sign up to a system that would mean lower pay for Wales and Welsh workers’.

We are therefore willing to put on record that the Welsh Conservative group is against regional pay and to advocate the words of Nick Bourne back in 2007. Unlike Plaid Cymru and Labour, we are consistent in this approach.

Blaid Lafur ar y pryd, oruchwylio cyflwyno tâl rhanbarthol yn y gwasanaeth llysoedd a dywedodd:

Nid yw tâl rhanbarthol yn ddatblygiad newydd—mae’n reality drwyddi draw yn yr economi, ac mae GLIEM yn ymateb i dâl rhanbarthol, yn hytrach na’i greu. Polisi’r Llywodraeth yw y dylai tâl gyd-fynd ag amodau’r farchnad lafur leol.

Dyna ddywedodd Paul Murphy. Ildiaf i’r Aelod dros Bontypridd.

Mick Antoniw: Rwyf yn cytuno â chi. Mynegais fy ngwrthwynebiad i’r cynigion hynny ar y pryd. Pan edrychwyd arno ar ôl ei gyflwyno, a ydych yn cytuno y bu i Lywodraeth Lafur y cyfnod hwnnw ddileu pob cyfeiriad at dâl rhanbarthol am nad oedd yn gweithio ac am fod y canlyniadau’n enbyd?

Paul Davies: Nid wyf yn mynd i ganiatáu i’r Blaid Lafur bregethu wrthyf. Dylai ymddiheuro ar ran y Blaid Lafur am gyflwyno tâl rhanbarthol i’r system llysoedd. Mae’r Prif Weinidog a’i Lywodraeth yn dweud y gall system tâl rhanbarthol rannu cymdeithas, felly efallai y gallant ddweud wrthym beth y gwnaethant hwy yn 2000 a 2008, pan roeddent mewn Llywodraeth yng Nghymru ac ar lefel y DU, i ddadlau eu gwrthwynebiad i bolisi tâl rhanbarthol y Blaid Lafur. Mae’n gywilyddus mai dim ond nawr y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu gwneud safiad iawn ar y mater hwn. Mae’n amlwg mai oportiwnistiaeth wleidyddol yw hyn.

Yma yn y Cynulliad, rydym wedi bod yn gyson yng nghyswllt y mater hwn. Yn ôl yn 2007, dywedodd Nick Bourne, arweinydd ein grŵp bryd hynny:

nad oedd ein plaid yn fodlon cytuno i system a fyddai’n golygu cyflogau is i Gymru ac i weithwyr Cymru.

Rydym felly yn barod i gofnodi bod grŵp Ceidwadwyr Cymru yn erbyn tâl rhanbarthol ac i ddadlau dros eiriau Nick Bourne yn ôl yn 2007. Yn wahanol i Plaid Cymru a’r Blaid Lafur, mae ein hagwedd ni’n gyson.

I suppose that the flip side to this debate on regional pay puts a spotlight on the private sector—a sector that is already too small in Wales. Successive Welsh Labour and Labour-led Governments have done little to change that and more needs to do be done to promote the private sector in Wales. However, I believe that that should not be done by squeezing wages in the public sector. I accept that there needs to be a better balance between the public and private sectors, but it needs to be achieved by supporting our small businesses in order to grow the private sector. I urge Members to support our amendment.

Mae'n debyg bod ochr arall y ddadl hon ar dâl rhanbarthol yn rhoi sylw i'r sector preifat—sector sydd eisoes yn rhy fach yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Llafur Cymru na'r Llywodraeth o dan arweiniad y Blaid Lafur, sydd wedi olyn ei gilydd, wedi gwneud llawer i newid hynny ac mae angen gwneud rhagor i hyrwyddo'r sector preifat yng Nghymru. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y dylid gwneud hynny drwy wasgu cyflogau'r sector cyhoeddus. Rwyf yn derbyn bod angen sicrhau gwell cydbwysedd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ond mae angen cyflawni hynny drwy gefnogi ein busnesau bach er mwyn i'r sector preifat dyfu. Rwyf yn annog Aelodau i gefnogi ein gwelliant.

Gwelliant 2 Peter Black

Amendment 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi bod Llywodraeth flaenorol y DU wedi cyflwyno cyflogau rhanbarthol yn y gwasanaeth llysoedd.

Notes that the previous UK Government introduced regional pay within the court service.

Gwelliant 3 Peter Black

Amendment 3 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio asesiad effaith i roi hwb i'r achos dros gynnal y strwythurau cyflog presennol.

Calls on the Welsh Government to produce an impact assessment to boost the case for retaining current pay structures.

Gwelliant 4 Peter Black

Amendment 4 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn cytuno â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau y byddai cyflog rhanbarthol yn hollol anghywir ac amhriodol ac y gallai arwain at ostyngiadau cyflog mewn rhannau o'r wlad lle mae incwm yn gymharol isel, ac felly'n galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau na chaiff cyflogau rhanbarthol eu cyflwyno.

Agrees with the Secretary of State for Business, Innovation and Skills that regional pay would be completely wrong and inappropriate and could lead to pay becoming depressed in relatively low income parts of the country and therefore calls on the Welsh Government to work with the Secretary of State to ensure regional pay is not introduced.

Gwelliant 5 Peter Black

Amendment 5 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y

Add as new point at end of motion:

cynnig:

Yn credu na fyddai annibyniaeth yn galluogi Cymru i elwa o raddfeydd cyflog sector cyhoeddus DU gyfan ac y byddai hynny mewn gwirionedd yn arwain at gyflogau rhanbarthol.

Believes that independence would not allow Wales to benefit from UK wide public sector pay scales and would lead to de-facto regional pay.

Peter Black: I move amendments 2, 3, 4 and 5 in my name.

Peter Black: Cynigiau welliannau 2, 3, 4, a 5 yn fy enw i.

I start by referring to amendment 4 and Paul Davies's assertion that it is not a correct reflection of what Vince Cable has said. It is virtually a quote of what he said. *[Interruption.]*

Dechreuaf drwy gyfeirio at welliant 4 a honiad Paul Davies nad yw'n adlewyrchiad cywir o'r hyn y mae Vince Cable wedi ei ddweud. Mae bron yn ddyfyniad o'r hyn a ddwywedodd. *[Torri ar draws.]*

The Deputy Presiding Officer: Order. Peter has hardly been speaking for 15 seconds and Members are jumping up and down. We will hear the Liberal Democrats' proposed amendments with courtesy, please.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw Peter prin wedi bod yn siarad am 15 eiliad ac mae Aelodau'n neidio i fyny ac i lawr. Byddwn yn gwrandao ar welliannau arfaethedig y Democratiaid Rhyddfrydol gyda chwarteisi, os gwelwch yn dda.

Peter Black: Vince Cable said on 22 March on *Question Time* that imposing regional variation in pay would be completely wrong and would not work. He also said that we certainly do not want to be in the situation where in relatively low-paid areas of the country we depress pay; that would not be fair. He also said on 26 January in the *Birmingham Post*:

Peter Black: Ar 22 Mawrth, dywedodd Vince Cable ar *Question Time* y byddai gosod amrywiad rhanbarthol o ran tâl yn gwbl amrhiodol ac ni fyddai'n gweithio. Dywedodd hefyd ein bod yn sicr ddim am fod mewn sefyllfa lle rydym yn gostwng tâl yn ardaloedd y wlad lle mae'r cyflogau'n gymharol isel; ni fyddai hynny'n deg. Dywedodd hefyd ar 26 Ionawr yn y *Birmingham Post*:

'I do recognise the practical problems in the public sector. It isn't just the political issue—the fear that people will be levelled down in some of the relatively low wage areas—but I think there's a genuine problem about how you get a career progression structure for a long term public servant.'

Rwyf yn cydnabod y problemau ymarferol yn y sector cyhoeddus. Nid dim ond y mater gwleidyddol sy'n peri problemau—yr ofn y bydd pobl yn gostwng lefel yn rhai o'r ardaloedd sydd â chyflogau cymharol isel—ond rwyf yn credu y ceir problem go iawn o ran sut rydych yn sicrhau strwythur dilyniant gyrfar ar gyfer gwas cyhoeddus hirdymor.

The Welsh Liberal Democrats—

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—

Mick Antoniw: Will you take an intervention?

Mick Antoniw: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Peter Black: No, you have already taken up around a minute of my time by shouting at me, so I will not give way at this stage. The Welsh Liberal Democrats are fundamentally opposed to any attempt to introduce regional pay. Regional pay would

Peter Black: Na, rydych chi eisoes wedi hawlio tua munud o fy amser drwy weiddi arnaf, felly nid wyf am ildio ar hyn o bryd. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwrthwynebu'n sylfaenol unrhyw ymgais i gyflwyno tâl rhanbarthol. Byddai tâl

further entrench Wales as a low-paid economy both in the public and private sectors. More to the point, it would lead to men and women doing the same job at different ends of the country receiving different rates of pay. As a party, we believe in the principle of an individual being paid a rate for a job, not in a multi-tier system that sees wages set on a postcode basis that will ultimately see the rich areas of south-east England become richer at the expense of the rest of the UK, and Wales in particular. There are already cases of private sector companies paying a different rate of pay to staff in areas in England to staff doing the same job in Wales. We do not want to penalise public sector workers because many private companies in Wales do not pay a living wage.

We have tabled a number of amendments to this motion and one of our concerns about Plaid Cymru's approach to this—although it is not reflected in the motion, it was certainly reflected in the speech that moved the motion—is that they want to effectively devolve pay and conditions to the Welsh Government and that will effectively be a form of regional pay. They have called for the pay and conditions of public sector workers to be transferred so that the Welsh Government can decide whether or not to reduce or raise the rate of pay of nurses, doctors, teachers, and others employed in those areas that are devolved. That proposal does not take into account those large numbers of people in Wales who work for UK Government departments, such as the DVLA and the Department for Work and Pensions. You could have a situation where you had different rates of pay within Wales itself—effectively, regional pay within Wales. That is not the way forward and gives succour to the agenda of introducing regional pay and the Welsh Liberal Democrats oppose that.

On the Conservative's amendment, while we agree with the substantive content and that, under Labour, the UK Government did in fact introduce regional pay into the courts system and that an independent Wales would lead to lower wages for Welsh workers, as we have

rhanbarthol yn rhoi gwreiddiau dyfnach fyth i Gymru fel economi cyflog isel yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn bwysicach, byddai'n arwain at ddynion a menywod sy'n gwneud yr un gwaith mewn rhannau gwahanol o'r wlad yn cael cyfraddau cyflog gwahanol. Fel plaid, rydym yn credu yn yr egwyddor lle telir cyfradd swydd i unigolyn, nid mewn system aml-haen sy'n gweld cyflogau'n cael eu gosod ar sail cod post a fydd, yn y pen draw, yn gweld ardaloedd cyfoethog de-ddwyrain Lloegr yn dod yn fwy cyfoethog ar draul gweddill y DU, a Chymru yn arbennig. Eisoes, ceir achosion lle mae cwmnïau sector preifat yn talu gwahanol gyfraddau cyflog i staff yn rhai o ardaloedd Lloegr a staff sy'n gwneud yr un gwaith yng Nghymru. Nid ydym am gosbi gweithwyr sector cyhoeddus am fod llawer o gwmnïau preifat yng Nghymru yn gwrthod talu cyflog byw.

Rydym wedi cyflwyno nifer o welliannau i'r cynnig hwn ac un o'r pethau sy'n ein pryderu ynghylch agwedd Plaid Cymru at hyn—er nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y cynnig, roedd yn sicr yn cael ei adlewyrchu yn yr araith a oedd yn cynnig y cynnig—yw eu bod am ddatganoli cyflog ac amodau i Lywodraeth Cymru a bydd hynny, fwy neu lai, yn fath o dâl rhanbarthol. Maent wedi galw am drosglwyddo cyflog ac amodau gweithwyr sector cyhoeddus fel y gall Llywodraeth Cymru benderfynu naill ai lleihau neu godi cyfraddau cyflog nyrsys, meddygon, athrawon, ac eraill a gyflogir yn y meysydd hynny sydd wedi'u datganoli. Nid yw'r cynnig hwnnw'n ystyried y nifer fawr o bobl yng Nghymru sy'n gweithio i adrannau Llywodraeth y DU, megis y DVLA a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Gallech esgor ar sefyllfa lle ceir cyfraddau cyflog gwahanol yng Nghymru ei hun—sef tâl rhanbarthol yng Nghymru, i bob pwrpas. Nid dyna'r ffordd ymlaen. Bydd yn helpu'r agenda cyflwyno tâl rhanbarthol ac mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwrthwynebu hynny.

O ran gwelliant y Ceidwadwyr, er ein bod yn cytuno â'r cynnwys gwreiddiol ac yn cytuno bod Llywodraeth y DU, o dan y Blaid Lafur, wedi cyflwyno tâl rhanbarthol i'r system llysoedd ac y byddai Cymru annibynnol yn arwain at gyflogau is i weithwyr Cymru, gan

also stated those facts in our amendment, we do not believe that it goes far enough and will therefore not be supporting it. Do the Welsh Conservatives in the Chamber agree with their Westminster colleague Guto Bebb that proposals to introduce regional pay could be potentially dangerous in relation to Wales? From what Paul Davies has just said, I think that that is the case and I welcome that unity among the Welsh Conservatives and I hope that we will also be able to convince the UK Government of that case as well. I think that we will get a consensus in this Chamber, even if we cannot agree on the wording, that regional pay is bad for Wales and bad for Welsh workers.

ein bod ninnau hefyd wedi nodi'r ffeithiau hynny yn ein gwelliant, nid ydym yn credu ei fod yn mynd yn ddigon pell ac felly ni fyddwn yn ei gefnogi. A yw'r rheini yn y Siambr sy'n perthyn i Blaid Geidwadol Cymru yn cytuno â'u cyd-Aelod yn San Steffan, Guto Bebb, y gallai cynigion i gyflwyno tâl rhanbarthol fod yn beryglus, o bosibl, mewn perthynas â Chymru? O'r hyn y mae Paul Davies newydd ei ddweud, credaf mai dyna yw'r achos ac rwyf yn croesawu'r undod hwnnw ymhlith Ceidwadwyr Cymru ac yn gobeithio y byddwn hefyd yn gallu argyhoeddi Llywodraeth y DU mai dyna yw'r achos. Rwyf yn credu y bydd consensws yn y Siambr hon, hyd yn oed os na allwn gytuno ar y geiriad, bod tâl rhanbarthol yn newyddion drwg i Gymru ac yn newyddion drwg i weithwyr Cymru.

5.15 p.m.

The argument is that in the south-east of England you have higher costs and that, therefore, people there should be paid more. However, while housing costs are, on average, lower here than in most parts of England, that does not mean that people in Wales have lower costs. Gas, electricity and fuel bills are often much higher here and food costs are the same—although much higher in many parts of rural Wales. Any move to reduce or freeze public sector wages based on differences between private and public sector wages will merely serve to further ingrain deprivation as a fact of life for many Welsh communities. Across Wales, many parts of the public sector are already struggling to recruit quality staff. Freezing or cutting wages is only going to hamper recruitment and further damage public services.

Y ddadl yw bod costau'n uwch yn ne-ddwyrain Lloegr, ac felly, dylai pobl gael rhagor o gyflog. Fodd bynnag, er bod costau tai yn is yma, ar gyfartaledd, nag yn y rhan fwyaf o ardaloedd Lloegr, nid yw hynny'n golygu bod pobl Cymru yn wynebu costau is. Mae biliau nwy, trydan a thanwydd yn aml yn uwch o lawer yma ac mae costau bwyd yr un fath—er yn llawer uwch mewn sawl ardal yng nghefn gwlad Cymru. Yr unig beth y bydd unrhyw ymgais i leihau neu rewi cyflogau sector cyhoeddus ar sail gwahaniaethau rhwng cyflogau sector preifat a sector cyhoeddus yn ei wneud fydd gwneud amddifadedd yn un o ffeithiau bywyd i lawer o gymunedau Cymru. Ledled Cymru, mae sawl rhan o'r sector cyhoeddus eisoes yn cael anawsterau wrth recriwtio staff o ansawdd. Dim ond rhwystro recriwtio a gwneud difrod pellach i wasanaethau cyhoeddus y bydd rhewi neu gwtogi cyflogau.

Alun Ffred Jones: Mae datganiad George Osborne ei fod yn bwriadu rhoi'r hyblygrwydd i adrannau'r Llywodraeth amrywio tâl i weithwyr yn ddibynnol ar lle maen nhw'n byw yn enghraifft arall o'r glymblaid yn Llundain yn tanseilio a dinistrio gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r awgrym hefyd yn profi unwaith eto pa mor ynysig yw'r Cabinet hwn o filiwnyddion. Mae'n ymddangos nad ydynt yn deall dim am fywydau'r rhan fwyaf o'n hetholwyr.

Alun Ffred Jones: George Osborne's statement that he intends to give flexibility to Government departments to vary workers' pay depending on where they live is another example of the coalition in London undermining and destroying public services. The suggestion also proves once again how out of touch this Cabinet of millionaires is. It appears that they do not understand anything about the lives of the majority of our constituents.

Mae ceisio gwneud bwan o dâl yn y gwasanaethau cyhoeddus yn ffolineb, wrth gwrs. Y gwir elyn yw'r bwlch sydd wedi datblygu rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf: rhwng cyflog y gweithwyr cyffredin mewn swyddi ar lawr ffatri a thaliadau i'r cyfarwyddwyr. Mae'r bwlch hwnnw wedi tyfu'n gyson ers dyddiau Thatcher a thrwy flynyddoedd Blair a Brown wrth y llyw yn Llundain. O wrando ar y siaradwyr heddiw o'r Blaid Doriâidd a'r Blaid Ryddfrydol, ni fydddech yn credu bod un ohonynt yn perthyn i'r un blaid â George Osborne a bod y llall mewn clymblaid â'i blaid yn Llundain. Hefyd, mae camdealltwriaeth o'r geiriau 'taleithiol' a 'chenedlaethol', ac maent yn cael eu camddyfynnu. Pan rydym yn sôn am drefn genedlaethol, nid ydym yn sôn am drefn daleithiol.

Andrew R.T. Davies: I am grateful to the Member for giving way. In the previous debate, we were told by your party that there was no difference between us and London. In this debate, you are now saying that there is a difference between us and London. It is called devolution, it is called maturity, and it is called the ability to make policy.

Alun Ffred Jones: As I understand it, you are a member of the same party as George Osborne, and I presume that you agree with him; I do not know. That is your problem, not mine.

Sail y cynigion hyn yw bod tâl yn y sector cyhoeddus yn creu cystadleuaeth annheg gyda'r sector preifat, sydd wedyn yn methu â denu a chadw staff cymwys. Dyna'r unig ddadl o blaid yr hyn mae George Osborne wedi'i gynnig. Ochr arall y geiniog honno yw y byddai tâl yn y sector preifat yn annerbyniol o isel mewn rhai ardaloedd oni bai am gyflogau yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae cynigion y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, fel ag y'u mynegwyd gan George Osborne, yn mynd i greu ras i'r gwaelod. Ein dyletswydd ni yw ceisio tegwch i bawb, fel ag y mae'r gwledydd Scandinafidd yn llwyddo i'w wneud, drwy gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithiol a safonol yn ogystal â

Trying to make a straw man of the public services is foolish, of course. The real enemy is the gap that has developed between the richest and the poorest: between the pay of ordinary workers employed on the factory floor and payments to the directors. That gap has grown since Thatcher's days and through the years when Blair and Brown were at the helm in London. Listening to the Tory and Liberal speakers today, you would not think that one of them belongs to the same party as George Osborne and that the other is in coalition with his party in London. There is also a misunderstanding of 'regional' and 'national', and they are being misquoted. When we speak of a national system, we are not talking about a regional system.

Andrew R.T. Davies: Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ildio. Yn y ddadl flaenorol, dywedodd eich plaid wrthym nad oedd gwahaniaeth rhyngom ni a Llundain. Yn y ddadl hon, rydych nawr yn dweud bod gwahaniaeth rhyngom ni a Llundain. Fe'i gelwir yn ddatganoli, fe'i gelwir yn aeddfedrwydd, ac fe'i gelwir y gallu i lunio polisi.

Alun Ffred Jones: Yn ôl yr hyn rwyf yn ei ddeall, rydych chi'n aelod o'r un blaid â George Osborne, ac rwyf yn cymryd eich bod yn cytuno ag ef; nid wyf yn gwybod. Eich problem chithau yw hynny, nid fy mhroblem innau.

The basis of these proposals is that pay in the public sector creates unfair competition with the private sector, which is then unable to attract and retain qualified staff. That is the only argument in support of what George Osborne has proposed. The other side of that coin is that pay in the private sector would be unacceptably low in some areas were it not for salaries in the public sector. The proposals of the Tories and the Liberal Democrats, as expressed by George Osborne, are going to create a race to the bottom. Our duty is to strive for fairness for all. Scandinavian countries are successful in introducing effective public services of high quality as well as a dynamic and successful private sector that competes in the

sector preifat deinamig a llwyddiannus sy'n cystadlu ar y farchnad ryngwladol.

Pe bai Osborne yn cael ei ffordd—ac nid wyf yn credu y bydd yn llwyddo—y canlyniad mewn ardaloedd fel fy etholaeth i yn Arfon ac ardaloedd eraill yng Nghymru fyddai bod gan y gweithwyr hyn lai o arian i'w wario, boed yn athrawon, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol ac yn y blaen. Byddai eu costau byw yn aros yn uchel—bwyd, trydan, dŵr a phetrol, wrth gwrs—felly byddai llai o arian yn weddill i'w wario ar hamdden, cynnal a chadw, teithio a phopeth arall. A all unrhyw un esbonio sut y byddai hynny'n llesol i'r economi? Sut y byddai hynny'n fanteisiol i'n siopau, i'n busnesau, i'n helusennau, ac i ganol ein trefi?

Un canlyniad posibl yw y bydd y sector preifat yn gostwng cyflogau hefyd. Byddai hynny'n creu cleddyf deufin i danseilio busnesau lleol, gyda llai fyth o arian yn cylchdroi yn yr economi leol. Mae hyd yn oed Ffederasiwn y Busnesau Bach yn cydnabod y gallai'r polisiâu hyn arwain at ganlyniadau annisgwyl na all neb eu rhagweld.

Joyce Watson: Will you take an intervention?

Alun Ffred Jones: No, I have only a few minutes left.

Mae'r cynnig hwn wedi ei wneud ar sail simsan iawn, fel mae tair erthygl yn y wasg ddoe yn ei brofi. Mae hyblygrwydd yn bodoli'n barod yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, fel mae'n digwydd, i godi cyflogau lle mae amodau lleol eithriadol—y rhan fwyaf oherwydd y ffyniant annaturiol yn ne-ddwyrain Lloegr. Felly, mae peth hyblygrwydd yn bodoli'n barod, dim ond ichi edrych yn fanwl. Mae ceisio gwneud y gymhariaeth foel hon rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus, mewn gwirionedd, yn nonsens ystadegol.

Mae'n ddiddorol iawn cymharu'r sector cyhoeddus â sector cymharol o ran maint, sef y sector ariannol. Mae'r ddau yn gyfrifol am tua 20% o'r economi. Pe baech yn cymharu tâl yn y sector ariannol gyda tâl yn y sector cyhoeddus, byddech yn gweld bod tâl yn y sector ariannol lawer yn uwch, a hynny heb

international market.

If Osborne had his way—and I do not think that he will succeed—the result in areas like my constituency in Arfon would be that these workers would have less money to spend, be they teachers, nurses, social workers or whatever. Their living costs would remain high—food, electricity, water and petrol, of course—so they would have less money left over to spend on leisure, maintenance, travel and everything else. Can anyone explain how that would benefit the economy? How would this be advantageous for our shops, businesses, charities and town centres?

One possible consequence will be that the private sector lowers its wages, too. This will form a double-edged sword to undermine local businesses, with even less money circulating in the local economy. Even the Federation of Small Businesses acknowledges that these policies could lead to unintended consequences that no-one can predict.

Joyce Watson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Alun Ffred Jones: Na, dim ond ychydig funudau sydd gennyf ar ôl.

This proposal has been made on very shaky ground, as proven by three articles in yesterday's press. Flexibility already exists in the public sector and the private sector to increase wages under exceptional local circumstances—the majority due to the unnatural prosperity in south-east England. Therefore, there is already flexibility, if you look carefully for it. Trying to make this crude comparison between the private and public sectors is, in reality, statistical nonsense.

An interesting comparison emerges between the public sector and the financial sector. Both are responsible for around 20 y cant of the economy. If you were to compare pay in the financial sector with pay in the public sector you would see that pay in the financial sector is much higher, even without taking

gyfri'r £20 biliwn o fonws a delir yn flynyddol. Ar hynny y dylai'r Canghellor ganolbwyntio, yn hytrach nag ar danseilio safonau byw gweithwyr y sector cyhoeddus.

Mick Antoniw: This is a strange debate. I thought that there might be an opportunity for cross-party agreement on this. We are almost there. I find myself in a strange position where the Welsh Tories are against regional pay, the Lib Dems are against regional pay, Welsh Labour is against regional pay and the only people in favour of it in this Chamber appear to be from Plaid Cymru. While I respect and appreciate the comments that you have made, because you have an understanding of the impact here, there is an ideological argument going on in Westminster within the Tory party and, for me, this is a version of Tory class war against public sector workers.

The whole ethos of what is being discussed is based on spurious evidence. Let us look at some of the Institute for Fiscal Studies evidence. The IFS states that the jury is out on whether jobs in the private and public sectors can ever meaningfully be compared. The IFS evidence also shows that, in the public sector, pay is less unequal. In the public sector, the pay gap between the top and lower earnings is smaller. The private sector employs more unskilled and minimum wage employees—thank God for the minimum wage. The public sector employs more professionals, such as teachers and doctors, and the public sector has a high proportion of older and more experienced workers and, therefore, earnings tend to be higher.

Public sector pay agreements have traditionally allowed for local variation. That has always been the case. The economist Neil Gibson, the director of regional services at Oxford Economics, has said that, realistically, public sector workers, as a result of these proposals, would face a real-term reduction in pay of 20% to 25%, but warned that the consequences could be as high as 40%. Therefore, I think that the ideological objective of the UK Tory Government is very

into account the £20 billion of bonus payments made every year. That is what the Chancellor should concentrate on, rather than on undermining the living standards of workers in the public sector.

Mick Antoniw: Mae hon yn ddadl ryfedd. Roeddwn yn meddwl efallai y byddai cyfle i sicrhau cytundeb trawsbleidiol ar hyn. Rydym bron yno. Rwyf mewn sefyllfa ryfedd. Mae Torïaid Cymru yn erbyn tâl rhanbarthol, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn erbyn tâl rhanbarthol, mae Plaid Lafur Cymru yn erbyn tâl rhanbarthol a'r unig bobl yn y Siambr hon sy'n ymddangos eu bod o blaid tâl rhanbarthol yw Plaid Cymru. Er fy mod yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r sylwadau rydych wedi'u gwneud, gan eich bod yn deall yr effaith yma, ceir dadl ideolegol yn San Steffan ar hyn o bryd yn y blaid Doriäidd ac, i mi, mae hyn yn fersiwn o ryfel dosbarth y Torïaid yn erbyn gweithwyr sector cyhoeddus.

Mae holl ethos yr hyn sy'n cael ei drafod yn seiliedig ar dystiolaeth annilys. Gadewch inni edrych ar rywfaint o dystiolaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Dywed y Sefydliad nad oes modd gwybod a ellir byth cymharu swyddi yn y sector preifat a chyhoeddus yn ystyrlon. Mae tystiolaeth y Sefydliad hefyd yn dangos bod tâl yn llai anghyfartal yn y sector cyhoeddus. Yn y sector cyhoeddus, mae'r bwlch cyflog rhwng yr enillion uchaf ac enillion is yn llai. Mae'r sector preifat yn cyflogi mwy o gyflogaion di-grefft ar yr isafswm cyflog—diolch byth am yr isafswm cyflog. Mae'r sector cyhoeddus yn cyflogi mwy o weithwyr proffesiynol, fel athrawon a meddygon, ac mae gan y sector cyhoeddus gyfran uchel o weithwyr hŷn, mwy profiadol ac, felly, mae enillion yn tueddu i fod yn uwch.

Yn draddodiadol, mae cytundebau cyflog y sector cyhoeddus wedi caniatáu amrywiadau lleol. Mae hynny wedi bod yn wir erioed. Mae'r economegydd Neil Gibson, cyfarwyddwr gwasanaethau rhanbarthol *Oxford Economics*, wedi dweud y byddai gweithwyr sector cyhoeddus, yn realistig, yn wynebu gostyngiad cyflog mewn termau real o ganlyniad i'r cynigion hyn, o 20 y cant i 25 y cant, ond rhybuddiodd y gallai'r canlyniadau fod mor uchel â 40 y cant. Felly,

clear: divide and rule between the public and private sectors; rubbish the public sector and public services; push down all pay and move towards a minimum wage economy, with minimum terms and conditions of employment and limited, if any, employment protection and health and safety protection.

During the recent Plaid leadership election, there was a reference to Fisher Price economics. For me, this is more about the *Only Fools and Horses* politics of Del Boy—‘Don’t worry, next year, we’ll all be millionaires’.

Alun Ffred Jones: Carwyn Jones, your leader, said that we may have to look at taking over pay in Wales; is he in support of regional pay?

Mick Antoniw: I can refer you to the very clear statement that has been made by Carwyn Jones on at least three occasions, which states that we are against regional pay, we are against regional benefits, and we are against a regional cap on benefits. For me, socialism does not stop at the English border. The leader of Plaid Cymru put her socialism on her lapel when she stood for leadership, but I am afraid that she has fallen at the first hurdle.

Lindsay Whittle: Mick Antoniw, if you think that we are in favour of regional pay in a British context, then you should pin back your ears and listen now. I can assure you that there are times—I think that this is one of them—when I want to throw a hand grenade into this Chamber, metaphorically speaking, of course. *[Interruption.]*

The Deputy Presiding Officer: Order. It was a metaphoric weapon. Let us all calm down, please.

Lindsay Whittle: I would do that to explode the myth that public workers are well paid. Just because, in Wales, there is a differential between the public and private payscales does not mean to say that public sector

credaf fod amcan ideolegol Llywodraeth Doriāidd y DU yn glir iawn: rhannu a rheoli rhwng y sector cyhoeddus a’r sector preifat; tanseilio'r sector cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus; lleihau cyflogau a symud at economi isafswm cyflog, gyda'r telerau ac amodau cyflogaeth mwyaf sylfaenol a mesurau gwarchod cyflogaeth ac iechyd a diogelwch cyfyngedig, os unrhyw fesurau o gwbl.

Yn ystod yr etholiad diweddar ar gyfer arweinyddiaeth Plaid Cymru, cyfeiriwyd at economeg *Fisher Price*. I mi, mae hyn yn ymwneud yn fwy â gwleidyddiaeth Del Boy *Only Fools and Horses*—Peidiwch â phoeni, byddwn ni i gyd yn filiwnyddion y flwyddyn nesaf.

Alun Ffred Jones: Dywedodd Carwyn Jones, eich arweinydd, ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid inni ystyried cymryd yr awenau o ran cyflog yng Nghymru; a yw'n cefnogi tâl rhanbarthol?

Mick Antoniw: Gallaf eich cyfeirio at y datganiad clir iawn a wnaed gan Carwyn Jones ar o leiaf dri achlysur, sy'n datgan ein bod yn erbyn tâl rhanbarthol, yn erbyn budd-daliadau rhanbarthol, ac yn erbyn gosod cap rhanbarthol ar fudd-daliadau. I mi, nid yw sosïalaeth yn dod i ben ar ffin Lloegr. Bu i arweinydd Plaid Cymru ddangos ei sosïalaeth yn glir pan roedd yn sefyll ar gyfer yr arweinyddiaeth, ond mae arnaf ofn ei bod wedi disgyn wrth y rhwystr cyntaf.

Lindsay Whittle: Mick Antoniw, os ydych chi'n credu ein bod o blaid tâl rhanbarthol mewn cyd-destun Prydeinig, yna dylech wrando'n astud nawr. Gallaf eich sicrhau bod adegau—rwyf yn meddwl bod yr adeg hon yn un ohonynt—pan fo arnaf eisiau taflu grenâd llaw i ganol y Siambr hon, a siarad yn drosiadol, wrth gwrs. *[Torri ar draws.]*

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Arf drosiadol ydoedd. Gadewch inni i gyd ymdawelu, os gwelwch yn dda.

Lindsay Whittle: Byddwn yn gwneud hynny er mwyn chwalu'r myth bod gweithwyr cyhoeddus yn cael cyflogau da. Nid yw'r ffaith bod gwahaniaeth rhwng y graddfeydd cyflog cyhoeddus a phreifat yng Nghymru yn

employees are particularly well paid. In fact, as we well know, many workers in the public sector have had their pay frozen for some years. Most workers in the public sector are not on high salaries, and many public sector workers—about two-thirds of whom are women—have taken a pay cut in real terms. Many of them, such as nurses and teachers, need qualifications to do their jobs. However, many workers in private sector jobs, such as those in call centres, shops, factories and the service sector, are also on relatively low pay.

We know that workers in the Welsh private sector are often forgotten. They often work long hours for low pay and they are often not supported through membership of a trade union. However, cutting public sector pay, which is what I thought this debate was all about, will not help those workers one single bit. What we do not want is a typical Tory policy of divide and rule, pitting one sector of society against another. That is what it is about. If you do not understand that, you have not grasped the debate, in my opinion. None of us on this side entered politics to take that sort of attitude.

Mick Antoniw: Lindsay, do you not accept that, by calling for the devolution of pay, you are engaging in divide and rule? That is exactly the point that was made by the Wales TUC today.

Lindsay Whittle: What we want is for this Welsh Government to protect public sector and private sector pay. Then, this Government could be accountable. It is typical of the UK coalition Government that, in the face of hard economic times, it is hell bent on cuts rather than stimulating growth, which is what we are in favour of. We in Wales need a more positive approach, by getting full powers over borrowing. We need to see the economic renewal plan, which, I am pleased to say, was initiated by Plaid Cymru in the One Wales Government, developed further so that there are strong key sectors in the Welsh economy that can drive

golygu bod cyflogaion sector cyhoeddus yn cael cyflogau arbennig o dda. Yn wir, fel rydym yn gwybod yn iawn, mae cyflogau llawer o weithwyr sector cyhoeddus wedi cael eu rhewi am rai blynnyddoedd. Nid yw'r rhan fwyaf o weithwyr sector cyhoeddus ar gyflogau uchel, ac mae nifer ohonynt—a menywod yw tua dwy ran o dair ohonynt—wedi cael toriad cyflog mewn termau real. Mae ar lawer ohonynt, fel nyrsys ac athrawon, angen cymwysterau i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, mae llawer o weithwyr mewn swyddi sector preifat, fel y rheini mewn canolfannau galw, siopau, ffatrïoedd a'r sector gwasanaethau, hefyd ar gyflogau cymharol isel.

Rydym yn gwybod yr anghofir am weithwyr sector preifat Cymru yn aml. Maent yn aml yn gweithio oriau hir am gyflog isel ac yn aml, nid ydynt yn cael eu cefnogi drwy fod yn aelod o undeb llafur. Fodd bynnag, ni fydd cwtogi cyflogau'r sector cyhoeddus, sef beth roeddwn i'n meddwl oedd holl bwrpas y ddadl hon, yn helpu'r gweithwyr hynny o gwbl. Yr hyn nad ydym am ei weld yw polisi nodweddiadol y Torïaid, sef rhannu a rheoli, gan osod un sector o'r gymdeithas yn erbyn y llall. Dyna beth sy'n bwysig. Os nad ydych yn deall hynny, nid ydych wedi deall y ddadl, yn fy marn i. Ni wnaeth yr un ohonom ar yr ochr hon ddod i fyd gwleidyddiaeth er mwyn arddel yr agwedd honno.

Mick Antoniw: Lindsay, a ydych yn derbyn eich bod, drwy alw am ddatganoli tâl, yn cymryd rhan mewn tacteg rhannu a rheoli? Dyna'r union bwynt a wnaed gan TUC Cymru heddiw.

Lindsay Whittle: Yr hyn y mae arnom ei eisiau yw i Lywodraeth bresennol Cymru ddiogelu cyflogau sector cyhoeddus a sector preifat. Yna, gallai'r Llywodraeth hon fod yn atebol. Mae'n nodweddiadol o Lywodraeth glymblaid y DU ei bod, yn wyneb cyfnod economaidd anodd, yn benderfynol o sicrhau toriadau yn hytrach nag ysgogi twf, sef yr hyn rydym ninnau o'i blaid. Mae arnom ninnau yng Nghymru angen ymagwedd fwy cadarnhaol, drwy sicrhau pwerau llawn dros fenthycu. Rwyf yn falch o ddweud y cychwynnwyd y cynllun adnewyddu economaidd gan Blaid Cymru yn Llywodraeth Cymru'n Un, ac mae arnom

future growth. That is what we should be arguing about. If these proposals for regional, or, to be more accurate, localised pay go ahead, Wales will be hit hard, and we are not prepared to accept that. We would become more of a permanently low-pay economy than we are now, and we are at the bottom now.

How exactly would any proposals for regional or localised pay be implemented? I am not arguing for it, but how would it be implemented? Can you imagine the mindless bureaucracy that we would have to suffer? The Sir Humphreys of the world would have a field day.

Joyce Watson *rose—*

Lindsay Whittle: Joyce Watson, yours is the last intervention that I will take.

Joyce Watson: Thank you for taking the intervention. If you can, I would like you to explain how you are going to put a square peg in a round hole. Your leader has quite clearly said that what she stands for is independence. Therefore, are you saying that the bit of independence that you do not want is pay? If you have—

The Deputy Presiding Officer: Order. This is taking too long.

Lindsay Whittle: I cannot put square pegs in round holes; I will admit to that. Localised pay means introducing pay differentials—*[Interruption.]* Please listen. Localised pay in Wales will mean pay differentials across different parts of Wales. We in Plaid Cymru will fight that tooth and nail. Heaven forbid. There is enough disparity in Wales now. The average wage for a man in the Vale of Glamorgan is £30,800. The average wage for a man in Blaenau Gwent is £22,400. If I told you what it was for women, we would have the suffragettes marching in here again. Equal pay between men and women is what we should be battling for in this Chamber, not regional pay, not localisation. However you dress it up, we are totally opposed to it.

angen gweld y cynllun yn cael ei ddatblygu ymhellach fel y ceir sectorau allweddol cryf yn economi Cymru a all ysgogi twf yn y dyfodol. Dyna beth y dylem fod yn dadlau yn ei gylch. Os bydd y cynigion hyn ar gyfer tâl rhanbarthol, neu i fod yn fwy cywir, tâl lleol, yn mynd rhagddynt, bydd yn galed ar Gymru, ac nid ydym yn barod i dderbyn hynny. Byddem yn dod yn fwy o economi cyflog isel parhaol nag yr ydym, ac rydym ar y gwaelod yn awr.

Sut yn union y byddai unrhyw gynigion ar gyfer tâl rhanbarthol neu leol yn cael eu gweithredu? Nid wyf yn dadlau o'i blaid, ond sut y byddai'n cael ei weithredu? Allwch chi ddychmygu'r fiwrocratiaeth ddifeddwl y byddai'n rhaid inni ei dioddef? Byddai Syr Humphreys y byd yn cael modd i fyw.

Joyce Watson *a gododd—*

Lindsay Whittle: Joyce Watson, eich ymyriad chi yw'r ymyriad olaf y byddaf yn ei dderbyn.

Joyce Watson: Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad. Os gallwch, hoffwn ichi esbonio sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni'r amhosib. Mae eich arweinydd wedi dweud yn eithaf pendant ei bod yn sefyll o blaid annibyniaeth. Felly, a ydych yn dweud nad ydych am gael annibyniaeth mewn perthynas â thâl? Os oes gennych—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae hyn yn cymryd gormod o amser.

Lindsay Whittle: Ni allaf gyflawni'r amhosib; gwna i gyfaddef hynny. Mae tâl lleol yn golygu cyflwyno gwahaniaethau o ran tâl—*[Torri ar draws.]* Gwrandewch, os gwelwch yn dda. Bydd tâl lleol yng Nghymru yn golygu gwahaniaethau o ran tâl ar draws gwahanol rannau o Gymru. Bydd Plaid Cymru yn brwydro yn erbyn hynny i'r pen. Duw a'n gwaredo. Mae digon o wahaniaeth yng Nghymru nawr. Y cyflog ar gyfartaledd i ddyn ym Mro Morgannwg yw £30,800. Y cyflog ar gyfartaledd i ddyn ym Mlaenau Gwent yw £22,400. Pe bawn i'n dweud wrthy ch beth yw'r cyflog ar gyfartaledd i fenywod, byddai'r swffragetiaid yn gorymdeithio i mewn yma eto. Cyflog cyfartal rhwng dynion a menywod yw'r hyn y

dylem fod yn brwydro o'i blaid yn y Siambr hon, nid tâl rhanbarthol, na tâl lleol. Pa wisg bynnag y byddwch yn ei rhoi amdano, rydym ni'n ei wrthwynebu'n llwyr.

As Leanne Wood rightly said at our conference last week—some of you should have conferences, because it was really exciting—we are on the side of the people who will suffer, and that is recognised on the doorsteps when we are canvassing. I have been canvassing for the past four weeks. Nick Clegg once said that his aim was to hardwire fairness into British society. We expect unfair and divisive policies from the Tories. We know where we stand with you—

Fel y dywedodd Leanne Wood yn ein cynhadledd yr wythnos diwethaf—dylai rhai ohonoch chi gynnal cynadleddau, oherwydd roedd yn wirioneddol gyffrous—rydym ni ar ochr y bobl a fydd yn dioddef, ac mae hynny'n cael ei gydnabod ar garreg y drws pan fyddwn yn canfasio. Rwyf wedi bod yn canfasio dros y pedair wythnos diwethaf. Dywedodd Nick Clegg unwaith mai ei nod oedd sicrhau bod tegwch yn rhan anorfod o gymdeithas Prydain. Rydym yn disgwyl polisïau annheg ac ymrannol gan y Torïaid. Rydym yn gwybod ble rydym yn sefyll gyda chi—

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now please.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch i ben nawr, os gwelwch yn dda.

Lindsay Whittle: However, Lib Dems, you really should know better.

Lindsay Whittle: Fodd bynnag, Ddemocratiaid Rhyddfrydol, dylech chi fod yn gwybod yn well.

Rebecca Evans: People working in the public sector must wake up each morning wondering what the UK Government has in store for them today. There has been an assault on their pensions, a two-year pay freeze, a 1% pay increase and now local pay. The arguments about differential living costs on which part of the case for regional pay is built are fraught with problems. They do not take into account the astronomical cost of rural motoring, for example. Members will remember that I have spoken a number of times in this Chamber about how car owners in the poorest families are spending a quarter of their income on motoring and how running a car is a major cause of household debt.

Rebecca Evans: Mae'n siŵr bod pobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn deffro bob bore yn meddwl tybed beth sydd gan Lywodraeth y DU ar eu cyfer heddiw. Bu ymosodiad ar eu pensiynau, rhewi cyflogau am ddwy flynedd, codiad cyflog o 1 y cant a nawr, tâl lleol. Mae'r dadleuon am gostau byw gwahaniaethol y mae rhan o'r achos ar gyfer tâl rhanbarthol wedi cael ei hadeiladu arnynt yn llawn problemau. Nid ydynt yn ystyried y gost anferthol sy'n deillio o redeg cerbydau yng nghefn gwlad, er enghraifft. Bydd Aelodau'n cofio fy mod wedi siarad nifer o weithiau yn y Siambr hon ynglŷn â sut y mae perchnogion ceir yn y teuluoedd tlotaf yn gwario chwarter eu hincwm ar redeg y ceir hynny a sut y mae rhedeg car yn un o brif achosion dyled yn y cartref.

5.30 p.m.

Supermarkets have an industry-wide agreement with the Competition Commission to deliver national pricing so that your weekly shop should cost you the same in Chelsea as in Pembroke Dock. How will that be reflected in regional pay? The Institute for Fiscal Studies has admitted that its

Mae gan archfarchnadoedd gytundeb diwydiant cyfan gyda'r Comisiwn Cystadlu i ddarparu prisiau cenedlaethol fel y dylai eich neges wythnosol gostio'r un faint ichi yn Chelsea ag yn Noc Penfro. Sut y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu mewn tâl rhanbarthol? Mae'r Sefydliad Astudiaethau

calculations and comparisons have not taken into account the fact that there are, invariably, older and more experienced workers with better qualifications in the public sector, which inevitably pushes up the average wage.

In many places, it is more than clear that the private sector is reliant on the trade generated by public sector workers. There is a correlation between workers' disposable income and the money that is spent in the economy locally. Take the money out, and you hit the private sector hard. Many private sector businesses, of course, rely on contracts to supply the public sector.

Indeed, as Alun Ffred Jones has already noted, the Federation of Small Businesses in Wales has warned that slashing the public payroll could easily lead to unforeseen circumstances. The FSB has also been clear in saying that this cannot be a race for bottom, but a challenge to raise the pay and salary levels of all employees in Wales, regardless of where they work. That is a challenge that I like. As well as institutionalising low pay in the public sector and depressing the private sector, regional pay could end up putting increased pressure on the state in terms of housing benefit, working tax credit and other benefits used to boost the income of low-paid workers.

The Bevan Foundation has demonstrated how the downward shift is likely to be greatest where the labour market is slackest, including in rural Wales in low-paid occupations. Once again, we see women being worst affected by the UK Government's actions. It is a shameful fact that women's unemployment is now at a 25-year high—that is absolutely shocking.

I have serious concerns about the effects of regional pay on fairness and morale. In major incidents, such as flooding, riots or a terrorist attack, or a major event, such as the Olympic Games, public sector workers, including police officers and firefighters, are routinely

Cyllid wedi cyfaddef nad yw ei gyfrifiadau na'i gymariaethau wedi ystyried y ffaith y ceir bob amser weithwyr hŷn, mwy profiadol, gyda chymwysterau gwell yn y sector cyhoeddus, sydd yn anochel yn gwthio'r cyflog cyfartalog i fyny.

Mewn sawl lle, mae'n amlwg iawn bod y sector preifat yn dibynnu ar y fasnach a gaiff ei gynhyrchu gan weithwyr sector cyhoeddus. Ceir cydberthynas rhwng incwm gwario gweithwyr a'r arian sy'n cael ei wario yn yr economi yn lleol. Os na fyddai'r arian hwnnw'n bodoli, byddai hynny'n galed iawn ar y sector preifat. Mae nifer o fusnesau sector preifat, wrth gwrs, yn dibynnu ar gontractau i gyflenwi'r sector cyhoeddus.

Yn wir, fel y mae Alun Ffred Jones wedi nodi eisoes, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru wedi rhybuddio y gallai cwtogi'r gyflogres gyhoeddus arwain yn hawdd at amgylchiadau annisgwyl. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd wedi dweud yn glir na all hyn fod yn ras at y gwaelod, ond yn her i godi lefelau tâl a chyflog yr holl gyflogaion yng Nghymru, ni waeth ble maent yn gweithio. Mae hynny'n her rwyf yn ei hoffi. Yn ogystal â sicrhau bod cyflog isel yn y sector cyhoeddus yn magu gwreiddiau a gwasgu'r sector preifat, gallai tâl rhanbarthol, yn y pen draw, roi pwysau cynyddol ar y wladwriaeth o ran budd-dal tai, credyd treth gwaith a budd-daliadau eraill a ddefnyddir i roi hwb i incwm gweithwyr sydd ar gyflogau isel.

Mae Sefydliad Bevan wedi dangos sut y mae'r dirywiad yn debygol o fod ar ei wethaf lle mae'r farchnad lafur ar ei gwanaf, gan gynnwys yng nghefn gwlad Cymru mewn galwedigaethau cyflog isel. Unwaith eto, gwelwn weithredoedd Llywodraeth y DU yn cael yr effaith waethaf ar fenywod. Mae'n ffaith gywilyddus bod cyfradd diweithdra ymysg menywod yn uwch ar hyn o bryd nag y mae wedi bod am 25 mlynedd—mae hynny'n gwbl syfrdanol.

Rwyf yn ddifrifol bryderus am effeithiau tâl rhanbarthol ar degwch a morâl. Mewn digwyddiadau o bwys, megis llifogydd, terfysgoedd neu ymosodiad terfysgol, neu ddigwyddiad mawr fel y Gemau Olympaidd, caiff gweithwyr sector cyhoeddus, gan

deployed to other parts of the country. Is it right that they should be working side by side in what could be very dangerous situations with colleagues whose pay packets outstrip their own for doing exactly the same job? Of course it is not. It is hard to think of a policy that would do more to undermine our public sector.

For many people in the public sector, their employment is much more than a job; it is a vocation. Therefore, to suggest that the brightest and the best public sector workers would instead choose to work in the private sector if wages were higher is a fallacy. When people make a commitment to a career in the public sector, more often than not, they are making a life-time commitment to public service. Under regional pay, it would be natural for them to seek to do so where they would be better paid. I fear that this would lead to a brain drain from Wales and would also make it hard to attract the best people into Wales.

The priority of the Labour Welsh Government is to protect people in Wales from the worst impacts of the difficult economic situation and to create jobs and promote economic growth. The priority of the UK Government seems to be to drive forward an ideological experiment, waging war on the public sector to create space for the private sector to leap in, create jobs and drive the economic recovery forward. In fact, since the coalition Government came to power, one public sector job has been lost every two minutes and 18 seconds—nurses, police officers, teachers—but we are still waiting for those private sector jobs to appear in large enough numbers to offset the public sector losses. I fear that this is an experiment doomed to failure, and this latest blow of seeking to introduce local pay would mean that the highest price will, again, be paid by ordinary working people.

Jocelyn Davies: Members will recall that, earlier this month, we celebrated International Women's Day, and we all received representations about the inequalities that women still face in many

gynnwys heddweision a diffoddwyr tân, eu hanfon i rannau eraill o'r wlad fel mater o drefn. A yw'n iawn eu bod yn gweithio mewn sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus iawn, ochr yn ochr â chydweithwyr sy'n cael pecyn cyflog mwy o lawer na'u pecyn nhw, er eu bod yn gwneud yn union yr un swydd? Wrth gwrs nad yw'n iawn. Mae'n anodd meddwl am bolisi a fyddai'n gwneud rhagor i danseilio ein sector cyhoeddus.

I lawer o bobl yn y sector cyhoeddus, mae eu cyflogaeth yn llawer mwy na dim ond swydd; mae'n alwedigaeth. Felly, mae awgrymu y byddai'r gweithwyr sector cyhoeddus gorau a mwyaf disglair yn dewis gweithio yn y sector preifat pe bai cyflogau'n uwch yn dwyllresymegol. Pan fydd pobl yn ymrwymo i yrfa yn y sector cyhoeddus, yn amlach na pheidio, maent yn ymrwymo i wasanaeth cyhoeddus am oes. O dan dâl rhanbarthol, byddai'n naturiol iddynt geisio gwneud hynny lle y byddent yn cael eu talu'n well. Rwyf yn ofni y byddai hyn yn arwain at golli'r doniau gorau o Gymru, a byddai hefyd yn ei gwneud yn anodd denu'r bobl orau i Gymru.

Blaenoriaeth Llywodraeth Lafur Cymru yw amddiffyn pobl Cymru rhag effeithiau gwaethaf y sefyllfa economaidd anodd a chreu swyddi a hybu twf economaidd. Mae'n ymddangos mai blaenoriaeth Llywodraeth y DU yw bwrw ymlaen ag arbrawf ideolegol, gan gyhoeddi rhyfel ar y sector cyhoeddus er mwyn creu lle i'r sector preifat neidio i'r bwlch, creu swyddi a bwrw'r adferiad economaidd yn ei flaen. Mewn gwirionedd, ers i'r Llywodraeth glymblaid ddod i rym, mae un swydd sector cyhoeddus wedi cael ei golli bob dwy funud a 18 eiliad—nyrsys, heddweision, athrawon—ond rydym yn dal i aros i'r swyddi sector preifat hynny ymddangos mewn niferoedd digon mawr i wneud iawn am y colledion yn y sector cyhoeddus. Rwyf yn ofni bod hwn yn arbrawf sy'n siŵr o fethu, a byddai'r ergyd ddiweddaraf hon o geisio cyflwyno tâl lleol yn golygu mai'r gweithwyr cyffredin fydd yn talu'r pris uchaf unwaith eto.

Jocelyn Davies: Bydd Aelodau'n cofio ein bod wedi dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gynharach y mis hwn, a bu i bob un ohonom dderbyn sylwadau ynglŷn â'r anghydraddoldebau y mae menywod yn dal

aspects of their lives, not least, of course, in relation to pay. Sadly, the pay gap has widened to almost 15% and the austerity measures imposed by the UK Government have disproportionately impacted on women. Research clearly shows that women are bearing the brunt of the cuts in public spending. Let us not forget that 64% of low-paid workers are women, 92% of lone parents are women, 40% of ethnic minority women live in poverty and women's pensions, on average, are worth about 62% of that of the average man.

In relation to public sector jobs, it is worth noting that women make up 64% of the workforce. Therefore, the shrinking of that sector affects more women. The recession ended, apparently, in 2009. Female unemployment since that time has risen by 20%, while the male unemployment rate has hardly changed. The recession has hit women hardest. Bear in mind that the average pension for a female local government worker is £60 a week and, throughout the UK, over 3 million women are adversely affected by the pension changes. This is within the context that two thirds of pensioners living in poverty are women. To suggest that lower pay for public sector workers in poor areas would be a good thing, and a good thing for the economy, cannot be true. It will disproportionately impact on women within the context that I have just laid out. The regionalisation of pay is bad and it will be worse for women. Institutionalising lower pay by region is morally wrong, but, added to the welfare benefit cuts, the public spending cuts, the reduction in the availability of legal aid, charging for the collection of child maintenance payments, housing benefit reductions and the loss of services, it is blatantly clear that women's equality is under severe attack.

Plans for regional pay will have damaging consequences for our workforce, but it will be worse for women and reverse the progress, which I know was only small, that was being

i'w hwynebu mewn sawl agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys, wrth gwrs, mewn perthynas â chyflog. Yn anffodus, mae'r bwlch cyflog wedi cynyddu i bron 15 y cant ac mae'r camau cynilo y mae Llywodraeth y DU wedi eu gosod wedi cael effaith anghymesur ar fenywod. Mae ymchwil yn dangos yn glir mai menywod sy'n ysgwyddo baich y toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Gadewch inni beidio ag anghofio bod 64 y cant o weithwyr cyflog isel yn fenywod, bod 92 y cant o unig rieni yn fenywod, bod 40 y cant o fenywod o leiafrifoedd ethnig yn byw mewn tlodi a bod pensiynau menywod, ar gyfartaledd, yn werth tua 62 y cant o bensiwn y dyn cyffredin.

Mewn perthynas â swyddi sector cyhoeddus, mae'n werth nodi bod menywod yn cyfrif am 64 y cant o'r gweithlu. Felly, effeithir ar fwy o fenywod pe bai'r sector hwnnw yn lleihau. Mae'n debyg y bu i'r dirwasgiad ddod i ben yn 2009. Ers hynny, mae'r gyfradd diweithdra ymysg menywod wedi codi 20 y cant, ac nid yw'r gyfradd diweithdra ymysg dynion wedi newid prin ddim. Mae'r dirwasgiad wedi bod galetaf ar fenywod. Cofiwch mai £60 yr wythnos yw'r pensiwn ar gyfartaledd ar gyfer gweithiwr llywodraeth leol benywaidd a, ledled y DU, effeithir yn andwyol ar dros 3 miliwn o fenywod o ganlyniad i'r newidiadau pensiwn. Mae hyn o fewn y cyd-destun bod dwy ran o dair o bensiynwyr sy'n byw mewn tlodi yn fenywod. Ni all awgrymu y byddai cyflog is i weithwyr sector cyhoeddus mewn ardaloedd tlawd yn beth da, ac yn beth da i'r economi, fod yn wir. Bydd yn cael effaith anghymesur ar fenywod yn y cyd-destun rwyf newydd ei roi. Mae rhanbartholi tâl yn beth gwael, a bydd yn waeth i fenywod. Mae mynd ati i sefydlu tâl is yn ôl rhanbarth yn anfoesol, ond, law yn llaw â'r toriadau mewn budd-daliadau lles, y toriadau mewn gwariant cyhoeddus, y lleihad o ran argaeledd cymorth cyfreithiol, codi tâl am gasglu taliadau cynhaliath plant, gostyngiadau budd-dal tai a cholli gwasanaethau, mae'n gwbl eglur bod cydraddoldeb i fenywod yn wynebu bygythiad difrifol.

Bydd canlyniadau cynlluniau ar gyfer tâl rhanbarthol yn niweidiol ar gyfer ein gweithlu, ond bydd yn waeth fyth i fenywod a bydd yn gwrthdroi'r cynnydd a oedd yn cael

made in narrowing the pay gap. We in Plaid Cymru want to see public sector pay and conditions protected and that is why we want to see them devolved, so that the Welsh Government, accountable here, is responsible for making decisions. I know, and I have heard it this afternoon, that some Members on the Labour benches scoff at this, but I would remind them again that, last November, the First Minister said:

‘we may have to look at taking over pay and conditions here in Wales.’

Therefore, if you scoff at me, you scoff at him.

Vaughan Gething: There is, obviously, a fundamental difference on this point. Your leader selectively quoted part of what the Wales TUC had to say. It also said that:

‘Calling for the immediate implementation of Wales-level pay bargaining doesn’t oppose regional pay, it brings it forward.’

Do you agree with the TUC?

Jocelyn Davies: Do you agree with your manifesto in 2011, which made a commitment to maintain Welsh pay negotiations for further education? I do not know how many Members in the Chamber are aware that pay for lecturers is devolved, and there has been no downgrading and localisation of pay and conditions there. If you can come up with a better method of protecting fair pay and conditions, I would like to hear it.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): The commitment was for a national contract for FE lecturers, because, currently, we have locally negotiated contracts for lecturers, and we want a decent standard of pay and conditions for all lecturers across the whole of Wales.

Jocelyn Davies: A Wales-wide national

ei wneud o ran cau'r bwlch cyflog, er y gwn mai cynnydd bychan yn unig ydoedd. Mae Plaid Cymru am weld cyflogau ac amodau sector cyhoeddus yn cael eu gwarchod a dyna pam rydym am eu gweld yn cael eu datganoli, fel mai Llywodraeth Cymru, sy'n atebol yma, sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Rwyf yn gwybod, ac rwyf wedi ei glywed y prynhawn yma, bod rhai Aelodau ar y meinciau Llafur yn gwatwar hyn, ond hoffwn eu hatgoffa eto o eiriau'r Prif Weinidog fis Tachwedd diwethaf:

efallai y bydd yn rhaid inni ystyried cymryd yr awenau o ran cyflog ac amodau yma yng Nghymru.

Felly, os ydych yn fy ngwatwar innau, rydych yn ei watwar yntau.

Vaughan Gething: Wrth gwrs, ceir gwahaniaeth sylfaenol ar y pwynt hwn. Gwnaeth eich arweinydd ddyfynnu rhan ddethol o'r hyn a oedd gan TUC Cymru i'w ddweud. Dywedodd hefyd nad yw:

Galw am weithredu proses o fargeinio am dâl ar lefel Cymru ar unwaith yn gwrthwynebu tâl rhanbarthol, mae'n helpu i gyflwyno hynny.

A ydych yn cytuno â'r TUC?

Jocelyn Davies: A ydych yn cytuno â'ch maniffesto yn 2011, a oedd yn ymrwymo i gynnal trafodaethau ynghylch tâl yng Nghymru ar gyfer addysg bellach? Nid wyf yn gwybod faint o Aelodau yn y Siambr sy'n ymwybodol bod cyflog darlithwyr wedi'i ddatganoli, ac ni fu unrhyw israddio na lleoleiddio cyflog ac amodau yn y fan honno. Os gallwch chi feddwl am ffordd well o warchod cyflog ac amodau teg, hoffwn ei chlywed.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Roedd yr ymrwymiad ar gyfer contract cenedlaethol i ddarlithwyr addysg bellach, oherwydd, ar hyn o bryd, rydym wedi trafod contractau darlithwyr yn lleol, ac rydym am sicrhau safon briodol o gyflog ac amodau ar gyfer pob darlithydd ledled Cymru gyfan.

Jocelyn Davies: Cytundeb cenedlaethol

agreement: it looks as if a consensus has broken out between us and the Labour Party, but it has not been able to recognise it. The truth is that you would rather have a public row with UK Government than protect the workers, but please recognise that for the indulgence that it is. It looks to me very much as if the UK Government would like to have a row with the unions and, as I said, if you have a better way of protecting fair pay and conditions, I would like to hear it. The workers will not understand the reluctance to try to protect them, because a moral victory on this will not do.

Julie Morgan: It has been an interesting debate. The first point that I want to make is on what is behind this proposal for regional pay. I am mystified by the claim that reducing public servants' pay over a period of years in areas like Wales, the north-east and the north-west will increase the competitiveness of the public sector. It seems to me that there is no basis of fact behind that. I hope that the Minister will be able to ask the Treasury what the basis in data is to say that pay in the private sector in Wales is 18% lower than pay in the public sector. How has this been calculated? Which jobs are being compared? Are they administrative posts? If you hold back public sector wages, how does that improve competitiveness? What it does mean is removing money from the Welsh economy and cutting the wages of hard-pressed people. The only possible rationale for this proposal—it has been mentioned today—would be if the private sector in Wales was struggling to get staff because everyone was trying to get into the public sector. There is absolutely no evidence of that at all. We have heard many times in this Chamber about the number of people chasing every job. Last month, the Office for National Statistics released figures showing that up to 213 people were competing for each full-time job in parts of Wales. It is absolutely an employer's market. As has already been said, public sector employment fell by nearly 10,000 in Wales last year. There are fewer jobs because of the UK austerity cuts, and now the Government wants to cut the pay of public servants.

Cymru gyfan: mae'n edrych fel pe bai consensws rhyngom ni a'r Blaid Lafur, ond nid yw wedi gallu cydnabod hynny. Y gwir yw y byddai'n well gennych gael ffrae gyhoeddus gyda Llywodraeth y DU na gwarchod y gweithwyr, ond a wnewch chi gydnabod mai ymfodddhad yw hynny. Mae wir yn ymddangos i mi fel pe bai Llywodraeth y DU yn hoffi ffraeo gyda'r undebau ac, fel y dywedais, os oes gennych ffordd well o warchod cyflog ac amodau teg, hoffwn ei chlywed. Ni fydd y gweithwyr yn deall yr amharodrwydd i geisio eu gwarchod, oherwydd ni fydd buddugoliaeth moesol yn hyn o beth yn gwneud y tro.

Julie Morgan: Mae wedi bod yn ddadl ddiddorol. Mae'r pwynt cyntaf rwyf am ei wneud yn ymwneud â'r hyn sydd y tu ôl i'r cynnig hwn am dâl rhanbarthol. Mae'r honiad y bydd lleihau cyflog gweision cyhoeddus dros gyfnod o flynyddoedd mewn ardaloedd fel Cymru, y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin, yn cynyddu cystadleurwydd y sector cyhoeddus yn fy syfrdannu. Mae'n ymddangos i mi nad oes ffaith yn sail i hynny. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu gofyn i'r Trysorlys pa sail data sy'n dweud bod cyflog sector preifat yng Nghymru 18 y cant yn is na chyflog sector cyhoeddus. Sut y mae hyn wedi ei gyfrifo? Pa swyddi sy'n cael eu cymharu? A ydynt yn swyddi gweinyddol? Os byddwch yn dal cyflog sector cyhoeddus yn ôl, sut y mae hynny'n gwella cystadleurwydd? Beth y mae yn ei olygu yw tynnu arian o economi Cymru a chwtogi cyflogau'r bobl sydd o dan bwysau. Yr unig sail resymegol bosibl ar gyfer y cynnig hwn—mae wedi cael ei grybwyll heddiw—fyddai pe bai'r sector preifat yng Nghymru yn cael trafferth cael gafael ar staff gan fod pawb yn ceisio mynd i mewn i'r sector cyhoeddus. Nid oes dim tystiolaeth o hynny o gwbl. Sawl gwaith yn y Siambr hon rydym wedi clywed am y nifer o bobl sy'n mynd ar ôl pob swydd. Y mis diwethaf, gwnaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ryddhau ffigurau sy'n dangos bod hyd at 213 o bobl yn cystadlu am bob swydd amser llawn mewn rhannau o Gymru. Mae'n bendant yn farchnad y cyflogwyr. Fel y dywedwyd eisoes, bu i gyflogaeth sector cyhoeddus ostwng bron i 10,000 yng Nghymru y llynedd. Mae llai o swyddi oherwydd

toriadau cynilo y DU, ac mae'r Llywodraeth nawr yn awyddus i gwtogi cyflog gweision cyhoeddus.

It is important to say that there has always been an element of regional pay in the civil service. That has been done by way of such things as the London weighting, which covers higher housing and commuting costs. That has been done in a very rough and ready manner. What is completely new in this Cameron-Osborne-Lib Dem proposal is that it would not add to London pay via London weighting but via a reduction in pay scales in Wales, to bring pay scales down to the level of the private sector. I think that this is an absolutely extraordinary way to proceed, and I think that the best way forward would be for everyone to unite in this Chamber and to oppose these very damaging proposals. We should all work together on this.

Mae'n bwysig dweud bod elfen o dâl rhanbarthol wedi bod yn y gwasanaeth sifil erioed. Mae hynny wedi cael ei wneud yn ôl pethau fel pwysoliad Llundain, sy'n cynnwys costau tai a theithio uwch. Mae hynny wedi cael ei wneud mewn modd bras iawn. Yr hyn sy'n gwbl newydd yn y cynnig Cameron-Osborne-Democratiaid Rhyddfrydol hwn yw na fyddai'n ychwanegu at gyflogau Llundain drwy bwysoliad Llundain, ond yn hytrach drwy ostwng graddfeydd cyflog yng Nghymru, er mwyn dod â graddfeydd cyflog i lawr at lefel y sector preifat. Credaf fod hyn yn ffordd gwbl hynod o symud ymlaen, ac rwyf yn credu mai'r ffordd orau ymlaen fyddai i bawb uno yn y Siambr hon, a gwrthwynebu'r cynigion hyn a fyddai'n niweidiol iawn. Dylai pob un ohonom weithio gyda'n gilydd yn hyn o beth.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): The Welsh Government's views on this issue have been made clear, and I have written to the Chief Secretary to the Treasury confirming that the Welsh Government does not support the UK Government's proposal for regional pay, or as it describes it, 'local, market-facing pay'. I believe that today's debate will send a very strong message that there is opposition across this Chamber to regional pay. That is the most important outcome that should emerge from the debate this afternoon.

Sandy Mewies: I have agreed that Ken Skates, Julie James, Joyce Watson and Peter Black should speak in this debate, which is to draw attention to the new arrangements being put in place for providing drink-drive rehabilitation courses in England and Scotland, but, so far, not in Wales. Since January 2000, these courses have been run in conjunction with the Department for Transport and have been provided at a number of locations across Wales, including Mold in my constituency of Delyn. However, the UK Government is making changes to the existing scheme, the aim of which is to modernise it and improve take up.

In England and Scotland, the Driving Standards Agency has been conducting a consultation exercise on these changes with a view to new arrangements being put in place by October. The contracts of all 21 course providers have been ended and applications for new contracts and training are due to be invited from next month. That consultation does not include Wales. Here, any responsibility for continuing with the drink-drive rehabilitation scheme is being devolved to Welsh Ministers.

My concern is that time is against us, because arrangements for a new scheme have to be put in place by the autumn. We need to ensure that courses continue to run in Wales. The reason is not just one of cross-border concern; there is another more important reason. These courses have been hugely successful, not only in helping to reduce the number of drink-drive reoffenders, but in cutting the number of other motoring offences.

The scheme has operated in quite a simple

Y Dirprwy Lywydd: A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

Sandy Mewies: Rwyf wedi cytuno y dylai Ken Skates, Julie James, Joyce Watson a Peter Black siarad yn y ddadl hon, sy'n tynnu sylw at y trefniadau newydd sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer darparu cyrsiau adsefydlu yfed a gyrru yn Lloegr a'r Alban, ond, hyd yn hyn, nid yng Nghymru. Er mis Ionawr 2000, mae'r cyrsiau hyn wedi cael eu cynnal ar y cyd â'r Adran Drafnidiaeth ac wedi cael eu darparu mewn nifer o leoliadau ledled Cymru, gan gynnwys yr Wyddgrug yn fy etholaeth, sef Delyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau i'r cynllun presennol, a'r nod yw ei foderneiddio a chynyddu'r niferoedd sy'n manteisio arno.

Yn Lloegr a'r Alban, mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru wedi cynnal ymarfer ymgynghori ar y newidiadau hyn a'r bwriad yw rhoi'r trefniadau newydd ar waith erbyn mis Hydref. Daethpwyd â chontractau pob un o'r 21 darparwr cyrsiau i ben a'r bwriad yw gwahodd ceisiadau ar gyfer y contractau newydd a'r hyfforddiant o ddechrau fis nesaf. Nid yw'r ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys Cymru. Yma, mae'r cyfrifoldeb am barhau â'r cynllun adsefydlu yfed a gyrru yn cael ei ddatganoli i Weinidogion Cymru.

Rwyf yn pryderu bod amser yn brin, oherwydd bydd rhaid rhoi trefniadau'r cynllun newydd ar waith erbyn yr hydref. Mae angen inni sicrhau bod cyrsiau yn parhau i redeg yng Nghymru. Nid mater o bryder traws-ffiniol yw hwn; mae rheswm pwysicach arall. Mae'r cyrsiau hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol, nid yn unig wrth helpu i leihau nifer y bobl sy'n aildroseddu o ran yfed a gyrru, ond hefyd wrth leihau nifer y troseddau moduro eraill.

Mae'r cynllun wedi gweithredu mewn modd

manner since being introduced. Magistrates have been allowed to refer most drink-drivers to a rehabilitation course when they appear before the court for sentence. The courses were developed as an educational intervention to cut repeat offences. A study into the success of the courses revealed that almost 60% of offenders have been referred. Offenders who take up the offer of completing the course pay towards the fee, but the carrot is that, once successfully completed, the offender is given a reduction in his or her driving disqualification period.

The results have been significant. One study revealed that course attenders are half as likely to be convicted of a subsequent drink-drive offence as those who do not attend. Similarly, there is a drastic reduction in the number of other motoring convictions. Around 10% of course attenders had re-convictions within a two-year period, but more than 17% of non-attenders were convicted of a subsequent motoring offence. Among younger drivers, those aged 30 and under, course attenders were three and a half times less likely to be reconvicted for a drink-drive offence compared with non-offenders. So, it is for these reasons that I believe the Welsh Government must act to ensure that courses continue to run in Wales and that offenders are not told that they must travel to England to take part in future schemes. If that happens—and because the scheme as it stands is voluntary—there is likely to be a drop off in the number of offenders who take up the course, perhaps with a resulting increase in the number of drink-drive offences in Wales.

All the courses in the drink-drive rehabilitation scheme have, in the past, been approved by the Department for Transport and complied with its guidelines on course content and teaching methods. In England and Scotland, changes are being made, so will we continue with the old model, or will we make changes to enhance and modernise a scheme here in Wales? Up until now, there has been a large amount of variability in

eithaf syml ers iddo gael ei gyflwyno. Mae ynadon wedi cael caniatâd i gyfeirio rhan fwyaf y bobl sy'n yfed a gyrru at gwrs adsefydlu pan fyddant yn ymddangos gerbron y llys i'w dedfrydu. Datblygwyd y cyrsiau fel ymyriad addysgol i ostwng y nifer sy'n aildroseddu. Datgelodd astudiaeth i lwyddiant y cyrsiau fod bron 60 y cant o droseddwr wedi cael eu cyfeirio. Mae troseddwr sy'n manteisio ar y cynnig i gwblhau'r cwrs yn gwneud taliad tuag at y ffi, ond y foronen yw bod gwaharddiad gyrru'r troseddwr yn cael ei leihau ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

Mae'r canlyniadau wedi bod yn sylweddol. Datgelodd un astudiaeth fod y rheini a fynychodd y cwrs yn hanner cant y cant yn llai tebygol o gael eu dyfarnu'n euog o drosedd yfed a gyrru arall o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn mynychu. Yn yr un modd, ceir gostyngiad sylweddol yn nifer yr euogfarnau moduro eraill. Tua 10 y cant o fynychwyr y cwrs a gafodd eu dyfarnu'n euog eto o fewn cyfnod o ddwy flynedd, tra bo mwy na 17 y cant o'r rheini na fynychodd y cwrs wedi cael eu dyfarnu'n euog o drosedd foduro arall. Ymhlith gyrrwyr ifanc, sef y rheini sy'n 30 oed ac iau, roedd mynychwyr y cwrs yn dair gwaith a hanner yn llai tebygol o gael eu dyfarnu'n euog eto o'i gymharu â'r rheini nad oeddent wedi troseddu. Felly, am y rhesymau hyn, credaf fod rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod cyrsiau'n dal i gael eu cynnal yng Nghymru fel nad oes rhaid dweud wrth droseddwr eu bod yn gorfod teithio i Loegr i gymryd rhan mewn cynlluniau yn y dyfodol. Os bydd hynny'n digwydd—ac oherwydd bod y cynllun fel y mae yn wirfoddol—mae'n debygol y byddai gostyngiad yn nifer y troseddwr sy'n manteisio ar y cwrs, ac efallai y byddai hynny'n arwain at gynnydd yn nifer y troseddau yfed a gyrru yng Nghymru.

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cymeradwyo'r holl gyrsiau yn y cynllun adsefydlu yfed a gyrru yn y gorffennol, ac mae'r cynlluniau wedi cydymffurfio â'i ganllawiau ar gynnwys y cwrs ac ar y dulliau addysgu. Mae newidiadau'n cael eu gwneud yn Lloegr a'r Alban, felly a fyddwn ni'n parhau â'r hen fodel, neu a fyddwn yn gwneud newidiadau i wella ac i foderneiddio'r cynllun yma yng Nghymru?

terms of the size and background of the course providers. However, the proposed new rules for the scheme in England and Scotland provide for fees to be paid by the providers receiving course approvals. I quote from their consultation,

‘It is proposed that successful applicants will pay £1000 for a course approval. They will also go on to pay a per capita fee of £7 for each client completing the approved course during each quarter.’

Their idea is that the course provider will recover the cost of its fees from its clients, who are the convicted drink-drive offenders who attend the courses. However, the worry is that if the Welsh Government were to insist on similar contractual arrangements, smaller companies that provide successful courses in Wales could be deterred from re-applying. Yes, we must ensure that the courses are run effectively and with a consistent core syllabus, but we must also ensure that these courses continue to run at a number of locations throughout Wales and are not centralised in regional locations, as is the suggestion in England and Scotland. For example, in 2010, courses were run in at least 11 locations in north and mid Wales, from Holyhead to Brecon. One course provider reported that 378 people successfully completed courses that it conducted.

For it to be a success, magistrates’ courts must be encouraged to refer offenders to the DDR scheme. In 2006, there were more than 1,000 referrals in north and mid Wales. This had decreased by 734 by 2010. Some of that may be due to the message getting home. We all know that drink-driving can kill, but there is no room for complacency. The courses are a valuable tool in the fight against motoring offences, particularly drink-driving, and we in Wales must not be left out. For that reason, magistrates must be up-to-date on the effectiveness of the scheme, where the courses are run and what they entail. If there are not courses in Wales, magistrates may be reluctant to refer offenders to a scheme many miles away.

Hyd yn hyn, bu llawer iawn o amrywiaeth o ran maint a chefnidir darparwyr y cwrs. Fodd bynnag, mae'r rheolau arfaethedig newydd ar gyfer y cynllun yn Lloegr a'r Alban yn golygu y bydd y darparwyr yn talu ffioedd ar ôl i'w cyrsiau gael eu cymeradwyo. Dyfynnaf o'r ymgynghoriad,

Y cynnig yw bod ymgeiswyr llwyddiannus yn talu £1000 i gymeradwyo cwrs. Byddant hefyd yn cael eu talu ffi o £7 y pen ar gyfer pob cleient sy'n cwblhau'r cwrs a gymeradwywyd yn ystod pob chwarter.

Eu syniad yw y bydd darparwr y cwrs yn adennill cost ei ffioedd gan ei gleientiaid, sef y rheini sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o yfed a gyrru ac sy'n mynychu'r cyrsiau. Fodd bynnag, petai Llywodraeth Cymru yn mynnu pennu trefniadau contract tebyg, y pryder yw y gallai hyn atal cwmnïau llai sy'n darparu cyrsiau llwyddiannus yng Nghymru rhag ail-ymgeisio. Oes, mae'n rhaid inni sicrhau bod y cyrsiau'n cael eu rhedeg yn effeithiol a gyda maes llafur craidd cyson, ond rhaid inni hefyd sicrhau bod y cyrsiau hyn yn parhau i redeg mewn nifer o leoliadau ledled Cymru ac nad ydynt yn cael eu canoli mewn lleoliadau rhanbarthol, fel yr awgrymir yn Lloegr a'r Alban. Er enghraifft, yn 2010, cynhaliwyd cyrsiau mewn o leiaf 11 o leoliadau yng ngogledd a chanolbarth Cymru, o Gaergybi i Aberhonddu. Roedd un darparwr cyrsiau wedi adrodd bod 378 o bobl wedi llwyddo i gwblhau'r cyrsiau a gynhaliodd.

Er mwyn iddo fod yn llwyddiant, rhaid i lysoedd ynadon gael eu hannog i gyfeirio troseddwr at y cynllun adsefydlu yfed a gyrru. Yn 2006, cafodd dros 1,000 eu cyfeirio yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Erbyn 2010, cafwyd lleihad o 734. Efallai bod rhywfaint o hyn yn deillio o'r ffaith bod y neges yn cael ei chyfleu'n llwyddiannus. Mae pob un ohonom yn gwybod y gall yfed a gyrru ladd, ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae'r cyrsiau'n arf gwerthfawr yn y frwydr yn erbyn troseddau moduro, yn enwedig yfed a gyrru, a rhaid inni beidio â chael ein gadael ar ôl yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw, rhaid i ynadon gael y wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd y cynllun, ymhle mae'r cyrsiau'n cael eu cynnal a'u cynnwys. Os nad oes cyrsiau yng

Nghymru, efallai y byddai ynadon yn gyndyn i gyfeirio troseddwr at gynllun filltiroedd lawer i ffwrdd.

Offenders must also be encouraged to take part. In England and Scotland, the cost of the scheme is likely to fall on the offender. While it is right that they should meet the cost, we must not make it prohibitive for offenders to take part. At present, a course provider can charge a fee of between £150 and £250. In England and Scotland, it is proposed to abolish the minimum fee, but we should consider whether this will be self-defeating, because in the past, some offenders declined the offer because they would have had to pay the fee upfront. In Wales, we should investigate a payment plan, which would allow offenders to pay in instalments. Also, it has been suggested that the course fee is reduced for people on low incomes. If we introduce this flexibility, it could improve the take-up rate, and the savings in the long term could be in lives.

Therefore, what steps are being taken to continue and enhance the drink-drive rehabilitation scheme in Wales? Will we continue with a model developed by the Department for Transport over the past 10 years or so, or will we make changes? If we are to make changes, how will the course providers be chosen? These are all issues that need to be addressed along with course monitoring and management if we are to go it alone. Minister, I hope that you will give them your consideration.

Joyce Watson: As someone who drives on roads across mid and west Wales, from Llanelli to the Llŷn peninsula, through mid Wales, Powys and Montgomeryshire, I suppose that I can declare an interest in being extremely concerned about the possibility of meeting a drunk driver on many of the region's roads. That said, it is imperative that those who commit a crime—and, in my view, this is a serious crime—have to be made aware of the consequences of their actions and they have to have an opportunity to be rehabilitated. Therefore, I would like to ask the Minister whether it is true that, in England, course providers will have to bid to provide a service for an entire region with no requirement to offer locally based courses.

Hefyd, rhaid annog troseddwr i gymryd rhan. Yn Lloegr a'r Alban, mae'n debyg mai'r troseddwr fydd yn talu cost y cynllun. Er ei fod yn iawn eu bod yn talu'r gost, ni ddylai fod yn rhwystr i droseddwr rhag cymryd rhan. Ar hyn o bryd, gall darparwr y cwrs godi ffi rhwng £150 a £250. Yn Lloegr a'r Alban, y bwriad yw diddymu'r isafswm ffi, ond dylem ystyried a fyddai hyn yn gam gwag, oherwydd yn y gorffennol, mae rhai troseddwr wedi gwrthod y cynnig oherwydd byddent wedi gorfod talu'r ffi ymlaen llaw. Yng Nghymru, dylem ymchwilio i gynllun talu a fyddai'n caniatáu i droseddwr dalu mewn rhandaliadau. Hefyd, awgrymwyd y dylid gostwng ffi y cwrs i bobl ar incwm isel. Petaem yn cyflwyno'r hyblygrwydd hwn, gallai gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cyrsiau, a gellid mesur yr arbedion yn yr hirdymor o safbwynt bywydau.

Felly, pa gamau sy'n cael eu cymryd i barhau â'r cynllun adsefydlu yfed a gyrru yng Nghymru a'i wella? A fyddwn yn parhau â model a ddatblygwyd gan yr Adran Drafnidiaeth dros y 10 mlynedd diwethaf, neu a fyddwn yn gwneud newidiadau? Petaem yn gwneud newidiadau, sut y dewisir darparwyr y cyrsiau? Mae'r rhain oll yn faterion y mae angen rhoi sylw iddynt, ynghyd â monitro a rheoli'r cwrs, os ydym am dorri ein cwys ein hun. Weinidog, rwyf yn gobeithio y byddwch yn eu hystyried.

Joyce Watson: Fel rhywun sy'n gyrru ar ffyrdd ledled canolbarth a gorllewin Cymru, o Lanelli i benrhyn Llŷn, trwy ganolbarth Cymru, Powys a Sir Drefaldwyn, mae'n debyg y gallaf ddatgan budd wrth ddweud fy mod yn poeni'n arw am y posibilrwydd o gwrdd â gyrrwr meddw ar lawer o ffyrdd y rhanbarth. Wedi dweud hynny, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n cyflawni trosedd—ac, yn fy marn i, mae hwn yn drosedd difrifol—yn ymwybodol o ganlyniadau eu gweithredoedd a rhaid iddynt gael cyfle i gael eu hadsefydlu. Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog a yw'n wir, yn Lloegr, y bydd rhaid i ddarparwyr cyrsiau wneud cais i ddarparu gwasanaeth ar gyfer rhanbarth cyfan heb unrhyw ofyniad i gynnig cyrsiau

For example, a course provider for the south-west would serve an area stretching from Land's End to the east of Bristol, with course participants having to travel hundreds of miles to access the provision.

Julie James: While I wholly agree with Sandy Mewies and the debate that she has brought forward, and would like to hear the Minister respond positively, I would also like to know what we can do that would be effective in preventing offenders from drink-driving in the first place. I lost someone very dear to me as the result of a road traffic accident, where the perpetrator was drunk, and I do not know what happened to that person afterwards except that they lost their licence for five years. It was of very little concern to me what happened to them afterwards, as the person that I loved was still dead. Therefore, while we have come a long way since then, as that was many years ago, and drink-driving is much less socially acceptable now, it still happens. Many people have no idea what the limit is. They underestimate the amount of alcohol in their blood and they think that eating food, and so on, will help them, but it does not. Therefore, Minister, while I wholly support the rehabilitation courses and attempts to prevent reoffending, I would also like the Government to do something to stop drink-driving in the first place.

Kenneth Skates: I thank Sandy Mewies for bringing this very important issue to the Assembly Chamber. I do not think that we can separate this matter from the general issue of road safety. Would you join me in expressing support for the Welsh Government's decision to retain targets for road safety in Wales, in contrast with the Westminster coalition Government's decision to abandon them in England?

Peter Black: Julie James has underlined why this is such an important issue and why we need to have not only a zero tolerance approach to drink-driving, but re-education programmes for those offenders to get them out of the habit of drink-driving.

lleol. Er enghraifft, byddai darparwr cyrsiau ar gyfer de-orllewin Lloegr yn gwasanaethu ardal sy'n ymestyn o Land's End i ddwyrain Bryste, a bydd rhaid i gyfranogwyr y cwrs deithio cannoedd o filltiroedd i gael mynediad at y ddarpariaeth.

Julie James: Er fy mod yn cytuno'n llwyr â Sandy Mewies a'r ddadl a gyflwynodd, a hoffwn glywed y Gweinidog yn ymateb yn gadarnhaol, byddwn hefyd yn dymuno gwybod beth y gallwn ei wneud a fyddai'n effeithiol i atal troseddwr rhag yfed a gyrru yn y lle cyntaf. Collais rywun annwyl iawn imi o ganlyniad i ddamwain ffordd, ac roedd y troseddwr wedi meddwi. Ni wn beth a ddigwyddodd i'r person hwnnw wedyn heblaw ei fod wedi colli ei drwydded am bum mlynedd. Nid oeddwn yn poeni rhyw lawer beth a ddigwyddodd iddo wedyn, oherwydd bod y person a garwn yn dal yn farw. Felly, er ein bod wedi symud ymlaen cryn dipyn ers hynny, oherwydd digwyddodd hyn sawl blwyddyn yn ôl, ac mae yfed a gyrru yn llawer llai derbyniol yn gymdeithasol erbyn hyn, mae'n dal i ddigwydd. Nid oes gan lawer o bobl ddim syniad beth yw'r terfyn. Nid ydynt yn sylweddoli faint o alcohol sydd yn eu gwaed a chredant fod bwyta bwyd, ac yn y blaen, yn eu helpu, ond nid yw'n gwneud hynny. Felly, Weinidog, er fy mod yn cefnogi'n llwyr y cyrsiau adsefydlu a'r ymdrechion i atal aildroseddu, byddwn hefyd yn dymuno gweld y Llywodraeth yn gwneud rhywbeth i atal yfed a gyrru yn y lle cyntaf.

Kenneth Skates: Diolch Sandy Mewies am gyflwyno'r mater pwysig iawn hwn gerbron Siambr y Cynulliad. Ni chredaf y gallwn wahanu'r mater hwn oddi wrth fater cyffredinol diogelwch ar y ffyrdd. A wnewch ymuno â mi i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i gadw'r targedau ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru, a hynny'n groes i'r penderfyniad a wnaethpwyd gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan i roi'r gorau iddynt yn Lloegr?

Peter Black: Mae Julie James wedi tanlinellu pam mae hwn yn fater mor bwysig a pham mae angen inni nid yn unig arddel agwedd dim goddefgarwch at yfed a gyrru, ond hefyd i gael rhaglenni ail-addysgu ar gyfer y troseddwr hynny fel eu bod yn troi cefn ar yr arfer o yfed a gyrru.

The issue that we have before us is fairly simple. There is an opportunity here for Wales to do something slightly different in providing a scheme, but we need to have the legislation in place and to do so by October. Therefore, I am seeking from the Minister an undertaking that this will happen and a timetable for that.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): First, I thank Sandy Mewies for tabling this short debate about drink-drive rehabilitation schemes. I have received a great deal of correspondence from many Members on this, in which they noted the value of the scheme and expressed concern about the possibility of our not having one in Wales, given the arrangements that we have with the Driving Standards Agency, which come to an end in November. I assure Members that I intend to have a new scheme in place by November. Drink-driving can have a potentially devastating impact on individuals, families and the wider community, as expressed by Julie James this afternoon.

Despite the fact that the number of people convicted of drink-driving has fallen over the last decade, one in four fatal collisions still involves drink-driving. I am determined that we and our partners will do all that we can to tackle drink-driving through targeted education and enforcement. That is one of the areas that Julie raised: it is okay to try to understand afterwards the issues relating to licences and so on, but we need to educate people about the reasons why they should not do it. The Welsh Government has invested around £7 million with our partner agencies to look at how we tackle the issues related to drink-driving.

I am committed to the continuation of the drink-driving rehabilitation scheme in Wales. I recognise the proven role that the course plays in reducing instances of reoffending. As Sandy Mewies made reference to, we are already in the process of introducing changes to the scheme to ensure that it is continued in Wales. The drink-driving rehabilitation course is not a punishment; it is voluntary. It

Mae'r mater ger ein bron yn weddol syml. Ceir cyfle yma i wneud rhywbeth ychydig yn wahanol yng Nghymru o ran darparu cynllun, ond mae angen inni gael y ddeddfwriaeth mewn grym a gwneud hynny erbyn mis Hydref. Felly, rwyf yn gofyn am addewid gan y Gweinidog y bydd hyn yn digwydd yn ogystal ag amserlen ar gyfer hynny.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Yn gyntaf, diolchaf i Sandy Mewies am gyflwyno'r ddatl fer am gynlluniau adsefydlu yfed a gyrru. Rwyf wedi cael llawer iawn o ohebiaeth gan nifer o Aelodau am hyn, lle gwnaethant nodi gwerth y cynllun a mynegi pryder am y posibilrwydd na fydd gennym un yng Nghymru, o gofio'r trefniadau sydd gennym gyda'r Asiantaeth Safonau Gyrru, sy'n dod i ben ym mis Tachwedd. Gallaf sicrhau'r Aelodau fy mod yn bwriadu cael cynllun newydd ar waith erbyn mis Tachwedd. Gall yfed a gyrru gael effaith drychinebus ar unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach, fel a fynegwyd gan Julie James y prynhawn yma.

Er bod nifer y bobl a gafwyd yn euog o yfed a gyrru wedi gostwng dros y ddegawd ddiwethaf, mae elfen o yfed a gyrru mewn un ym mhob pedwar gwrthdrawiad angheuol o hyd. Rwyf yn benderfynol y byddwn ni a'nartneriaid yn gwneud popeth yn ein gallu i fynd i'r afael ag yfed a gyrru drwy addysg wedi'i thargedu a drwy orfodi. Dyna un o'r meysydd a gododd Julie: mae'n iawn ceisio deall wedyn y materion yn ymwneud â thrwyddedau ac yn y blaen, ond mae angen inni addysgu pobl am y rhesymau pam na ddylent ei wneud. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £7 miliwn gyda'n hasiantaethau partner i edrych ar sut y gallwn fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag yfed a gyrru.

Rwyf wedi ymrwymo i barhad y cynllun adsefydlu yfed a gyrru yng Nghymru. Rwyf yn cydnabod y swyddogaeth brofedig y cwrs o ran lleihau achosion o aildroseddu. Fel y cyfeiriodd Sandy Mewies ato, rydym eisoes wrthi'n cyflwyno newidiadau i'r cynllun i sicrhau ei fod yn parhau yng Nghymru. Nid cosb yw'r cwrs adsefydlu yfed a gyrru; mae'n wirfoddol. Mae'n sicrhau bod pobl sydd wedi

ensures that people who have committed an offence are educated about the dangers and the implications of drink-driving. As Joyce Watson quite rightly pointed out, we have a wide range of roads in Wales and we have a population of around three million people. We have to make sure that people fully understand the implications of their actions.

Offenders who attend the course are more than twice less likely to reoffend than those who have chosen not to attend. This emphasises the value of the schemes. Since last year, my officials have been engaging with course providers and magistrates in Wales regarding our plans for replacing the scheme. My officials have discussed this with them and have noted the response of the Driving Standards Agency consultation exercise and are considering the changes that are appropriate for Wales, as Peter Black alluded to.

6.15 p.m.

Our scheme will go out for consultation very soon, so I welcome your comments and I will take note of this debate as part of the consultation process. The Driving Standards Agency has recently consulted on the scheme in England and Scotland, and I am conscious of the need to ensure that the scheme in Wales is closely linked to that being delivered in the rest of the UK. However, we are already working with the DSA on our respective arrangements and will continue to do so.

Joyce Watson mentioned the changes being proposed in England and Scotland. They are considering the introduction of a very large geographical area, where approved course providers can run courses without minimum prices for the course, as has been mentioned. I do not believe that that is appropriate for Wales. We should have the ability to explore the courses in all parts of Wales, both rural and urban. Access is very important. I want to ensure that the scheme will not disenfranchise the small and medium-sized companies and charities that are currently running the scheme. I believe that that would be one of the consequences in England and Scotland.

cyflawni trosedd yn cael eu haddysgu am y peryglon ac am oblygiadau yfed a gyrru. Fel y dywedodd Joyce Watson yn hollol iawn, mae gennym ystod eang o ffyrdd yng Nghymru ac mae gennym boblogaeth o tua thair miliwn o bobl. Rhaid inni wneud yn siŵr fod pobl yn deall yn llwyr goblygiadau eu gweithredoedd.

Mae troseddwy'r sy'n mynychu'r cwrs yn fwy na dwywaith yn llai tebygol o aildroseddu na'r rheini sydd wedi dewis peidio â mynychu. Mae hyn yn pwysleisio gwerth y cynlluniau. Ers y llynedd, mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â darparwyr cyrsiau ac ynadon yng Nghymru ynghylch ein cynlluniau i newid y cynllun. Mae fy swyddogion wedi trafod hyn gyda nhw ac wedi nodi'r ymateb i ymarfer ymgynghori'r Asiantaeth Safonau Gyrru ac yn ystyried y newidiadau sy'n briodol ar gyfer Cymru, fel y soniodd Peter Black.

Byddwn yn ymgynghori ar ein cynllun yn fuan iawn, felly croesawaf eich sylwadau a byddaf yn nodi'r ddatl hon fel rhan o'r broses ymgynghori. Yn ddiweddar, bu'r Asiantaeth Safonau Gyrru yn ymgynghori ar y cynllun yn Lloegr a'r Alban, ac rwyf yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod cysylltiad agos rhwng y cynllun yng Nghymru a'r hyn a gyflwynir yng ngweddill y DU. Fodd bynnag, rydym eisoes yn gweithio gyda'r Asiantaeth Safonau Gyrru ar ein trefniadau priodol a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Soniodd Joyce Watson am y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn Lloegr a'r Alban. Maent yn ystyried cyflwyno ardal ddaearyddol fawr iawn, lle gall darparwyr cyrsiau a gymeradwywyd gynnal cyrsiau heb isafswm pris ar gyfer y cwrs, fel y soniwyd. Ni chredaf fod hynny'n briodol i Gymru. Dylai fod gennym y gallu i archwilio'r cyrsiau ym mhob rhan o Gymru, mewn ardaloedd gwledig a threfol, ill dau. Mae mynediad yn bwysig iawn. Rwyf am sicrhau na fydd y cynllun yn gelyniaethu elusennau a chwmnïau bach a chanolig sydd ar hyn o bryd yn rhedeg y cynllun. Credaf y byddai hynny'n un o'r sgil effeithiau yn Lloegr a'r Alban.

As I have said, I want to see the courses being run in rural areas, and not just in urban areas, so that those taking the course are not disadvantaged by the location. Joyce Watson mentioned the issue about the Land's End to Bristol region, which is very true and will have a real impact on delivery there. Someone would have to travel from Land's End to Bristol, which could be prohibitive in terms of taking this course forward.

In addition to maximising the potential uptake, we propose to introduce payment by instalments for the course, so that the cost can be spread over a period of time, thereby relieving some of the financial burden that would be created should a lump-sum payment have to be made. By proposing the retention of existing smaller geographical areas—south-east Wales, south-west Wales, mid and north Wales—minimum pricing and the requirement to provide courses in rural locations to maximise the take-up and hence the effectiveness of the scheme, the result should be a sustainable model, which I will pursue.

I am grateful to Ken Skates for his contribution on the targets. I am not a big fan of targets, but in this case, I believe that we should have something to aim for. A reduction is key in terms of the success of the scheme. I reiterate that the Welsh Government is committed to the drink-drive rehabilitation scheme and will work with course providers, magistrates and the wider road-safety community to address drink-driving.

Improving the way in which courses are delivered is a positive step. We can do something different here that is more suitable for Wales. I am grateful to Sandy Mewies for bringing forward this important debate, which touches the hearts of many in our communities. It is the last debate of this session and a very important one. I thank Members for their contributions and hope that they will contribute to the forthcoming consultation exercise to deliver a course that is fit for purpose for Wales in November.

Fel y dywedais, rwyf am weld y cyrsiau'n cael eu cynnal mewn ardaloedd gwledig, ac nid mewn ardaloedd trefol yn unig, fel na fydd y rhai sy'n dilyn y cwrs o dan anfantais oherwydd y lleoliad. Soniodd Joyce Watson am y rhanbarth rhwng Land's End a Bryste, sy'n ddigon gwir a bydd yn cael effaith wirioneddol ar ddarparu yno. Byddai'n rhaid i rywun deithio o Land's End i Fryste, a gallai hynny fod yn rhwystr o ran symud y cwrs hwn ymlaen.

Yn ogystal â chael cymaint o bobl â phosibl i ddilyn y cwrs, rydym yn cynnig cyflwyno system o dalu mewn rhandaliadau ar gyfer y cwrs, fel y gellir rhannu'r gost dros gyfnod o amser, a, thrwy hynny, lleddfu rhywfaint ar y baich ariannol y byddai'n cael ei greu petai'n rhaid gwneud cyfandaliad. Drwy gynnig cadw at yr ardaloedd daearyddol llai sydd eisoes yn bodoli—de-ddwyrain Cymru, de-orllewin Cymru, canolbarth Cymru a gogledd Cymru—glynu wrth isafswm pris, a mynnu bod cyrsiau'n cael eu darparu mewn lleoliadau gwledig i annog cymaint o bobl â phosibl i ddilyn y cwrs a, thrwy hynny, gwella effeithiolrwydd y cynllun, dylid felly cael model cynaliadwy, a dyma fyddaf yn ceisio'i wneud.

Rwyf yn ddiolchgar i Ken Skates am ei gyfraniad am y targedau. Nid wyf yn gefnogwr mawr o dargedau, ond yn yr achos hwn, credaf y dylem gael rhywbeth i anelu ato. Mae sicrhau gostyngiad yn allweddol o ran llwyddiant y cynllun. Atefaffod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r cynllun adsefydlu yfed a gyrru a bydd yn gweithio gyda darparwyr cyrsiau, ynadon a'r gymuned diogelwch ar y ffordd ehangach i fynd i'r afael ag yfed a gyrru.

Mae gwella'r modd y caiff cyrsiau eu cyflwyno yn gam cadarnhaol. Gallwn wneud rhywbeth gwahanol yma sy'n fwy addas i Gymru. Rwyf yn ddiolchgar i Sandy Mewies am gyflwyno'r ddadl bwysig hon, sy'n cyffwrdd calonnau llawer yn ein cymunedau. Dyma ddadl olaf y sesiwn hon, ac mae'n un bwysig iawn. Diolchaf i'r Aelodau am eu cyfraniadau a gobeithiaf y byddant yn cyfrannu at yr ymarfer ymgynghori sydd ar y gweill i ddarparu cwrs sy'n addas i'r diben ar gyfer Cymru ym mis Tachwedd.

Y Dirprwy Lywydd: Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw. **The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.18 p.m.
The meeting ended at 6.18 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)

Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)